

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cynllun Datblygu Lleol 2 (newydd) – dyddiad terfyn 2031

Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo

[!\[\]\(666e09182d4cd268646ea700ea60dcdf_img.jpg\) Newidiadau i'r Cyflwyniad !\[\]\(1ef1ef0bf9af6c6996401964cf280f2d_img.jpg\)](#)
[!\[\]\(e9a80c8557f9285916925bd4ac40fff5_img.jpg\) Materion Newidiadau sy'n Codi !\[\]\(88e2edecff3400e68a80dd08c57d2f9c_img.jpg\)](#)

[Hydref 2019](#)

**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ARFORDIR
PENFRO**

Cynnwys Tudalen

RHESTR O BOLISI'AU	4
1. RHAGARWEINIAD	6
Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?	6
Polisi Cynllunio Cenedlaethol	6
♣Cynllun Gofodol Cymru♣	7
Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro	8
Casglu Tystiolaeth	8
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015	8
Ymgysylltu	9
Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	9
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	9
Profion Cadernid	10
Safleoedd Ymgeisiol	10
Diagram Allweddol, Map Cynigion a Map Cyfyngiadau	10
2. Ble'r ydym ni nawr – Portread o'r Parc Cenedlaethol	12
Materion allweddol i fynd i'r afael â hwy	13
Dibenion y Parc Cenedlaethol	13
A. Nodweddion arbennig	13
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf	13
C. Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd	13
D. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad	13
E. Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai	13
F. Cyfleusterau cymunedol	14
Gweledigaeth	15
Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2031	15
Amcanion	16
A. Nodweddion Arbennig	16
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf	17
C. Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd	18
D. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad	19
E. Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai	19
F. Cyfleusterau cymunedol	20
4. SUT MAE CYRRAEDD YNO – STRATEGAETH A PHOLISI'AU'R CYNLLUN DATBLYGU LLEOL	21
Trosi'r weledigaeth a'r amcanion yn strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol	21
Blaenoriaeth A – Rhinweddau arbennig	22
Blaenoriaeth B – Datblygiad mawr, y potensial ar gyfer twf	22
Blaenoriaeth C – Newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd	22
Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol	26
♣Strategaeth Ofodol y Cynllun♣	26
Dinbych-y-pysgod -- Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth♣ Leol♣	32
Trefdraeth – Canolfan Leol	34
Saundersfoot -- Canolfan Leol	36
Tyddewi -- Canolfan Leol	37
Crymymch – Canolfan Leol	39
Canolfannau Gwledig	39
Cefn Gwlad	41
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2	
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣	

A. Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol	48
Llygredd Golau	52
Bioamrywiaeth	52
Y Gymraeg	57
Yr Amgylchedd Hanesyddol	60
Tirwedd	61
Mannau Agored a Lletemau Glas	63
Yr arfordir	67
B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf	71
Datblygiadau mawr	71
Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol	71
Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol yng Nghymru	71
Y Weinyddiaeth Amddiffyn	72
Gosodiadau Peryglus	72
Graddfa'r Twf	73
Mwynau	75
Gwastraff	83
C. Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy, Llifogydd	88
Dylunio Cynaliadwy	89
Ynni Adnewyddadwy	94
Llifogydd a Gorlif Arfordirol	99
D. Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth	106
Llety Ymwelwyr, Atyniadau, Hamdden a Gweithgareddau Hamdden	106
Cyflogaeth	115
Arallgyfeirio ar Ffermydd	119
E. Tai Fforddiadwy a'r Ddarpariaeth Dai	122
Dadansoddiad Demograffig	122
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	122
Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	147
♣Datblygiad Un-Blaned♣	148
F. Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth	151
Cyfleusterau a Seilwaith Cymunedol	151
Manwerthu	154
Trafnidiaeth Gynaliadwy	159
Gwasanaethau Cyfleustodau	162
5. MONITRO	165
Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol a'r Strategaeth Ofodol	167
2A Nodweddion Arbennig	169
2B Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf	171
2C Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd	172
2D Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad	174
2E Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai	176
2F Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu a Thrafnidiaeth	181
Canllawiau Cynllunio Atodol	183
6. GEIRFA	184

ATODIAD 1 TIR GYDA CHANIATÂD CYNLLUNIO NEU ORCHYMYN DATBLYGU TIR	192
♣ ATODIAD 2 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL♣	194
♣ATODIAD 3 ARGAELEDD TIR♣	195
♣ATODIAD 4 GOFYNION AR GYFER DYRANIADAU TAI A SAFLEOEDD MAWR AR HAP♣	198

~~♣Diagram Allweddol — gweler dogfen ar wahân♣~~

Map Cynigion – gweler dogfen ar wahân

Rhestr o Bolisiau

Rhif y Polisi	Teitl y Polisi
Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol	
0	Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth – trosfwaol)
Strategaeth Ofodol	
0	Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth ♠Leol♠ Dinbych-y-pysgod (Haen 2)♠1♠) (Polisi Strategaeth)
0	Canolfan Leol Trefdraeth (Haen 3)♠2♠) (Polisi Strategaeth)
0	Canolfan Leol Saundersfoot (Haen 3)♠2♠) (Polisi Strategaeth)
0	Canolfan Leol Tyddewi (Haen 3)♠2♠) (Polisi Strategaeth)
0	Canolfannau Gwledig (Haen 4)♠3♠) (Polisi Strategaeth)
Polisi 7	Cefn Gwlad (Haen 5)♠4♠) (Polisi Strategaeth)
A. Nodweddion Arbennig	
0	Nodweddion Arbennig (Polisi Strategaeth)
0	Llygredd Golau
0	Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd
0	Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol
0	Gwarchodfeydd Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol
0	Diogelu Bioamrywiaeth♠
0	Datblygiad mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg
♠0	Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol♠
0	Gwarchod a Gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
0	Mannau Agored ♠a Lletemau Glas♠
Polisi Newydd	♠Lletemau Glas♠
0	Cyfleusterau ar y Glannau
0	Harbyrau Porthgain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod
B. Datblygiadau Mawr, y Potensial ar gyfer Twf	
0	Gosodiadau Peryglus
0	Graddfa'r Twf (Polisi Strategaeth)
0	Diogelu Mwynau
0	Clustogbarthau
0	Pyllau Benthyc
0	Cerrig Adeiladu Lleol
0	Deunyddiau wedi'u Hailgylchu, Deunyddiau Eilaidd a Deunyddiau Gwastraff
0	Safleoedd Mwynau Segur
0	Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol
0	Compostio
C. Y Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Llifogydd, Ynni Cynaliadwy	
0	Dylunio Cynaliadwy (Polisi Strategaeth)
0	Amwynderau
0	Lleihau Gwastraff
0	Draenio Dŵr Wyneb
0	Ynni Adnewyddadwy♠a Charbon Isel (Polisi Strategaeth)♠
0	Llifogydd a Gorlif Arfordirol (Polisi Strategaeth)

Rhif y Polisi	Teitl y Polisi
0	Datblygiad yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol
0	Adleoli anheddau parhaol presennol yr effeithir arnynt gan newid arfordirol
0	Adleoli a disodli datblygiadau (heblaw preswyl) yr effeithir arnynt an newid arfordirol
D. Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth	
0	Economi Ymwelwyr (Polisi Strategaeth)
0	Colli Gwestai a Thai Llety
0	Datblygiad Hunanarlwyo
0	Datblygu Meysydd Carafannau, Gwersylla a Chabanau
0	Cyfleusterau Safle ar Safleoedd Gwersylla, Cabanau a Charafannau
0	Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gweithio (Polisi Strategaeth)
0	Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth
0	Arallgyfeirio ar Ffermydd
E. Tai Fforddiadwy a Thai	
0	Tai (Polisi Strategaeth)
Error! Ref ere nce sou rce not fou nd.	Dyraniadau Tai ♣neu Dir sydd â Chaniatâd Cynllunio♣
0	Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)
♣Polisi Newydd	Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy♣
♣Polisi Newydd	Cynigion Datblygu Tai♣
0	Dwyseddau a ♣Chymysedd Tai♣
♣Polisi Newydd	Cymysgedd Tai♣
0	Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn
♣0	Datblygiadau Un Blaned♣
F. Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth	
0	Cyfleusterau Cymunedol ♣a'r Gofynion o ran Seilwaith♣ (Polisi Strategaeth)
♣Polisi Newydd	Gofynion Seilwaith (Polisi Strategaeth)♣
0	Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)
0	Canolfannau Siopa Tref a Rhanbarth
0	Canolfannau Garddio
0	Trafnidiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)
0	Effeithiau Traffig
0	Llwybrau Beicio
0	Llinellau Pŵer a Phiblinellau
0	Telathrebu

1. Rhagarweiniad

Beth yw Cynllun Datblygu Lleol?

- 1.1 Mae'r Cynllun yn cynnwys y weledigaeth hirdymor ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r amcanion a pholisïau defnyddio tir sydd eu hangen i wireddu'r weledigaeth honno. Mae'n cynnwys diagram allweddol, polisïau a dyraniadau ar gyfer ardaloedd eang a phenodol (safleoedd i'w datblygu ac i'w cyfyngu). Mae'r Cynllun hefyd yn cynnwys Map Cynigion sy'n dangos pob un o bolisïau a chynigion y Cynllun gydag elfen ofodol.
- 1.2 Mae'r ddogfen hon yn amlinellu:
 - a) Ble'r ydym ni nawr
 - b) Ble'r ydym ni eisiau bod erbyn 2031
 - c) Sut mae cyrraedd yno
- 1.3 Mae manylion pob cam yn y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol i'w gweld yng Nghytundeb Cyflenwi'r Awdurdod.¹
- 1.4 Mae'r fframwaith ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru yn Neddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.
- 1.5 Dylid darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Yn aml iawn bydd mwy nag un polisi sy'n berthnasol i ddatblygiad arfaethedig, a bydd pob polisi yn cael ei ystyried. Er mwyn gwneud y Cynllun yn syml i'w ddilyn ac yn hawdd ei ddeall mae'r polisïau wedi'u mynegi mor uniongyrchol â phosibl. Bydd materion megis tirwedd, amwynder, mynediad a dyluniad yn gysylltiedig â bron pob cais datblygu ac mae polisïau ar wahân wedi'u cynnwys ar bob un o'r agweddau hyn.

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- 1.6 Wrth lunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi ystyried polisïau cynllunio cenedlaethol.² Yn unol â'r canllawiau a gynhwysir yn y polisi cynllunio cenedlaethol, dylai Cynlluniau Datblygu Lleol ystyried polisïau cynllunio cenedlaethol ond heb eu hailadrodd. Felly, dylid ystyried y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 sy'n nodi'r meysydd hynny lle na ddylid ailadrodd datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol yn y Cynlluniau Datblygu Lleol. Dylid nodi felly nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol ond yn darparu'r fframwaith polisi ar gyfer materion o natur leol benodol. Asesir cynigion datblygu nad ydynt yn

¹ Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Cytundeb Cyflenwi Cynllun Datblygu Lleol 2

² Yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Cylchlythyrau a Nodiadau Cyngor Technegol.

ymwneud â materion o natur leol benodol yn unol â gofynion y polisi cynllunio cenedlaethol.

♣Cynllun Gofodol Cymru♣

Para Newydd Mae hyn yn rhannu Cymru yn chwech is-ranbarth gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro wedi'i leoli yn ardal Sir Benfro – Yr Hafan. Gweledigaeth y Cynllun ar gyfer Sir Benfro – ardal yr Hafan yw 'Rhwydwaith o gymunedau cryf a gefnogir gan economi gadarn, gynaliadwy, amrywiol sy'n ychwanegu gwerth uchel wedi'i seilio ar amgylchedd unigryw yr Ardal, mynediad morwrol a chyfleoedd ynni a thwristiaeth o bwysigrwydd rhyngwladol'.

Para Newydd: Mae'r Cynllun Gofodol yn amlinellu nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer Sir Benfro, yr Hafan, gan gynnwys, yn gryno, yr anghenion i:

- oresgyn y ffaith bod yr Ardal yn ymylol drwy wella'r cysylltiadau trafnidiaeth strategol a'r seilwaith economaidd;
- datblygu economi mwy amrywiol, entrepreneuraidd sy'n seiliedig ar wybodaeth; cynyddu gweithgareddau economaidd sy'n ychwanegu gwerth uwch, yn enwedig yn yr economi wledig, drwy ddatblygu sector twristiaeth a hamdden o ansawdd uchel drwy'r flwyddyn;
- datblygu tri hyb strategol yr ardal (Hwlfordd, Aberdaugleddau a Neyland, a Phenfro a Doc Penfro) a'r hyn yr ystyrir sy'n hanfodol i hyn yw adnewyddu canol y trefi, datblygu rolau anheddu ategol o fewn a rhwng hybiau, cryfhau allgymorth cymunedol, economaidd a chymdeithasol, a lledaenu buddiannau a thwf i'r cefnwlod ehangach a'r cymunedau gwledig llai;
- codi lefelau sgiliau drwy weithio yn effeithiol mewn partneriaeth a theilwra dysgu;
- cynnal a chryfhau cymunedau drwy gymryd camau â ffocws i fynd i'r afael ag amddifadedd gwledig a threfol ac anweithgarwch economaidd ac i sicrhau darpariaeth tai sy'n briodol i bawb; ac
- amddiffyn a gwella asedau amgylcheddol pwysig yr Ardal, gan wneud y mwyaf o'u potensial drwy ddatblygu cynaliadwy rhagorol.

Para Newydd: O ran Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, mae'r Cynllun Gofodol yn gweld y dynodiad yn ased allweddol, nid yn unig o ran twristiaeth, ond yn fwy cyffredinol fel elfen allweddol yn ei atyniad fel lle y bydd pobl yn dewis byw a gweithio yno. Ond mae'n cydnabod bod angen mynd i'r afael ag effeithiau twristiaeth a materion Allweddol megis ateb y galw am dai fforddiadwy, yr angen i amddiffyn asedau amgylcheddol rhag difrod, a'r galw a roddir ar wasanaethau lleol gan niferoedd y twristiaid yn anterth y tymor gwyliau.♣

Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro³

- 1.7 Mae elfen cynllunio'r defnydd o dir yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cael ei roi ar waith drwy'r Cynllun Datblygu Lleol statudol ar gyfer pob Parc Cenedlaethol. Mae Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol o bwysigrwydd cenedlaethol. Felly mae amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn cymryd blaenoriaeth dros bolisi rhanbarthol a lleol mewn perthynas â Pharciau Cenedlaethol. Mae'r Canllawiau yn ychwanegu fel a ganlyn: "Yn wir, dylid adlewyrchu gorchmynion pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol".⁴

Casglu Tystiolaeth⁵

- 1.8 Adolygwyd y cyd-destun polisi ehangach, er enghraifft polisi cenedlaethol. Ystyriwyd hefyd waith rhanbarthol i'r graddau y mae wedi'i ddatblygu. Mae ymchwil sylfaenol hefyd wedi'i hadolygu a'i diweddarau, er enghraifft, hyfywedd tai fforddiadwy, yr astudiaeth fanwerthu wreiddiol a'r arolwg gwreiddiol o drefi a phentrefi o ran y cyfleusterau sydd ar gael. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd wedi cyfrannu'n sylweddol at y wybodaeth sylfaenol.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

- 1.9 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud ag ymgorffori'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy yn yr holl waith a wneir gan gyrff cyhoeddus, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus nodi sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r saith nod llesiant a gynhwysir yn y Ddeddf. Fel fframwaith datblygu cynaliadwy troswaol ar gyfer Cymru mae'n hanfodol bod arfarniad o gynaliadwyedd Cynllun Datblygu Lleol newydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn rhoi ystyriaeth lawn i'r Ddeddf a'i nodau. Mae Llawlyfr 2 y Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn nodi y dylai Cynllun Datblygu Lleol cadarn roi sylw i nodau llesiant y Ddeddf. Gwneir hyn drwy Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- 1.10 Mae'r Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd wedi archwilio pa mor gydnaws yw Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd â'r saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Mae'r amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn gydnaws i raddau helaeth â'r nodau'r llesiant, gydag o leiaf saith o amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cyfrannu at y rhan fwyaf o'r nodau. Yr eithriad yw "Cymru sy'n fwy cyfartal", sydd ond yn bodloni meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i raddau bach iawn. Bydd Asesiad Effaith Cydraddoldeb y Cynllun yn

³ Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol 2015 i 2019

⁴ Canllawiau Cynlluniau Rheoli'r Parciau Cenedlaethol, 2007 Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, paragraff 4.45, tudalen 26

⁵ Gweler [6. Geirfa](#)

sicrhau bod y nod llesiant hwn yn cael ei ystyried yn fwy effeithiol yn ystod yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (gweler isod).

- 1.11 Mae'r Papur Cefndir Gweledigaeth ac Amcanion yn cynnwys arfarniad o weledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol ar sail y nodau llesiant. At ei gilydd, maent yn dangos cydnawsedd cadarnhaol ar draws yr holl nodau. Mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi'n arbennig 'Cymru lewyrchus', 'Cymru gydnherth', 'Cymru o gymunedau cydlynus' a 'Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.
- 1.12 Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi'i brofi yn y Papur Cefndir Gweledigaeth ac Amcanion i sicrhau bod y Cynllun yn cyd-fynd â Chynllun Llesiant Sir Benfro.

Ymgysylltu

- 1.13 Mae Cynllun Datblygu Lleol 2 wedi bod ar y gweill ers mis Mehefin 2016 pan gwblhawyd Adroddiad Adolygu, Cytundeb Cyflawni ac Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd yr Awdurdod. Ymgysylltwyd ag Aelodau'r Awdurdod a rhanddeiliaid allweddol allanol gan gynnwys Cynghorau Tref a Chymuned. Mae Cytundeb Cyflawni'r Awdurdod yn nodi'r dull a gymerwyd o ran ymgysylltu. Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i helpu i ddatblygu'r strategaeth. Cafwyd cyfarfod hefyd â chynrychiolwyr yr awdurdodau cynllunio cymdogol neu fe gysylltwyd â hwy i drafod y Strategaeth a oedd ar y gweill.

Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

- 1.14 Defnyddiwyd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i helpu i ddewis yr opsiwn polisi mwyaf cynaliadwy o'r dewisiadau amgen a archwiliwyd. Roedd hyn yn cynnwys asesu perfformiad tebygol opsiynau polisi ar sail fframwaith o amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd. Penderfynwyd ar yr amcanion cynaliadwyedd hyn trwy nodi materion cynaliadwyedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol fel y nodir gan bolisi a chanllawiau cenedlaethol, gwybodaeth ac ystadegau cyfredol, a barn asiantaethau llywodraeth ac anllwyodraethol sy'n gweithio yn y Parc Cenedlaethol. Roedd datblygu'r amcanion hyn yn destun ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o gam cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 1.15 Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.⁶ Lluniwyd Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd cysgodol.
- 1.16 Sylwer, mewn rhai achosion, nad yr opsiwn polisi mwyaf cynaliadwy yw'r opsiwn a ffeirir. Digwyddodd hyn lle'r oedd y profion cadernid yn dangos bod angen opsiwn polisi llai cynaliadwy i fodloni'r profion cadernid.⁷

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

- 1.17 Yn ystod y camau cyntaf o lunio polisïau, gweithdrefnau, arferion neu ganllawiau, mae angen i'r Awdurdod ystyried pa effaith y bydd ei

⁶ Gweler [6. Geirfa](#)

⁷ Gweler y Papur Cefndir 'Opsïynau ac Arfarniadau Amgen'
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

benderfyniadau yn ei chael ar bobl sydd wedi'u gwarchod o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig oedran, anabledd, rhywedd (rhyw), ailbennu rhywedd, priodas / partneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, tueddfryd rhywiol). Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ar y Cynllun Datblygu Lleol a thrwy baratoi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Profion Cadernid

- 1.18 Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Arolygydd (adran 64 o Ddeddf 2004) benderfynu bod y Cynllun Datblygu Lleol yn 'gadarn'. Mae profion a gwiriadau cadernid yn cael eu nodi ym ~~Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 (t.2)~~ a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol, Argraffiad 2, Awst 2015 (t.8). Yn y Papur Cefndir Opsiynau Amgen ac Arfarniadau ceir sylwebaeth ar y profion cadernid (a'r crynodeb o'r arfarniad o gynaliadwyedd) ar gyfer pob polisi o'r Cynllun.

Safleoedd Ymgeisiol

- 1.19 Yn allanol, cyflwynodd datblygwyr ac asiantau a sefydliadau safleoedd i'w hystyried. Aseswyd y rhain i weld pa mor addas yr oeddynt i'w datblygu gan ddefnyddio Papur Cefndir Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol. Cafodd y rhai yr ystyriwyd eu bod yn cyd-fynd â'r Strategaeth a Ffefrir a'r rhai nad oedd yn cyd-fynd â hi eu rhestru yn y Gofrestr. Roedd ymgynghoriad y Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghoriad y Cynllun Adnau yn gyfle ychwanegol i ystyried safleoedd.

Diagram Allweddol, Map Cynigion a Map Cyfyngiadau

- 1.20 Mae'r Diagram Allweddol wedi'i gynnwys i ddangos strategaeth ofodol y Cynllun.
- 1.21 Mae'r Map Cynigion ar sail Arolwg Ordians; mae'n dangos pob un o bolisiâu a chynigion y Cynllun gydag elfen ofodol; mae'n dangos safleoedd a ddyrannwyd, ffiniau canolfannau ac ardaloedd diogelu, ac ati; mae'n diffinio ardaloedd lle bydd polisiâu rheoli datblygu penodedig yn cael eu defnyddio. Lle mae parthau gofodol yn cael eu pennu gan fecanweithiau eraill nid ydynt wedi'u dangos ar y Map Cynigion – defnyddir Map Cyfyngiadau i ddangos y parthau hynny.
- 1.22 Mae'r Map Cyfyngiadau yn dangos, er enghraifft, barthau gofodol a bennir gan fecanweithiau heblaw'r Cynllun Datblygu Lleol (ee gan Fapiau Cyngor Datblygu TAN15); ystyrir bod hyn yn fuddiol gan y gellir diwygio'r map yn rhwydd i gymryd i ystyriaeth newidiadau nad ydynt yn cael eu pennu gan y Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Map Cyfyngiadau, yn wahanol i'r Map Cynigion, yn ofyniad statudol ac nid yw'n rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol.⁸
- 1.23 Y dynodiadau a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau yw:

- a) Henebion Cofrestredig

⁸ Gweler Adroddiad Adolygu Mehefin 2016 paragraff 100
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

- b) Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol
- c) Parciau a Gerddi Hanesyddol
- d) Ardaloedd Cadwraeth
- e) Ardaloedd Cadwraeth Arbennig
- f) Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig
- g) Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- h) Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- i) ~~Gwarchodfeydd Natur Lleol~~
- j) Parthau Cadwraeth Morol
- k) Ardaloedd Risg Uchel Glo
- l) Nodyn Cyngor Technegol 15 Perygl o Llifogydd
- m) Parthau Peryglon

1.24 Y dynodiadau a ddangosir ar y Map Cynigion yw:

Cyfeirnod	Pwnc
Paragraff 4.99	Awdurdod Cynllunio Cyfagos
► Polisi 48	Cyfeiriad Twf yn y Dyfodol ◀
Atodiad 1	Tir gyda chaniatâd cynllunio fel ym mis Ebrill 2017 (cymhwyswyd trothwy)
Paragraff0	Ffiniau Canolfannau
Polisi 12	<u>Gwarchodfa Natur Lleol</u>
0	Ardal Sensitif o ran y Gymraeg
0	Mannau Agored Lletemau Glas
0	Ardaloedd Harbwr
0	Parthau Diogelu Mwynau
0	Clustogbarthau Mwynau
0	Safleoedd Mwynau Segur
000	Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol
Error! Reference source not found.	Dyraniadau Tai
Polisi 54 a 0	Canolfannau Manwerthu
0	Prif Ffryntiad

2. Ble'r ydym ni nawr – Portread o'r Parc Cenedlaethol

- 2.1 Cynhaliwyd adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf. Mae hwnnw wedi'i ddiweddarau o ran:
- a) nodi nodweddion allweddol y Parc
 - b) nodi'r negeseuon allweddol mewn Deddfau, Cynlluniau a Strategaethau perthnasol ar gyfer y Parc Cenedlaethol
 - c) dangos beth sy'n mynd yn dda ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol y Parc Cenedlaethol a fabwysiadwyd yn 2010 a pha faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy⁹
 - d) dangos beth sy'n bwysig i'r Awdurdod yn ogystal â'r hyn y mae amrywiol randdeiliaid o'r farn ei fod yn arwyddocaol
 - e) esbonio rôl y Parc yn y cyd-destun rhanbarthol a chenedlaethol ehangach.
- 2.2 Gellir gweld y gwaith paratoi ar wefan yr Awdurdod.
- 2.3 Yr hyn a ddaeth i'r amlwg drwy gyfrwng y dadansoddiad uchod yw chwe mater o flaenoriaeth allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy yn y Cynllun Datblygu Lleol hwn. Rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn o fewn cyd-destun cyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol sef:
- a) 'gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol Parciau Cenedlaethol.'^{10 11}
 - b) 'hybu cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddion arbennig [y Parciau].'¹²
- 2.4 Ategir y rhain gan Egwyddor Sandford, sy'n rhoi blaenoriaeth i'r diben cyntaf dros yr ail, mewn achosion o wrthdaro nad oes modd ei gymodi.¹³ I adlewyrchu'r ffaith fod Parciau Cenedlaethol yn dirweddau byw a bod pobl yn byw ynddynt, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod hefyd i weithredu dibenion y Parc i: 'feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau lleol, o fewn y Parc Cenedlaethol....' Dylid cyflawni'r ddyletswydd hon wrth fynd ar drywydd dibenion Parc Cenedlaethol.¹⁴

⁹ Gweler Adroddiad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2016

¹⁰ Gweler 6. Geirfa

¹¹ Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

¹² Adran 61 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

¹³ Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

¹⁴ Adran 62 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995

Materion allweddol i fynd i'r afael â hwy

Dibenion y Parc Cenedlaethol

- Sicrhau bod polisi cynllunio'r llywodraeth sy'n unigryw i Barciau Cenedlaethol yn cael ei gymhwyso'n briodol.

A. Nodweddion arbennig

- Sut y gellir diogelu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? A ellir achub ar y cyfle i wella'r nodweddion arbennig hyn drwy gyfrwng datblygiadau newydd?

B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf

- Wrth geisio diwallu anghenion cymunedau lleol, sut i wneud dewisiadau rhesymegol neu benderfynu ar flaenoriaethau lle mae'r angen am dir i'w ddatblygu yn fwy na'r cyflenwad o dir addas sydd ar gael. Nid yw'r Parc yn gallu bodloni'r holl ofynion.¹⁵
- O gofio siâp a natur y Parc Cenedlaethol mae'n bwysig cydnabod ei fod yn ddibynol iawn ar strategaethau Sir Benfro ac ardal ehangach Gorllewin Cymru, yn enwedig strategaethau gofodol.

C. Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd

- Mae angen gwneud mwy i fynd i'r afael â ffactorau sy'n cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd, ac i reoli ac addasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

D. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

- Sut i ddod o hyd i ddull o ddatblygu yng nghefn gwlad sy'n helpu i gynnal ac arallgyfeirio cymunedau gwledig ond sydd eto yn gwarchod rhag datblygiadau anghynaliadwy yng nghefn gwlad.
- Sut y gall y Parc Cenedlaethol fynd i'r afael â natur dymhorol yr economi ymwelwyr yn nhermau cynllunio'r defnydd o dir?
- Mae'r economi ymwelwyr yn tra-arglwyddiaethu mewn rhai mannau yn y Parc ac mae angen rheoli hyn yn flaenweithgar.
- Sut i gynnal a gwella'r economi ymwelwyr.

E. Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai¹⁶

- Sut i fynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy yn y Parc.¹⁷

¹⁵ Mae gallu tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymdopi â datblygiadau dros gyfnod y Cynllun hwn yn cael ei brofi gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn y Papur Cefndir Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol

¹⁶ Gweler [6. Geirfa](#)

F. Cyfleusterau cymunedol

- Sut i barhau i ddiogelu a gwella ein hamrywiaeth o gyfleusterau cymunedol yn y Parc Cenedlaethol sydd yn gyfleusterau gwerthfawr iawn y mae mawr eu hangen. Mae llawer ohonynt mewn mannau sy'n bell o ganolfannau mwy o faint.
- Sut i sicrhau bod canolfannau siopa trefol, rhanbarthol a llai'r Parc sy'n gwasanaethu angen lleol ac anghenion ymwelwyr yn parhau i fod yn ddeniadol, yn amrywiol ac yn hyfyw.
- Sut i wella hygyrcheddy Parc Cenedlaethol ac o'i fewn gan gydnabod yr angen i leihau effaith cerbydau a theithio ar yr amgylchedd.¹⁸

¹⁷ Gweler [6. Geirfa](#)

¹⁸ Gweler [6. Geirfa](#)

3. Ble'r ydym ni eisiau bod – Gweledigaeth ac Amcanion

Gweledigaeth

3.1 Mae'r weledigaeth isod ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn disgrifio'r elfennau defnydd tir yng ngweledigaeth y Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.¹⁹

- Mae iddo orwel o 15 mlynedd
- Mae'n benodol i'r Parc Cenedlaethol hwn
- Mae'n cymryd i ystyriaeth agenda a pholisi Llywodraeth Cymru a strategaethau a chynlluniau awdurdodau rhanbarthol, partner a chymdogol
- Mae'n adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol a rhyngwladol
- Mae'n cynnwys hanfod yr hyn y mae pobl wedi ei ddweud wrthym mewn arolygon²⁰

Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2031

3.2 Mae'r datblygiadau yn parhau i barchu a lle bo modd yn gwella'r nodweddion arbennig. Mae hyn yn golygu na fydd poblogaeth y Parc yn gallu cynyddu'n sylweddol. Mae'r cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer datblygu yn cael eu darparu lle bynnag y bo modd ar gyfer datblygiad sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol lle mae hynny'n gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol.

3.3 Mae Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot, Tyddewi a llawer o gymunedau mwy gwledig y Parc Cenedlaethol wedi cynnwys twf ychwanegol mewn tai er mwyn hwyluso darparu tai fforddiadwy ar gyfer cymunedau'r Parc Cenedlaethol. Mae datblygu cyflogaeth wedi'i ganolbwyntio ar ganolfannau'r Cynllun. Mae cefn gwlad y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer nifer o ddiddordebau a gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys cynlluniau arallgyfeirio ar ffermydd ac addasu adeiladau at wahanol ddefnyddiau ynghyd â rhyw gymaint o gyfleoedd i godi tai.

3.4 Cyfeiriwyd datblygiadau newydd yn bennaf at gymunedau sydd â digon o wasanaethau ac amwynderau gan eu cysylltu â rhwydwaith o drafnidiaeth gyhoeddus gyfleus, effaith isel a fforddiadwy. Mae rhwydweithiau beicio,

¹⁹ Mae Cynlluniau Rheoli'r Parc Cenedlaethol o bwysigrwydd cenedlaethol. Felly mae amcanion a pholisïau Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn arwain at bolisi rhanbarthol a lleol fel y'i cyflwynir yn y Parciau Cenedlaethol. Yn wir, dylid adlewyrchu hanfod dibenion y Parc Cenedlaethol yn y Cynlluniau eraill hyn, gan gynnwys y Cynllun Datblygu Lleol – paragraff 4.45, tudalen 26, Canllawiau Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol 2007, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru, 2007

²⁰ Gweler y Papur Cefndir 'Gweledigaeth ac Amcanion' a'r Papur Cefndir Ymgynghori Cymunedol

llwybrau troed a hawliau tramwy cyhoeddus sydd wedi'u gwella'n sylweddol yn darparu dull cludiant glân a hygyrch i'n cymunedau yn ogystal ag yn cefnogi cynnydd mewn gweithgareddau hamdden.

- 3.5 Yn gyffredin â gweddill y Deyrnas Unedig, mae'r Parc wedi bod yn addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Mae datblygiadau yn fwy cynaliadwy o ran dylunio. Mae, mewn datblygiad newydd, arddull brodorol gynhenid ond cynnil sy'n cyfuno'r gorau o'r hen gyda'r gorau o'r newydd. Mae cynlluniau cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn fwy poblogaidd. Mae datblygiadau wedi'u cyfeirio i ffwrdd o ardaloedd sydd yn debygol o orlifo neu ddioddef gan lifogydd.
- 3.6 Mae'r Parc yn elwa o fod yn gyrchfan ymwelwyr sy'n gymdeithasol gynhwysol trwy gydol y flwyddyn gan ganolbwyntio ar ei gryfderau: gweithgareddau hamdden morol ac arfordirol effaith isel, mynediad i gefn gwlad sy'n llawn bywyd gwyllt, a heddwch a thawelwch.

Amcanion

- 3.7 Mae'r amcanion isod yn nodi sut y cyflawnir y weledigaeth i fynd i'r afael â'r materion blaenoriaeth a nodwyd ym Mhennod 2. Maent yn deillio o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ac wedi'u mireinio i ymwneud â materion cynllunio'r defnydd o dir ac i nodi beth fydd y deilliannau allweddol a ragwelir gan yr Awdurdod yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol. Mae strategaeth a pholisïau'r Cynllun ac adran Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn darparu mwy o wybodaeth am yr hyn a ddisgwylir.
- 3.8 Mae'r amcanion hyn wedi'u gosod o fewn cyd-destun o gyflawni dibenion y Parc Cenedlaethol (gweler paragraffau 0a0).

A. Nodweddion Arbennig

Amgylchedd Hanesyddol²¹

- Gwarchod, gwella a hybu amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol, ei adnoddau archaeolegol, ei adeiladau hanesyddol a'i dirweddau, parciau a gerddi (0a0).

Bioamrywiaeth a Geoamrywiaeth

- Gwarchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau priodol o fewn y Parc Cenedlaethol a lle bo'n briodol diogelu a hyrwyddo'r adnoddau daearegol (0,0,0,0a0).

Tirwedd a Morwedd

- Gwarchod a gwella cymeriad tirwedd a morlun arbennig y Parc Cenedlaethol (0a0).

Y Gymraeg a Diwylliant Cymru

²¹ Gweler 6. Geirfa

- Gwarchod a gwella cyfoeth diwylliannol y Parc Cenedlaethol (0a0).

Deilliannau allweddol

- (1) Mae nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol wedi'u gwarchod a'u gwella.

B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf

Graddfa a Lleoliad y Twf

- Hyrwyddo strategaeth ofodol sy'n lleihau'r angen i deithio (0,00000). Wrth ryddhau'r cyflenwad tir prin neu ystyried ailddefnyddio adeiladau yn y Parc Cenedlaethol, rhoi blaenoriaeth i'w defnyddio neu eu hailddefnyddio ar gyfer datblygiadau sy'n cyfrannu fwyaf at gynnal cymunedau lleol (0,0,0,00).

Mwynau

- Ni chaniateir unrhyw waith mwynau newydd neu ehangu gweithfeydd mwynau sy'n bodoli eisoes yn y Parc Cenedlaethol heblaw mewn amgylchiadau eithriadol (0– 0)²².

Gwastraff

- Darparu cyfleusterau gwastraff lleol ar gyfer gwastraff y Parc Cenedlaethol neu sicrhau cyfleusterau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r gwastraff hwn (00).

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

- Ni chaniateir dwysáu defnydd neu ehangu safleoedd y Weinyddiaeth Amddiffyn heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.²³

Deilliannau allweddol

- (2) Mae datblygiad yn digwydd yn unol â strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.
- (3) Mae'r datblygiad a ganiateir yn helpu i gynnal cymunedau lleol.
- (4) Dim datblygiad mawr newydd yn y Parc Cenedlaethol oni bai bod amgylchiadau eithriadol.²⁴

²² Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.14.35

²³ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, 10, Llywodraeth Cymru, Tachwedd 2016 Rhagfyr 2018 paragraffau 5.5.5 a 5.5.6.3.10

²⁴ Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.5.6.3.10 a 5.14.3.2;35; Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau 2004, paragraff 52; Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) Cymru 2: Glo, paragraffau 74 i 79, tudalen 159

- (5) Darparu cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf.²⁵

C. Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd

Llygredd, Tir Ansefydlog a Halogiad

- Er mwyn lleihau'r posibilrwydd o greu ffynonellau newydd o lygredd a halogiad ac i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansefydlogrwydd tir o fewn y Parc Cenedlaethol. (00)²⁶

Ynni Adnewyddadwy

- Gwella cadwraeth ac effeithlonrwydd ynni a chyfrannu at dargedau cenedlaethol ar gyfer ynni adnewyddadwy. (0)

Ansawdd Pridd, Aer a Dŵr

- Diogelu a gwella ansawdd pridd, aer a dŵr yn y Parc Cenedlaethol. (0)^{27 28}

Dylunio Cynaliadwy

- Mae dyluniad yr holl ddatblygiadau yn y Parc Cenedlaethol yn adlewyrchu ei nodweddion arbennig o ran tirwedd a threfwedd a'i elfennau unigryw lleol, yn bodloni'r safonau uchaf ar gyfer defnyddio adnoddau, gan gynnwys lleihau gwastraff, ac yn ystyried effaith hinsawdd sy'n newid (0,0,0,0, 0).

Rheoli Arfordirol

- Osgoi datblygu darnau o'r sydd heb eu datblygu sydd mewn perygl o lifogydd a/neu erydiad a chaniatáu unrhyw addasiad angenrheidiol trwy gymryd i ystyriaeth effeithiau hysbys ac effeithiau a ragwelir o ran y newid yn yr hinsawdd ar yr arfordir (0,0,0,0,0,0,00).

Llifogydd

- Sicrhau nad yw datblygiadau bregus yn digwydd mewn mannau lle gallent fod mewn perygl o lifogydd neu lle y byddent yn cynyddu'r risg o lifogydd mewn man arall. (0).

²⁵ Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff – Mae'r Mapiau Ardaloedd Chwilio ar gyfer cyfleusterau gwastraff is-ranbarthol yn eithrio Parciau Cenedlaethol

²⁶ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, Llywodraeth Cymru, Pennod 6

²⁷ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, Llywodraeth Cymru, Penod 6

²⁸ Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC)

Deilliannau allweddol

- (6) Datblygiad sy'n cyrraedd safonau uchel o ran dylunio cynaliadwy gyda'r holl anheddau newydd yn bodloni'r safonau a nodir yn y polisi cynllunio cenedlaethol.
- (7) Y Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at gynhyrchu ynni adnewyddadwy.²⁹
- (8) Dim datblygiad bregus iawnmewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yn awr ac yn y tymor hir a heb achosi unrhyw effeithiau negyddol mewn mannau eraill.³⁰

D. Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Cyflogaeth

- Helpu i greu a chynnal economi leol amrywiol, hyfyw a chynaliadwy sydd io fudd i bob rhan o'r gymuned. (0,00)

Mwynhad

- Denu nifer gynaliadwy o bobl ar bob adeg o'r flwyddyn i fwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. (0)

Deilliannau allweddol

- (9) Mae'r Parc Cenedlaethol yn cyfrannu at ddarparu cyflogaeth newydd a diogelir safleoedd presennol.
- (10) Mae amrywiaeth o lety gwyliau ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol ymwelwyr.
- (11) Nid yw gweithgareddau hamdden ac ymwelwyr yn niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

E. Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai

Tai

- Darparu ar gyfer tai i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy heb beryglu dibenion y Parc Cenedlaethol (0, **Error! Reference source not found.** a Polisi 50 a pholisi newydd Cymysgedd Tai).

Deilliannau allweddol

- (12) Mae amcangyfrif o 960 o anheddau newydd yn cael eu darparu, ac mae oddeutu ~~250~~ 362 o'r rheini yn fforddiadwy.
- (13) Cyflawnir dwysedd uwch o ran datblygu – o leiaf 30 annedd i'r hectar.

²⁹ Gweler Pennod '5. Monitro'. Cymerir cyfraniadau tebygol o'r Papur Cefndir Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Ionawr 2016)

³⁰ Diffinnir 'Datblygiadau Bregus' yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu a Pherygl Llifogydd ar lifogydd, gweler Ffigur 2 tudalen 7 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2 Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

F. Cyfleusterau cymunedol

Cyfleusterau Cymunedol

- Rhoi anogaeth i gadw a darparu rhwydwaith o gyfleusterau cymunedol sy'n adlewyrchu anghenion trigolion y Parc Cenedlaethol ac ymwelwyr (0).

Manwerthu

- Cynnal sector manwerthu hanfodol a hyfyw ar raddfa briodol ac mewn lleoliadau priodol ledled y Parc Cenedlaethol (00).

Trafnidiaeth

- Gwella a hyrwyddo hygyrchedd trwy ddulliau priodol ac ar adegau priodol i'r bobl sy'n byw, gweithio, gorffwys a chwarae yn y Parc Cenedlaethol a lleihau'r angen i deithio mewn ceir preifat (0,0,0,0,0,0,0,00).³¹

Cyfleustodau

- Sicrhau darpariaeth ddigonol o gyfleustodau ar gyfer cymunedau lleol a bod y ddarpariaeth hon yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol ac yn diogelu ei hadnoddau.³² (0,0,0)

Deilliannau allweddol

- (14) Mae'r cyfleusterau cymunedol presennol yn cael eu diogelu a'r ddarpariaeth yn cael ei gwella.
- (15) Mae canolfannau manwerthu y Parc Cenedlaethol yn fywiog ac yn amrywiol.
- (16) Mae cynigion a allai fod wedi achosi pryderon sylweddol mewn perthynas â thraffig wedi cael eu gwrthod yn llwyddiannus trwy drafodaethau cyn ymgeisio.

Mae papur cefndir, 'Gweledigaeth ac Amcanion', yn nodi sut y mae'r amcanion uchod yn ymwneud â'r weledigaeth.

³¹ Gweler [6. Geirfa](#)

³² Gweler [6. Geirfa](#)

4. Sut mae cyrraedd yno – strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

Trosi'r weledigaeth a'r amcanion yn strategaeth a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol

- 4.1 Yn y bennod flaenorol roedd gweledigaeth ynghylch 'ble'r ydym ni eisiau bod' ac awgrymwyd rhai o'r deilliannau allweddol y byddwn yn cecisio'u cyflawni yng nghyfnod y Cynllun Datblygu Lleol – erbyn 2031. Diben y bennod hon yw mynd i'r afael â sut mae cyrraedd yno' trwy nodi'r strategaeth ofodol a'r polisïau sydd eu hangen i wireddu gweledigaeth ac amcanion y Cynllun Datblygu Lleol.



- 4.2 ~~Mae'r portread ym mhennod 2 yn disgrifio'r math o le yw Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro heddiw. Mae ganddo lawer o gryfderau: ei atyniadau, cyfraniad ei amgylchedd i'r economi leol a chenedlaethol; ei ddiwylliant amrywiol cyfoethog; ei fioamrywiaeth a'i geoamrywiaeth a'i ansawdd bywyd. Mae'n lle pleserus i ymweld ag ef ac i gadw'n iach.~~
- 4.3 ~~Law yn llaw â'r cryfderau hyn mae rhai gwendidau; mae tai yn ddrud ac yn anodd eu fforddio, mae'r cyfleoedd i adeiladu tai ac i ddatblygu'n fwy cyffredinol yn gyfyngedig. Mae cystadleuaeth am dai gan brynwyr tai gwyliau ac ail gartrefi. Mae materion allgáu cymdeithasol yn deillio o hynny. Mae rhai ardaloedd poblogaidd yn orlawn yn ystod y tymor gwyliau ond yn methu â chyfiawnhau gwasanaeth bws lleol yn ystod misoedd y gaeaf.~~
- 4.4 ~~Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, oherwydd ei ddynodiad fel ardal o gymeriad arbennig o ran tirwedd, yn gosod cyfyngiadau eithaf llym ar ddatblygiadau a fyddai'n niweidio ei nodweddion arbennig. Yn ogystal, o ystyried ei fod yn ardal wledig yn bennaf, nid yw graddfa ofodol ardaloedd unigol o newid unigol yn arwyddocaol.~~
- 4.5 ~~Mae'r Canllawiau³³ yn cynghori y gallai dull 'strategaeth wledig' gyffredinol fod yn fwy priodol nag archwilio strategaethau gofodol amgen a safleoedd amgen o fewn ardaloedd o newid. Byddai dull o'r fath yn ystyried opsiynau ac egwyddorion polisi eang mewn perthynas â materion megis tai fforddiadwy, dyraniadau ar raddfa pentrefi, rôl a datblygiad trefi marchnad, arallgyfeirio, hierarchaeth a rolau o ran darparu gwasanaethau ac ati.~~
- 4.6 ~~Dyma'r dull a fabwysiadwyd yma. Fodd bynnag, o ystyried siâp y Parc Cenedlaethol, mae angen i'r lefel o dwf a'i ddisbarthiad gofodol gymryd i ystyried ei safle o'i gymharu â'r awdurdodau cyfagos. Yn hyn o beth, ystyriwyd hefyd y gwaith paratoi ar gyfer diweddaru Cynllun Gofodol Cymru 2008 o ran archwilio opsiynau gofodol (gweler paragraff 0 ymlaen).~~

³³ Llawlyfr CDLI, Llywodraeth Cymru, paragraff 6.2.3.4 Awst 2015, tudalen 64

4.7— Mae'r strategaeth a'r polisïau isod yn mynd i'r afael â'r chwe mater blaenoriaeth a nodwyd ym Mhennod 2 'Ble'r ydym ni nawr?' ac mae'n nodi ymateb polisi i gyflawni'r agweddau defnydd tir o'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer yr ardal fel y nodir ym Mhennod 3. Lle mae angen camau allweddol y tu allan i'r Cynllun Datblygu Lleol i helpu i gyflawni'r polisïau hyn, mae'r rhain hefyd wedi'u nodi.

4.7 Mae strategaeth gyffredinol y Cynllun yn ceisio mynd i'r afael â'r chwech mater blaenoriaeth a glustnodwyd ym Mhennod 2 ac yn nodi fframwaith polisi i gyflawni'r agweddau defnydd tir o'r weledigaeth a'r amcanion ar gyfer yr ardal a nodir ym Mhennod 3. Isod amlinellir rhestr o'r chwech maes blaenoriaeth a'r ymatebion strategaeth a pholisi sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r materion hyn.

Meysydd Blaenoriaeth ac Ymateb Strategaeth a Pholisi	
Blaenoriaeth A – Rhinweddau arbennig	
<u>Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:</u> <u>yn sicrhau bod rhinweddau arbennig y Cynllun yn cael eu gwarchod a'u gwella. (Ysblander arfordirol; Cyfoeth y cynefinoedd a bioamrywiaeth; Daeareg amrywiol; yr Ynysoedd; Amrywiaeth y dirwedd; Hygyrchedd; Cymeriad unigryw yr aneddiadau; Gofod i anadlu'r amgylchedd hanesyddol gyfoethog; Ardaloedd anghysbell, tawel a gwyllt; Treftadaeth ddiwylliannol; Amrywiaeth profiadau a chyfuniad o rinweddau unigol)</u> ▪ <u>yn rhoi fframwaith ar gyfer amddiffyn y priodweddau a'r nodweddion hynny o'r Parc Cenedlaethol sydd, yn unigol neu mewn cyfuniad, yn cyfrannu at wneud y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw.</u>	
Blaenoriaeth B – Datblygiad mawr, y potensial ar gyfer twf	
<u>Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:</u> ▪ <u>ond yn caniatáu datblygiad mawr, fel y'i diffinnir yn y polisi cynllunio cenedlaethol, gan gynnwys datblygu mwynau mewn amgylchiadau eithriadol.</u> ▪ <u>yn caniatáu cyfleusterau gwastraff lle maent, yn bennaf, yn gwasanaethau ardal y Parc Cenedlaethol.</u> ▪ <u>yn rhoi sylw i feysydd polisi eraill megis tai a chyflogaeth, mewn man arall yn y tabl hwn.</u>	
Blaenoriaeth C – Newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd	
<u>Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:</u> ▪ <u>yn sicrhau y bydd datblygiad newydd yn fwy cynaliadwy ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol.</u> ▪ <u>yn cefnogi darparu prosiectau ynni adnewyddadwy unigol a chymunedol.</u> ▪ <u>wrth gynllunio ar gyfer y newidiadau yn yr hinsawdd yn y dyfodol, yn sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad newydd yn digwydd mewn lleoliadau lle mae strategaeth hirdymor i ganiatáu i'r môr neu afon orlifo.</u> ▪ <u>yn cydnabod yr angen i addasu i newid yn yr hinsawdd ac i ddelio â chanlyniadau newid yn yr hinsawdd mewn modd mwy blaengar, nid am gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn unig. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r Parc Cenedlaethol arfordirol hwn sydd dan fygythiad uniongyrchol o godiad yn lefel y môr a newid yn yr hinsawdd.</u> ▪ <u>yn cydnabod hyd oes adeiladau y tu hwnt i sawl cenhedlaeth o bobl, ac yn ceisio lleihau'r risg gyffredinol i unigolion, cymunedau, busnesau ac i'r amgylchedd.</u> ▪ <u>yn hyrwyddo datblygiad mewn lleoliadau sy'n cefnogi trafnidiaeth gynaliadwy.</u>	

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2

Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♣

Priority D: Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio gwledig

Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:

- yn ceisio denu'r nifer uchaf posibl o bobl, tarddleoedd, mathau, hyd arhosiad a gwariant ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn a sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn atyniad i ymwelwyr fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw drwy'r defnydd a wneir o dir a pheidio ag ychwanegu'n sylweddol at y ddarpariaeth gyffredinol o lety i ymwelwyr, gan y gallai hyn annog 'cyrraedd brig' uwch fyth yn y niferoedd ac achosi difrod i dirwedd a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol, o ran effeithiau'r datblygiadau ychwanegol ac o ran mwy o weithgaredd yn rhai o'r lleoliadau prysuraf.
- yn sicrhau erbyn diwedd cyfnod y Cynllun bod ystod o lety gwyliau o safon, tebyg i lefel a dosbarthiad y ddarpariaeth ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, yn cael ei gadw er mwyn gweddu i wahanol lefelau o incwm.
- caniatáu rhywfaint o garafanau a gwersylla ychwanegol ac atyniadau ymwelwyr.
- caniatáu i ddarpariaeth ar raddfa fach yn y Parc wella lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc a hefyd helpu i fynd i'r afael â materion cyflogaeth tymhorol yn yr ardal. Nid yw cynigion ar raddfa fawr yn cael eu hystyried yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol.

Blaenoriaeth E: Tai fforddiadwy a thwf tai: Sut i fynd i'r afael â'r angen am dai fforddiadwy yn y Parc.

Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:

- yn darparu ar gyfer tai'r farchnad agored i helpu i gyflawni tai fforddiadwy. Mae gwir angen am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol ac mae'r angen am dai fforddiadwy yn fwy na'r hyn y gall tai'r farchnad agored ei ddarparu.
- yn rhoi fframwaith ar gyfer tai'r farchnad agored i groes-sybsideiddio darparu tai fforddiadwy ac yn gymorth i ddiwallu'r angen. Y prif benderfynyddion ar gyfer yr hyn y gellir ei ddarparu oedd: dosbarthiad datblygiadau tai yn unol â strategaeth ofodol y Cynllun; y gallu i gyflawni safleoedd; a gallu tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymgorffori datblygiadau tai ychwanegol.
- yn blaenoriaethu darparu tai fforddiadwy uwchlaw ffyrdd eraill o ddefnyddio tir mewn rhai achosion.
- yn cefnogi datblygiadau tai fforddiadwy ar safle eithriedig gwledig.

Priority F: Cyfleusterau Cymunedol a Manwerthu

Bydd y strategaeth a'r polisïau allweddol:

- yn sicrhau bod Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yn cynnal eu safle yn yr hierarchiaeth manwerthu o'i gymharu â'i gilydd a'r canolfannau mwy y tu allan i'r ardal. Er gwaethaf bod gwariant yn gollwng i ganolfannau y tu allan i ardal y Parc, maent yn perfformio'n dda gyda chymorth gwariant y preswylwyr ac ymwelwyr.
- yn annog bod y Canolfannau hyn yn cael eu hadfywio yn sympathetig fel y gallant barhau i fod yn llefydd deniadol i fyw ac i weithio ynddynt; bod â rôl werthfawr o ran diwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr; a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol.
- sicrhau nad yw datblygiad newydd yn lleihau'r lefel na'r ystod bresennol o ddarpariaethau cymunedol sydd ar gael i breswylwyr ac ymwelwyr y Parc, oni bai bod y cyfleuster bellach yn ddi-angen neu nad yw'n fasnachol hyfyw, a bod isadeiledd neu wasanaethau ychwanegol sy'n ofynnol gan gynnig yn cael eu rhoi yn eu lle ar yr adeg briodol. Gyda chyfleusterau newydd ac estynedig, cânt eu hannog lle maent mewn lleoliad da i ddiwallu anghenion y gymuned a bod yn gyfleus i drafnidiaeth gyhoeddus, siopau a gwasanaethau eraill.

- 4.8 Mae'r fframwaith polisi a ddarperir yng ngweddill y Cynllun wedi'i grwpio yn ôl chwe mater blaenoriaeth y Parc Cenedlaethol.
Er mwyn eich atgoffa, y chwe mater blaenoriaeth yw:
- a) ~~Nodweddion arbennig~~
 - b) ~~Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf~~
 - c) ~~Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni adnewyddadwy~~
 - d) ~~Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad~~
 - e) ~~Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai~~
 - f) ~~Cyfleusterau cymunedol, manwerthu a thrafnidiaeth~~
- 4.9 Caiff ymatebion polisi eu grwpio o dan y chwe mater blaenoriaeth heblaw'r rhai sy'n ymwneud â dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol ac elfennau gofodol y Cynllun y rhoddir sylw iddynt ym Mhennod 4.
Clustnodir polisiâu strategaeth gan yr ôl-ddodiad 'Polisi Strategaeth' a'u lliwio â cheffendir melyn. Mae polisiâu ategol wedi'u lliwio cheffndir glas.
- 4.10 ~~Dylanwadwyd yn drwm ar y Cynllun gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac o ran cymhwysu'r profion cadernid.³⁴ Pan archwiliwyd opsiynau polisi eraill, mae'r polisi strategaeth a ffefrir yn y prif destun yn cael ei amlygu gyda'r symbol ★. Mae esboniad cryno yn y Papur Cefndir Opsiynau Amgen ynglŷn â'r opsiynau eraill hynny a pham y cawsant eu diysytyru. Mae dewisiadau amgen i'r strategaeth ofodol a ffefrir hefyd wedi'u nodi yn y Papur Cefndir.³⁵ Pan fydd dewis o opsiynau ar gael, dewiswyd yr opsiynau hynny sy'n cyflawni orau ar sail sgôr yr arfarniad o gynaliadwyedd a chanlyniadau'r profion cadernid.♣~~

³⁴ Gweler 6. Geirfa

³⁵ Gweler y Papur Cefndir Opsiynau Amgenn ac Arfarniad

Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol a'r Strategaeth Ofodol

Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol

- 4.11 Mae un polisi trosfwaol yn y Cynllun sy'n ymwneud â dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.
- 4.12 Nodir dibenion y Parc Cenedlaethol yn Neddf yr Amgylchedd 1995. Gellid awgrymu fod mewnosod polisi yn gwneud dim ond ailadrodd y ddeddfwriaeth ond mae'r ddau ddiben ynghyd â'r ddyletswydd mor sylfaenol i waith Awdurdod y Parc, fel ei bod yn bwysig eu gosod wrth wraidd y Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.13 Er bod y Parc Cenedlaethol wedi'i ddynodi am ei dirwedd, mae achosion lle na fyddai'n briodol i llynu'n gaeth wrth y ffin wrth wneud penderfyniadau. Mae materion trawsffiniol yn cynnwys datblygu ynni gwynt, datblygiadau môr a seilwaith trafniadaeth. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r polisi hwn wrth ystyried cynigion o fewn ei awdurdodaeth gynllunio ac wrth roi sylwadau ar gynigion y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Polisi 1 Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)

Rhaid i ddatblygiad o fewn y Parc Cenedlaethol fod yn gydnaws â:

- a) gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, a**
- b) hybu dealltwriaeth y cyhoedd a'u gallu i fwynhau'r nodweddion arbennig.³⁶**

Wrth benderfynu ar gynigion, telir sylw dyledus i'r angen i feithrin llesiant economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol o fewn y Parc ar yr amod fod hynny'n gydnaws â dibenion statudol y Parc Cenedlaethol a ymgorfforir yn yr ystyriaethau uchod.

♣Strategaeth Ofodol y Cynllun♣

- ~~4.14 Strategaeth Fframwaith Aneddiadau Hafan Sir Benfro, Cynllun Gofodol Cymru, yw'r strategaeth ar gyfer lleoli twf yn y Parc Cenedlaethol.³⁷ Dewiswyd y strategaeth a ffeirir yng Nghynllun Gofodol Cymru ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf oherwydd ei bod yn cyflawni'r mwyaf o ran~~

³⁶ Mae Egwyddor Sandford yn ategu'r dibenion hyn sy'n arddel bod y diben cyntaf yn drech na'r ail mewn achosion o wrthdaro amlwg.

³⁷ ~~Gweler 6. Geirfa~~

amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac am fod y profion cadernid yn ei gwneud yn ofynnol i Gynllun Gofodol Cymru gael ei ystyried.³⁸

- 4.15—Roedd arfarniad Cynllun Datblygu Lleol o Opsiwn 3 Cynllun Gofodol Cymru o'r farn bod angen haenau ychwanegol (Haen 4 'Canolfannau Gwledig' a Haen 5 'Cefn Gwlad') gyda datblygiad yn cael ei dargedu mewn lleoliadau a fyddai'n debygol o fod yn fwy hygyrch ac yn fwy tebygol o gefnogi'r cyfleusterau cymunedol. Byddai'r dull o weithredu yn helpu i warchod tirwedd y Parc Cenedlaethol ac roedd y strategaeth wedi'i theilwra ar gyfer aneddiadau unigol.
- 4.16—Gelwir yr opsiwn hwn a ffeirir yn Opsiwn 4 'Dull Aneddiadau Allweddol â Ffocws/Hybrid (gyda dwy Haen ychwanegol)' a dyma'r strategaeth ofodol yn y Cynllun Datblygu Lleol sydd wedi'i fabwysiadu.
- 4.17—Dangosir prif elfennau gofodol y strategaeth yn y Diagram Allweddol gweler yn atodedig. Dylid darllen yr elfen hon o'r strategaeth yng nghydestun y strategaeth ehangach yn enwedig y Polisi 1 troswaol sy'n ymwneud â dibenion a dyletswydd y Parc Cenedlaethol.
- 4.18—Nod cyffredinol y fframwaith ar gyfer ardal Hafan Sir Benfro yw sicrhau mwy o ffyniant, denu mewnfuddsoddiad, cyfeirio datblygiadau i'r prif drefi ar y coridor economaidd, helpu i gynnal cymunedau gwledig, cyflawni egwyddorion cynaliadwyedd a gwarchod y Parc Cenedlaethol.³⁹
- 4.19—Pan gafodd ei brofi yn erbyn opsiynau eraill⁴⁰ (yn yr arfarniad o gynaliadwyedd), roedd y fframwaith hwn (Aneddiadau Allweddol â Ffocws) yn perfformio'n well o ran cynnig y manteision cliraf ar gyfer cynaliadwyedd o ran cyflogaeth, tai, yr amgylchedd ac adfywio ffisegol. Mae'n pwysleisio gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus ac i dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu gyda mesurau ychwanegol sydd wedi'u hanelu at fynd i'r afael ag arallgyfeirio economaidd, datblygu/cadw sgiliau, fforddiadwyedd tai, stiwardiaeth amgylcheddol a lliniaru⁴¹ effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.⁴²
- 4.20—Mae gan ardal Hafan Sir Benfro dair canolfan strategol: yr Hafan (Hwlfordd, Aberdaugleddau/Neyland a Phenfro/Doc Penfro), Tref Caerfyrddin ac Abergwaun/Wdig. Bydd y canolfannau hyn yn chwarae rôl ranbarthol a byddant yn ffocws mawr ar gyfer buddsoddi yn y dyfodol. Fe'u gelwir yn Ganolfannau Haen 1 (ar wahân i Abergwaun/Wdig). Mae'r canolfannau hyn y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ond mae rhai yn agos at y Parc Cenedlaethol, er enghraifft canolfannau Abergwaun/Wdig a'r Hafan.
- 4.21—Mae gan drefi a phentrefi yn y Parc Cenedlaethol rolau ar lefel is ac fe'u cynhwysir fel Canolfannau Haen 2 neu Haen 3.

³⁸ Gweler y Papur Cefndir Opsiynau Amgen ac Arfarniad

³⁹ Papur Cefndir: Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 21

⁴⁰ Yr opsiynau eraill a ystyriwyd ar gyfer Cynllun Gofodol Cymru oedd 'Twr Strategaeth Wasgaredig', 'Strategaeth Dwy Ganolfan'

⁴¹ Gweler 6. Geirfa

⁴² Gweler y Papur Cefndir Opsiynau Amgen ac Arfarniad

- ~~Haen 2 ... Mae gan y rhain swyddogaeth o ran bod yn ganolfan wasanaeth, cyflogaeth a thwristiaeth.~~
- ~~Haen 3 ... Canolfannau lleol yw'r rhain yn bennaf gyda rhai ohonynt yn ganolfannau twristiaeth pwysig.~~

♣ Para newydd: Mae'r strategaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol2 yn adeiladu ar strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol oedd yn rhoi 'strategaeth wledig' oedd yn ceisio gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol tra'n ystyried yr angen i feithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau. Ateir strategaeth Cynllun Datblygu Lleol2 gan ganfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwydd; ac mae'n gydnaws â Chynllun Gofodol Cymru a'r cynlluniau cyfagos. Er bod Strategaeth Ofodol Cymru yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig, mae'n amlwg bod anghenion/gofynion y Parc Cenedlaethol wedi esblygu, ac o ganlyniad, mae'r strategaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol2 wedi esblygu ac mae angen iddi egluro sut mae'r Parc yn mynd i'r afael â'r newidiadau hyn dros gyfnod y cynllun newydd. Felly bydd strategaeth gyffredinol y Cynllun newydd yn cyfuno'r angen am ddiogelu'r amgylchedd drwy ddulliau cytbwys a chynaliadwy o gyflawni a dosbarthu'r datblygiadau newydd.

Para newydd: Elfen hanfodol o'r strategaeth yw sicrhau bod rhinweddau arbennig ardal y Cynllun yn cael eu gwarchod a'u gwella. Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag ysblander arfordirol y Parc; cyfoeth cynefinoedd a bioamrywiaeth; daeareg amrywiol; yr Ynysoedd; amrywiaeth y dirwedd; hygyrchedd; cymeriad nodedig yr anheddau; lle i anadlu; yr amgylchedd hanesyddol cyfoethog; ardaloedd anghysbell, tawel a gwyllt; treftadaeth ddiwylliannol; amrywiaeth profiadau; a'r cyfuniad o rinweddau unigol. Mae cyfuno Polisiâu 1 ac 8, ynghyd â'r polisiâu ategol, yn rhoi'r fframwaith ar gyfer amddiffyn y rhinweddau a'r nodweddion hynny o'r Parc sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cyfrannu at wneud y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw. Hefyd mae strategaeth y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd ceisio rheoli a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y Parc Cenedlaethol drwy: hyrwyddo dylunio cynaliadwy; Polisi lleihau'r angen i deithio; cefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel unigol ac yn y gymuned; annog cyfyngu datblygiadau newydd mewn lleoliadau lle mae strategaeth hir-dymor i ganiatáu i'r môr neu afon orlifo.

Para newydd: Mae elfen dwf Strategaeth y Cynllun yn seiliedig ar asesiad o nifer o ffactorau gan gynnwys: tystiolaeth o angen, materion ac ystyriaethau allweddol, y cyd-destun polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r dystiolaeth ar anghenion yn y Parc yn llywio strategaeth fydd, er mwyn galluogi darparu tai fforddiadwy, yn cael ei arwain gan dai'r farchnad agored. Bydd y Cynllun yn darparu ar gyfer ffigur gofynion anheddau o 960 fyddai, yn amodol ar hyfywedd, yn arwain at ddarparu 362 o dai fforddiadwy newydd. Bydd darparu tai fforddiadwy yn cael ei ategu gan bolisiâu sy'n rhoi blaenoriaeth i ddarparu drwy ail-ddefnyddio adeiladau cymunedol / cyflogaeth diangen ac adeiladau amaethyddol a thrwy ddatblygu safleoedd eithriedig gwledig.

Para newydd: Er mwyn gwella lles economaidd y Parc Cenedlaethol, bydd y strategaeth yn rhoi fframwaith polisi sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr a'r sector cyflogaeth. Y dulliau a fabwysiedir yn y polisi fydd denu'r nifer mwyaf posibl o ymwelwyr gydol y flwyddyn tra'n sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn atyniad fel tirwedd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol. Cyflawnir hyn drwy reoli'r ddarpariaeth o lety a chyfleusterau twristiaeth newydd a phresennol yn y Parc. O ran cyflogaeth, nid yw'r Cynllun yn gwneud unrhyw ddyraniad penodol ar gyfer darparu tir newydd at ddefnydd dosbarth B1, B2 neu B8 ond yn rhoi fframwaith sy'n ceisio rheoli'r defnydd cyflogaeth presennol ac yn caniatáu ar gyfer darparu defnydd newydd ar raddfa fach. Bydd y dulliau hyn yn gymorth i ddiwallu'r angen ac yn gwella lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc.

Para newydd: Bydd y strategaeth dwf yn ceisio sicrhau bod Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yn cynnal eu safle mewn perthynas â'i gilydd a chanolfannau mwy y tu allan i'r ardal. Er mwyn cyflawni hyn, darperir 1270 metr sgwâr o arwynebedd llawr manwerthu newydd drwy ail-ddefnyddio unedau manwerthu presennol a chefnogi adfywio'r Canolfannau hyn yn sympathetig fel y gallant barhau yn llefydd deniadol i fyw ac ymweld, a bod yn rôl werthfawr o ran diwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol.

Para newydd: Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, neu yn achos rheoli gwastraff, y caniateir datblygiad ar raddfa fawr yn y Parc megis echdynnu mwynau a chyfleusterau gwastraff, lle gellir dangos y byddant, yn bennaf, yn diwallu anghenion cymunedau'r Parc Cenedlaethol.

Para newydd: Ar ôl clustnodi prif anghenion datblygu'r ardal dros gyfnod y Cynllun, bydd y Cynllun, drwy elfen ofodol y strategaeth, yn arwain ac yn dosbarthu datblygiadau i leoliadau cynaliadwy tra'n gwarchod a gwella rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae'r hierarchaeth aneddiadau yn seiliedig ar yr hyn a gynhwysir yng Nghynllun Gofodol Cymru fel y'i haddaswyd i ystyried amgylchiadau lleol.

Para newydd: Mae hierarchaeth aneddiadau'r Cynllun yn cynnwys:

- Haen 1 – Canolfannau Gwasanaeth a Thwristiaeth, sy'n darparu gwasanaethau i'r gefnwlad ehangach ac sy'n cyflawni swyddogaeth cyflogaeth a thwristiaeth;
- Haen 2 – Canolfannau Lleol, sy'n ganolfannau lleol yn bennaf a rhai ohonynt yn ganolfannau twristiaeth o bwys;

4.22 Er mwyn ategu fframwaith y Cynllun Gofodol, sy'n ymdrin â lefelau mwy strategol o'r hierarchaeth yn y Parc, mae'r Awdurdod yn awgrymu dwy haen ychwanegol:

- a) ~~Haen 4 'Canolfannau Gwledig' ar gyfer twf cyfyngedig. Mae gan y canolfannau hyn ystod gyfyngedig o gyfleusterau a ddylai ddiwallu anghenion y preswylwyr o ddydd i ddydd. Dylai'r dull hwn helpu i gynnal cymunedau gwledig a lleihau'r angen i deithio.~~
- Haen 3 – Canolfannau Gwledig, sy'n cynnwys nifer o'r aneddiadau llai yn ardal y cynllun ac sy'n cynnig dim ond cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer twf, a
- ~~Haen 5 'Cefn Gwlad' lle mae datblygiad yn cael ei reoli'n llym yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, ac eithrio mathau penodol o ddatblygiadau sydd fel arfer i'w cael yng nghefn gwlad~~
- Haen 4 – Cefn Gwlad, lle bydd datblygiadau yn cael eu rheoli'n llym.

Para newydd: Mae darparu tai newydd yn canolbwyntio ar yr haenau uwch yn enwedig o ran dyraniadau. Defnyddir ffiniau canolfannau i ddiffinio maint yr ardal lle gellir datblygu aneddiadau, a'r eithriad i hyn yw lle mae polisïau yn clustnodi lle mae ymyl safleoedd y Canolfan yn dderbyniol mewn egwyddor a lle mae patrwm gwasgaredig y Canolfannau a glustnodwyd wedi ei gwneud yn anymarferol i ddiffinio ffin.

Para newydd: Mae'r diagram allweddol yn dangos strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol ac yn dangos y berthynas ofodol rhwng Canolfannau Haen 1, 2 a 3, y prif rwydwaith trafndiaeth a'r awdurdodau sy'n ffinio â'r Parc Cenedlaethol.



Key Diagram / Diagram Allweddol

-  Settlements outside the National Park/
Aneddiadau y tu allan i'r Parc Cenedlaethol
-  Service & Tourism Centre/
Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth
-  Local Centre/
Canolfan Leol
-  Rural Centre/ Canolfan Gwledig
-  A Road / Ffyrdd 'A'
-  Trunk Road / Rhydwaith o Brif Ffyrdd
-  Trans-European Road Network /
Rhydwaith o Ffyrdd Traws-Ewropeaidd
-  Railway / Rheilffordd
-  Airfield / Maes Awyr
-  Ferry (Rosslare, Ireland) /
Fferi (Rosslare, Iwerddon)
-  Neighbouring Planning Authority Area /
Ardal Awdurdod Cynllunio Cyfagos
-  Pembrokeshire Coast National Park /
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

0 5 10 km



Grassholm and The Smalls (to the same scale)
Gwales ac The Smalls (i'r un raddfa)



- 4.23 ~~♣Mae'r strategaeth hon yn ategu Polisiâu 2 i 7 y Cynllun Datblygu Lleol.♣~~
- 4.24 ~~♣Wrth ddiffinio maint y datblygiad a ganiateir yn y canolfannau, defnyddir 'ffiniau canolfannau' heblaw pan nad yw hynny'n gydnaws â chymeriad y ganolfan (gweler y Map Cynigion).♣~~

Dinbych-y-pysgod – Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth♣ Leol♣

- 4.25 **Cefndir:** Dynodir Dinbych-y-pysgod fel canolfan wasanaeth a thwristiaeth ~~♣leol ynghyd ag AbergwaunWdig, Sanclêr, Hendy gwyn ac Arberth (Canolfannau Haen 2). Dim ond Dinbych-y-pysgod sydd yn y Parc Cenedlaethol.♣~~
- 4.26 Mae Dinbych-y-pysgod wedi'i lleoli'n wych ar benrhyn arfordir de Sir Benfro. Mae tua 4,517 o bobl yn byw yn Ndinbych-y-pysgod.⁴³ Mae gan Ddinbych-y-pysgod ddynodiad arbennig yn y Parc fel yr unig dref gaerog hanesyddol a thref wyliau, gyda golygfeydd godidog o ben y clogwyni dros draethau poblogaidd iawn. Mae cymeriad arbennig Dinbych-y-pysgod yn cynnwys pensaernïaeth ganoloesol, Sioraidd a Fictoraidd pwysig, waliau tref sydd bron yn gyflawn, Ardal Gadwraeth a 350 o adeiladau rhestredig. Mae ganddi harbwr hardd sy'n llawn prysurdeb ac mae ymwelwyr yn aml wrth eu boddau'n gwyllo bywyd yr harbwr. Mae harbwr cilgant Dinbych-y-pysgod yn ddelwedd eiconig Gymreig a ddefnyddir yn aml i ddenu pobl i Gymru a'i harfordir. Mae'n cynnal amrywiaeth eang o gyfleusterau cymunedol sy'n darparu ar gyfer pob oedran a chwaeth ac mae ganddi wasanaeth bws da, gorsaf drenau a safle ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol. Canol tref Dinbych-y-pysgod yw prif ganolfan fanwerthu'r Parc ond canolfan fanwerthu lefel is ydyw o gymharu â chanolfannau manwerthu eraill yn y rhanbarth, gan gynnwys Caerfyrddin a Hwlfordd. Mae Dinbych-y-pysgod yn gwasanaethu trigolion, ymwelwyr a busnesau a chefnwlad gwledig sy'n cynnwys ardaloedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae'r profiad a gynigir gan Ddinbych-y-pysgod i ymwelwyr wedi gwella drwy bedestrianeddio'r Dref Furiog yn ystod anterth y tymor gwyliau, ac mae Dinbych-y-pysgod wedi dod yn ganolfan ryngwladol ar gyfer digwyddiadau chwaraeon mawr fel y triathlon.
- 4.27 **Materion i'w hystyried yn Dinbych-y-pysgod:** Mae Dinbych-y-pysgod wedi dioddef rhywfaint o ddirywiad mewn twristiaeth, a chan fod y farchnad eiddo'n dal i ffynnu yno, mae hyn wedi arwain at golli llety gwesty. Ers cyflwyno polisi gwarchod mewn Cynlluniau blaenorol, llwyddwyd i atal rhagor o golledion diangen. Fodd bynnag, mae gwarchod rhag rhagor o golledion diangen yn dal i fod yn ystyriaeth bwysig. Mae Dinbych-y-pysgod yn parhau i fod yn ganolfan ymwelwyr o bwys ~~♣fel y~~

⁴³ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Twf i gael mwy o wybodaeth am sut y cyfrifwyd y ffigur hwn.

nodir yn y fersiwn ddiweddaraf o Cynllun Gofodol Cymru.⁴⁴ Bu datblygiad cyfyngedig o dai fforddiadwy, ac mae nifer yr anheddau sy'n ail gartrefi neu'n llety gwyliau yn parhau i beri pryder. Mae nifer o broblemau rheoli traffig sy'n peri pryder, yn enwedig y tagfeydd yn ystod misoedd yr haf.⁴⁵ Mae pryderon o ran amwynder yn achos siopau cludfwyd ac oriau agor hwyr yng Nghanol Tref Dinbych-y-pysgod. Mae diffyg cyfleoedd cyflogaeth drwy'r flwyddyn. Mae gan Ddinbych-y-pysgod wasanaeth trên rheolaidd. Mae angen helpu cymunedau Dinbych-y-pysgod i baratoi ar gyfer newid arfordirol sy'n cael ei achosi gan y newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr, ond ni ddylai hyn amharu ar botensial Dinbych-y-pysgod i fod yn Ganolfan Wasanaeth a Thwristiaeth ~~Leol~~.

- 4.28 **Dinbych-y-pysgod erbyn 2031:** Mae Dinbych-y-pysgod ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyrchfan dwristiaeth o safon gydag ystod o lety o safon. Mae'r adeiladau a'r safleoedd allweddol yn yr ardal yn parhau i gael eu hailddatblygu i helpu i adfywio'r Ganolfan. Mae'r harbwr wedi'i ddiogelu a'i wella ac mae cysylltiad ag Ynys Bŷr. Caiff y muriau, yr adeiladau hanesyddol, y golygfeydd panoramig, y traethau a'r ecosystemau eu gwarchod er mwyn cadw cymeriad arbennig y dref. Mae'r traffig yn cael ei reoli'n dda ac mae'n ategu rôl Dinbych-y-pysgod fel Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth ~~Leol~~. Mae'r cyfleoedd i feicio a cherdded o fewn y dref wedi cael eu gwella'n sylweddol gan welliannau Teithio Egniïol i'r llwybrau, ynghyd â chysylltiadau ag aneddiadau cyfagos. Canol y dref yw'r brif ganolfan adwerthu yn y Parc o hyd. Mae'r tai newydd a ddatblygwyd yn y dref yn cynnwys llawer o dai fforddiadwy.⁴⁶

Polisi 2	Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth Leol Dinbych-y-pysgod (HAEN 2) 1 (Polisi Strategaeth) Dynodir Dinbych-y-pysgod yn 'Ganolfan Wasanaeth a Thwristiaeth Leol'. Y blaenoriaethau o ran defnyddio tir fydd: a) darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen yr ardal leol am dai fforddiadwy (gweler 0, Error! Reference source not found.a0), a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd).
------------------------	--

⁴⁴ Papur Cefndir: Gweler tudalen 112, Diweddariad Cynllun Gofodol Cymru 2008

⁴⁵ Mae Gorchymyn Rheoleiddio Traffig parhaol ar waith ar gyfer y cynllun pedestrianeiddio tymhorol o fewn Muriau Tref Dinbych-y-pysgod. Mae gwaharddiad ar draffig yn ystod tymor yr haf.

⁴⁶ Papur Cefndir: Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 14 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 24

- b) caniatáu cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar raddfa fach i ddiwallu anghenion yr ardal leol (gweler 0).**
- c) gwarchod a gwella cyfleusterau'r dref a'r ganolfan siopa sy'n gwasanaethu'r ardal leol ac ymwelwyr (gweler 0,0,0a0).**
- d) gwarchod a gwella ardal yr harbwr (gweler Polisi 18).**
- e) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion arbennig y dref (gweler 0).**
- f) ~~acaniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i reoli'r traffig yn well yn y dref i reoli traffig yn well yn y dref.~~ (gweler 0).**
- g) cynorthwyo Dinbych-y-pysgod i baratoi ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (gweler 0, 0, 0, 0).**

Trefdraeth – Canolfan Leol

- 4.29 **Cefndir:** Mae tua 860 o bobl yn byw yn Nhrefdraeth, ac mae'r dref yn nythu mewn lleoliad rhagorol ar lethrau mwyn rhwng troed Carn Ingli ac aber afon fechan Nyfer, sydd ei hun wedi'i ddiogelu o'r môr agored gan dwyni tywod a thraethau Trefdraeth.^{47 48} Mae'r olygfa banoramig o'r dref a'r Parrog (a fu unwaith yr harbwr prysuraf yng ngogledd Sir Benfro) o draethau Trefdraeth yn dangos yn berffaith pam fod hon yn un o'r trefi mwyaf adnabyddus a phoblogaidd yn y Parc Cenedlaethol. Mae ymwelwyr yn chwyddo poblogaeth Trefdraeth yn ystod y tymor gwyliau.
- 4.30 Mae ystod dda o gyfleusterau yn Nhrefdraeth sy'n gwasanaethu'r dref a'r cefnwlad, ac fe'i dosbarthir fel 'canolfan siopa ranbarthol' ym0. Mae yno ddiwylliant nodedig gyda nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg sy'n arwain at ymdeimlad cryf o gymuned. Mae dwy Ardal Gadwraeth wedi eu dynodi i gydnabod cymeriad nodedig Trefdraeth. Mae iddi naws hudolus a rhoddir pwys mawr ar amgylchedd naturiol a heddwch yr ardal. Mae ganddi barc cyflogaeth a chanolfan fusnes fechan. Mae bysiau yn gwasanaethu Trefdraeth yn ystod yr wythnos ond nid yw hyn yn diwallu anghenion y gymuned gyda'r nos ac ar y Suliau. Mae wedi'i lleoli ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.
- 4.31 **Materion i'w hystyried yn Nhrefdraeth:** Mae'r anawsterau yn Nhrefdraeth yn cynnwys prisiau tai uchel a phrinder tir ar gyfer datblygu tai fforddiadwy. Mae'r nifer uchel o dai gwyliau ac ail gartrefi a phoblogaeth sy'n heneiddio yn peri pryder. Mae'r defnydd o'r Gymraeg yn dirywio. Ystyrir hefyd bod angen uwchraddio'r cyfleusterau cymunedol yn gyffredinol yn ogystal â datblygu Trefdraeth yn atyniad ar gyfer twristiaid.

⁴⁷ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Twf i gael mwy o wybodaeth ar sut y cyfrifwyd y ffigur hwn

⁴⁸ Wedi'i dynodi'n Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig yng Nghymru

Byddai croeso i gyfleoedd cyflogaeth ychwanegol. Mae swm y traffig a'u symudiadau yn parhau i effeithio ar y dref er gwaethaf y camau lliniaru a gymerwyd yn y gorffennol. Byddai gwelliannau pellach i'r dulliau o reoli traffig yn cael eu croesawu gan gynnwys gwelliannau i ddiogelwch cerddwyr a pharcio. Mae angen helpu cymunedau Trefdraeth i baratoi ar gyfer newid arfordirol sy'n cael ei achosi gan y newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr, ond ni ddylai hyn amharu ar botensial Trefdraeth i weithredu fel Canolfan Leol.

- 4.32 **Trefdraeth erbyn 2031:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol bydd tai newydd yn Nhrefdraeth gan gynnwys nifer sylweddol o dai fforddiadwy. Mae'r cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigonol i wasanaethu'r dref a'r cefnwlod gwledig. Lle bo hynny'n ymarferol, mae mesurau rheoli traffig wedi'u cyflwyno. Mae rôl y dref fel canolfan leol hanesyddol a deniadol wedi'i diogelu ac mae'r dref yn cynnig amrywiaeth o lety gwyliau i ymwelwyr.

Polisi 3

Canolfan Leol Trefdraeth (HAEN ♠3)♠2♠) (Polisi Strategaeth)



Dynodir Trefdraeth yn 'Ganolfan Leol'. Y blaenoriaethau o ran defnyddio tir fydd:

- a) darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen yr ardal leol am dai fforddiadwy gweler (0,Error! Reference source not found. a0), ♠a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd)♠
- b) caniatáu cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar raddfa fach i ddiwallu anghenion yr ardal leol (gweler0).
- c) gwarchod a gwella'r ganolfan siopa ranbarthol a'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r dref a'r cefnwlod gwledig ac ymwelwyr (gweler0,0,0a0).
- d) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion arbennig y dref (gweler 0).
- e) ~~♠caniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i reoli'r traffig yn well yn y dref i reoli traffig yn well yn y dref~~ ♠(gweler 0).
- f) cynorthwyo Trefdraeth i baratoi ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (gweler 0, 0, 0, 0).

Saundersfoot – Canolfan Leol

- 4.33 **Cefndir:** Tref wyliau fach yw Saundersfoot (dim ond tua 2,473 sy'n byw yno) ond mae'n gyrchfan boblogaidd iawn i deuluoedd.⁴⁹ Mae'r pentref wedi tyfu'n sylweddol ers y 1950au. Mae'r adeiladau yn ymestyn dros y brynau coediog i'r naill ochr a'r llall o'r dyffryn bychan gwastad sy'n rhannu'r pentref. Mae canol Saundersfoot ac ardal yr harbwr wedi'u dynodi'n Ardal Gadwraeth. Roedd pyllau glo yn yr ardal ers talwm, ac roeddd tun a glo yn cael eu hallforio. Erbyn hyn, twristiaeth yw'r prif ddiwydiant, er bod yr harbwr yng nghanol y pentref yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan gychod pleser a nifer o gychod pysgota bach ac mae yno naw 'diwrnod gwaith' prysur a bywiog.⁵⁰ Mae cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd a Chynllun Cefnogi Seilwaith Twristiaeth wedi cyfrannu at hyfywedd hirdymor yr harbwr trwy wella mynediad o'r môr ac ymestyn y gweithgareddau twristiaeth ar yr arfordir. Mae yno hefyd ardal fasnachol sy'n cynnwys siopau, bwytaï a busnesau eraill. Mae gan Saundersfoot wasanaeth bws da iawn a chyfleusterau pentref bach. Mae 0 yn nodi Saundersfoot fel 'canolfan siopa ranbarthol'.
- 4.34 **Materion i'w hystyried yn Saundersfoot:** Mae'r materion i'w hystyried yn Saundersfoot yn cynnwys yr angen i gwblhau'r gwelliannau i ardal yr harbwr, ac ymestyn y tymor gwyliau. Mae yna bryderon hefyd ynglŷn â siopau cludfwyd ac oriau agor hwyr yn Saundersfoot. Er bod y gwasanaeth trên yn rheolaidd, mae'r orsaf dros filltir o'r pentref. Mae tai gwyliau/ail gartrefi yn peri pryder ac mae angen darparu tai fforddiadwy. Yn gyffredinol, mae'r fynedfa o'r gogledd i'r dde'r pentref yn wael. Gallai llifogydd fod yn fygythiad i ganol pentref Saundersfoot yn yr hirdymor o oherwydd y cynnydd yn lefel y môr a bydd angen i'r awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill helpu'r gymuned i ddatblygu strategaeth er mwyn i'r pentref allu addasu i newidiadau.⁵¹
- 4.35 **Saundersfoot erbyn 2031:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol bydd tai newydd yn Saundersfoot gan gynnwys nifer sylweddol o dai fforddiadwy. Mae'r cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigonol i wasanaethu'r dref a'r cefnwlod gwledig. Lle bo hynny'n ymarferol, mae mesurau rheoli traffig wedi'u cyflwyno. Mae'r cyfleoedd i feicio a cherdded o fewn y pentref wedi cael eu gwella'n sylweddol gan welliannau Teithio Egnïol i'r llwybrau, ynghyd â chysylltiadau ag aneddiadau cyfagos, a gwasanaethau y tu allan i'r pentref. Mae cymeriad glan môr y pentref wedi'i ddiogelu a'i wella, gan gynnwys yr harbwr, ac mae'r gwestai a'r tai llety yn ddigonol ar gyfer anghenion ymwelwyr. Mae'r ardaloedd siopa a'r harbwr yn ddeniadol.⁵²

⁴⁹ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Twf i gael mwy o wybodaeth am sut y cyfrifwyd y ffigur hwn

⁵⁰ **Error! Reference source not found.**

⁵¹ Cynllun Rheoli Traethlin De Cymru, Uned Bolisi 16 Dolwen Point i Giltar Point

⁵² ~~Papur Cefndir: Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 15 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 25~~

Polisi 4 Canolfan Leol Saundersfoot (HAEN ♠3)♠2♠) (Polisi Strategaeth)



Dynodir Saundersfoot yn 'Ganolfan Leol'. Y blaenoriaethau o ran defnyddio tir fydd:

- a) darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen yr ardal leol am dai fforddiadwy gweler (0,Error! Reference source not found. a0). ♠a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd)♠**
- b) caniatáu cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar raddfa fach i ddiwallu anghenion yr ardal leol (gweler0).**
- c) gwarchod a gwella'r ganolfan siopa ranbarthol a'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r dref a'r cefnwlod gwledig ac ymwelwyr (gweler0,0,0a0).**
- d) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion arbennig y pentref (gweler 0).**
- e) ~~♠caniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i reoli'r traffig yn well yn y dref i reoli traffig yn well yn y dref ♠~~(gweler 0).**
- f) gwarchod a gwella'r harbwr (gweler0).**
- g) cynorthwyo Saundersfoot i baratoi ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (gweler 0, 0, 0, 0).**

Tyddewi – Canolfan Leol

- 4.36 **Cefndir:** Mae lleoliad dinas Tyddewi mewn man cwbl arbennig ar y llwyfan arfordirol gwyntog sy'n ffurfio Penrhyn Dewi. Yr eglwys gadeiriol yw'r prif ffocws ar gyfer ymweliadau â Thyddewi ac mae'r adeilad yn hanu o gyfnodau rhwng y 12fed a'r 16eg ganrif.
- 4.37 Heddiw, mae Tyddewi a'r penrhyn yn un o'r adnoddau twristiaeth pwysicaf yn y Parc Cenedlaethol. Mae Fframwaith Cynllun Gofodol Cymru yn cydnabod y rôl bwysig y mae Tyddewi yn ei chwarae fel cyrchfan i ymwelwyr.
- 4.38 Mae tua 1,309 o bobl yn byw yn Nhyddewi, ac mae'r cyfleusterau sydd yno yn ddigon tebyg i rai Saundersfoot a Threfdraeth.⁵³ Mae'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol yn dirwyn drwy'r ddinas hefyd.

⁵³ Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad Twf i gael mwy o wybodaeth ar sut y cyfrifwyd y ffigur hwn
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau +► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♠

- 4.39 **Materion i'w hystyried yn Nhyddewi:** Mae ardal St Justinians a'r Traeth Mawr hefyd yn atyniadau pwysig sy'n denu ymwelwyr i'r ardal ac yn ychwanegu at y problemau rheoli traffig yn Nhyddewi ac o'i chwmpas. Mae'r gwasanaeth Celtic Coaster presennol yn help i ddatrys y materion hyn. Mae angen darparu tai fforddiadwy ac mae effaith ail gartrefi a thai gwyliau yn bryder.
- 4.40 **Tyddewi erbyn 2031:** Erbyn diwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol bydd tai newydd yn Nhyddewi gan gynnwys nifer sylweddol o dai fforddiadwy. Bu buddsoddiad diwylliannol sylweddol ym mhrosiect Clasau'r Gadeirlan ac Oriel Tirlun Oriel y Parc. Mae'r cyfleusterau cymunedol a manwerthu yn ddigonol i ddiwallu anghenion y gymuned leol. Mae mesurau rheoli traffig wedi lliniaru effeithiau andwyol traffig sy'n teithio drwy'r ddinas a llif y traffig yn y ddinas ei hun ac wedi mynd i'r afael â'r problemau rheoli traffig yn St Justinians. Mae rôl y ddinas fel canolfan hanesyddol ddeniadol yn cael ei diogelu a'i gwella ac mae'r gwestai a'r tai llety yn ddigonol i ddiwallu anghenion ymwelwyr.⁵⁴

Polisi 5 Canolfan Leol Tyddewi (HAEN ♣3)♠2♣)
(Polisi Strategaeth)



Dynodir Tyddewi yn 'Ganolfan Leol'. Y blaenoriaethau o ran defnyddio tir fydd:

- a) **darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen yr ardal leol am dai fforddiadwy gweler (0,Error! Reference source not found. a0). ♠a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd).**♠
- b) **caniatáu cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar raddfa fach i ddiwallu anghenion yr ardal leol (gweler0).**
- c) **gwarchod a gwella'r ganolfan siopa ranbarthol a'r cyfleusterau cymunedol sy'n gwasanaethu'r Ddinas a'r cefnwlad gwledig ac ymwelwyr (gweler0,0,0a0).**
- d) **sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion arbennig y Ddinas (gweler 0).**
- e) **♠caniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i reoli'r♠**

⁵⁴ Papur Cefndir: Cynllun Gofodol Cymru, Hafan Sir Benfro, Fframwaith Aneddiadau Allweddol 2021, tudalen 15 a'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer ardal Cynllun Gofodol Hafan Sir Benfro, fersiwn 18 Gorffennaf 2007, tudalennau 12, a 25

**traffig yn well yn y Ddinas a'r penrhyn ehangach
(gweler 0).**

Crymych – Canolfan Leol

- 4.41 Er bod rhan bwysig i Grymych yng nghymunedau cyfagos y Parc Cenedlaethol, dim ond rhan fach ohono sydd yn y Parc Cenedlaethol. Bydd rôl Crymych yn y dyfodol yn cael ei ddiffinio'n bennaf gan gyfleoedd y tu allan i'r Parc Cenedlaethol.

Canolfannau Gwledig

- 4.42 **Cefndir:** Er mwyn helpu i gynnal cymunedau gwledig y Parc Cenedlaethol, pennwyd haen ychwanegol, sef 'Canolfannau Gwledig', a restrir isod. Mae gan y rhain o leiaf dri o'r cyfleusterau a geir fel arfer mewn pentref bach neu, os oes llai na hynny, o leiaf un siop gyfleustra.⁵⁵
- 4.43 **Materion i'w hystyried mewn Canolfannau Gwledig:** Mae lefel y gwasanaeth o ran trafnidiaeth gyhoeddus, trin carthffosiaeth a chyflenwad dŵr yn amrywio rhwng y trefi a'r pentrefi a restrir yn yr hierarchaeth a bydd angen eu gwella.⁵⁶ Mae'r ardaloedd y gwyddys eu bod mewn perygl o lifogydd yn cynnwys rhannau o Amroth, Angle, Aberllydan, Dale, Felindre Farchog, Aber-bach, Llanychâr, Nanhyfer, Niwngwl, Pont-faen, Solfach a Wiseman's Bridge. Mae angen helpu cymunedau arfordirol i baratoi ac addasu ar gyfer newid arfordirol sy'n cael ei achosi gan y newid yn yr hinsawdd a'r cynnydd yn lefel y môr.
- 4.44 **Canolfannau Gwledig erbyn 2031:** Mae'r dyfodol ar gyfer Canolfannau Gwledig yn un lle mae rhywfaint o ddatblygiad ychwanegol, gan gynnwys datblygu tai fforddiadwy, wedi helpu i gynnal cyfleusterau lleol ac nid oes angen teithio mwyach i ganolfannau mwy o faint ar gyfer anghenion beunyddiol. Mae hygyrchedd y canolfannau hyn i ganolfannau mwy yn y Parc hefyd wedi gwella ynghyd â gwasanaethau seilwaith megis cyflenwadau dŵr a chael gwared â charthion.
- 4.45 Mewn Canolfannau Gwledig sydd yn bennaf y tu allan i'r Parc Cenedlaethol, mae'n fwy tebygol y bydd y cyfleoedd datblygu yn yr ardaloedd hynny sydd yn awdurdodaeth y Cyngor Sir.

Polisi 6 Canolfannau Gwledig (HAEN ♠ 4) ♣3♣) ★
(Polisi Strategaeth)

Y blaenoriaethau o ran defnyddio tir yn y Canolfannau Gwledig fydd:

⁵⁵ Blwch llythyrau, tir chwaraeon, ysgol gynradd, tafarn, neuadd gymunedol, man addoli, siop gyfleustra, swyddfa bost – Gweler Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad y Twf

⁵⁶ Papur Cefndir Graddfa a Lleoliad y Twf

- a) darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai er mwyn cynorthwyo i ddiwallu angen yr ardal leol am dai fforddiadwy mewn canolfannau sydd â Ffin Drwyddynt gweler (0,Error! Reference source not found. a0, ♠a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd).♠⁵⁷
- b) caniatáu tai trwy fewnlenwi bylchau bychain neu fân estyniadau (hynny yw, cwblhau) mewn canolfannau heb ffin ganolog (0 a0) ♠a Chynigion Datblygu Tai y Polisi Newydd).♠
- c) caniatáu cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth ar raddfa fach (gweler 0).
- d) gwarchod a gwella ystod y cyfleusterau o fewn y Ganolfan (gweler0,0a 0).
- e) sicrhau bod datblygiadau a ganiateir yn cyfrannu at ddiogelu a gwella nodweddion arbennig y Ganolfan (gweler 0).
- f) sicrhau bod y datblygiad ar raddfa sy'n gyson o ran maint a chymeriad y Ganolfan.
- g) cynorthwyo cymunedau arfordirol i baratoi ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (gweler 0, 0, 0, 0).

Canolfannau Gwledig yn y Parc Cenedlaethol

Amroth	Maenorbŷr
Angle	Gorsaf Maenorbŷr
Bosherston	Marloes
Aberllydan	Trewyddel
Castellmartin	Mynachlog-ddu ☒
Cei Cresswell ☒	Nanhyfer ☒
Dale	Niwgwl
Dinas	Nolton Haven
Felindre Farchog	Pont-faen ☒
Herbrandston	Porth-gain
Jameston	Rosebush
Lawrenni	Solfach
Aber Bach	Llanismel
Lydstep	Tre-fin

⁵⁷☒ Canolfan Wledig heb Ffin Ganolog a ddangosir ar y Map Cynigion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau +► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♣

Canolfannau Gwledig sy'n rhannol yn y Parc Cenedlaethol

Caeriw *

Cosheston *⁵⁸

Hook *

Houghton *

Llandyfái *

Llangwm *

Milton *

New Hedges

Pleasant Valley*

Y Garn*

Square and Compass

Wiseman's Bridge

♣ Yn y Canolfannau Gwledig hynny heb ffin ganolog, caniateir mewnlenni a chwblhau lle mae cydlynid ffisegol o anheddau ♣

4.46 ~~♣ Yn y Canolfannau Gwledig hynny heb ffin ganolog, caniateir mewnlenni a chwblhau lle mae cydlynid ffisegol o anheddau. ♣~~ Bydd datblygu tai yn cynnwys mewnlenni un neu ddwy uned o faint sy'n gydnaws â'u lleoliad mewn bwlch bach mewn ffyrntiad sydd fel arall yn un parhaus. Bydd 'chwblhau' yn gorffen neu'n atgyfnerthu'r cwmws adeiledig, ac bydd yn golygu codi dim mwy nag un neu ddau adeilad.

4.47 Mae'r termau 'mewnlenni sensitif' a 'chwblhau' yn golygu:

- Rhaid i'r plotiau fod yn debyg o ran maint a graddfa i'r eiddo cyfagos a dylent allu darparu'r nifer o unedau a gynigir. Rhaid i'r anheddau fod o faint, graddfa a dwysedd tebyg i'r rhai sydd yn yr ardal, a rhaid iddynt fod â lle amwynder a chylchrediad sy'n debyg i eiddo cyfagos.
- Rhaid i safleoedd hefyd fodloni'r holl feini prawf eraill ar gyfer datblygu tai.

Cefn Gwlad

4.48 **Cefndir a Materion i'w Hystyried ar gyfer cefn gwlad:**

Amcangyfrifir bod traean o'r holl gartrefi yn y Parc Cenedlaethol yng nghefn gwlad y Parc, ac mae'r rheini wedi'u gwasgaru mewn pentrefi bach, pentrefannau bach, anheddau a ffermydd hwnt ac yma. Mae cefn gwlad y Parc Cenedlaethol yn gwneud cyfraniad pwysig i dwristiaeth, ffermio, cadwraeth ac ati. Mae'r materion i'w hystyried ar gyfer y Parc yn cynnwys canfod yr ymagwedd gywir o ran faint o ddatblygiadau y gellir eu caniatáu, gan ystyried materion hygyrchedd, yr angen i gynnal cymunedau lleol a'r angen i ddiogelu tirwedd y Parc Cenedlaethol.

4.49 **Cefn gwlad y Parc Cenedlaethol erbyn 2031:** Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol bydd cefn gwlad y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod yn lleoliad ar gyfer llawer o ddiddordebau a gweithgareddau amrywiol a bydd yn parchu un o asedau gorau'r Parc. Mae rhywfaint o ddatblygiad cyfyngedig wedi helpu i gyfrannu at ansawdd bywyd ei gymunedau ac ymwelwyr trwy brosiectau arallgyfeirio ar ffermydd, addasu adeiladau, cynigion Un Blaned sy'n cyfrannu at agenda cynaliadwydd y llywodraeth

⁵⁸ * Yn dioddef yn bennaf o fewn awdurdodaeth cynllunio'r Cyngor Sir Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

yn yr ardal, a thrwy gyfrwng gweithgareddau hamdden a gweithgareddau priodol ar gyfer ymwelwyr. Er mwyn cynnal cymunedau gan barchu'r polisi cynllunio cenedlaethol bydd datblygiadau tai yn cael eu rheoli'n llym yng nghefn gwlad ond caniateir rhai cyfleoedd cyfyngedig mewn lleoliadau priodol y tu allan i'r Canolfannau a restrir yn gynharach yn y strategaeth.⁵⁹ Mae addasu adeiladau sy'n cyfrannu at gymeriad cefn gwlad fel eu bod yn cynnig amryw ddefnyddiau wedi cynorthwyo i gynnal cymunedau yn enwedig gan fod y broses o ddarparu tai fforddiadwy trwy ddatblygu tai marchnad wedi cael blaenoriaeth dros hunanarlwyo. ♣Gwnaed ymdrech i leihau'r angen i deithio yng nghefn gwlad mewn datblygiadau newydd trwy asesu cyfleoedd mewnlenwi a chwblhau o ran eu hygyrchedd a thrwy ddefnyddio dull mwy trylwyr o asesu effaith traffig ar ddatblygiadau yng nghefn gwlad — gweler 0 a0. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar hygyrchedd yn cael eu paratoi. ♣

- 4.50 O ystyried rôl arwyddocaol ac effaith bosibl ffermio ar gefn gwlad y Parc Cenedlaethol, bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar leoliad a dyluniad adeiladau fferm.⁶⁰

Polisi 7	Cefn Gwlad (HAEN ♠5)♠4♠) (Polisi Strategaeth)	★
Y tu allan i'r Canolfannau a nodwyd mae cefn gwlad lle mae'n rhaid rheoli datblygiad yn llym. Bydd y mathau a ganlyn o ddatblygiadau yn dderbyniol mewn egwyddor:		
a) lle cynigir mewnlenwi senitif lle mae bylechau bychain, neu fân estyniadau (hy cwblhau)⁶¹ i grwpiau anghysbell o anheddau. Os caiff safleoedd o'r fath eu rhyddhau, rhoddir blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy. Lle nad yw darparu tai fforddiadwy yn ymarferol ar y safle ystyrir codi tai ar gyfer y farchnad.⁶² Bydd rhyddhau tir yn dibynnu ar gymeriad yr ardal, patrwm y datblygiad yn yr ardal a pha mor hygyrch yw'r Canolfannau a nodwyd yn yr hierarchaeth. ♣		
b) lle cynigir annedd ar gyfer menter wledig newydd⁶³.		
c) lle cynigir arallgyfeirio ar fferm, gan gynnwys siopau		

⁵⁹ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, paragraff 3.56

⁶⁰ Gweler 6. Geirfa

⁶¹ Gweler paragraff 0a a paragraff 0 uchod am ddiffiniad

⁶² Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016, Pennod 9 Tai, paragraff 9.2.22

⁶³ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraffau 9.3.6 4.2.36 i 9.3.10 4.2.37

fferm (gweler0).

- d) lle cynigir addasu adeiladau priodol er mwyn gwneud ystod o ddefnydd ohonynt, gyda thai ar gyfer y farchnad yn cael blaenoriaeth wrth addasu adeiladau preswyl (gweler0). ~~♠Ni ddylai addasu adeilad achosi effaith andwyol annerbyniol⁶⁴ ar strwythur, ffurf, cymeriad na lleoliad yr adeilad. Ni chaniateir addasu adeiladau sydd wedi eu lleoli yn or-amlwg yn y dirwedd.~~ ♠ Gofynnir am gyfraniadau ar gyfer tai fforddiadwy oddi ar y safle yn achos tai ar gyfer y farchnad.**
- e) lle cynigir menter wledig neu atyniad twristiaeth neu weithgaredd hamdden lle mae'r angen i'w lleoli yng nghefn gwlad yn hanfodol (gweler0 a0).**
- f) lle cynigir cyfleuster cymunedol newydd neu estynedig (gweler0).**
- g) lle mae'r cynnig yn cynnwys Datblygiad Un Blaned (gweler0).**
- h) lle mae cyfiawnhad dros godi adeiladau fferm newydd at ddibenion amaethyddol. *gweler y troednodyn newydd**
- i) lle caiff tir ei ryddhau ar gyrion Canolfan ar gyfer safle cyflogaeth bychan (gweler 0) neu estyniad i fusnes sefydledig yng nghefn gwlad neu pan fo busnes newydd yn awyddus i ymuno â chlystyrau sy'n bodoli eisoes.^{65 66 67}**
- j) lle bo tir eithriadol yn cael ei ryddhau mewn canolfannau cyfagos ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol a nodwyd (gweler~~♠~~0 Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy y Polisi Newydd).♠**
- k) cynorthwyo cymunedau arfordirol i baratoi ac addasu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd (gweler 0, 0, 0, 0).**
- l) lle bo angen rhyddhau tir eithriadol i adleoli datblygiad yr effeithir arno gan newid arfordirol**

⁶⁴6. Geirfa Nodyn Cyngor Technegol 23, Chwefror 2014

*troednodyn newydd: gweler 5.6.7 Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 10 Rhagfyr 2018.

⁶⁵Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, paragraff 3.1.3 5.6.4

⁶⁶Nodyn Cyngor Technegol 23, Chwefror 2014 mae paragraff 1.1.6 yn cyfeirio'n bennaf at ddefnyddiau cyflogaeth traddodiadol (Dosbarth B yn y drefn Dosbarthiadau Defnydd)

⁶⁷Nodyn Cyngor Technegol 23, Chwefror 2014 paragraff 3.1.3

(gweler0 a0).

m) lle bo angen safle Sipsiwn a Theithwyr mewn lleoliad yng nghefn gwlad (gweler0).

n) lle mae'r cynigion yn ymwneud ag ynni adnewyddadwy (gweler0).

4.51 ~~**Mewnlenwi a Chwblhau:**~~ Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar hygyrchedd yn cael eu paratoi. Er mwyn profi nad yw'n ymarferol darparu tai fforddiadwy ar y safle, bydd angen i'r Awdurdod gael tystiolaeth gan y landlord cymdeithasol cofrestredig a'r awdurdod lleol yn dweud nad oes ganddynt ddiddordeb mewn datblygu'r safle ar gyfer tai fforddiadwy. Wrth drafod gyda'r landlordiaid cymdeithasol hyn, dylai gwerth y tir adlewyrchu'r ffaith ei fod ar gael ar gyfer tai fforddiadwy yn unig, hynny yw, y gwerthoedd tir sy'n gymwys i dir eithriadol a gafodd ei ryddhau ar gyfer tai fforddiadwy. ♣

4.52 **Addasu adeiladau yng nghefn gwlad:** Ym Oceir y defnyddiau a ystyrir yn briodol wrth addasu adeiladau yng nghefn gwlad. Byddai hyn yn cynnwys adeiladau amaethyddol, hen eglwysi ac anheddau lle mae'r defnydd preswyl bellach wedi darfod. Yn Nodyn Cyngor Technegol 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy, Gorffennaf 2010, a Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd, adran 3, mae ystyriaethau manwl ar gyfer rheoli datblygiadau cynllunio cenedlaethol y mae angen talu sylw iddynt. Mae paragraff 3.2.2 o Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygu Economaidd, Chwefror 2014, yn darparu ar gyfer yr opsiwn o flaenoriaethu defnyddiau sy'n ymwneud â chyflogaeth wrth addasu. Mae'r Awdurdod hwn wedi ceisio blaenoriaethu defnyddiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth o dan y Cydgyllun Datblygu Unedol a chanfuwyd bod hyn yn anodd ei weithredu. Y tu hwnt i lety gwyliau, nid oes llawer o alw am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth.

4.53 Nod y polisi yw rhoi anogaeth i aildefnyddio adeiladau ar gyfer gweithgareddau cyflogaeth a gweithgareddau cysylltiedig (megis siopau fferm, atyniadau twristiaeth, llety â gwasanaeth a gweithgareddau hamdden. Gallai defnyddiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth gynnwys addasiadau preswyl fel is-rhan o gynllun). Byddai defnydd preswyl yn cynnwys tai ar gyfer y farchnad (preswylfa lawn amser heb unrhyw reolaeth o ran deiliadaeth) a hunanarlwyo. Mewn cynigion preswyl, bydd tai ar gyfer y farchnad yn cael blaenoriaeth dros hunanarlwyo i helpu i ddarparu tai fforddiadwy (0).

4.54 Mae'r canllawiau cynllunio cenedlaethol yn cyfeirio at adeiladau y mae'n rhaid iddynt fod 'ar ffurf, swmp a dyluniad cyffredinol sy'n gydnaws â'u hamgylchedd'.⁶⁸ Yn y Parc Cenedlaethol hwn, ystyrir bod y rhain yn rhai sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal trwy eu rhinweddau pensaernïol cynhenid neu eu lleoliad yn y dirwedd. Mae eu diddordeb a'u harddwch yn deillio o werthfawrogiad o ofynion swyddogaethol yr adeilad, eu llunwedd a'u graddfa, y math o ddefnyddiau adeiladu a ddefnyddiwyd

⁶⁸ Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd 2014, paragraff 3.2.1

(gan gynnwys y rhai a adeiladwyd o garreg, clom a llechi), a'r dulliau a sgiliau adeiladu lleol y gellir eu gweld. ♣ Rhaid i waith addasu beidio ag arwain at effaith andwyl annerbyniol ar strwythur, ffurf, cymeriad nac ar leoliad yr adeilad. ♣

- 4.55 Gall y ffurf, y swmp, y dyluniad a'r deunyddiau a ddefnyddir mewn rhai adeiladau eu gwneud yn or-amlwg yn y dirwedd. Y rhai hynny, fel rheol, yw adeiladau a wnaed o flociau concrid, taflenni asbestos, haearn rhychog ac ati, adeiladau rychwant clir, ysguboriau Iseldiraidd, a siediau gwair ag ochrau agored. Ni chaniateir addasu adeilad sydd mewn man rhy amlwg yn y tirwedd neu adeilad nad yw'n gydnaws â'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd adeilad defnyddiol modern yn gallu gwneud cyfraniad positif a phwysig i gyfleoedd cyflogaeth gwledig mewn amgylchiadau eithriadol heb amharu ar olwg y dirwedd. Byddai llety preswyl neu lety â gwasanaeth neu lety gwyliau yn dderbyniol mewn cynigion ar gyfer adeiladau o'r fath.
- 4.56 Pan roddir caniatâd cynllunio ar gyfer llety gwyliau, bydd hwnnw'n ddarostyngedig i amodau a/neu gytundeb cyfreithiol i gyfyngu ar feddiannaeth yr adeilad i ddefnydd gwyliau, a fydd yn atal pobl rhag byw yn yr adeilad drwy gydol y flwyddyn.
- 4.57 Mae rhywogaeth a ddiogelir o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd neu'r Deyrnas Unedig yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio. Rhaid i ddatblygwyr sy'n ystyried cyflwyno cais cynllunio ystyried, yn ystod camau cyntaf y broses, a yw'n debygol bod unrhyw gynefinoedd neu rywogaethau ar y safle, neu'n agos at y safle, y gallai'r datblygiad effeithio arnynt. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu llunio i gynorthwyo yn hyn o beth.
- 4.58 Dylai ceisiadau i addasu adeilad gynnwys holl fanylion yr addasiadau ffisegol angenrheidiol ar gyfer penderfynu ar y cynnig. Efallai y bydd angen i'r Awdurdod ofyn am arolwg strwythurol. Ar gyfer addasu i ddefnydd preswyl bydd yn rhaid cael arolwg strwythurol. Lle bwriedir aildefnyddio clwstwr o adeiladau bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl bod cynllun cyffredinol ar gyfer y safle cyfan yn cael ei gyflwyno a'i gytuno gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol cyn i'r ceisiadau ar gyfer yr adeiladau unigol gael eu hystyried.
- 4.59 **Adeiladau Fferm Newydd:** Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 7.5.6.56, yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu ymagwedd adeiladol tuag at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rhai a fwriedir i ddiwallu anghenion arferion ffermio sy'n newid, neu sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol, hylendid neu lesiant. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chynigion ar gyfer adeiladau fferm newydd y mae'n rhaid bod cysylltiad clir rhyngddynt ag uned amaethyddol weithiol. Mae hyn yn golygu tir amaethyddol a feddiennir fel uned at ddibenion amaethyddiaeth, ac mae'n cynnwys unrhyw annedd neu adeilad arall ar y tir hwnnw sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ffermio'r tir gan y person sy'n meddiannu'r uned neu unrhyw annedd ar y tir hwnnw y mae gweithiwr

fferm yn ei feddiannu. ► Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar adeiladau fferm newydd. ◀

- 4.60 **Tir Amaethyddol:** Ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, dechrau paragraff 3.54, manylir ar y polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer diogelu tir amaethyddol wrth ystyried cynigion datblygu.

Blaenoriaeth A: Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

A. Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

- 4.61 Nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol yw'r nodweddion a'r elfennau hynny yn y Parc sydd, yn unigol neu gyda'i gilydd, yn cyfrannu at wneud y Parc Cenedlaethol hwn yn unigryw. Gwnaed gwaith i loywi dealltwriaeth yr Awdurdod o'r nodweddion arbennig hyn ar gyfer y Cynllun Rheoli.⁶⁹ Y rhai a ddaeth i'r amlwg oedd:

Ysblander arfordirol	Cyfoeth o gynefinoedd a bioamrywiaeth
Daeareg amrywiol	Ynysoedd
Amrywiaeth y dirwedd	Hygyrchedd
Cymeriad nodedig yr aneddiadau	Lle i enaid gael llonydd
Amgylchedd hanesyddol cyfoethog	Llonyddwch, a natur anghysbell a gwyllt
Treftadaeth ddiwylliannol	Yr amrywiaeth o brofiadau a chyfuniad o nodweddion unigol

- 4.62 Y strategaeth yw sicrhau bod datblygiad yn y Parc yn gwarchod ac yn gwella'r nodweddion arbennig hyn.
- 4.63 Gall hyd yn oed newidiadau bach yn y dirwedd gael effaith andwyol ac felly mae rhoi sylw i fanylion ac effeithiau cronus unrhyw newid yn ystyriaethau pwysig.
- 4.64 Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad Tirweddau a Morweddau.
- 4.65 Mae Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael ei gydnabod yn gyffredinol fel yr unig barc cenedlaethol ym Mhrydain sydd bennaf ar yr arfordir. Mae ysblander ei forlin, dylanwad y morwedd, ei olygfeydd ysblennydd, a'i harddwch gwyllt sydd heb ei ddifetha, yn cynnig golygfeydd o'r radd flaenaf, a gydnabuwyd yn ei ddynodiad fel Parc Cenedlaethol, ynghyd â'r ynysoedd trawiadol oddi ar Arfordir Sir Benfro. Mae'r adnoddau daearegol yn gymhleth ac yn cyfrannu'n sylweddol at harddwch naturiol yr ardal. Mae tirffurfiau amrywiol y Parc Cenedlaethol wedi'u gorchuddio gan filiynau o flynyddoedd o weithgarwch dynol sy'n ffurfio amgylchedd hanesyddol sy'n eithriadol o gyfoethog ac amrywiol. Mae'r aneddiadau, gan gynnwys ardaloedd trefol, yn cadw'u cymeriad cryf ac unigryw sy'n cwmparu pensaernïaeth draddodiadol a phensaernïaeth fwy ffurfiol, ac yn cynnig lleoedd deniadol i ymweld â hwy. Pensaernïaeth Sioraidd sydd amlycaf yn nhref furiog Dinbych-y-pysgod, ac mae aneddiadau ar gynllun yr Oesoedd Canol yn dal yn amlwg yn Nhrefdraeth ac Angle ynghyd â'r patrymau o gaeau sy'n gysylltiedig â hwy. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar Ardaloedd Cadwraeth.

⁶⁹ Papur Cefndir Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

- 4.66 Cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddyletswydd bioamrywiaeth newydd (Dyletswydd Adran 6) i helpu i wrthdroi'r dirywiad a sicrhau gwydnwch tymor hir i fioamrywiaeth yng Nghymru. At ei gilydd, mae amrywiaeth Cymru (mewn ecosystemau) yn dirywio a dangosir hynny gan y cynefinoedd a rhywogaethau sy'n diflannu. Mae 'maint' rhai cynefinoedd hefyd wedi crebachu'n sylweddol. Mae 'cyflwr' yn dangos canlyniadau cymysg, tra bod cysylltedd wedi lleihau'n sylweddol.⁷⁰ Mae yna gyfoeth o gynefinoedd a rhywogaethau pwysig yn y Parc Cenedlaethol. Rhaid ystyried y cynefinoedd a'r rhywogaethau yn y Parc o fewn cyd-destun ehangach bioamrywiaeth ac ymdrechion cadwraethol. Mae adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro yn 2016 yn awgrymu bod bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth yn dirywio. Fodd bynnag, lle gwnaed cryn ymdrech mae cynefinoedd a rhywogaethau yn sefydlogi ac yn gwella.⁷¹ Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro yn galluogi sefydliadau i weithio'n effeithlon tuag at nodau Cymru, y DU ac Ewrop ar gyfer bywyd gwyllt, o fewn fframwaith Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Sir Benfro Adfer Natur. Bydd yr Awdurdod yn paratoui Canllawiau Cynllunio Atodol ar fioamrywiaeth a fydd yn cynnwys canllawiau ar wydnwch ecolegol.
- 4.67 Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog ac amrywiol sydd wedi ei lunio drwy'r canrifoedd gan gyfnodau o oresgynnwyr a setlwyr. Mae hygyrchedd y Parc yn cael ei barchu lle mae'n hawdd symud o gwmpas a lle mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael yn hwylus. Mae'r ymdeimlad o dawelwch ac o fod yn anghysbell hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ymwelwyr. Gall hyn gynnwys awyr dywyll, heb lygredd golau.
- 4.68 Bydd y rhwydwaith o seilwaith gwyrdd yn y Parc Cenedlaethol yn cael ei gadw a'i wella i sicrhau ei fod yn cefnogi prosesau naturiol ac ecolegol ac yn rhan annatod o iechyd ac ansawdd bywyd trigolion ac ymwelwyr sy'n cael cyfle i ryngweithio â natur, a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, chwaraeon a ffyrdd iachach o fyw.⁷²

⁷⁰ Crynodeb o'r Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Medi 2016, tud.5

⁷¹ Adroddiad Cyflwr Bywyd Gwyllt yn Sir Benfro 2016

⁷² Gweler 6. Geirfa

Polisi 8 Nodweddion Arbennig⁷³ (Polisi Strategaeth)

Bydd nodweddion arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cael eu gwarchod a'u gwella.

Y blaenoriaethau fydd sicrhau:

- a) nad yw'r ymdeimlad o fod yn anghysbell a'r naws heddychlon yn cael ei golli a'i fod, lle bynnag y bo modd, yn cael ei wella (gweler⁰).**
- b) nad yw hunaniaeth a chymeriad trefi a phentrefi yn darfod, trwy fod datblygiadau yn cael eu cyfuno neu eu rhubanu, neu oherwydd bod datblygiad yn wael yn ei ddyluniad a'i lunwedd, a'u bod, lle bynnag y bo modd yn cael eu gwella. Bydd dynodi Lletemau Glas o gymorth i gyflawni'r flaenoriaeth hon.**
- c) bod patrwm ac amrywiaeth y dirwedd yn cael ei ddiogelu a lle bynnag y bo modd yn cael ei wella (gweler 0 a0).**
- d) bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei ddiogelu a lle bo modd yn cael ei wella⁷⁴ (gweler hefyd⁰).**
- e) bod datblygiad yn gwella ecosystemau'r Parc Cenedlaethol a'r cydrannau sy'n sail iddynt mewn modd cadarnhaol. Mae diogelu a gwella'r cysylltiadau rhwng safleoedd neu greu cysylltiadau**

⁷³ Mae Pennod 13 6Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraffau 6.6 i 6.9 yn ymdrin â sut y dylid mynd i'r afael â materion llygredd gydag unrhyw gais cynllunio. Mae paragraff 12.4.1 yn ymdrin â diogelu ansawdd dŵr a digonolrwydd y cyflenwad. Gweler Cylchlythyr 10/99 y Swyddfa Gymreig: Gofynion cynllunio mewn perthynas â defnyddio carthffosiaeth nad yw'n brif gyflenwad gan gynnwys tanciau septig mewn datblygiadau newydd Mae hyn yn cynnwys cyngor ar ddelio â diogelu ansawdd dŵr a bod digon o gylenwad ar gael. Gweler Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 008/2018 ar y gofynion Cynllunio o ran Defnyddio Carthffosiaeth Preifat sy'n ymgorffori Tanciau Septig mewn Datblygiad Newydd a gwaith bach trin carthion.

⁷⁴ Mae Pennod 6, Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, yn ymdrin â gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol. Mae canllawiau yng Nghylchlythyrau'r Swyddfa Gymreig 60/96 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Archaeoleg', a 61/96 'Cynllunio a'r Amgylchedd Hanesyddol: Adeiladau Hanesyddol ac Ardaloedd Cadwraeth' Mae nodyn Cyngor Technegol 24 Yr Amgylchedd Hanesyddol, hefyd yn rhoi canllawiau.

Ile mae safleoedd wedi'u hynysu yn arbennig o bwysig (gweler 0,0,0,0 a0).^{75 76 77 78 79}

- f) bod datblygiadau yn gwarchod, a lle bynnag y bo modd, yn gwella safleoedd yr Adolygiad o Gadwraeth Ddaearegol neu unrhyw adnoddau daearegol pwysig arall (gweler0).⁸⁰**
 - g) bod rhywogaethau a chynefinoedd yn cael eu cadw a'u gwella am eu gwerth o ran amwynder, tirwedd a bioamrywiaeth (gweler0).**
 - h) bod y Gymraeg yn parhau'n elfen bwysig ym mywyd cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd llawer o gymunedau yn y Parc (gweler0).**
 - i) bod unrhyw ddatblygiad ar rannau o'r arfordir sydd heb eu datblygu yn cael ei osgoi, a bod safleoedd ar y rhannau hynny o'r arfordir a ddatblygwyd yn cael eu diogelu at dibenion y mae'n rhaid iddynt fod ar yr arfordir (gweler0,0,0 a0).⁸¹**
 - j) bod y rhwydwaith o seilwaith gwyrdd y Parc Cenedlaethol, y newydd a'r presennol, yn cael ei ddiogelu a'i wella (gweler0,0,0,0, a0).**
- Wrth asesu'r effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, rhoddir ystyriaeth benodol i'r manylion a'r effeithiau cronus.**

4.69 Mae'r polisïau a'r cyngor isod yn darparu canllawiau ychwanegol ar ddiogelu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

⁷⁵ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018, Llywodraeth Cymru, Pennod 6

⁷⁶ Yn cynnwys safleoedd Natura 2000, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol a Gwarchodfeydd Natur Morol

⁷⁷ Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (WFD) (2000/60 / EC) a gyflwynwyd trwy gyfrwng Rheoliadau Amgylchedd Dŵr (Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) 2003

⁷⁸ Polisi Adnoddau Naturiol, Llywodraeth Cymru, tud.10

⁷⁹ Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

⁸⁰ Adolygiad Cadwraeth Ddaearegol [GCR]: mae'r safleoedd a ddewiswyd yn sail i warchod safleoedd daearegol a geomorffolegol statudol ym Mhrydain. Dynodiadau cynghorol yw Safleoedd Geoamrywiaeth Rhanbarthol Pwysig [RIGS]

⁸¹ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016-10, Rhagfyr 2018, gweler adran 6.5.7.2

Llygredd Golau

Polisi 9

Llygredd Golau

Rhaid i gynigion sy'n debygol o arwain at ♠ollwng♠ lefel sylweddol o ~~olau~~ ♠oleuadau artiffisial allanol gynnwys cynllun goleuo llawn a ~~byddant yn cael eu caniatáu ac fe'u caniateir~~♠

a) lle mae'r goleuadau arfaethedig yn gysylltiedig â'u diben; a

b) lle nad oes effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad yr ardal, trigolion lleol, defnyddwyr cerbydau, cerddwyr, bioamrywiaeth a'r gallu i weld awyr y nos.

Lle bynnag y bo modd, dylid archwilio cyfleoedd i liniaru effeithiau cronrus posibl ar awyr y nos.

- 4.70 Mae rhannau o Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn dal heb eu datblygu ac ychydig o effaith y maent yn ei chael ar awyr y nos. Bwriad y polisi hwn yw gwarchod hynny a hefyd sicrhau bod unrhyw oleuadau a fwriedir yn gysylltiedig â'u diben, megis diogelwch safle neu lifoleuadau mewn cyfleusterau hamdden. Wrth eu dylunio'n ofalus ac ystyried dulliau priodol o oleuo a'r lefel o olau, gellir lleihau'r effaith ar ardaloedd cyfagos. ♠ Dylai'r rhesymau dros gyflwyno goleuadau i gynllun datblygu gael eu clustnodi ar y dechrau'n deg. Yn lle cymryd yn ganiataol bod angen cael goleuadau, dylai hyrwyddwyr cynlluniau goleuo ystyried yn ofalus a allai'r datblygiad fynd rhagddo heb oleuadau.♠ Mae posibilrwydd hefyd y gallai llygredd golau effeithio'n andwyol ar safleoedd Natura 2000 lle mae llwybrau teithio/safleoedd clwydo ystlumod yn yr un man â datblygiad. Gallai cyfleoedd godi ar dir gerllaw yn yr un perchnogaeth i liniaru'r effeithiau cronrus posibl. Gall cynigion, yn unigol neu'n gronrus, gael effaith andwyol annerbyniol. Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar oleuadau.

Bioamrywiaeth

- 4.71 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac i hyrwyddo gwydnwch ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i bennu a gwireddu amcanion wrth geisio cyrraedd y nod llesiant i gynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau bywiog ac iach sy'n cefnogi gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid.
- 4.72 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol mewn

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2

Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♠

ardaloedd a safleoedd a rhywogaethau a ddiogelir sydd â dynodiad cadwraeth natur statudol (gan gynnwys y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf i Gymru, a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig).⁸² Gweler Pennod 5 Gwarchod a Gwella'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir 6 'Lleoedd Nodedig a Naturiol'. Dangosir safleoedd dynodedig ar y Map Cyfyngiadau.⁸³ Yn Nodyn Cyngor Technegol 5, Cadwraeth Natur a Chynllunio, 2009, mae cyngor ynghylch sut y gallai'r system cynllunio'r defnydd o dir gyfrannu at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a chadwraeth ddaearegol, a dylid ei ddarllen ar y cyd â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018 Bydd datblygiadau a allai gael effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar lefel prosiectau.

Polisi 10	Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd ♠(1)♠ Ni chaniateir datblygiadau sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd, o'u hystyried ar eu pennau eu hunain neu mewn cyfuniad â phrosiectau neu gynlluniau eraill, oni bai: a. bod y cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â diogelu, gwella neu reoli'r safle'n gadarnhaol at ddibenion cadwraeth, neu'n angenrheidiol i hynny; neu b. yn dilyn asesiad priodol, na fydd y cynnig yn effeithio'n andwyol ar ddiwylliedd y safle; neu c. nid oes ateb arall ac mae rhesymau o fudd cyhoeddus sy'n drech na'r ystyriaethau eraill a gofelir bod camau'n cael eu cymryd i wneud iawn am unrhyw golledion. ♠(2)♠ Ni chaniateir datblygiadau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar rywogaeth warchodedig Ewropeaidd, oni bai: a) bod rhesymau o fudd cyhoeddus sy'n drech na'r ystyriaethau eraill; b) nad oes dewis boddhaol arall; ac c) na fydd y camau gweithredu a ganiateir yn
------------------	--

⁸² Gweler 6. Geirfa.

⁸³ (gweler tudalen 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol am ragor o wybodaeth)
 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
 Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♠

effeithio'n andwyol ar y gallu i gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol yn eu hystod natur.

Polisi 11

Safleoedd a Rhywogaethau a Warchodir yn Genedlaethol

♣(1)♣ Ni chaniateir datblygiadau sy'n debygol o gael effaith andwyol, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar werth cadwraeth safleoedd a warchodir yn genedlaethol oni bai:

- a) nad oes dewis addas arall heblaw'r datblygiad arfaethedig; a**
- b) y gellir dangos bod manteision y datblygiad yn amlwg yn drech na nodweddion arbennig y safle; ac**
- c) y gofelig bod camau'n cael eu cymryd i wneud iawn am unrhyw golledion; neu**
- d) bod y cynnig yn cyfrannu at ddiogelu, gwella neu reoli'r safle yn gadarnhaol.**

♣(2)♣ Ni chaniateir datblygiadau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar rywogaethau a warchodir yn genedlaethol oni bai:

- a) na achosir effaith andwyol ar ystod poblogaeth a dosbarthiad y rhywogaeth;**
- b) nad oes dewis addas arall heblaw'r datblygiad arfaethedig; ac**
- c) bod manteision y datblygiad yn amlwg yn drech na'r effaith andwyol ar y rhywogaeth a warchodir; a**
- d) y darperir mesurau osgoi, lliniaru a digolledu priodol.**

Polisi 12

♣Gwarchodfeydd Natur Lleol neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol Ardaloedd Lleol o Gadwraeth Natur neu Safleoedd o Ddiddordeb Daearegol (gweler y Map Cynigion)

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi effaith andwyol annerbyniol ar werth cadwraeth natur

**Gwarchodfa Natur Lleol neu safle arall o ddiddordeb
cadwraeth natur lleol, na phrif nodweddion o
ddiddordeb mewn Safle Geoamrywiaeth o
Bwysigrwydd Rhanbarthol. Dylid archwilio
cyfleoedd ar gyfer eu gwella.**

**Caniateir cynigion datblygu fyddai'n effeithio ar
Warchodfeydd Natur Lleol, Safleoedd Geo-
amrywiaeth o Bwys Rhanbarthol neu ardaloedd
eraill o ddiddordeb cadwraeth natur lleol dim ond
lle maent:**

**a) yn gwarchod pwysigrwydd treftadaeth naturiol y
safle ac yn eu gwella lle bo hynny'n bosibl; neu**

**b) na ellid yn rhesymol leoli'r datblygiad mewn man
arall, a bod buddion y datblygiad yn gorbwyso
pwysigrwydd treftadaeth naturiol y safle.**

**Bydd angen cytuno ar fesurau lliniaru a/neu iawndal
lle nad oes modd osgoi effeithiau andwyol.♣**

4.73 ♣Gall safleoedd lleol o ddiddordeb i gadwraeth natur fod yn rhai sydd wedi cael cydnabyddiaeth ffurfiol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol (a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau), neu'n rhai nad ydynt wedi cael cydnabyddiaeth ffurfiol ond bod iddynt werth pwysig o ran cadwraeth natur, serch hynny. Gall gwerth safle gynnwys ei rôl fel coridor bywyd gwyllt neu fel cynefin megis glaswelltir heb ei wella, cynefinoedd arfordirol a gweundir a rhostir, yn ogystal â nodweddion megis ymylon ffyrdd. Nid yw'n bosibl nodi safleoedd o'r fath ar y Map Cynigion Gellir lleoli safle datblygu mewn ardal o bwysigrwydd lleol ar gyfer cadwraeth natur. Efallai y bydd rhai yn cael eu cydnabod yn ffurfiol, megis Gwarchodfeydd Natur Lleol (a ddangosir ar y Map Cynigion), neu efallai na chânt eu cydnabod yn ffurfiol ond eu bod yn rhoi gwerth pwysig o ran cadwraeth natur. Gall gwerth safle gynnwys ei rôl fel coridor bywyd gwyllt neu fel cynefin megis glaswelltir heb ei wella, cynefinoedd arfordirol a rhostir a gweundir, yn ogystal â nodweddion megis ymylon ffyrdd. Nid yw'n bosibl clustnodi'r cyfryw ardaloedd ar y Map Cynigion. a diben y polisi hwn yw sicrhau bod datblygiad a fyddai'n niweidio gwerth safle o ran cadwraeth natur yn mynd ati'n briodol i leihau, lliniaru, digolledu a darparu buddion newydd.♣

4.74 Mae Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru yn cadw cronfa ddata o gofnodion am rywogaethau a gwybodaeth am gynefinoedd. Mae'n rheoli'r gronfa ddata ac yn ei dosbarthu i wneuthurwyr penderfyniadau, sefydliadau cadwraeth a'r cyhoedd yn gyffredinol i roi gwybod iddynt am bresenoldeb a lleoliad rhywogaethau a chynefinoedd blaenoriaeth yr UE a'r DU, a rhai sy'n bwysig i Gymru ac yn lleol. Gall

cofnodion y Ganolfan Cofnodion Lleol fod yn arbennig o ddefnyddiol ar y cam cyn ymgeisio ac anogir y cyhoedd i gysylltu â'r Ganolfan cyn cyflwyno cais. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r Ganolfan Cofnodion Lleol i helpu i sefydlu a oes elfennau o bwys i gadwraeth natur leol ar safle datblygu. Lle mae yno elfennau o bwys i gadwraeth natur leol a fyddai'n cael eu niweidio'n sylweddol gan ddatblygiad, efallai y bydd angen i'r Awdurdod ofyn am ragor o wybodaeth ar ffurf arolygon ecolegol a bydd yn ymchwilio i opsiynau i leihau, lliniaru, digolledu a darparu buddion newydd. Rhaid dangos bod yr effeithiau yn cael eu lliniaru'n dderbyniol trwy ddylunio gofalus, amserlennu gwaith neu fesurau eraill.

Para newydd: Byddai ardaloedd o bwys ar gyfer cadwraeth natur yn lleol yn cael eu clustnodi fel ardaloedd sydd:

- yn cefnogi cynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf i Gymru.
- yn cefnogi, neu'n debygol o gefnogi, rhywogaethau o'r pwys mwyaf i Gymru ar gyfer eu cylch bywyd cyfan neu ran ohono.
- yn darparu coridorau ecolegol, cerrig camu, neu sy'n cynnwys nodweddion sy'n gwella cysylltedd cynefinoedd a gwydnwch ecolegol safleoedd o bwys rhwngwladol, cenedlaethol a lleol.
- yn darparu gwasanaethau ategol i safleoedd o bwys neu sy'n eu clustogi (e.e. cysylltedd hydrolegol).

4.75 Dynodir Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol gan Geoconservation Cymru – Wales. Fe'u dangosir ar ♣Fap Cyfyngiadau'r Cynllun. ♣Cynigion. ♣ Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwysigrwydd Rhanbarthol yn cael eu paratoi a fydd yn nodi lleoliad y safleoedd dynodedig hyn a'r prif nodweddion o ddiddordeb a ganfuwyd ym mhob dynodiad.

Polisi 13

♣Diegelu Bioamrywiaeth

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi effaith andwyol annerbyniol ar rywogaethau a warchodir neu ar eu cynefinoedd, neu ar ddiwylliedd cynefinoedd, safleoedd neu nodweddion eraill sy'n bwysig i fywyd gwyllt a rhywogaethau unigol. Dylid archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella.♣

4.76 Nod y polisi hwn yw sicrhau na fydd datblygiadau arfaethedig yn niweidio rhywogaethau a'u cynefinoedd, gan gynnwys, er enghraifft, y rhai a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Hefyd mae'r polisi hwn yn anelu at sicrhau nad yw rhywogaethau a'u cynefinoedd, gan gynnwys er enghraifft y rhai a glustnodwyd yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Sir Benfro, yn cael eu niweidio gan ddatblygiad arfaethedig. Rhaid dangos bod yr effeithiau yn cael eu lliniaru'n dderbyniol trwy

ddylunio gofalus, amserlennu gwaith neu fesurau eraill. Dylid archwilio cyfleoedd i ddarparu buddion newydd hefyd. Gweler hefyd y polisiau a'r canllawiau yng ngweddill yr adran hon ar Fioamrywiaeth.

Y Gymraeg

- 4.77 Nodir nodau ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn Strategaeth y Gymraeg 2050. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i ddarparu cyfleoedd hawdd eu cael i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'u sgiliau mewn lleoliadau cymdeithasol a gwaith. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi ei bod yn hanfodol creu amgylchiadau ffafriol i annog nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn golygu sicrhau ewyllys da tuag at yr iaith a darparu seilwaith, fel technoleg a deddfwriaeth, ond mae hefyd yn ymwneud â sicrhau dyfodol economaidd a chymdeithasol i gymunedau sy'n siarad Cymraeg.
- 4.78 Bydd dyfodol yr iaith ar draws Cymru yn dibynnu ar ystod eang o ffactorau y tu hwnt i'r system cynllunio gwlad a thref, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i sicrhau cymunedau cynaliadwy ffyniannus. Gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy sefydlu'r amodau i alluogi cymunedau cynaliadwy i ffynnu. Er enghraifft, mae creu amodau ar gyfer cyfleoedd i gael gwaith sy'n talu'n dda ac ystod o opsiynau tai o safon yn rhan annatod o gynllunio ar gyfer cymunedau cynaliadwy.
- 4.79 Mae'r Papur Cefndir ar y Gymraeg yn rhoi cyngor ar y dull a gymerwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd hefyd yn darparu asesiad o effeithiau cynigion ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- 4.80 Mae'r Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol a diwylliannol y Parc Cenedlaethol. Fe'i siaredir gan 19.2% o'r boblogaeth ac mae gan eraill rywfaent o wybodaeth o'r iaith neu y maent wrthi'n ei dysgu, er enghraifft, trwy'r cynnydd yn yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn y Sir. Mae amrywiadau sylweddol rhwng y gyfran sy'n siarad Cymraeg mewn gwahanol gymunedau. Mae strategaeth y Cynllun yn cydnabod ac yn amddiffyn yr iaith fel un o'r Nodweddion Arbennig (Gweler0). Fel arfer bydd y polisi isod yn gymwys yn ardaloedd y Cynghorau Cymuned a Thref lle mae 19.2% neu ragor o bobl yn siarad Cymraeg, fel y nodwyd yn y Cyfrifiad.

<u>► Crymych</u>	<u>Llanrhian</u>	<u>Trefdraeth</u>
<u>Cwm Gwaun</u>	<u>Llawhaden</u>	<u>Pencaer</u>
<u>Dinas Cross</u>	<u>Maenclochog</u>	<u>Cas-mael</u>
<u>Eglwyswrw</u>	<u>Mathri</u>	<u>Solfach</u>
<u>Abergwaun ac Wdig</u>	<u>Mynachlog-ddu</u>	<u>Tyddewi</u>
<u>Cas-lai</u>	<u>Nanhyfer</u>	<u>Llandudoch ◀</u>

At ddibenion y polisi hwn, adnabyddir yr ardaloedd hyn ► (fel y rhestrir uchod) ◀ fel 'ardaloedd sy'n sensitif i'r Gymraeg'.

- 4.81 Mae cyngor y Llywodraeth ar faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'i nodi yn Nodyn Cyngor Technegol 20 (Hydref 2017) sy'n dweud y gall y system gynllunio gyfrannu at les y Gymraeg yn y dyfodol trwy greu'r amodau fyddai'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu.

Polisi 14	Datblygiad mewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg
	♣ Bydd datblygu ar hap o fewn Ardaloedd sy'n Sensitif i'r Gymraeg (a ddangosir ar y Map Cynigion), yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg, yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, gan nodi'r mesurau i'w cymryd i ddiogelu, hyrwyddo a gwella'r iaith. O fewn yr Ardaloedd a glustnodwyd yn Sensitif o ran yr Iaith Gymraeg (a ddangosir ar y Map Cynigion), bydd cynigion yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Iaith, gan nodi'r mesurau i'w cymryd i amddiffyn, hyrwyddo a gwella sefyllfa'r Gymraeg. <u>Y cynigion yr ystyrir eu bod yn debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg yw'r rhai sydd y tu allan i ffiniau'r Ganolfan a chynigion ydynt ar gyfer:</u> <u>a) datblygiad preswyl o ddeg annedd neu fwy neu bod lle ar y safle i 10 annedd neu fwy; neu</u> <u>b) datblygiad lle mae'r arwynebedd llawr a grëwyd mewn adeilad neu adeiladau yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu</u> <u>c) bod y safle yn mesur mwy nag i hectar.♣</u> Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n achosi effaith andwyol annerbyniol ar y Gymraeg.

- 4.82 Gall mesurau lliniaru leihau neu ddileu effeithiau andwyol posibl datblygiad ar y Gymraeg. Fodd bynnag, lle gellir dangos yn rhesymol, ar sail cynllunio (er enghraifft, graddfa'r datblygiad arfaethedig), y gallai datblygiad achosi niwed i rôl a lles parhaus y Gymraeg yn y gymuned honno, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gwrthwynebu datblygiad o'r fath.

- 4.83 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 ar yr iaith Gymraeg, Hydref 2017, yn cynghori y bydd polisiâu mabwysiedig y Cynllun Datblygu Lleol eisoes wedi cymryd i ystyriaeth anghenion a budd y Gymraeg, gan gynnwys y goblygiadau yn achos hap-safleoedd, ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad sy'n cydymffurfio â pholisiâu'r Cynllun.⁸⁴ Ni ddylai'r safleoedd hyn, na'r safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun, felly fod yn destun asesiad o'r effaith ar y Gymraeg gan fod hyn eisoes yn ofyniad wrth baratoi'r Cynllun. ~~♣Dim ond yn achos datblygiadau ar raddfa fawr ar hap-safleoedd sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y Gymraeg mewn ardaloedd penodol sy'n sensitif i'r iaith y bydd angen asesiad o'r effaith debygol ar y Gymraeg. At ddibenion y polisi hwn ystyrir mai 'ar raddfa fawr' yw 'datblygiad mawr' fel y'i diffinnir yng Ngrchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (gweler Atodiad 1 Tir gyda Chaniatâd Cynllunio neu Orchymyn Datblygu am esboniad).~~♣ Awdurdod y Parc Cenedlaethol fydd yn gyfrifol am gynnal unrhyw asesiad y mae'n ei ystyried yn ofynnol, a ffurf yr asesiad hwnnw.
- 4.84 Mae'r ardal wedi'i nodi ar y Map Cynigion. Fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynnyddol bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried a fu unrhyw newid cyd-destunol sylweddol o ran y sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi'r polisi hwn. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes angen newidiadau ac a oes angen cynnal adolygiad penodol cyn yr un swyddogol ymhen pedair blynedd.
- 4.85 Efallai y bydd angen cymhwyso mesurau lliniaru i unrhyw ganiatâd, naill ai trwy osod amodau ar ganiatâd cynllunio neu drwy rwymedigaethau adran 106. Rhaid i bob rhwymedigaeth adran 106 mewn perthynas â lliniaru'r effeithiau ar y Gymraeg, y tybir eu bod yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn dderbyniol yn nhermau cynllunio ac sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r datblygiad, gydymffurfio â rheoliadau. Mae mesurau priodol posibl yn cynnwys: ~~♣polisiâu graddol sy'n ategu llwybr cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol.~~
- cyflwyno polisiâu fesul cam sy'n ategu'r llwybr cyffredinol o gyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol;
 - polisiâu graddol sy'n ategu'r llwybr cyflawni'r Cynllun Datblygu Lleol
 - darparu tai fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol;
 - nodweddion sy'n hyrwyddo'r Gymraeg fel elfen gynhenid o ddyluniad a chynllun;
 - cymorth i ddarparu neu i wella addysg cyfrwng Cymraeg;
 - cymorth ariannol ar gyfer mentrau sy'n ennyn ymwybyddiaeth o'r iaith a diwylliant Cymraeg. ♣
- 4.86 Ni ddylid dehongli'r polisi hwn fel un sy'n cyfiawnhau datblygiad na fyddai fel arall yn dderbyniol, dim ond am ei fod yn cyfrannu at ddiogelu'r Gymraeg yn y gymuned. Cyngor Llywodraeth Cymru yw na ddylai polisiâu gyflwyno unrhyw elfen o wahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu

⁸⁴ Gweler 6. Geirfa

gallu ieithyddol. Rhaid i bolisiau cynllunio beidio â cheisio rheoli meddiannaeth o dai ar sail ieithyddol.⁸⁵

Yr Amgylchedd Hanesyddol

- 4.87 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar rai materion nad ydynt yn cael eu hailadrodd yma. Cyfeiriwch at Bennod 6 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, ~~Argraffiad 9~~ ar gyfer:
- a) gwarchod gweddillion archaeolegol;
 - b) cadw adeiladau rhestredig, y defnydd hyfyr gorau posibl a'u dymchwel;
 - c) datblygu mewn ardal gadwraeth gan gynnwys dymchwel a choed. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth yn cael eu paratoi (a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau);
 - d) diogelu tirweddau, parciau neu erddi hanesyddol a'u lleoliad (a ddangosir ar y Map Cyfyngiadau);
 - e) Henebion Cofrestredig a gweddillion archaeolegol (dangosir henebion ar y Map Cyfyngiadau);
 - f) galluogi datblygiadau, lle gall buddion treftadaeth sylweddol fod yn drech nag amcanion eraill o bolisi cynllunio cenedlaethol neu leol.
 - g) trefwedd fel nodwedd drefol hanesyddol o bwys
- 4.88 Mae Deddf Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn ganolog i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol. Mae'r ddeddf hon, ynghyd ag is-ddeddfwriaeth, polisi a chynghor cynllunio newydd a diweddar, yn anelu at wella'r systemau presennol ar gyfer diogelu a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Fel rhan o'r pecyn hwn, mae ~~Pennod 6 'Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol' o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016~~, mae Polisi Cynllunio Cymru wedi cael ei diweddarau a bydd Nodyn Cyngor Technegol newydd 24, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol', ac amryw ganllawiau o ran yr arfer gorau yn cael eu paratoi. ac amrywiol ddogfennau canllaw ar arferion gorau wedi'u llunio.
- 4.89 Wrth ystyried potensial archaeolegol safle datblygu arfaethedig, bydd gwybodaeth o'r Cofnod Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed yn cael ei ystyried. Mae'r cofnod hwn yn cael ei gydnabod yn swyddogol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud â'r Amgylchedd Hanesyddol.

Polisi 15

Diogelu Adeiladau o Bwysigrwydd Lleol

Caniateir datblygiad sy'n effeithio ar adeiladau sy'n gwneud cyfraniad pwysig i gymeriad a diddordeb yr ardal leol os caiff eu golwg unigryw, eu didwylled

⁸⁵ Paragraff 2.6.4 Nodyn Cyngor Technegol 20, y Gymraeg, 2017
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♠NMC♣

pensaernïol neu eu lleoliad eu diogelu a, lle bo modd, eu gwella.♣

4.90 ~~♣~~ Mae'r Parc Cenedlaethol yn gyfoethog mewn adeiladau nad ydynt wedi'u rhestru ond oherwydd eu pensaernïaeth a'u hadeiladwaith brodorol, maent yn hanfodol i gymeriad a diddordeb yr anheddiad neu'n elfennau pwysig yn y dirwedd.

4.91 Defnyddir y meini prawf a ganlyn ar gyfer dethol:

- a) ~~y~~ graddau y mae'r adeilad yn parhau yn ei ddiwylliedd gwreiddiol;
- b) ~~ansawdd~~ pensaernïaeth yr adeilad unigol;
- c) ~~lleoliad a dylanwad ar y~~ drefwedd neu'r dirwedd;
- d) ~~cysylltiad â ffigur neu ddigwyddiad lleol~~ pwysig.

4.92 ~~Wrth ystyried cynigion datblygu, bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw dyledus i'r gwahaniaeth yn statws adeiladau o bwysigrwydd lleol a'r rhai sydd wedi'u rhestru'n statudol ac, felly, lefel yr amddiffyniad y maent yn eu hawlio yn y drefn honno.♣~~

Tirwedd

Polisi 16	Gwarchod a gwella Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
	Ni chaniateir datblygiad lle byddai hyn yn cael effaith andwyol annerbyniol ar nodweddion a chymeriad tirwedd a morwedd arbennig Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro gan gynnwys nodweddion unigryw lleol drwy:
	a) achosi ymyrraeth weledol; a/neu,
	b) cyflwyno neu ddwysáu defnydd sy'n anghydnaws â'i leoliad; a/neu
	c) beidio â gweddu â neu wella cymeriad tirffurf, tirwedd a morwedd y Parc Cenedlaethol; a/neu
	d) colli neu fethu â chynnwys nodweddion traddodiadol pwysig.
	Wrth asesu'r effaith ar y Parc Cenedlaethol, rhoddir ystyriaeth arbennig i'r manylion a'r effaith gronnus.

4.93 Diben y polisi hwn yw sicrhau nad yw nodweddion tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cel eu colli i genedlaethau'r dyfodol. Mae Oyn nodi nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016-10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.6.3.65 yn cyngori~~ bod yn rhaid i Barciau Cenedlaethol gael y statws uchaf o ddiogelwch rhag datblygiadau amhriodol. Yn y Parciau Cenedlaethol, dylai polisiâu'r cynllun datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygu roi pwys

mawr ar warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardaloedd hyn.

- 4.94 Mae asesiad tirwedd yn ymgorffori daeareg, cynefinoedd yn y dirwedd, nodweddion gweledol a synhwyraidd, tirweddau hanesyddol, tirweddau diwylliannol a chanfyddiad y cyhoedd. Mae dull cymeriad tirwedd yn gyfle i gydnabod a gwella nodweddion penodol a gwerthfawr ar draws y Parc Cenedlaethol. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar Gymeriad Tirwedd yn cael eu paratoi. Bydd y canllawiau yn nodi meysydd o gymeriad tirwedd cyffredin, eu nodweddion arbennig, tueddiadau tirwedd amlwg a chanllawiau rheoli. Mewn llawer o achosion, nid yw ffiniau tirwedd yr ardal gymeriad yn cyfateb â ffin y Parc Cenedlaethol, sy'n golygu bod yr un ardal cymeriad tirwedd yn parhau i ardal weinyddol Sir Benfro gan awgrymu y gall ardaloedd sensitif o dirwedd o werth uchel hefyd fod y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Mae 28 o ardaloedd cymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol wedi'u dynodi yn yr Asesiad Cymeriad Tirwedd a baratowyd ar ran yr Awdurdod.⁸⁶
- 4.95 Mae 44 o Ardaloedd Cymeriad Morwedd hefyd wedi'u dynodi yn yr Asesiad o Gymeriad Morweddau a baratowyd ar ran yr Awdurdod.⁸⁷ Gellir disgrifio pob ardal o ran ei nodweddion allweddol, dylanwadau ffisegol, dylanwadau diwylliannol a nodweddion o ran estheteg, canfyddiadau a phrofiadau. Diffinnir ei fanteision diwylliannol a'i wasanaeth a sensitifrwydd allweddol a chaiff y prif rymoedd dros newid sy'n effeithio ar yr ardal eu trafod. Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar Forweddau. Mae'r asesiad yn cynnwys dyfroedd tiriogaethol hyd at 12 milltir allan i'r môr, ac mae'n ymestyn o Ynys Aberteifi yn y gogledd i aber Taf ym Mae Caerfyrddin yn y de. Mae'r ardal astudio yn ymestyn i'r mewn i'r gynnwys ardaloedd Aberdaugleddau y tu allan i'r Parc, a hyd at derfynau'r llanw yn y Daugleddau.
- 4.96 Mae sylw i fanylion, ac effeithiau cronus newidiadau, yn ystyriaethau pwysig. Mae newidiadau yn y dirwedd sy'n ymddangos yn rhai bach, yn gallu cael effaith niweidiol; mae adeiladau unigol amlwg neu ddefnydd eang o dueddiadau anaddas ym manylion y cynllun, yn gallu cael effaith llawer mwy eang na'r ardal leol ac, ar y cyd, fe fyddant yn newid cymeriad tirwedd y Parc Cenedlaethol, sy'n aml yn fregus, mewn ffordd gynnil ond mewn ffordd na fydd modd ei gwrthdroi.
- 4.97 Pan fydd posibilrwydd y bydd datblygiad, boed naill ai ar y lan neu oddi ar y lan, yn ymyrryd yn weledol yn sylweddol, dylid asesu effeithiau, fel sy'n berthnasol, o'r manau a ganlyn:
- a) manau mynediad cyhoeddus;
 - b) Llwybr yr Arfordir (Llwybr Cenedlaethol);
 - c) Hawliau Tramwy Cyhoeddus (yn ogystal â'r briffordd gyhoeddus);

⁸⁶ Papur Cefndir: Asesiad Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2007

⁸⁷ Papur Cefndir: Asesiad Cymeriad Morwedd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Ebrill 2013

- d) golygfeydd wrth gyrraedd aneddiadau ac ymadael â hwy;
 - e) golygfeydd wrth gyrraedd y Parc Cenedlaethol ac ymadael ag ef;
 - f) yr ynysoedd alltraeth;
 - g) cychod ar y Daugleddau a dyfroedd arfordirol;
 - h) golygfannau pwysig o fewn aneddiadau.
- 4.98 Dylid rhoi sylw penodol i olygfeydd canolig a phell, yn ogystal â'r effeithiau mwy amlwg ar strydweddau ac ardaloedd gerllaw, gyda phwyslais arbennig ar yr effaith ar Adeiladau Rhestredig, Henebion Cofrestredig ac Ardaloedd Cadwraeth. Mae angen ystyried yr effaith ar nodweddion hanesyddol arbennig tirweddau, parciau a gerddi hanesyddol i ddiogelu'r dynodiadau hyn. Mae angen ystyried golwg adeiladau unigol a grwpiau o adeiladau, ac aneddiadau yn eu tirweddau, manylion traddodiadol adeiladau a thriniaeth ffiniau hefyd. Mae plannu gan ddefnyddio coed a phrysglwyni brodorol, a thirlunio, lle bo hynny'n briodol, yn gallu cyfoethogi a helpu datblygiadau newydd i ymdoddi i'r ardaloedd o'u hamgylch. Gallai hyn yn helpu i wneud iawn am golli nodweddion gwreiddiol.
- 4.99 O ystyried maint daearyddol cyfyngedig y Parc Cenedlaethol a'i natur arfordirol agored, mae unrhyw ddatblygiad mawr neu ddatblygiad ar raddfa fawr yn debygol o fod yn anghydnaws, o ran ei olwg, â thirwedd a morwedd y Parc Cenedlaethol. Gall datblygiad y tu allan i'r Parc Cenedlaethol gael effaith ar nodweddion y Parc Cenedlaethol a bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn defnyddio'r un egwyddorion a nodir yn ôrwrth roi sylwadau ar gynigion y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Gweler hefyd 'Datblygiadau Mawr', 'Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol' a 'Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol yng Nghymru' yn y bennod nesaf.
- 4.100 Lle byddai datblygiad yn gyfystyr â chyflwyno neu ddwysáu defnydd sy'n anghydnaws â lleoliad, er enghraifft gweithgareddau swmlyd mewn lleoliad cymharol dawel, ni fyddai Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystyried y fath ddatblygiad yn briodol.

Mannau Agored a Lletemau Glas

- 4.101 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar fannau agored ffurfiol, anffurfiol, caeau chwarae a lletemau glas. Darllenwch ~~Bennod 11 'Twristiaeth, Chwaraeon a Hamdden' a Phennod 4 'Cynllunio ar gyfer Cynaliadwydd'~~ adran 4.5 a pharagraffau 4.1.18 i 4.1.24 a 3.60 i 3.73.
- 4.102 Dangosir yr ardaloedd presennol o Fannau Agored a Lletemau Glas ar y Map Cynigion a byddant yn cael eu diogelu rhag datblygu yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol. Diweddarwyd Asesiad Mannau Agored yr Awdurdod yn 2016 ac mae'n nodi faint o fannau hamdden agored sydd ar gael mewn Canolfannau a chymunedau ledled y Parc Cenedlaethol. ♣ Ymhlith y mathau o Fannau Agored a glustnodwyd mae man agored ffurfiol ac anffurfiol ar gyfer hamdden, mynwentydd eglwysi, man amwynder, rhandiroedd, man agored wedi'i gynllunio o fewn datblygiadau presennol a chaeau ysgol. Yn seiliedig ar safonau

darpariaeth Meysydd Chwarae Cymru yn yr Asesiad.♣ Yn seiliedig ar safonau darpariaeth Fields in Trust, mae'n nodi hefyd lle mae prinder mathau penodol o fannau hamdden. Defnyddir yr asesiad o fannau hamdden agored i nodi lle bydd angen rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu ar gyfer anghenion yn y dyfodol o ganlyniad i ddatblygiad ychwanegol mewn cymunedau. Mae hyn yn cynnwys gofynion ar gyfer y dyraniadau tai a nodir yn y Cynllun. Ni ellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio i gyflenwi lle mae diffyg yn y ddarpariaeth. Lle mae'r rhain yn bodoli bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau cynllunio i ddarparu cyfleusterau ychwanegol mewn lleoliadau priodol.

4.103 ♣Symud isod Polisi 17♣

Polisi 17	Mannau Agored ♣a Lletemau Glas ★ Dangosir y Mannau Agored a'r Lletemau Glas presennol ar y Map Cynigion. Pan fydd datblygiad preswyl newydd yn creu angen, bydd angen darparu mannau agored neu sierhau cyfraniadau tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle (gweler hefyd0). <u>Ni chaniateir cynigion sy'n arwain at gollir Mannau Agored pressenol (a ddnogosir ar y Map Cynigion) oni bai y gellir dangos:</u> <u>a) bod gormodedd o'r cyfryw ddarpariaeth yn yr ardal;</u> <u>b) bod y gofyniad tymor hir ar gyfer y math o fan agored wedi dod i ben;</u> <u>c) na fyddai'r dafle yn addas i ddarparu math arall o fan agored y mae diffyg ar ei gyfer; neu</u> <u>d) y gellir cynnig darpariaeth amgen o'r un safon mewn ardal sydd yr un mor hygyrch i'r gymuned leol;</u> <u>e) y byddai ailddatblygu rhan fach o'r safle yn caniatáu cadw a gwella'r cyfleuster fel adnodd hamdden.</u> <u>Fel rheol gofynnir am ddarparu Mannau Agored newydd gan ddatblygiadau tai o 10 annedd neu fwy.</u>
------------------	---

Bydd math a natur y mannau agored yn cael ei bennu yn ôl maint a lleoliad y datblygiad a gallant fod ar ffurf darpariaeth ar y safle, cyfraniadau ar gyfer mannau agored oddi ar y safle, neu gyfuniad o'r ddau.♣

4.103 ♣Darperir mwy o fanylion am gymhwyso safonau'r mannau agored yn y canllawiau cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio.♣

**♣Polisi
Newydd**

♣Mannau Agored a Lletemau Glas



~~Dangosir y Mannau Agored a'r Lletemau Glas presennol ar y Map Cynigion.~~

~~Pan fydd datblygiad preswyl newydd yn creu angen, bydd angen darparu mannau agored neu sierhau cyfraniadau tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle (gweler hefyd0).~~

Er mwyn atal cyfuniad a Ganolfannau, amddiffyn lleoliad Canolfannau a diogelu cefn gwlad, dynodir Lletemau Glas yn y lleoliadau canlynol:

LIG1 Angle

LIG2 Rhwng Aberllydan a Little Haven

LIG3 Dwyrain Aberllydan

LIG4 Dolydd Canolog Dale

LIG5 Dinas ar ochr ogleddol yr A487

LIG6 Dinas i'r de o'r A487

LIG7 Dwyrain Feidr Fach Brynhenllan

LIG8 Dinas - Grîn y Pentref

LIG9 Dinas i'r de o'r A487 – Cyrtiau Tennis

LIG10 Pen y Foel Gorllewin Dinas

LIG11 De Glanafon Gorllewin Dinas

LIG12 Maenorbŷr i'r dwyrain o Ddôl Warlow

LIG13 Maenorbŷr i'r gorllewin o'r B4585

LIG14 Maenorbŷr Skrinkle i'r de o Wheelers Way

LIG15 Maenorbŷr i Skrinkle

LIG16 Maenorbŷr i'r dwyrain o'r B4585

LIG17 Marloes

LIG18 New Hedges i'r dwyrain o'r B4316

LIG19 New Hedges i'r gogledd ddwyrain o Knightston Close

LIG20 Trefdraeth ochr ogleddol yr A487

LIG21 Trefdraeth i'r de o'r A487
LIG22 I'r gorllewin o Morawelon, Parrog Trefdraeth
LIG23 I'r de o Rock House, Parrog Trefdraeth
LIG24 Rhwng y Burgage a Saxondale Nolton Haven
LIG25 Gogledd Orllewin Nolton
LIG26 Porth-gain y grŵn canolog
LIG27 Saundersfoot Caeau chwarae y Brenin George V
LIG28 I'r gorllewin o Bont Rusheylake Saundersfoot
LIG29 Broadfield i'r gorllewin o'r B4316 Saundersfoot
LIG30 Rhwng Solfach Uchaf ac Isaf
LIG31 Solfach, i'r dwyrain o Heol y Rhyd
LIG32 Tyddewi, i'r gogledd o Feidr Pant y Bryn
LIG33 Tyddewi i'r dwyrain o Feidr Caer-fai, i'r de o Feidr Pant y Bryn
LIG34 Tyddewi i'r gorllewin o Ffynnon Wen
LIG35 Tyddewi i'r dwyrain o Waun Isaf
LIG36 Tyddewi rhwng Heol Catherine a Lôn y Moch
LIG37 San Ishmael i'r gogledd o orllewin Heol Trewarren
LIG38 Dinbych-y-pysgod i'r dwyrain o'r A487 rhwng New Hedges a Brynhir
LIG39 Lôn Clickett, Gorllewin Dinbych-y-pysgod
LIG40 Trefin - gogledd orllewin
LIG41 I'r dwyrain o Maenorbŷr
Yn yr ardaloedd hyn mae rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol. ♠

4.104 Mae Lletemau Glas yn bwysig wrth gynnal lleoliad aneddiadau trefol a gwledig yn y dirwedd, ac wrth gadw'r natur agored. Gall pwysau am ddatblygu y tu allan i Ffiniau Canolfan arwain at erydu'r natur agored a chael effaith niweidiol ar gymeriad a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol gwledig. Gall datblygiad o'r fath, ar ei ben ei hun neu gydag eraill, gael effaith andwyol ar gymeriad a thirwedd y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfiawnhad dros ddynodi Lletemau Glas fel dehongliad lleol o bolisi cenedlaethol.

4.105 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, paragraff 4.8.14-3.69, yn dweud, wrth ystyried ceisiadau am ganiatâd cynllunio mewn lletemau glas, y bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygiad amhriodol. Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi pwys sylweddol ar unrhyw effaith niweidiol y byddai datblygiad yn ei chael ar letem las. ♠Darperir manylion am y mathau o ddatblygiadau yr ystyrir eu bod yn briodol o fewn Lletemau Glas yn y polisi cynllunio cenedlaethol. ♠

Yr arfordir

- 4.106 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar yr arfordir a gwaith amddiffyn yr arfordir. Cyfeiriwch at Bennod 5 ~~'Gwarechod a Gwellu'r Dreftadaeth Naturiol a'r Arfordir'~~ 6 Lleoedd Nodedig a Naturiol. Dangosir lleoliadau mewn ardaloedd arfordirol sy'n cael eu hystyried yn addas i'w datblygu ar y Map Cynigion.

Polisi 18 Cyfleusterau ar y glannau

Caniateir datblygu cyfleusterau ar y glannau, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â chynigion islaw lefel y dŵr isel cymedrig, yn yr ardaloedd datblygedig ar yr arfordir lle maent yn gydnaws â defnyddiau cyfagos ~~ar yr amod na fyddant yn achosi effeithiau andwyol annerbyniol~~. Bydd effeithiau posibl datblygu ar safleoedd Natura 2000 yn cael eu hystyried yn unol â pholisi 10 ♣

Ni ystyrir datblygiadau marina yn briodol ar arfordir sensitif y Parc Cenedlaethol.

- 4.107 Nod y polisi hwn yw amddiffyn y rhannau tawel hynny o'r arfordir sydd heb eu datblygu, trwy gyfeirio datblygiadau i'r ardaloedd hynny sy'n fwy addas o ran gofynion morwrol, mynediad i'r glannau, parcio a chyfleusterau cysylltiedig eraill.
- 4.108 Mae llawer o strwythurau ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r glannau neu'r harbwr neu'r ddarpariaeth angori, naill ai'n ymestyn allan i'r dŵr, megis glanfeydd a llithrfeydd neu'n gysylltiedig â chyfarpar y tu hwnt i'r marc dŵr isel cymedrig. Mae hefyd yn bosibl o fewn cyfnod y Cynllun y gallai datblygiadau mwy fel chwilio am fwynau weithredu oddi ar arfordir Sir Benfro, gyda goblygiadau i strwythurau ar y glannau.
- 4.109 Mae'r Ynni Adnewyddadwy yn ymdrin yn benodol â chysylltiadau ar y tir i gynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yn y môr. Derbynnir y bydd angen lleoli cysylltiadau o'r fath, i bob pwrpas, ar yr arfordir sydd heb ei ddatblygu. Eithriadau posibl eraill yw adeiladu gorsafoedd bad achub, llwyfannau glanio/pontŵnau/llithrfeydd ac ati, gwaith sy'n gysylltiedig â thrin carthion ac amddiffynfeydd morol.
- 4.110 Yn aml, bydd y cynigion yn rhannu'r dyfroedd â defnyddwyr eraill felly mae'n bwysig na fydd unrhyw wrthdaro na thagfeydd yn deillio o unrhyw ddatblygiad. Mae rhai defnyddiau ar hyd yr arfordir yn aml yn rhai tymhorol ee llogi cadeiriau glan môr a gwerthu hufen iâ. Mewn achosion o'r fath a'ofydd y prif bolisiau a ddefnyddir i ystyried cynigion o'r fath.
- 4.111 Mae Strategaeth Twristiaeth Arfordirol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn argymhell ehangu

capasiti marina y tu allan i'r Parc Cenedlaethol hwn. Mae arfordir y Parc Cenedlaethol gan fwyaf heb ei ddatblygu ac yn hynod sensitif o ran tirwedd, ac yn aml iawn am resymau cadwraeth natur hefyd. At hynny, er bod nifer o harbyrau bach o gwmpas yr arfordir nid oes modd eu cyrraedd mewn cwch am gyfnodau sylweddol o'r dydd oherwydd nodweddion y llanw. Byddai'r gwaith sydd ei angen i ddarparu'r math o fynediad a datblygiadau ategol y byddai eu hangen ar farina lwyddiannus yn sylweddol, a byddai hynny'n cynyddu ymhellach broses drefoli'r lleoliad. Gweld hefyd0.

- 4.112 Bydd ystyried 'effeithiau andwyol annerbyniol' yn cynnwys effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 (gweler0).

Polisi 19 Harbyrau Porthgain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod

Caniateir datblygu o fewn yr ardaloedd harbwr a enwyd fel y dangosir ar y Map Cynigion ar yr amod:

- a) bod y datblygiad yn cynnal gweithgareddau'r harbwr;**
- a**
- b) bod y datblygiad yn gwarchod neu'n gwella cymeriad presennol yr harbwr; ~~ac~~**
- ~~c) nad yw'r datblygiad yn achosi unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol.~~**

Bydd effeithiau posibl datblygu ar safleoedd Natura 2000 yn cael eu hystyried yn unol â pholisi 10.

- 4.113 Nod y polisi hwn yw sicrhau bod harbyrau Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Solfach a Phorthgain yn hyfyw yn y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys y potensial i'r harbyrau ddatblygu er mwyn sicrhau bod eu dyfodol hirdymor yn cael ei gynnal. (gweler Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10 paragraff 5.3.14 to 5.3.16). Mae'r porthladdoedd hyn wedi'u nodi ar y Map Cynigion.
- 4.114 Pan gyflwynir cynigion yn yr ardaloedd harbwr hyn, bydd yr Awdurdod yn gofyn am dystiolaeth gyda'r cais a fydd yn nodi'r berthynas rhwng gweithrediad busnes yr harbwr a'r cynnig a sut y bydd y cynnig yn cyfrannu'n gadarnhaol at sicrhau hyfywedd hirdymor yr harbwr. Dyma beth yw ystyr maen prawf a) y polisi. Bydd angen asesiad o ganlyniadau llifogydd ar bob datblygiad mewn harbyrau.
- 4.115 Mae pob un o'r harbyrau yn cyfrannu at ei ardal. Bydd angen i gynigion ar gyfer datblygu o fewn yr harbyrau ystyried anghenion busnesau a gweithgareddau sy'n bodoli eisoes a sicrhau bod defnyddiau newydd yn ategu defnydd presennol yr harbwr. Mae harbwr Dinbych-y-pysgod yn darparu'r prif fynediad i Ynys Bŷr. Bydd angen i gynigion datblygu sydd

wedi'u lleoli yn yr harbwr sicrhau bod preswylwyr a busnesau Ynys Bŷr yn parhau i allu cael mynediad. Mae Strategaeth Adfywio Saundersfoot yn cael ei datblygu (Rhagfyr 2016) fel cynllun strategaeth adfywio cymunedol "seiliedig ar le" ar gyfer y glannau.

- 4.116 Bydd ystyried 'effeithiau andwyol annerbyniol' yn cynnwys effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 (gweler0).

Blaenoriaeth B: Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf

B. Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf

Datblygiadau mawr

- 4.117 Nid yw dynodiad statudol o reidrwydd yn gwahardd datblygu, ond mae'n rhaid asesu cynigion ar gyfer datblygu yn ofalus am eu heffaith ar y buddiannau treftadaeth naturiol hynny y bwriedir eu diogelu. Mewn Parciau Cenedlaethol, mae ystyriaethau arbennig yn gymwys i gynigion datblygu mawr sy'n fwy cenedlaethol na lleol o ran eu cymeriad.⁸⁸
- 4.118 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad ~~9~~, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, Llywodraeth Cymru, paragraff ~~5.5~~ 6.3.10 yn pennu'r prawf gwirioneddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad ~~9~~ 10, hefyd yn nodi'r profion ar gyfer cynigion mwynau mewn Parciau Cenedlaethol (paragraff 5.14.3.2)35).

Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol

- 4.119 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn diffinio beth yw Prosiect Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol. Mae proses Deddf 2008, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Lleoliaeth 2011, yn cynnwys archwiliad o gynigion mawr sy'n ymwneud ag ynni, trafnidiaeth, gwastraff dŵr a dŵr gwastraff. O dan Ddeddf 2008, gwneir cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Swyddogaeth yr Awdurdod yn yr Archwiliad yw bod yn ymgynghorai statudol ac mae ganddo ddyletswydd i gyflwyno 'Adroddiad ar yr Effaith Leol' i'r Awdurdod Archwilio.
- 4.120 At ddibenion y Cynllun Datblygu bydd yr Awdurdod Archwilio yn disgwyl i'r awdurdod cynllunio lleol ddarparu asesiad cynnar cynhwysfawr o'r holl brif effeithiau. Dylai'r Adroddiad ar yr Effaith Leol nodi'r gwahanol gynlluniau datblygu (gan gynnwys statws a pholisïau perthnasol pob un) ac yna rhoi asesiad clir o effeithiau mewn meysydd gwahanol gyda chasgliad ar bob un. Dylai hefyd esbonio sut y gellid gwella'r Gorchymyn Caniatâd Datblygu neu'r dogfennau cysylltiedig.
- 4.121 Caiff Datganiadau Polisi Cenedlaethol eu llunio gan Lywodraeth y DU a gwneir penderfyniadau ar Brosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethol yng nghyd-destun y datganiadau hyn.

Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol yng Nghymru

- 4.122 Darperir y sail statudol ar gyfer proses Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol ("DNS") yn Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n diwygio Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("y Ddeddf"), a'r Gorchymyn Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016 a'r Rheoliadau dilynol.

⁸⁸ Mae 'Cenedlaethol' yn y cyd-destun hwn yn golygu'r DU
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

- 4.123 Mae rhestr lawn o'r mathau o ddatblygiadau a gwmpesir gan hyn i'w gweld yn Rheoliadau Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol (Cymru) 2016.
- 4.124 Mae angen Adroddiad ar yr Effaith Leol hefyd ar gyfer y mathau hyn o gynigion.

Y Weinyddiaeth Amddiffyn



- 4.125 Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dweud nad oes unrhyw gynlluniau ar gyfer unrhyw ddatblygiadau sylweddol ar ystâd Sir Benfro yn y dyfodol rhagweladwy (Mehefin 2016). Gellir caniatáu datblygiad gweithredol cyfyngedig ar y meysydd tanio, yn amodol ar fesurau lliniaru, o dan y polisiau cynllunio arferol, ac fe fydd unrhyw gynlluniau i ddwysau neu addasu defnydd, neu ymestyn safle yn sylweddol, yn cael eu harchwilio'n drylwyr ac ond yn cael eu caniatáu mewn amgylchiadau eithriadol o dan y 'Prawf Datblygiadau Mawr'.

Gosodiadau Peryglus

- 4.126 Ni chynigir unrhyw ddyraniadau ar gyfer datblygiadau sy'n ymwneud â sylweddau peryglus na gweithgareddau a allai lygru. Fe fydd y prawf datblygiadau mawr yn gosod y cyd-destun polisi sylfaenol ar gyfer ystyried cynigion datblygu sy'n ymwneud â sylweddau peryglus.

Polisi 20

Gosodiadau Peryglus

Caniateir datblygu o fewn y parthau diogelu o amgylch gosodiadau peryglus lle nad oes risg annerbyniol i naill ai:

- a) iechyd na diogelwch y cyhoedd; neu**
- b) gweithrediad y gosodiadau peryglus; a**
- c) mynediad i'r gosodiadau peryglus.**

- 4.127 Nod y polisi hwn yw sicrhau nad yw iechyd na diogelwch y cyhoedd yn cael ei beryglu gan ddatblygiad ger safleoedd sy'n defnyddio neu'n storio sylweddau peryglus. Ymgynghorir â'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghylch unrhyw gais cynllunio o fewn y parth diogelu.
- 4.128 Defnyddir eu hymateb i asesu a oes perygl i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, gweithrediad y gosodiad peryglus neu'r mynediad ato. Dangosir y parthau diogelu gosodiadau peryglus a sefydlwyd gan yr awdurdod diogelu perthnasol ar y Map Cyfyngiadau.

Graddfa'r Twf

- 4.129 Mae gallu Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i ddiwallu'r galw yn lleihau o hyd oherwydd problemau sy'n ymwneud â chapasiti'r dirwedd⁸⁹. Mae polisi'r Llywodraeth yn gofyn i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth megis rhagamcanion o'r boblogaeth a materion capasiti wrth benderfynu ar raddfa gyffredinol y twf.
- 4.130 Mae ymchwiliadau diweddar y Cynllun Datblygu wedi cymeradwyo'r dull presennol o ganiatáu datblygiad sy'n gymesur â chapasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol.⁹⁰
- 4.131 Mae'r dull cyffredinol yn sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd 1995 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod datblygiad yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol (Gweler Ohefyd).
- 4.132 Gan edrych ar fathau o ddatblygiadau yn eu tro o ran y rheini sy'n fwyaf tebygol o gael effaith strategol ar dwf, mae'r dull yn gweddu fel a ganlyn:
- a) Yn strategol yng Nghynllun Gofodol Cymru, mae'r ardaloedd twf mwy o faint (canolfannau) wedi'u dynodi y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. O ran **tai** ni ddisgwylir unrhyw dwf oherwydd rhagwelir y bydd y boblogaeth yn edwino. Mae'r ffocws ar ddarparu tai fforddiadwy ar gyfer y boblogaeth leol. Mae angen tai ar gyfer y farchnad er mwyn rhoi cymorthdal ar gyfer ddarpariaeth. Mae Oa Oyn berthnasol.
 - b) Mae'r ddarpariaeth o ran **cyflogaeth** yn fach o ran graddfa (llai na 2 hectar) gan fod canolfannau mwy strategol yn cael eu pennu y tu allan i ardal y Parc Cenedlaethol sy'n gyson â Chynllun Gofodol Cymru a'r dull a bennir yng Nghynlluniau Datblygu Lleol ardaloedd cyfagos.
 - c) Mae'r astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd ar gyfer **ynni adnewyddadwy** wedi arwain at botensial, yn bennaf ar gyfer datblygiadau ar raddfa fach. Efallai y bydd rhai cynigion ar raddfa ganolog hefyd yn bosibl. Bach iawn o gyfleoedd a geir ar gyfer cynigion ar raddfa fawr. Gweler 0.
 - d) Mae'r astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd a wnaeth yr Awdurdod ar gyfer **gwerysyla a charafannau** yn dweud bod angen gwarchod tirweddau a morweddau presennol sydd heb eu difetha a gwella'r safleoedd carafannau a gwerysyla presennol. Bach iawn o gyfleoedd a geir i ehangu safleoedd neu ddatblygu safleoedd newydd – gweler 0.
 - e) Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn cynghori na ddylai **datblygiadau mwynau** ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol (paragraff 5.14.3.2-35).

⁸⁹ Gweler 6. Geirfa.

⁹⁰ Gweler 6. Geirfa.

- f) Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer **gwastraff** yn cydnabod y dylai cyfleusterau wasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf. Gweler y Papur Cefndir ar Wastraff.
- g) Yn achos **datblygiad ar yr arfordir** mae'r polisi cenedlaethol yn argymhell ehangu'r capasiti marina y tu allan i'r Parc Cenedlaethol (gweler Strategaeth Dwristiaeth Arfordirol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2008).
- h) Yn achos **manwerthu**, y strategaeth ar gyfer Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yw cynnal eu safle mewn perthynas â'i gilydd a chanolfannau mwy y tu allan i'r ardal. Er bod gwariant yn gollwng i ganolfannau y tu allan i ardal y Parc maent yn perfformio'n dda gyda chymorth gwariant preswylwyr ac ymwelwyr. Bwriedir annog y Canolfannau hyn i adfywio mewn modd sensitif fel y gallant barhau yn lleoedd deniadol i fyw ac ymweld â hwy; chwarae rôl werthfawr wrth ddiwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr, a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol. Mae'r Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru yn cefnogi'r dull hwn o weithredu heb fod angen dyrannu rhagor o gyfleoedd manwerthu. Os daw cynigion i law, defnyddir polisiâu cenedlaethol a pholisiâu lleol sy'n seiliedig ar feini prawf i fynd i'r afael â hwy.

Polisi 21

Graddfa'r Twf (Polisi Strategaeth)

Pan mae hynny'n gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol:

- a) **Caniateir datblygu cyfleusterau ar y glannau o fewn ardaloedd datblygedig yr arfordir. Ni ystyrir bod datblygiadau marina yn briodol ar yr arfordir sensitif hwn (gweler0).**
- b) ~~**♣Darparu ar gyfer a/neu ganiatáu cynigion cyflogaeth ar raddfa fach (gweler0)♣.**~~⁹¹
- c) ~~**♣Darparu ar gyfer tai neu ganiatáu tai, i helpu i ddiwallu'r anghenion o ran tai fforddiadwy. Yn ôgystal, rhoddir blaenoriaeth i ddiwallu anghenion am dai fforddiadwy dros ddefnyddiau eraill mewn rhai amgylechiadau**~~⁹²
~~**(gweler0,0,0,0,Error! Reference source not found.,0 a0).♣**~~
- d) **Caniateir cyfleusterau gwastraff sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf**

⁹¹ Llai na 2 hectar.

⁹² Gweler y rhagarweiniad i Flaenoriaeth E — Tai Fforddiadwy a Darparu Tai

(gweler0).

e) Ystyrir cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn ffafriol, gyda chynlluniau ar raddfa ganolog yn cynnig peth potensial. Bach iawn yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygiadau ar raddfa fawr (gweler0).

f) ~~♣Caniateir ychydig o ehangu ar safleoedd carafannau a gwersylla presennol neu ddatblygu ychydig o safleoedd newydd (0).~~

g) ~~Ar gyfer manwerthu, bwriedir annog adfywiad sensitif yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth fel y gallant barhau i aros yn lleoedd deniadol i fyw ac ymweld â hwy; chwarae rôl werthfawr wrth ddiwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr, a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol.♣~~

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y caniateir datblygiad mawr, gan gynnwys datblygiadau sy'n ymwneud â mwynau.^{93, 94}

Mwynau

4.133 Ar hyn o bryd mae'r Parc Cenedlaethol hwn yn cyfrannu at echdynnu mwynau agregol mewn perthynas â chwareli tywod a graean a chraig galed. Mae polisi cenedlaethol yn nodi na ddylai datblygiad mwynau (sy'n cynnwys olew a nwy) ddigwydd mewn Parciau Cenedlaethol ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.⁹⁵ Gall amgylchiadau eithriadol gynnwys buddiannau cenedlaethol sy'n drech na buddiannau eraill, neu pan ellir dangos manteision sylweddol cyffredinol i'r Parc Cenedlaethol.

4.134 I gyfiawnhau safleoedd newydd neu estyniadau i safleoedd presennol o fewn y Parc Cenedlaethol, rhaid dangos nad oes adnoddau amgen, a fyddai'n dderbyniol i'r amgylchedd ar gyfer echdynnu, ar gael; bod y posibilrwydd o ddiwallu'r angen mewn ffordd arall wedi cael ei asesu a'i wrthod; ac y gellir lliniaru effeithiau niweidiol y cynnig neu wneud iawn am golledion.⁹⁶

⁹³ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.5.6.3.10

⁹⁴ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10 Rhagfyr 2018, paragraff 5.14.3.2.35

⁹⁵ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.14.3.2.35

⁹⁶ TAN1 Mwynau: Agregau, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mawrth 2004, paragraff 52

- 4.135 Mae trafodaethau'n dal ar y gweill gydag awdurdodau cyfagos (Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion) ynghylch y posibilrwydd bod yr allbwn sydd ar hyn o bryd yn cael ei ddiwallu o gronfeydd wrth gefn o fewn y Parc Cenedlaethol yn dod o'r tu allan i'r Parc. Cefnogir yr ymagwedd hon gan y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Adolygiad Cyntaf Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru, Awst 2014, sy'n nodi diffyg o 2.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn o dywod a graean i 2033 ar gyfer y rhanbarth.⁹⁷ Rhoddodd Cyngor Sir Gaerfyrddin ddiweddariad ar y cynnydd a wnaed tuag at fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn ystod Archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Gaerfyrddin. Nododd y Cyngor fod darpariaeth ychwanegol ar gael trwy ganiatadau cynllunio, dau ddyraniad o fewn Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Sir Ceredigion a safle segur o fewn y rhanbarth a bod y rheini'n golygu 3.253 miliwn o dunelli ychwanegol. Penderfynwyd bod y diffyg wedi'i ddatrys felly ac nad oedd angen unrhyw ddyraniadau pellach.⁹⁸ Fodd bynnag, bydd yr Awdurdodau cyfunol yn parhau i chwilio am gyfleoedd newydd ar gyfer darpariaeth y tu allan i'r Parc Cenedlaethol er mwyn bod yn barod ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw yn y dyfodol. Gofynnwyd i gwmnïau mwynau gyfrannu at helpu adnabod safleoedd cynhyrchu newydd fel rhan o Arolwg Agregau Blyneddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru ar gyfer 2016. Bydd diogelu adnoddau mwynau a nodi Ardaloedd Chwilio mewn Cynlluniau Datblygu Lleol eraill hefyd yn cynorthwyo'r broses hon.
- 4.136 Nid oes unrhyw lanfeydd morol yn y Parc Cenedlaethol sy'n dod ag agregau morol i'r ardal. Pe bai cynigion derbyniol ar gyfer glanfeydd yn cael eu cyflwyno yn y dyfodol, bydd glanfeydd o'r fath yn cael eu hamddiffyn i ddiogelu llwybrau tywod a graean i'r ardal.
- 4.137 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad ~~9, Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar fwynau yn y Parciau Cenedlaethol.⁹⁹ Mae Parthau Diogelu a Chlustogbarthau wedi'u nodi ar y Map Cynigion.¹⁰⁰ Mae Maes Glo De Cymru yn ymestyn i'r gorllewin i Sir Benfro gan ddod yn Faes Glo y Daugleddau. Mae'n croesi rhan ganolog y Parc Cenedlaethol o Aberllydan i'r gorllewin, ar draws Hook yn y canol a Saundersfoot yn y dwyrain.¹⁰¹

⁹⁷ Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Adolygiad Cyntaf Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru, Awst 2014

⁹⁸ Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin 2006-2021: Adroddiad yr Arolygydd, Hydref 2014, paragraff 15.4

⁹⁹ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad ~~9, Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018, Adran 5.14 Minerals

¹⁰⁰ Polisi Cynllunio Mwynau (Cymru), Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1: Agregau Mawrth 2004, paragraffau 70 i 71

¹⁰¹ Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Ionawr 2009, yn cadarnhau y dylid eithrio Dynodiadau Cenedlaethol o bwysigrwydd amgylcheddol neu ddiwylliannol (gan gynnwys Parciau Cenedlaethol) o barthau adnoddau glo a pharthau diogelu mwynau

Polisi 22**Diogelu Mwynau**

Bydd adnoddau tywod a graean, calchfaen, tywodfaen, craig igneaidd a llechi yn cael eu diogelu fel y dangosir ar y map cynigion.

Fe fydd angen echdynnu mwynau cyn unrhyw ddatblygiad a fyddai fel arall yn sterileiddio mwynau sydd o bwysigrwydd economaidd ar hyn o bryd, neu sy'n debygol o fod o bwysigrwydd economaidd yn y dyfodol, ar yr amod nad oes unrhyw leoliad addas arall, nac angen sy'n drech nag ystyriaethau eraill am y datblygiad, a bod modd echdynnu:

- a) heb ragfarnu yn erbyn y datblygiad arfaethedig; a**
- b) trwy wneud y gwaith echdynnu o fewn cyfnod rhesymol o amser; ac**
- c) heb unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd.**

4.138 Mae mwynau'n cael eu diogelu er mwyn sicrhau nad yw adnoddau mwynau y bydd eu hangen, efallai, ar genedlaethau'r dyfodol, yn cael eu sterileiddio'n ddiangen gan ddatblygiadau parhaol. Fe fydd yr Awdurdod yn ystyried presenoldeb mwynau bas neu fwynau ar yr wyneb wrth ystyried ceisiadau cynllunio a fyddai'n sterileiddio'r adnoddau hyn fel arall. Nid yw'r ardaloedd diogelu sydd wedi eu nodi ar y Map Cynigion ar gyfer tywod, graean, a chraig galed (calchfaen, tywodfaen, craig igneaidd a llechi) yn dangos ardaloedd lle mae modd gweithio mwynau, ac nid yw'n rhoi unrhyw arwydd o addasrwydd gweithio nac ansawdd fasnachol y defnyddiau. Fe fyddai unrhyw gynnig i weithio yn ddarostyngedig i ganllawiau cenedlaethol a rhanbarthol a pholisïau cynllunio perthnasol, ac fe fyddai angen iddo ddarparu digon o fanylion ynghylch y ffordd y bwriedir adfer y safle, gan gynnwys y defnyddiau. Bydd ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi.¹⁰² Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddiogelu parthau mwynau.

Polisi 23**Datblygiad mewn Clustogbarthau Mwynau**

Ni chaiff cynigion datblygu o fewn clustogbarthau (gweler y Map Cynigion) eu caniatáu dim ond lle gellir dangos:

¹⁰² Gweler 6. Geirfa

a) na chaiff yr adnodd mwynau ei sterileiddio; a

b) na fydd y gwaith mwynau yn cael effaith andwyol annerbyniol ar y cynigion datblygu.

4.139 Diffinnir clustogbarthau yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016-10, Rhagfyr 2018 (paragraff 5.14.4.1.44 ymlaen) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1, Agregau (paragraffau 70 a 71). Prif nod y clustogbarth yw diogelu gwaith mwynau a ganiateir neu waith mwynau arfaethedig rhag defnyddiau sensitif newydd fel datblygiadau preswyl neu gyfleusterau addysg neu iechyd, trwy sefydlu pellter penodol rhwng y defnyddiau tir hyn a allai wrthdaro â'i gilydd. Dangosir clustogbarthau o amgylch safleoedd echdynnu mwynau gweithredol a segur ar y map cynigion ar gyfer:

- Caeriw (Calchfaen, 200 metr)
- Pantgwyn (Tywod a graean, 100 metr)
- Penberi (Igneaidd, 200 metr)
- Rhyndaston (Igneaidd, 200 metr)
- Syke (Igneaidd, 200 metr)
- Trefigin (Tywod a graean, 100 metr)

Polisi 24

Pyllau Benthg

Rhoddir caniatâd cynllunio dros dro ar gyfer pyllau benthg:

- a) lle mae angen y pwll benthg i gyflenwi deunyddiau priodol ar gyfer prosiect adeiladu tymor byr penodol; a**
- b) lle bydd yr echdynnu yn dod i ben ar ôl cwblhau'r cynllun adeiladu; ac**
- c) lle mae mewn lleoliad agos i'r prosiect adeiladu arfaethedig; a**
- d) lle mae manteision amgylcheddol clir yn deillio o ddiwallu'r angen o'r ffynhonnell arfaethedig yn hytrach nag o safle sy'n bodoli eisoes neu safle sydd â chaniatâd cynllunio neu drwy ddefnyddio agregau eilaidd neu agregau wedi'u hailgylchu naill ai yn y Parc Cenedlaethol neu'r tu allan iddo; a**
- e) lle mae graddfa'r datblygiad yn briodol ar gyfer yr ardal; ac**
- f) lle mae darpariaeth ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol, adfer, tirlunio a rheoli'r safle ar ôl ei gau, gan gynnwys, lle bo modd, fanylion gwaith graddol i**

adfer y safle; ac ^{103 104}

g) ~~Ile na fydd y datblygiad yn cael effeithiau andwyol annerbyniol.~~

♣ Bydd effeithiau posibl datblygu ar safleoedd Natura 2000 yn cael eu hystyried yn unol â pholisi 10. ♣

- 4.140 Mae'n gallu bod er budd ardal leol i brosiect adeiladu ddefnyddio defnyddiau o ffynhonnell leol, gan greu llai o angen i gludo ar y ffordd a llai o symudiadau ar y ffordd, gyda'r holl broblemau cynhenid sy'n gysylltiedig ag opsiwn pellach. Mae'r term 'pwll benthyg' yn cyfeirio at weithio mwynau sydd eu hangen ar gyfer prosiect adeiladu byr dymor penodol yn unig.
- 4.141 Mae'r amgylchedd adeiledig yn nodwedd bwysig yn y Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei nodweddion arbennig. ♣ Fel rheol dylid cymryd bod y term 'wedi'i leoli'n agos mewn perthynas â'r safle datblygu arfaethedig' ym maen prawf c) yn golygu 'mae'r chwarel arfaethedig yn gorwedd o fewn yr un ardal Cyngor Cymuned â'r safle datblygu arfaethedig neu mewn ardal cyngor cymuned cyfagos â safle'r datblygiad arfaethedig. Lle cynigir eithriad i hyn, mater i'r darpar ddatblygwr yw cyfiawnhau, am resymau fydd yn bodloni'r awdurdod cynllunio lleol, pam nad yw lleoliad yn ardal y Cyngor Cymuned y mae'r safle datblygu yn disgyn ynddo neu un cyfagos yn bosibl – a pham mai'r safle a ddewiswyd ar gyfer y chwarel yw'r dewis arall gorau sydd ar gael. Mae'r term lleol, yn y cyd-destun hwn, yn golygu'r Parc Cenedlaethol ac ardaloedd cyfagos. ♣ Fe fydd y broses o ystyried effeithiau andwyol annerbyniol yn cynnwys effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 (0).
- 4.142 Mae'r effeithiau posibl ar y dirwedd a'r amgylchedd lleol, amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol o bryder penodol. Gall mynediad a chapasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch godi pryderon ynghyd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar adnoddau presennol dŵr wyneb a dŵr daear. Bydd polisiau perthnasol eraill y Cynllun yn darparu'r cyd-destun polisi priodol ar gyfer ystyried y materion hyn.

Polisi 25 Cerrig Adeiladu Lleol

Rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer chwareli cerrig adeiladu lleol:

a) Ile mae angen y deunydd i gyflenwi angen lleol profedig penodol a lle bod modd dangos

¹⁰³ Gweler Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau, paragraff 130 – 139, a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 2: Glo, Atodiad C8 (tudalen 126)

¹⁰⁴ Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.14.5.4.34

amgylchiadau eithriadol; a

- b) lle mae wedi'i leoli'n agos i'r safle adeiladu neu ddatblygu arfaethedig; ac**
- c) lle mae manteision amgylcheddol clir yn deillio o ddiwallu'r angen o'r ffynhonnell arfaethedig yn hytrach nag o safle sy'n bodoli eisoes neu safle sydd â chaniatâd cynllunio neu drwy ddefnyddio agregau eilaidd neu agregau wedi'u hailgylchu naill ai yn y Parc Cenedlaethol neu'r tu allan iddo; a**
- d) lle mae graddfa'r datblygiad yn briodol ar gyfer yr ardal leol ac i wasanaethu'r farchnad leol; a**
- e) lle mae darpariaeth ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol, adfer, tirlunio a rheoli'r safle ar ôl ei gau, gan gynnwys, lle bo modd, fanylion gwaith graddol i adfer y safle.¹⁰⁵**

4.143 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, yn nodi na ddylid gweithio mwynau mewn Parciau Cenedlaethol dim ond mewn amgylchiadau eithriadol yn unig.¹⁰⁶ Mewn rhai achosion, gallai hyn ymwneud â'r angen am echdynnu mwynau ar raddfa fach o weithfeydd lleol ar gyfer cerrig adeiladu, nad ydynt ar gael fel arall, a gellir eu hechdynnu heb effeithiau andwyol annerbyniol. ♣ Mae'r term lleol, yn y cyd-destun hwn, yn golygu'r Parc Cenedlaethol a'r ardaloedd sy'n union gyfagos. ♣ Mae'r effeithiau posibl ar y dirwedd a'r amgylchedd lleol, amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol o bryder penodol. Gall mynediad a chapasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch godi pryderon ynghyd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar adnoddau presennol dŵr wyneb a dŵr daear. Bydd polisiau perthnasol eraill y Cynllun yn darparu'r cyd-destun polisi priodol ar gyfer ystyried y materion hyn.

4.144 Cefnogir y defnydd o ddeunyddiau adeiladu o ffynhonnell leol er mwyn hybu ansawdd dylunio sy'n parchu traddodiadau cynhenid. Bydd angen ystyried effeithiau amgylcheddol ar safleoedd dynodedig, fel Natura 2000, a safleoedd heb eu dynodi. ♣ Fel rheol dylid cymryd bod y term 'wedi'i leoli'n agos mewn perthynas â'r safle datblygu arfaethedig' ym maen prawf c) yn golygu 'mae'r chwarel arfaethedig yn gorwedd o fewn yr un ardal Cyngor Cymuned â'r safle datblygu arfaethedig neu mewn ardal cyngor cymuned cyfagos â safle'r datblygiad arfaethedig. Lle cynigir eithriad i hyn, mater i'r darpar ddatblygwr yw cyfiawnhau, am resymau fydd yn bodloni'r awdurdod cynllunio lleol, pam nad yw lleoliad yn ardal y Cyngor Cymuned y mae'r safle datblygu yn disgyn ynddo neu un cyfagos yn bosibl – a pham mai'r safle a ddewiswyd ar gyfer y chwarel yw'r dewis arall gorau sydd ar gael. ♣

¹⁰⁵ Gweler Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1, paragraff 130 i 139

¹⁰⁶ Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 5.14.3.235

Polisi 26 Deunyddiau wedi'u Hailgylchu, Deunyddiau Eilaidd a Deunyddiau Gwastraff

Fe fydd y defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu, deunyddiau eilaidd a deunyddiau gwastraff, gan gynnwys gwastraff dymchwel ac adeiladu o ffynonellau lleol yn cael cefnogaeth ar yr amodau canlynol:

- a) na fydd y broses o waredu unrhyw ddeunyddiau yn cael effaith niweidiol ar unrhyw safleoedd, adeiladau, waliau na nodweddion yn y dirwedd, cadwraeth natur, buddiannau archaeolegol, pensaernïol na hanesyddol; a**
- b) nad yw'r broses o aildddefnyddio deunyddiau yn niweidio cymeriad y Parc Cenedlaethol; ac**
- c) mae modd trin gwastraff mwynau yn foddhaol o fewn y safle echdynnu mwynau, gan gynnwys cynllun addas i adfer y safle a gofalu amdano ar ôl hynny os yn briodol.**

4.145 Cefnogir yr egwyddor o ailgylchu mwynau o safleoedd, a'u defnyddio fel agregau eilaidd, oherwydd mae hyn yn cyfrannu at ddefnyddio mwynau, sy'n adnodd cyfyngedig, mewn ffordd gynaliadwy. Mewn achosion lle mae cynigion yn golygu ail-weithio gwastraff mwynau sydd wedi cael ei gymathu i'r dirwedd, ac sydd wedi ei wella, neu lle mae wedi ffurfio ardal o ddiddordeb archaeolegol, ni fyddant yn cael caniatâd.

4.146 Lle mae angen i'r gwaith prosesu ddelio gyda gwastraff sy'n dod o sawl ffynhonnell, mae modd sefydlu canolfan i ddelio gyda gwastraff mwynau y gellir ei ailgylchu. Efallai y bydd offer ailgylchu hefyd yn briodol ar safleoedd gweithio sydd â chaniatâd cynllunio ar gyfer echdynnu mwynau neu waredu gwastraff mwynau. Mae gweithrediadau malu a sgrinio yn gallu gwneud niwed i amwynderau'r ardal o amgylch a rhaid rhoi sylw i'r rhain a chyflwyno mesurau lliniaru priodol.

4.147 Cydnabyddir bod yna hawliau 'datblygiad a ganiateir' o dan Orchymyn Datblygu Cyffredinol 1995, mewn perthynas â mwynau, ac i gydnabod effaith amgylcheddol posibl datblygiad o'r fath fe fydd yr Awdurdod yn mabwysiadu trefniadau ymgynghori anffurfiol gyda datblygwyr a gweithredwyr dros gynlluniau sy'n disgyn y tu allan i weithdrefnau ffurfiol cymeradwyo ceisiadau cynllunio. Ymgynghorir â Chyfoeth

Naturiol Cymru hefyd. Mae yna drwyddedau amgylcheddol hefyd, ar wahân i'r system gynllunio, ac mae angen iddynt gael sylw.

- 4.148 Mae'r effeithiau posibl ar y dirwedd a'r amgylchedd lleol, amwynder eiddo cyfagos a chymunedau lleol o bryder penodol. Gall mynediad a chapasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol, sŵn, dirgryniad, llwch a diogelwch godi pryderon ynghyd â'r potensial i effeithio'n andwyol ar adnoddau presennol dŵr wyneb a dŵr daear. Bydd polisiâu perthnasol eraill y Cynllun yn darparu'r cyd-destun polisi priodol ar gyfer ystyried y materion hyn.

Polisi 27

Safleoedd Mwynau Segur

Pan fo'r Awdurdod yn fodlon bod gweithgarwch cloddio am fwynau neu weithio mwynau neu waredu gwastraff mwynau wedi dod i ben yn barhaol, bydd yn ymchwilio i weld pa mor briodol yw cyflwyno Gorchymyn Gwahardd i'r perchennog neu'r perchnogion.

- 4.149 Mae un safle o fewn y Parc Cenedlaethol, Penberi, sydd â chaniatâd cynllunio ond sy'n annhebygol o gael ei ailagor. Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno Gorchymyn Gwahardd ym Mhenberi i'w gadarnhau. Dangosir y safle hwn ar y Map Cynigion. Bydd yr Awdurdod yn parhau i ymchwilio i weld pa mor briodol yw gwneud Gorchymynion Gwahardd i roi sicrwydd ynghylch gwaith yn y dyfodol ar unrhyw safleoedd priodol ill yn ystod cyfnod y cynllun. Mae gan chwareli'r Ddôl Isaf (*Bottom Meadow*) a'r Felin Ganol (*Middle Mill*) ganiatâd cynllunio sydd wedi dod i ben ond sydd â gofynion adfer heb eu bodloni. Mae'r Awdurdod yn cynnal trafodaethau gyda'r tîrfeddianwyr ynghylch hyn. Wrth ystyried pa gamau i'w cymryd bydd yr Awdurdod yn ystyried manteision tebygol ar gyfer adfer safleoedd ac ôl-ddefnyddiau priodol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn cynnwys adfer, gwella a rheoli safleoedd er budd gwarchod natur, er enghraifft creu a rheoli cynefinoedd sy'n flaenoriaeth.¹⁰⁷ Bydd safleoedd eraill sy'n dod yn segur yn ystod cyfnod y cynllun yn cael eu hadolygu i sicrhau bod safonau uchel o ddiogelwch amgylcheddol sy'n briodol i'r Parc Cenedlaethol yn cael eu cynnal.
- 4.150 Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar ansefydlogrwydd tir sy'n deillio o hen weithfeydd glo. Gellir cael rhagor o wybodaeth am dir sy'n ansefydlog oherwydd prosesau naturiol ac oherwydd gweithfeydd mwynloddio eraill nad ydynt yn ymwneud â glo gan Arolwg Daearegol Prydain.¹⁰⁸ Gweler paragraffau 13.9.1 i 13.9.2 Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, sy'n darparu polisi rheoli datblygu cenedlaethol ar dir ansefydlog.

¹⁰⁷ Gweler Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Adran 7

¹⁰⁸ Gweler gwefan Arolwg Daearegol Prydain

Gwastraff

4.151 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018; Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Cynlluniau Datblygu Lleol, Tuag at Ddyfodol Di-wastraff, a'r Cynlluniau Sector, gyda'i gilydd, yn cynnwys y cynllun rheoli gwastraff cyffredinol ar gyfer Cymru fel sy'n ofynnol dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd, yn enwedig Erthyglau 1,4,13, 16 a 28 o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff.¹⁰⁹ Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff yn cyfeirio at y Mapiau Ardaloedd Chwilio ar gyfer cyfleusterau mewn adeiladau ac awyr agored i ddarparu meini prawf lleoliadau strategol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff is-ranbarthol.^{110 111} Mae'r mapiau hyn yn eithrio'r Parc Cenedlaethol fel lleoliad priodol ar gyfer darparu cyfleusterau o'r fath.¹¹² Mae'r canllawiau cenedlaethol yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol geisio darparu cyfleusterau rheoli gwastraff addas a phriodol yn eu hardaloedd.¹¹³ Ar gyfer y Parc Cenedlaethol, ystyrir bod cyfleusterau ar raddfa leol a fyddai'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn briodol ac yn addas yn hyn o beth.¹¹⁴ Gall cyfleusterau lleol gynnwys Canolfannau Ailgylchu Cymunedol, Cyfleusterau Adfer Deunyddiau Glân, Gorsafoedd Trosglwyddo, Amwynderau Dinesig, ac Eithriadau Adeiladu a Dymchwel.¹¹⁵ Fodd bynnag, nid oes gofynion penodol ar gyfer y rhain nac unrhyw gyfleusterau eraill wedi'u nodi. Yn ychwanegol at bolisi a chanllawiau cenedlaethol, bydd cynigion yn y dyfodol yn cael eu hystyried ar sail y polisiau lleol sy'n seiliedig ar feini prawf. Bydd Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff Rhanbarthol ar gyfer rhanbarth De-orllewin Cymru hefyd yn cael eu defnyddio i lywio penderfyniadau cynllunio lleol.

Polisi 28

Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol¹¹⁶

Caniateir cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn

¹⁰⁹ Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Chwefror 2014, paragraff 1.4

¹¹⁰ Cynllun Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd, Gorffennaf 2012, Adran 3 (q) 'Meini prawf ar gyfer lleoli cyfleusterau gwastraff' a Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Chwefror 2014, paragraff 3.26

¹¹¹ Cyfleusterau is-ranbarthol yw'r rhai sy'n darparu ar gyfer mwy nag un ardal awdurdod lleol ond nid y rhanbarth cyfan. Mae rhanbarth De-orllewin Cymru yn cynnwys awdurdodau Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe

¹¹² Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru, Adolygiad Cyntaf, Awst 2008, Atodiad J

¹¹³ Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff, Chwefror 2014, paragraffau 3.21-3.22

¹¹⁴ Gweler y Papur Cefndir ar Wastraff

¹¹⁵ Mae Eithriadau Adeiladu a Dymchwel yn cyfeirio at safleoedd sydd wedi'u cofrestru fel rhai sydd wedi'u heithrio o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol ac nad oes angen iddynt fod â thrwydded

¹¹⁶ Gweler 6. Geirfa

bennaf:

- a) lle mae'r safle wedi'i leoli'n gyfleus mewn perthynas ag anghenion cymuned y Parc Cenedlaethol; a**
- b) lle mae'r cynnig yn darparu ar gyfer sgrinio digonol er mwyn lleihau unrhyw effeithiau andwyol; ac**
- c) lle mae'r datblygiad yn ddigon pell o eiddo cyfagos er mwyn iddo beidio â bod yn berygl i iechyd neu ddiogelwch.**

Bydd angen Asesiad Cynllunio Gwastraff i gyd-fynd â cheisiadau am gyfleuster rheoli gwastraff a ddosberthir fel cyfleuster gwaredu, adennill neu ailgylchu.¹¹⁷

4.152 Mae gan safleoedd amwynderau dinesig a chanolfannau ailgylchu cysylltiedig ddiben defnyddiol, yn y ffaith bod modd didoli gwastraff y cartref i hwyluso'r gallu i'w ailddefnyddio a'i ailgylchu. Mae hefyd yn helpu osgoi tipio anghyfreithlon. Efallai y byddant yn cynhyrchu traffig sylweddol ac y byddant yn golygu storio deunyddiau gwastraff dros dro mewn cynwysyddion sydd â thop agored neu gaeedig (ar gyfer gwastraff sy'n pydru). Am y rhesymau hyn, mae'r gofynion mewn perthynas â mynediad, parcio ac amwynderau yn eithaf llym. Mae yna drwyddedau amgylcheddol ar wahân i'r system gynllunio hefyd, ac mae angen eu hystyried.

4.153 Ni ddylai'r datblygiad gael effaith andwyol annerbyniol ar amwynder yr ardal leol a'r cymunedau lleol, yn enwedig o ran mynediad, traffig, sŵn, dirgryniad, llwch, sbwriel ac aroglau, nac effeithio'n andwyol ar adnoddau presennol dŵr wyneb a dŵr daear. Bydd polisiâu perthnasol eraill y Cynllun yn darparu'r cyd-destun polisi priodol ar gyfer ystyried y materion hyn.

Polisi 29 Compostio

Caniateir cynigion sy'n cynnwys compostio deunydd organig, a gynhyrchir yn bennaf yn y Parc Cenedlaethol oni bai yr achosir effaith andwyol annerbyniol ar unrhyw rai o'r canlynol:

- a) amwynderau'r ardal leol a chymunedau lleol yn enwedig o ran mynediad, traffig, sŵn, dirgryniad, llwch, aroglau, diogelwch nac effeithio'n andwyol**

¹¹⁷ Gweler paragraff 4.2 Nodyn Cyngor Technegol 21: Gwastraff (Chwefror 2014).

**ar yr holl adnoddau dŵr wyneb a dŵr daear
presennol; a**

b) capasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol; ac

c) safleoedd cadwraeth dynodedig (gweler0a0).

Ac ar yr amod:

**d) bod darpariaeth ar gyfer tirlunio a/neu sgrinio'r
safle; a**

**e) y cymerir camau boddhaol i fnd i'r afael â
thrwytholch; a**

f) bod gan y cynnyrch werth ychwanegol.

- 4.154 Mae compostio yn broses/driniaeth gynaliadwy ar gyfer y swm mawr o wastraff gwyrdd a gynhyrchir gan y Parc Cenedlaethol. ~~Fodd bynnag~~, ♣ Fodd bynnag rhaid i'r compost hwn fod o ansawdd sy'n ddigon da ar gyfer ôl-ddefnydd buddiol megis ei ddefnyddio mewn gerddi, ar safleoedd tir llwyd, tirweddu a defnydd amaethyddol ar raddfa lawn. ^{troednodyn newydd 1} ♣
- 4.155 Mae rheoli gwastraff gwyrdd hefyd yn gallu cynnwys datblygiadau cysylltiedig fel rhwygo. Mae gwastraff gwyrdd yn cael ei gasglu a'i reoli mewn safleoedd Amwynder Dinesig a dau safle claddu sbwriel o fewn y Sir. Mae compostio hefyd ar waith ar ffermydd o fewn y Sir; ac mae yna gynlluniau compostio cymunedol.
- 4.156 Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cefnogi cynigion i gompostio deunyddiau a gynhyrchir yn bennaf o fewn y Parc Cenedlaethol ar safleoedd presennol, neu safleoedd cyfagos, sy'n cael eu defnyddio i reoli neu waredu gwastraff, sy'n gweithredu heb unrhyw broblemau amgylcheddol cysylltiedig nac unrhyw broblemau amgylcheddol eraill. Ymgynghorir â Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae yna drwyddedau amgylcheddol hefyd, ar wahân i'r system gynllunio, ac mae angen eu hystyried. ♣ Mae'r effeithiau posibl ar adnoddau dŵr yn ystyriaeth cynllunio perthnasol ac ni ddylai fod unrhyw bosibilrwydd o ddŵr ffo, dŵr yn gollwng na llygredd trwytholch i ddŵr wyneb neu ddŵr daear. ^{troednodyn newydd 2} Mae Polisi Cynllunio Cymru rhifyn 10 Rhagfyr 2018 hefyd yn nodi y dylai cyfleusterau rheoli gwastraff gynaliadwy leihau effeithiau amgylcheddol niweidiol ac osgoi risgiau i iechyd pobl. ♣
- 4.157 Mae'n debygol mai cymwysiadau ar gyfer rhes-gompostio fyddai fwyaf addas mewn lleoliadau gwledig.

*Troednodyn newydd 1: Gweler Nodyn Cyngor Technegol 21
Gwastraff (Chwefror 2014) paragraff 4.44

*Troednodyn newydd 2: Gweler Nodyn Cyngor Technegol 21
(Chwefror 2014) paragraff 11.1

Blaenoriaeth C: Newid yn yr hinsawdd, dyluniad cynaliadwy, llifogydd, ynni cynaliadwy

C. Newid yn yr Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy, Ynni Adnewyddadwy, Llifogydd

- 4.158 Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yw cefnogi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau, trwy osod tai a datblygiadau eraill yn agos at wasanaethau. Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol hwn hefyd yw ceisio cadw cyfraniad rhai datblygiadau at allyriannau nwyon tŷ gwydr i leiafswm, trwy gyfyngu datblygiadau sy'n llygru neu sy'n beryglus yn y Parc (gweler paragraff 4.50), trwy hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy a thrwy annog dylunio cynaliadwy mewn datblygiadau.¹¹⁸ Y strategaeth hefyd fydd derbyn yr angen i addasu at y newid yn yr hinsawdd ac i fynd i'r afael â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd mewn ffordd sy'n golygu meddwl mwy ymlaen llaw, nid dim ond ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol presennol. ► Mae'r strategaeth yn ystyried Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac yn benodol darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer egwyddorion rheoli'n ymaddasol, gan gymryd i ystyriaeth ganlyniadau tymor byr, canolig a hirdymor y camau gweithredu, a chymryd camau i atal difrod sylweddol i ecosystemau, yn arbennig, yn gymwys ◀
- 4.159 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol presennol, bydd datblygiadau newydd wedi'u dylunio'n fwy cynaliadwy. Bydd gan y Parc gyfres o brosiectau ynni adnewyddadwy sydd wedi eu seilio yn y gymuned, yn ogystal â chynigion unigol, ar waith. Wrth gynllunio ar gyfer y newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol, nid oes unrhyw ddatblygiadau newydd wedi cael eu hannog mewn lleoliadau lle mae strategaeth hir dymor i alluogi'r môr neu'r afon i orlifo. Bydd datblygiadau wedi cael eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth ardaloedd sy'n dueddol o orlifo, neu a fydd yn dueddol o orlifo o fewn y 100 mlynedd nesaf, gan ddefnyddio gwybodaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Chynlluniau Rheoli'r Traethlin ar gyfer Gorllewin a De Cymru. Wrth i'r hinsawdd newid, bydd angen deall risgiau a chanlyniadau llifogydd, a'u rheoli, gan gynnwys y goblygiadau ar gyfer mwy o risgiau o lifogydd mewn mannau eraill oherwydd unrhyw ddatblygiad penodol. Bydd datblygiadau wedi cael eu cyfeirio i ffwrdd oddi wrth ardaloedd risg uchel, gan ganiatáu i'r arfordir sydd heb ei ddifetha esblygu'n naturiol. Bydd mannau datblygedig ar yr arfordir sydd mewn perygl o orlifo a llifogydd, a achosir gan y newid yn yr hinsawdd, yn cael eu cynorthwyo i reoli'r newidiadau angenrheidiol i helpu cymunedau liniaru'r perygl i fywyd ac asedau ag i addasu gydag amser.
- 4.160 Dylai'r strategaeth ar gyfer datblygu a ddewiswyd, ynghyd â'r cynigion o dan 'Trafnidiaeth Gynaliadwy', hefyd gyfrannu at yr agenda hon.

¹¹⁸ Y prif sectorau sy'n cyfrannu at CO₂ yn y Parc Cenedlaethol yw allyriadau gorsafoedd pŵer, hylsgi domestig a masnachol, cludiant ar y ffyrdd a thrafnidiaeth arall

Polisi 30 Dylunio Cynaliadwy (Polisi Strategaeth)



Disgwylir bob cynnig ar gyfer datblygu ddangos dull integredig o ddylunio ac adeiladu, a bydd gofyn iddynt gael eu cynllunio'n dda o ran:

- a) Lleoliad a natur unigryw (gweler0).**
- b) Amgylchedd a bioamrywiaeth (gweler0).**
- c) Cydlyniant cymunedol ac iechyd (gweler 0).**
- d) Hygyrchedd (gweler0).**
- e) ♣Defnydd effeithlon o ynni ♣**
- f) Cynhyrchu ynni (gweler0).**
- g) Deunyddiau ac adnoddau (gweler0).**
- h) Dŵr a draenio (gweler0).**
- i) Gwastraff (gweler0).**
- j) Gwydnwch i newid yn yr hinsawdd (gweler0).**

- 4.161 Bydd Canllawiau Dylunio Cynaliadwy i helpu ymgeiswyr i gydymffurfio â'r polisi ac esbonio beth fydd yr Awdurdod ei angen i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio yn cael eu paratoi. Bydd yr ymagwedd integredig tuag at ddylunio a nodir yn y polisi a'r canllawiau yn cwmpasu camau dylunio ac adeiladu'r datblygiad ac yn cynnwys unrhyw ddiweddariadau canlyniadol yng ngoleuni dyletswydd Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.
- 4.162 Pennir lefel y gostyngiad carbon a ddisgwylir gan yr isafswm sy'n ofynnol gan Reoliadau Adeiladu (Rhan L). Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, gan weithio yng nghyd-destun canllawiau polisi Llywodraeth Cymru, yn disgwyl i bob ymgeisydd fynd i'r afael â lleihau carbon o fewn dyluniad eu cynlluniau.¹¹⁹
- 4.163 Nod y polisi hwn yw gwneud defnydd mwy effeithlon o ddŵr, er enghraifft, trwy gasglu dŵr glaw, neu ddefnyddio system ddraenio gynaliadwy. Fodd bynnag, fe fydd angen rhywfaint o ddraenio o hyd. Er mwyn iddo gael ei ddylunio'n dda, rhaid i'r datblygiad gael cyfleusterau gwaredu carthffosiaeth a draenio dŵr wyneb digonol, o hyd. Rhaid bod y capasiti hwnnw ar gael cyn bod unrhyw un yn meddiannu'r datblygiad.
- 4.164 Mae maen prawf a) yn cynnwys tirwedd a threfwedd. Mae maen prawf b) yn cwmpasu tirwedd hanesyddol, geoamrywiaeth a bioamrywiaeth. Mae maen prawf c) yn cynnwys "Diogelu drwy Ddylunio", gallu i addasu i amgylchiadau sy'n newid, ac ystyriaethau amwynder cymdogion. ♣Maen prawf e):♣ disgwylir i ymgeiswyr ddangos dull dylunio sy'n lleihau'r

¹¹⁹ Gweler paragraffau 5.4.1-5.4.9 yn Nogfen Nodyn Cyngor Technegol 12 (Mawrth 2016)

defnydd o ynni. ♣Maen prawf f):♣ disgwylir i ymgeiswyr ymgorffori technolegau ynni adnewyddadwy neu garbon isel gan gynnwys systemau dŵr solar, ffotofoltäig solar, gwynt, pwmpiau gwres a biomas lle bo'n briodol. O ran maen prawf h) dylid ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru ar y dechrau'n deg er mwyn sicrhau bod y datblygiad wedi'i leoli'n briodol, wedi'i ddylunio a/neu'n cael ei ddatblygu fesul cam er mwyn osgoi effeithiau andwyol ar safleoedd Natura 2000 o ran gofynion adnoddau dŵr ac ansawdd dŵr, a bydd y datblygiad yn cael ei ganiatáu dim ond lle mae cyflenwadau dŵr sicr o ffynonellau na fyddai'n cael effaith andwyol ar safleoedd Natura 2000. Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd angen lleihau nifer yr unedau ar safleoedd a ddyrannwyd lle mai'r unig liniaru sy'n effeithiol yw sicrhau na fydd unrhyw effaith andwyol ar ddiwylliedd safleoedd Natura 2000. Bydd datblygiadau a allai effeithio ar safleoedd Ewropeaidd yn ddarostyngedig i Arfarniad Rheoliadau Cynefinoedd ac Asesiad Effaith Amgylcheddol ar lefel prosiect. Efallai y bydd angen Astudiaethau Cylch Dŵr (a chynlluniau rheoli dŵr wyneb) hefyd. Mae maen prawf i) yn cynnwys lleihau gwastraff a hyrwyddo/hwyluso ailgylchu, yn y cyfnodau adeiladu yn ogystal â gweithredol. Mae maen prawf j) yn cynnwys cadernid i lifogydd, risg arfordirol a phwysau eraill sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd.

4.165 Mae'r polisiau isod yn darparu cyngor ac arweiniad ychwanegol ar fynd i'r afael â materion dylunio cynaliadwy.

Polisi 31

Amwynderau

Ni chaniateir datblygiad lle bydd yn cael effaith andwyol annerbyniol ar amwynderau, yn enwedig lle:

- a) mae'r datblygiad ~~ar gyfer defnydd sy'n~~ amhriodol i leuedd y mae pobl yn byw ynddynt neu'n ymweld â hwy yn cael effaith niweidiol ar ansawdd yr amgylchedd y mae pobl sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r Parc yn ei fwynhau ar hyn o bryd;♣ a/neu**
- b) mae'r datblygiad o raddfa sy'n anghydnaws â'i amgylchoedd; a/neu**
- c) mae'r datblygiad yn arwain at gynyddu traffig neu sŵn neu arogl neu olau sy'n cael effaith andwyol sylweddol; a/neu**
- d) mae'r datblygiad yn ymwthiol yn weledol.**

4.166 Nod y polisi hwn yw gwarchod yr amwynder y mae pobl yn ei fwynhau yn eu cartrefi, eu gweithleoedd a'u mannau hamdden. Diffinnir amwynder fel yr elfennau hynny yng ngwedd a chynllun tref a chefn gwlad sy'n gwneud bywyd yn ddymunol yn hytrach na bodolaeth yn unig. ~~♣Mae unrhyw beth sy'n hyll, yn fudr, yn swmlyd, yn orlawn, yn ymwthiol neu'n anghyfforddus yn debygol o effeithio'n andwyol ar amwynderau.♣~~

Polisi 32**Lleihau Gwastraff**

Rhaid i ddatblygiad leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff a gynhyrchir yn ystod dymchwel ac adeiladu a darparu cyfleusterau rheoli gwastraff o fath a graddfa briodol fel rhan annatod o'r datblygiad.

- 4.167 Mae gwastraff o waith dymchwel, adeiladu a chloddio yn adnodd gwerthfawr sy'n gallu cael ei ailgylchu, er mai cadw gwastraff at leiafswm ddylai fod yr ystyriaeth gyntaf. Fe fyddai'r Awdurdod hwn yn croesawu Cynlluniau Rheoli Gwastraff o Safleoedd i helpu'r broses hon. Fe fyddai osgoi anfon y defnyddiau hyn i safleoedd claddu sbwriel yn cydymffurfio gyda'r Gyfarwydddeb Tirlenwi. Mae nifer o gyfleusterau ailgylchu eisoes yn bodoli yn y Sir. Cefnogir cyfleusterau ailgylchu lleol ar gyfer y defnyddiau hyn yn unol ag egwyddorion cynaliadwy'r Llywodraeth ar gyfer rheoli gwastraff a chynllunio mwynau. Mae ailgylchu, compostio a mesurau lleihau gwastraff eraill yn helpu'r amgylchedd trwy leiahu'r tir sydd ei angen i gladdu sbwriel neu godi tir, ac ar gyfer trin gwastraff sy'n weddill ar ôl ailgylchu a chompostio cymaint ag sy'n bosibl.
- 4.168 Bydd yr Awdurdod yn disgwyl i gynigion sy'n debygol o gynhyrchu gwastraff sylweddol gynnwys cyfleusterau ar gyfer compostio "gwastraff gwyrdd", ar gyfer casglu gwastraff sy'n addas i'w ailgylchu ac ar gyfer gwastraff gweddilliol.
- 4.169 Mae yna fathau gwahanol o ddarpariaethau ailgylchu ar gyfer gwahanol fathau o wastraff. Y ddarpariaeth leol iawn ar gyfer gwastraff y cartref a gwastraff annomestig fyddai casglu o'r gymdogaeth, naill ai o ddrws i ddrws, ar ymyl y palmant neu o fan casglu canolog. Dylai unrhyw ddatblygiadau sy'n cynhyrchu gwastraff ddarparu lle ar gyfer storio mathau o wastraff ar wahân, gan gynnwys deunyddiau i'w hailgylchu, gwastraff gweddilliol a gwastraff bwyd.

Polisi 33**Draenio Dŵr Wyneb**

Bydd angen i ddatblygiad ymgorffori systemau draenio cynaliadwy ar gyfer cael gwared â dŵr wyneb oddi ar y safle.

- Para newydd: Mae systemau draenio cynaliadwy (SuDS) yn ofyniad gorfodol ar gyfer datblygiadau newydd.¹²⁰ Ers 7fed Ionawr 2019:
- Bydd pob datblygiad newydd sy'n fwy na 1 tŷ neu lle mae'r ardal adeliadu yn 100m² neu fwy, yn gofyn am SuDS ar gyfer rheoli dŵr wyneb.
 - Rhaid dylunio ac adeiladu systemau draenio ar gyfer pob datblygiad newydd yn unol â safonau statudol SuDS.
 - Cyngor Sir Penfro fydd y corf sy'n cymeradwyo SuDS (SAB)
 - Rhaid i gynlluniau SuDS gael eu cymeradwyo gan Gyngor Sir Penfro cyn i't gwaith adeladu ddechrau. Bydd gan y Cyngor

ddyletswydd l fabwysiadu SuDS sy'n cydymffurfio cyn belled â'l for wedi'i adeiladu ac yn gweithredu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd. ◀

- 4.170 Mae angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r broses o waredu dŵr wyneb sy'n rhedeg oddi ar ddatblygiad, yn ystod y gwaith adeiladu ac wedi ei gwblhau, er mwyn cadw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd i'r lleiafswm.¹²⁰ Mae arferion traddodiadol ar gyfer gwaredu dŵr wyneb yn golygu sianelu'r dŵr i ffwrdd at y cwrs dŵr agosaf fel ei fod yn rhedeg i ffwrdd yn gyflym. Mae'r dull hwn yn gallu arwain at fwy o berygl o lifogydd i lawr yr afon, llai o ddŵr daear yn ail-lenwi (gostyngiad yn y dŵr sy'n treiddio trwy'r pridd yn ôl at ddŵr daear) a throsglwyddo llygryddion i gyrsiau dŵr. Mae Dŵr Cymru yn hyrwyddo systemau draenio cynaliadwy ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cefnogi. Maent yn symud i ffwrdd oddi wrth systemau draenio trwy biben draddodiadol at ddatrysiadau peirianeg sy'n dynwared prosesau naturiol ac yn cynnwys opsiynau caled fel arwynebau athraidd a hydraidd a/neu opsiynau mwy meddal fel nodweddion llystyfiant ar y dirwedd, pyllau, gwlypdir a phantiau glaswelltog.
- 4.171 Mae systemau draenio trefol cynaliadwy yn disgyn i 3 grŵp eang sy'n anelu at:
- a) ostwng y dŵr sy'n rhedeg oddi ar safle (rheoli ffynhonnell);
 - b) arafu cyflymder y dŵr sy'n rhedeg i ffwrdd i'w alluogi i setlo a ffiltro ac ymdreiddio (systemau trawsgludo athraidd); ac
 - c) trin dŵr wyneb sydd wedi ei gasglu mewn ffordd oddefol cyn ei ryddhau at ddŵr daear neu i gwrs dŵr (systemau diwedd piben).
- 4.172 Rhaid i asesiad o addasrwydd systemau draenio trefol cynaliadwy gael ei gyflwyno gyda cheisiadau cynllunio.
- 4.173 Dylai rheoli ffynhonnell fod yn rhan annatod o ddyluniad y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd a dylai datblygwyr geisio ymgorffori systemau draenio cynaliadwy, sy'n rheoli'r ffynhonnell o fewn safle'r cais, ar gyfer gwaredu dŵr wyneb, mewn cynigion ar gyfer datblygiadau, adeg y cais. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw ddŵr wyneb ar y safle – o'r to, ffyrdd ac arwynebau eraill, a defnyddir amodau cynllunio i sicrhau cydymffurfiaeth.
- 4.174 Cydnabyddir efallai y bydd yna amgylchiadau neilltuol lle na fyddai rheoli ffynhonnell yn gwbl bosibl. Lle dangoswyd nad yw hyn yn ymarferol, dylai datblygwyr ddarparu systemau draenio cynaliadwy yn y lle cyntaf, ar gyfer cymaint o'r datblygiad ag sy'n ymarferol bosibl. Ar gyfer gweddill y datblygiad, rhaid ymgorffori opsiwn derbyniol arall ar gyfer gwaredu dŵr wyneb. Dylid ond defnyddio systemau draenio 'caled' traddodiadol unwaith y dangoswyd na fyddai systemau draenio cynaliadwy yn llwyddiannus, ac unwaith y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn fodlon â hynny.

¹²⁰ ▶ Nodir yn Atodlen 3 i Ddeddf Rheol Llifogydd a Dwr 2010 ◀

- 4.175 Fe fydd y datblygwyr yn gyfrifol am dalu'r holl gostau angenrheidiol ar gyfer cynllunio, dylunio a gosod systemau draenio cynaliadwy. Fe fydd angen i ddatblygwyr gytuno i rwymedigaeth gynllunio hefyd (a elwir yn Gytundeb A106) i gwrdd â'r gost o'i fabwysiadu a darparu rheolaeth hirdymor. Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cwlferu ac mae'n awyddud i gael gwared â cwlferu lle bynnag mae hynny'n bosibl. Nid yw Cynor Sir Penfro, fel yr awdurdod cydsynio ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin, yn cefnogi cwlferu oni bai bod hynny er mwyn cael mynediad i dir neu eiddo.

Ynni Adnewyddadwy

4.176 Mae'r fframwaith polisi ar gyfer ynni adnewyddadwy isod yn darparu cefnogaeth ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy sy'n ystyried Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol (gweler0).

~~4.177 ► Mae Polisi Cynllunio Cymru yn categorioeddio pedair graddfa o ddatblygiad ynni adnewyddadwy yn seiliedig ar drothwyon allbwn. Mae datblygiadau 'Strategol' dros 25MW ar gyfer melinau gwynt ar y tir a thros 50MW ar gyfer pob technoleg arall. Mae datblygiadau 'Awdurdod Lleol' rhwng 5MW a 25MW ar gyfer melinau gwynt ar y tir a rhwng 5MW a 50MW ar gyfer pob technoleg arall. Mae datblygiadau 'Llai na Graddfa Awdurdod Lleol' rhwng 50kW a 5MW, a datblygiadau 'Micro' yn is na 50kW.~~¹²¹ ◀

4.178 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori y gall awdurdodau cynllunio lleol wneud cyfraniad cadarnhaol, wrth fynd i'r afael â thargedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol, trwy ystyried y cyfraniad (targed) y gall eu hardal ei wneud tuag at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel, a galluogi'r cyfraniad hwn i gael ei gyflawni.¹²² Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol gynnal asesiad o botensial yr holl adnoddau ynni adnewyddadwy a chyfleoedd ynni carbon isel yn eu hardaloedd a chynnwys polisiâu priodol yn eu cynlluniau datblygu.

4.179 Mae'r Awdurdod wedi cynnal Asesiad Ynni Adnewyddadwy (wedi'i ddiweddarau ym mis Ionawr 2016), sy'n anelu at gael trosolwg clir o'r cyfraniad y gall ardal y Parc Cenedlaethol ei wneud i dargedau cenedlaethol ar gyfer darparu ynni adnewyddadwy, heb beryglu dibenion y Parc Cenedlaethol (gweler Polisi 1).¹²³ Yn benodol, mae'r Asesiad, fel y'i diweddarwyd, yn ystyried y canlynol:

- a) Y potensial technegol ar gyfer ynni adnewyddadwy
- b) Y cyfyngiadau amgylcheddol a chymdeithasol-economaidd posibl
- c) Gan ystyried a) a b) y cyfleoedd posibl ar gyfer ystod o ynni adnewyddadwy
- d) Gan ystyried yr uchod, a oes angen diweddarau'r asesiadau o gapasiti'r dirwedd ar gyfer pob technoleg.

~~4.180 ► O ran categorïau Polisi Cynllunio Cymru, nid yw'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Ionawr 2016) yn nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer datblygu Strategol neu ardal Awdurdod Lleol. Mae cyfleoedd yn cael eu nodi ar gyfer datblygiadau penodol Llai na Graddfa Awdurdod Lleol (hyd at 2MW ar gyfer offeriant Treulio Anerobig, hyd at 1MW ar gyfer cyfleusterau Biomas a 250kW fel arfer ar gyfer paneli solar). Mae'r rhan fwyaf o~~

¹²¹ ► Gweler Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9), Tachwedd 2016, Ffigur 12.2—Graddfeydd ynni adnewyddadwy a charbon isel at ddibenion cynllunio ◀

¹²² Gweler Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 12.8.9 5.17.19

¹²³ Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Ionawr 2016)

gyfleoedd datblygu ar gyfer datblygiadau gwynt a dŵr, lle nad yw hawliau datblygu a ganiateir yn eu cwrmpasu¹²⁴, wedi'u nodi ar y raddfa Ficro.

- 4.181 Ystyrir, o fewn pob graddfa a ddiffinnir uchod ym Mholisi Cynllunio Cymru, y bydd effaith weledol datblygiadau ynni adnewyddadwy, yn dibynnu ar eu math a'u cynnyrch gallu, yn amrywio'n fawr. Er bod canfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi cyfleoedd ar raddfa Micro a'r Is-Awdurdod Lleol, yn achos Llai na Graddfa Awdurdod Lleol mae mwy o'r rhain ar ben isaf y trothwy. O ran arddel dibenion y Parc Cenedlaethol (gweler Polisi 1) a gwarchod y Nodweddion Arbennig (gweler Polisi 8), ystyrir ei fod yn fwy priodol yng nghyd-destun tirwedd y Parc Cenedlaethol i gymhwyso meini prawf graddfa penodol yn lleol wrth ystyried technolegau adnewyddadwy a charbon isel. Bydd hyn yn rhoi adlewyrchiad cywirach o'r cyfleoedd datblygu o fewn ardal y Parc Cenedlaethol o ran y capasiti i gynhyrchu a chapasiti'r dirwedd. ◀

Polisi 34 Ynni Adnewyddadwy ♠a Charbon Isel (Polisi Strategaeth)

Ystyrir cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach yn ffafrïol, ar amod na fyddant yn achosi unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol. Mae rhywfaint o botensial i gynlluniau ar raddfa ganolig hefyd a byddant yn cael eu caniatáu yn amodol ar yr un ystyriaethau. Dim ond lle na fyddant yn amharu ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, y caniateir cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr. Lle mae cynlluniau ynni adnewyddadwy eraill eisoes ar waith yn yr ardal, bydd yr effeithiau cronrus yn ystyriaeth bwysig.

Caniateir cysylltiadau ar y tir â chynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yn y môr ar yr amod na achosir unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol. Bydd angen i ddatblygwyr sydd angen lleoliad arfordirol sydd heb ei ddatblygu ar gyfer cysylltiadau ar y tir â gosodiadau ynni adnewyddadwy yn y môr gyfiawnhau'r angen hwn yn glir mewn perthynas â0a) gan ddefnyddio'r dull lleiaf ymwthiol o ddylunio. (Gweler hefyd Polisi 60.)

Bydd cynigion ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy

►¹²⁴ Gweler Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2012 (Rhif 2) ◀

a charbon isel gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â phŵer dŵr, trulio anaerobig a biomas yn cael eu caniatáu yn ddarostynedig i'r meini prawf canlynol:

a) Ni fyddai cynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a chanolig yn cael effaith andwyol annerbyniol yn unigol nac yn gronnol ar amwynderau gweledol, cymeriad y dirwedd a/neu werth cadwraeth yr ardal leol.

b) Ni fyddai cynlluniau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel ar raddfa fawr yn cael effaith andwyol annerbyniol ar rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Mae'r tabl isod yn nodi'r math a'r raddfa o dechnoleg ynni adnewyddadwy a charbon isel sy'n briodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol.

c) Ni fyddai cysylltiadau ar y tir â generaduron ynni adnewyddadwy ar y môr yn cael effaith andwyol annerbyniol ar amwynderau gweledol, cymeriad y dirwedd nac ar gadwraeth natur yr arfordir sydd wedi'i ddatblygu neu heb ei ddatblygu. Lle mae angen lleoliad arfordirol heb ei ddatblygu, mae angen i gynigion ddangos pam fod y lleoliad yn angenrheidiol gyda'r dull lleiaf ymwthiol o ddylunio yn cael ei gymryd (hefyd gweler Polisi 8, Polisi 9 a Pholisi 60).

d) Bydd yn ofynnol i bob cynnig i ddatblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel ddangos:

i. bod mesurau wedi'u cymryd i leihau'r effeithiau ar dirwedd ac amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol;

ii. na fydd unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amwynder preswyl;

iii. na fydd y datblygiad yn peryglu diogelwch y priffyrdd;

iv. na fydd y datblygiad yn ymyrryd â radar, systemau rheoli traffig awyr, cysylltiadau

telathrebu, derbyniad teledu, cyfathrebu a gwasanaethau brys; a

v. bod cynigion boddhaol yn eu lle ar gyfer adfer y safle. ♣

4.182 At ddibenion y polisi hwn, mae'r tabl isod yn rhoi arweiniad ar ystyr y termau bach, canolig a mawr ar gyfer y dechnoleg a ganlyn:

Tabl 1 Technoleg Adnewyddadwy

Technoleg Adnewyddadwy¹²⁵	Bach iawn / Micro	Bach¹²⁶	Canolig	Mawr
Gwynt (mae'r gwerthoedd yn cyfeirio at uchder blaen y llafn)	Adeilad neu osod ar fastiau	<25m	25m-65m	>65m
Paneli Ffotofoltäig Solar wedi'u Gosod ar y Ddaear	<1 hectar	1 – 2.9 hectar	3 – 4.9 hectar	>5 hectar
Offeriant Treulio Anaerobig	Ddim yn berthnasol	Tua 10-50kW	Hyd at 2MW	Mae'n debygol y bydd cyfleusterau o'r fath yn cymryd gwastraff o'r tu allan i'r Parc Cenedlaethol yn bennaf (gweler Polisi 27)
Cyfleusterau Biomass	Ddim yn berthnasol	<200kW	200kW – 1MW ee i bweru cyfleusterau cymunedol/ adeiladau cyhoeddus	>1MW Ee Ffatri pŵer gwres a thrydan
Hydro	<100kW	Rhai cannoedd o kW	Dim potensial technegol	Dim potensial technegol
Pwmpiau Gwres	Ddim yn berthnasol			

¹²⁵ Yn seiliedig ar yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Ionawr 2016 a'r arweiniad yn y Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy a baratowyd o dan Gynllun Datblygu Lleol 1

¹²⁶ Mae cyfeiriad yn y polisi at 'fach' yn cynnwys 'bach iawn/micro' Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau ➤ Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

- 4.183 O ran cyfleusterau gwastraff anaerobig mawr, mae Polisi 27 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol yn dweud y bydd cyfleusterau sy'n gwasanaethu'r Parc Cenedlaethol yn bennaf yn cael eu caniatáu. Bydd cynigion ar gyfer pwmpiau gwres daear, dŵr ac aer yn cael eu hystyried yng nghyd-destun eu heffeithiau unigol ar amwynderau a'r amgylchedd.
- 4.184 Bydd gan bob math o dechnoleg ynni adnewyddadwy effeithiau penodol y bydd angen rhoi sylw iddynt wrth ystyried cynigion datblygu. Er enghraifft, gall tyrbinau gwynt achosi aflonyddwch sŵn a chysgodion symudol, gall paneli solar achosi effaith llachar yr haul, gall offeriant treulio anaerobig achosi aroglau annymunol a chreu traffig ychwanegol, a gall cynlluniau hydro effeithio ar yr amgylchedd dŵr a'r ecoleg sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r polisi hwn, ar y cyd â pholisiau eraill y Cynllun Datblygu Lleol, fel y bo'n berthnasol, yn darparu cyd-destun polisi i ystyried holl effeithiau perthnasol cynigion ynni adnewyddadwy.
- 4.185 Nodir cyfraniadau tebygol ar gyfer ynni adnewyddadwy ac allyriadau carbon yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (Ionawr 2016) ac fe'u hymgorfforwyd yn nhargedau monitro'r Cynllun Datblygu Lleol (gweler5. Monitro).
- 4.186 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar ynni adnewyddadwy ac ar asesu effaith gronol tyrbinau gwynt ar dirwedd ac amwynderau gweledol yn cael eu paratoi. Bydd y canllawiau ar ynni adnewyddadwy yn rhoi cyngor ar baneli solar, offeriant treulio anaerobig, a biomas, darpariaeth micro-hydro, pwmpiau gwres daear ac aer, gwresogi ardal, ynni gwynt a chysylltwyr grid ar y tir ar gyfer gosodiadau gwynt yn y môr. Bydd hefyd yn cynnwys asesiad sensitifrwyd y dirwedd ar gyfer datblygiadau ffotofoltäig solar mewn caeau a thyrbinau gwynt ar gyfer pob ardal gymeriad tirwedd (0) o fewn y Parc Cenedlaethol.¹²⁷

Para newydd: ♣Dylid gwneud darpariaeth ar gyfer symud strwythurau, peiriannau ac offer dros-dro o'r safle unwaith y bydd y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau. Pan fydd y gosodiad wedi dod i ddiwedd ei oes weithredol, dylid symud yr holl strwythurau, peiriannau, offer a seilwaith cysylltiedig o fewn (6 mis, neu gyfnod wedi'i negodi ymlaen llaw) ar ôl datgomisiynu ac adfer y tir i safon dderbyniol fel y cytunwyd cyn i'r caniatâd gael ei roi.

Para newydd: Cyfeirir at y math o fuddion, y negodi a'r gweinyddu yn TAN 8. Gellir cyfiawnhau rhai buddion fel rhai sy'n lliniaru effeithiau datblygu drwy'r broses gynllunio. Hefyd gall datblygwyr gynnig buddion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r broses gynllunio allai fynd rhywfaint o'r ffordd i liniaru canlyniadau effeithiau cymunedol. Mae'n rhaid ei drafod gyda datblygwyr ond nid yw'n ofyniad gorfodol nac yn ystyriaeth berthnasol wrth bennu rhinweddau cynllunio ac ni ddylid ei ystyried yn fodd i oresgyn gwrthwynebiadau cynllunio sylfaenol i ddatblygiad penodol. Gall budd cymunedol ddod o fewn nifer o gategorïau (e.e. buddion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol, ecolegol neu addysgol) a gall cyfraniadau fod ar sawl ffurf megis:

¹²⁷ Gweler6. Geirfa

- Buddion mewn da megis adeiladu cyfleuster cymunedol sydd ei angen;
- Tâl ariannol mewn un cyfandaliad er budd y gymuned;
- Taliadau blynyddol i'r gymuned;
- Ymrwymiad gan y datblygwr i ddefnyddio llafur lleol a/neu gontractwyr /gwasanaethau lleol lle bynnag y bo modd. ♣

4.187 Mae yna botensial hefyd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy yn y môr a fydd â goblygiadau i'r tir. Fel eithriad i 0a)mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn derbyn mai nid dim ond ar yr arfordir datblygedig y gallai llwybrau technegol ymarferol ar gyfer cysylltiadau ar y tir fod ar gael.¹²⁸ Yn aml, gall datrysiadau dylunio arloesol oresgyn effeithiau andwyol datblygiadau anghydweddol mewn tirwedd mor sensitif. Bydd yr ystyriaeth a roddir i effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi.

4.188 Gweler hefyd 'Prosiectau Seilwaith o Bwysigrwydd Cenedlaethola 'Datblygiadau o Bwysigrwydd Cenedlaethol yng Nghymru'.

Llifogydd a Gorlif Arfordirol

4.189 Mae strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn derbyn bod angen addasu a mydn i'r afael â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, nid yn unig dros gyfnod y Cynllun, ond y tu hwnt. Yr arfordir yw nodwedd fwyaf deinamig y Parc Cenedlaethol sy'n newid yn ddyddiol, ac mae'r newid yn yr hinsawdd yn bygwth cynyddu'r raddfa y mae'r arfordir yn trawsnewid, gan gyflwyno heriau i gymunedau addasu i risgiau cynyddol neu risgiau newydd o ran llifogydd ac erydiad arfordirol.

4.190 Mae holl arfordir Cymru a Lloegr wedi'i gynnwys mewn cyfres o Gynlluniau Rheoli Traethlin. Mae'r dogfennau hyn, sy'n cael eu paratoi gan Awdurdodau Lleol ynghyd â rhanddeiliaid allweddol eraill, ac yn cael eu cymeradwyo yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, yn darparu asesiad o risgiau sy'n gysylltiedig â phrosesau arfordirol a pholisïau strategol presennol ar gyfer rheoli arfordirol sy'n cydbwysu amryw uchelgeisiau a rhagolygon cystadleuol rhanddeiliaid gyda sylw priodol i gynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol dros gyfnod o 100 mlynedd. Maent yn cynnwys datganiadau polisi ar gyfer hyd penodol neu unedau rheoli'r arfordir sydd wedi'u rhannu yn fandiau amser byr, canolig a hirdymor. Mae dau Gynllun Rheoli Traethlin yn cwmpasu arfordir Sir Benfro ac yn cwrdd yn yn St Anne's Head ger Dale.¹²⁹ Defnyddiwyd y datganiadau polisi hyn, ynghyd â data swyddogol ar y cynnydd yn lefel y môr, i ddiffinio 'ardaloedd risg' ac fe'u dangosir ar y Map Cynigion fel 'Ardaloedd Rheoli

¹²⁸ Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn dweud mai anaml y bydd yr arfordir sydd heb ei ddatblygu yn lleoliad addas ar gyfer datblygu (Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 6.5.7-2).9)

¹²⁹ Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru a Chynllun Rheoli Traethlin De Cymru

Newid Arfordirol'. Mae'r fethodoleg lawn a ddefnyddir i adnabod yr ardaloedd wedi'i chynnwys ym Mhapur Cefndir Methodoleg Adnabod Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol.

- 4.191 Nod y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol yw lleihau'r risg i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.¹³⁰ Mae gan eiddo ac adeiladau, a'r arian a fuddsoddir ynddynt, oes y tu hwnt i ychydig genedlaethau o bobl.
- 4.192 Gellid colli nifer fechan o eiddo preswyl, busnesau, rhannau o ffyrdd ac asedau eraill yn y Parc Cenedlaethol i erydiad arfordirol a gorlif arfordirol cyn i'r Cynllun Datblygu Lleol ddod i ben (2031). Y tu hwnt i hynny, rhagwelir y bydd ardaloedd mwy helaeth o'r arfordir mewn mwy o berygl o lifogydd, erydiad a newid. Mae angen cymryd camau hirdymor i addasu i newidiadau o'r fath, felly mae angen ystyried mynd i'r afael â'r canlyniadau y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Ni ddylid caniatáu datblygu mewn ardaloedd lle mae'n debygol y bydd erydiad neu orlif arfordirol yn ystod oes yr adeilad.
- 4.193 Hefyd, bydd angen helpu cymunedau neu unigolion i addasu i ganlyniadau'r newid arfordirol, gan gynnwys mewn rhai achosion yr angen am adleoli ac ailosod cyfleusterau cymunedol, defnyddiau masnachol a busnes sy'n cael eu hystyried yn bwysig i gymunedau arfordirol, a chartrefi yr effeithir arnynt gan erydiad arfordirol. Bydd angen ystyried yn llawn y posibilrwydd o greu cynefinoedd ac adfer tirwedd fel rhan o unrhyw strategaeth i addasu ardaloedd yr effeithir arnynt.

Polisi 35 Llifogydd a Gorlif Arfordirol (Polisi Strategaeth)

Wrth gynllunio ar gyfer datblygu'r Parc Cenedlaethol yn y dyfodol;

- a) bydd datblygiadau yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o'r ardaloedd hynny sydd mewn perygl o lifogydd yn awr neu fel y rhagwelir ar gyfer y dyfodol gan Fapiau Cyngori ar Ddatblygu TAN15 neu'r Cynllun Rheoli Traethlin 2oni bai fod cyfiawnhad cymdeithasol neu**

¹³⁰ Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Risg Llifogydd ac Erydu Arfordirol, 23 Mai 2011

economaidd cadarn yn unol â'r cyngor yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (gweler 0,0a0).¹³¹

b) caniateir amddiffyn yr arfordir yn gynaliadwy lle gellir dangos bod y gwaith yn gyson â'r dull rheoli ar gyfer y ffyrnt yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol ac na fydd unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar yr amgylchedd.

4.194 Disgwylir i ddatblygiadau newydd osgoi perygl llifogydd diangen a bodloni gofynion Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Ni chaniateir unrhyw ddatblygiad bregus iawn (fel y'i diffinnir yn Nodyn Cyngor Technegol 15) o fewn Parth C2 a dim ond mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd y caiff datblygiadau eu hystyried a lle gellir dangos y gall y safle gydymffurfio â'r gofynion cyfiawnhad ac asesu yn Nodyn Cyngor Technegol 15.

4.195 Bydd ystyried effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi – gweler 0 Nodweddion Arbennig.

Polisi 36 Datblygiad yn yr Ardal Rheoli Newid Arfordirol

Ni chaniateir anheddau newydd nag addasu adeiladau presennol at ddefnydd preswyl yn yr Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol (gweler y Map Cynigion).

Rhaid i gynigion ar gyfer pob datblygiad newydd arall neu ddwysáu datblygiadau neu ddefnyddiau tir presennol yn yr Ardaloedd Rheoli Newid Arfordirol

¹³¹ Mae'r Mapiau Llifogydd i'w defnyddio ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 10, Rhagfyr 2018 a Nodyn Cyngor Technegol 15 i gyfeirio datblygiad newydd mewn perthynas â risg llifogydd. Gyda'i gilydd maent yn ffurfio fframwaith rhagofalus i arwain penderfyniadau cynllunio. Mae'r mapiau yn seiliedig ar amlinellad eithafol llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru (Parth C, data wedi'i ddiwygio 2015) a data drifft Arolwg Daearegol Prydain (Parth B, 2004). Nid yw'r Mapiau Llifogydd a'r Mapiau Cynghori ar Ddatblygu yn caniatáu ar gyfer y newid yn yr hinsawdd. Ceir rhagor o fanylion am y parthau yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (2004).

Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi ardaloedd sy'n agored i lifogydd o'r môr, gydag amserlen hir. Defnyddir y data o'r ffynonellau hyn i nodi ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd at ddibenion y polisi hwn.

Mae pob un o'r cynlluniau rheoli traethlin ar gael ar-lein –

Gweler Cynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru 2 am fanylion polisi arfordirol o St Anne's Head i Draeth Poppit.

Gweler Cynllun Rheoli Traethlin De Cymru 2 am fanylion polisi arfordirol Amroth i St Anne's Head.

ddangos na fydd hynny'n arwain at fwy o risg i fywyd na chynnydd sylweddol mewn risg i eiddo, yn ogystal â chydymffurfio â phob polisi perthnasol arall yn y Cynllun Datblygu Lleol

- 4.196 Mewn cydnabyddiaeth o'r risgiau, mae angen rheoli datblygiad o fewn yr ardaloedd risg newid arfordirol 100 mlynedd yn ofalus.
- 4.197 Mae'r ardal sy'n wynebu'r môr o linell y Map Cynigion yn dangos bod newid arfordirol yn debygol o effeithio ar yr ardal, yn seiliedig ar allbwn y ddau Gynllun Rheoli Traethlin ar gyfer y tymor hir (hyd at 2110). Er bod ansicrwydd ynglŷn â'r union gyfnodau amser yn y Cynlluniau Rheoli Traethlin, tybir y bydd pob ardal â ffrynt arfordirol yn cael ei rheoli drwy weithredu'r polisiâu rheoli a nodwyd. Mae'r Cynlluniau Rheoli Traethlin yn nodi datganiadau polisi ac yn cynnwys rhagolwg o sefyllfa'r draethlin mewn tri chyfnod:
- a) hyd at 2025 (tymor byr);
 - b) 2025 i 2055 (tymor canolig); a
 - c) 2055 i 2105 (hirdymor).
- 4.198 Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu gwybodaeth werthfawr sy'n caniatáu asesiad o ba bryd y mae eiddo neu dir penodol yn debygol o fod mewn perygl o newid arfordirol. Yr ardaloedd a ddangosir mewn perygl yn y Cynllun Rheoli Traethlin yn y cyfnod cyntaf yw'r rhai lle nad oes amddiffyniad effeithiol ar hyn o bryd neu lle mae'r amddiffynfeydd presennol yn debygol o fethu o fewn y cyfnod amser. Yn yr ardaloedd hyn dim ond ystod gyfyngedig o fathau o ddatblygiad a gysylltir yn uniongyrchol â'r arfordir, fel hurio cadeiriau glan môr a chyfarpar syrrffio, fydd yn dderbyniol a bydd cyfyngiad amser ar unrhyw ganiatâd er mwyn rheoli risg.
- 4.199 Gall datblygiad derbyniol o fewn ardaloedd risg tymor canolig gynnwys estyniadau a datblygiadau deiliaid tai. Yn yr ardaloedd risg hirdymor gall amrywiaeth o gynigion masnachol a busnes fod yn dderbyniol a all helpu i ddarparu manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd ar gyfer cymunedau arfordirol. Bydd angen ystyried yn llawn y posibilrwydd o greu cynefinoedd ac adfer tirwedd fel rhan o unrhyw strategaeth i addasu ardaloedd yr effeithir arnynt.
- 4.200 Bydd yr holl gynigion hefyd yn ddarostyngedig i bolisiâu eraill y Cynllun Datblygu Lleol.
- 4.201 At ddibenion y polisi hwn mae 'anheddau' yn cynnwys y rhai y preswylir ynddynt yn llawn amser, y rhai a ddefnyddir fel ail gartrefi neu dai gwyliau, a'r rheini â chyfyngiadau meddiannaeth.

Polisi 37**Adleoli Anheddau Parhaol Presennol yr effeithir arnynt gan Newid Arfordirol**

Caniateir cynigion ar gyfer adleoli anheddau parhaol presennol yng nghefn gwlad yr effeithir arnynt gan newid arfordirol (gweler y Map Cynigion), ar yr amod:

- a) ♠Gellir dangos♠ bod y datblygiad yn disodli annedd parhaol yr effeithir arno neu y caiff ei fygwth gan erydiad neu orlif llanw o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a
- b) ~~♠ei fod wedi'i leoli yn ddigon pell yn y mewndir o ran~~ mae wedi'i leoli y tu allan ac yn fewndirol i'r♠ Ardal Rheoli Newid Arfordirol a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol a, lle bo'n bosibl, ei fod mewn lleoliad sy'n agos at y gymuned arfordirol y cafodd ei symud ohoni; ac
- c) ei fod o fewn Canolfannau presennol, neu yn union gerllaw, yn agos at y lleoliad y cafodd ei symud ohono; neu
- d) yn achos annedd amaethyddol, ei fod o fewn daliad y fferm neu o fewn Canolfannau presennol, neu yn union gerllaw; ac
- e) bod yr annedd newydd yn debyg o ran maint i'r un y mae'n cymryd ei le;
- f) ~~♠bod y safle presennol yn cael ei glirio a'i wneud yn ddiogel;~~ mae'r adeilad presennol yn cael ei ddymchwel ac mae'r safle yn cael ei glirio a'i wneud yn ddiogel♠ ac
- g) bod y safle yn bodloni'r holl feini prawf eraill sy'n sail i benderfynu ar gynigion ar gyfer adeilad preswyl.

Polisi 38**Adleoli a disodli datblygiadau (heblaw preswyl) yr effeithir arnynt gan newid arfordirol**

Caniateir cynigion ar gyfer adleoli a disodli cyfleusterau cymunedol, defnyddiau masnachol a busnes sy'n cael eu hystyried yn bwysig i gymunedau arfordirol yr effeithir arnynt gan newid arfordirol (gweler y Map Cynigion), ar yr amod:

- a) ♣ **Gellir dangos♣** bod y datblygiad arfaethedig yn disodli'r hyn a ragwelir y bydd erydiad yn effeithio arno o fewn 20 mlynedd o ddyddiad y cynnig; a
- b) **bod y datblygiad newydd ♣wedi'i leoli yn ddigon pell yn y mewndir o ran y tu allan ac yn fewndirol i'r ♣Ardal Rheoli Newid Arfordirol a gwybodaeth arall yn y Cynllun Rheoli Traethlin perthnasol a, lle bo'n bosibl, ei fod mewn lleoliad sy'n agos at y gymuned arfordirol y cafodd ei symud ohoni; ac**
- c) **bod yr adeilad newydd neu'r arwynebedd tir yn debyg o ran maint i'r un y mae'n cymryd ei le; a**
- d) **~~♣bod y safle presennol naill ai'n cael ei glirio a'i wneud yn ddiogel neu'n cael ei roi at ddefnydd dros dro sy'n fuddiol i'r gymuned leol~~ Mae unrhyw adeiladau presennol yn cael eu dymchwel a mae'r safle cael ei glirio a'i wneud yn ddiogel neu ei ddefnyddio at ddefnydd dros-dro sydd o fudd i'r gymuned leol♣; ac**
- e) **bod y safle yn bodloni'r holl feini prawf eraill sy'n sail i benderfynu ar gynigion ar gyfer y defnyddiau hyn.**

4.202 Ugain mlynedd yw'r amserlen y mae canllawiau'r Llywodraeth yn ei nodi (at ddibenion Cynlluniau Rheoli Traethlin) fel y 'presennol' neu 'dymor byr'. Fe'i defnyddir ym mhob Cynllun Rheoli Traethlin i ddiffinio Cyfnod 1. Mae angen cydbwysu diffygion gyda gallu perchnogion eiddo o fewn yr ardaloedd risg i addasu neu i ymateb i'r newidiadau arfordirol. ♣ Rhaid i adeiladau newydd fod yn debyg o ran maint a chyfrannedd i'r adeilad neu'r safle gwreiddiol. Ni chaniateir cynigion ar gyfer datblygiadau sy'n sylweddol wahanol o ran ôl troed, graddfa, maint a defnydd o dan y polisi hwn.♣

Blaenoriaeth D: Economi ymwelwyr, cyflogaeth

D. Economi Ymwelwyr, Cyflogaeth

Llety Ymwelwyr, Atyniadau, Hamdden a Gweithgareddau Hamdden

- 4.203 Y strategaeth ar gyfer ymwelwyr yw sicrhau nifer, tarddiad, math, cyfnod ymweld a gwariant gorau posibl trwy gydol y flwyddyn, gan sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn parhau i gadw'i atyniad fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol. Y ffordd orau o gyflawni hyn, yn nhermau defnydd tir, yw peidio ag ychwanegu'n sylweddol at y ddarpariaeth llety i ymwelwyr, oherwydd fe allai hyn annog 'brigo' pellach ac achosi niwed i dirwedd y Parc Cenedlaethol a'i nodweddion arbennig, o ran effeithiau'r datblygiad ychwanegol a rhagor o weithgarwch cynyddol mewn rhai mannau prysur iawn.
- 4.204 Yn hytrach, mae'r dyfodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol yn y Cynllun Datblygu Lleol yn un sy'n sicrhau, erbyn diwedd cyfnod y Cynllun, bod amrywiaeth o lety gwyliau o safon ar gael ar gyfer amrywiaeth o lefelau incwm, sy'n debyg i lefel a dosbarthiad y ddarpariaeth ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol. Darperir ar gyfer rhyw gymaint o ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer gwersylla a charafannau ynghyd â newidiadau o fewn safleoedd sy'n caniatáu ar gyfer darpariaeth mwy arloesol. Mae gwestai a thai llety sy'n gallu darparu llety a chyflogaeth trwy gydol y flwyddyn yn cael eu diogelu, onid ydynt yn anymarferol bellach. Caniateir peth llety hunanarlwyo ychwanegol i ddarparu ar gyfer anghenion trwy gydol y flwyddyn, ond mae hyn wedi ei gyfyngu at achosion lle nad yw'n flaenoriaeth cwrdd ag anghenion tai fforddiadwy.
- 4.205 Lle caniateir datblygiad newydd i ymwelwyr (atyniadau i ymwelwyr, datblygiad hamdden a gweithgareddau hamdden a chyfleusterau ar y glannau sy'n gysylltiedig â glanfeydd alltraeth ac ati), bydd yn cael ei sgrinio i osgoi gweithgareddau a fyddai'n niweidio nodweddion arbennig y Parc.¹³² Mae datblygu ychydig o atyniadau pob tywydd wedi helpu i annog mwy o ymweliadau allan o'r tymor brig.
- 4.206 Gallai'r traffig sy'n cael ei greu gan ymwelwyr fod yn bryder sylweddol. Mae angen ymagedd fwy llym at asesu effaith traffig ar gyfer datblygiadau o'r fath. Ni chaniateir cynigion sy'n achosi effeithiau niweidiol sylweddol nad oes modd eu lliniaru – gweler 0a0.
- 4.207 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i roi cyngor pellach ar yr hyn a fyddai'n weithgareddau amhriodol yn y Parc Cenedlaethol.

¹³² Gweithgareddau amhriodol fyddai'r rhai a fyddai'n niweidio'r gallu i fwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ac na ellir lliniaru'r niwed hwn, er enghraifft trwy bennu parthau neu gyflwyno mesurau rheoli traffig neu weithgareddau sy'n gyfyngedig i'r tymor gwyliau



Denu ymwelwyr y tu allan i'r tymor brig gan sicrhau bod amgylchedd y Parc Cenedlaethol yn cael ei warchod a'i wella fel tirwedd o bwysigrwydd cenedlaethol a rhyngwladol trwy:

- a) Caniatáu rhywfaint o ddatblygiad ar gyfer carafannau, gwersylla a chabanau (gweler0).**
- b) Caniatáu gwestai a thai llety newydd o fewn Canolfannau neu drwy addasu adeiladau presennol priodol yng nghefn gwlad.¹³³**
- c) Diogelu rhag colli gwestai a thai llety oni bai y gellir profi na fyddai eu defnydd parhaus yn hyfyw neu y gellir parhau i fodloni'r galw brig yn yr ardal (gweler0).**
- d) Dim ond caniatáu llety hunanarlwyo lle nad yw'r safle neu'r adeilad yn briodol ar gyfer darparu tai ar gyfer y farchnad neu dai fforddiadwy ar safleoedd tir llwyd yng Nghanolffannau'r Cynllun Datblygu Lleol neu mewn addasiadau yng nghefn gwlad (gweler0).**
- e) Caniatáu atyniadau i ymwelwyr, hamdden, gweithgareddau hamdden mewn Canolfannau neu gerllaw. Bydd angen i gynigion yng nghefn gwlad ddangos pam mae lleoliad yng nghefn gwlad yn hanfodol. Dylai cynigion yng nghefn gwlad ddefnyddio adeiladau presennol lle bynnag y bo modd.**
- f) Cyfeirio cyfleusterau ar y lan i'r rhannau hynny o'r arfordir sydd wedi'u datblygu lle bo hynny'n gydnaws â defnyddiau gerllaw (gweler0).¹³⁴**

Ni chaniateir gweithgareddau a fyddai'n niweidio nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol (gweler hefyd0). ~~Ni chaniateir cynigion o dan y polisi hwn a allai fod yn fygythiad i unrhyw safleoedd a~~

¹³³ Am ddiffiniad o adeiladau priodol yng nghefn gwlad, darllenwch y cyfiawnhad rhesymegol o dan0, Cefn Gwlad y Cynllun

¹³⁴ Strwythurau ac adeiladau sy'n gysylltiedig â'r lan neu harbwr neu ddarpariaeth angori neu sy'n gysylltiedig ag offer y tu hwnt i'r marc dŵr isel cymedrig

**rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd
(gweler0). Bydd effeithiau posibl datblygu ar
safleoedd Natura 2000 yn cael eu hystyried yn unol â
pholisi 10♣**

- 4.208 Efallai y bydd cyfleoedd i ddatblygu gwestai a thai llety o fewn Canolfannau, trwy adeiladu o'r newydd, ailddatblygu neu addasu adeiladau presennol. Y tu allan i Ganolfannau, gellir gwireddu cyfleoedd i greu gwestai a thai llety newydd trwy addasu adeiladau priodol (gweler0d).
- 4.209 Mae'r polisiau isod yn darparu cyngor ac arweiniad ychwanegol ar yr economi ymwelwyr.

Polisi 40

Colli Gwestai a Thai Llety



**Caniateir colli gwestai a thai llety yn y Parc
Cenedlaethol lle: ♠gellir dangos: ♠**

- a) dangoswyd fod y posibilrwydd o barhau i ddefnyddio'r cyfleuster yn anymarferol; neu**
- b) lle bydd y galw cyffredinol am y math hwn o lety yn ystod y cyfnodau brig yn dal i gael ei fodloni yn yr ardal; ac**
- c) lle nad oes unrhyw effaith andwyol annerbyniol ar ♠apêl ymddangosiad♠ a chymeriad cynhenid y gyrchfan, yr ardal neu'r ffryntiad.**

Bydd angen i ymgeiswyr sy'n cyfiawnhau colli'r gwesty o dan faen prawf a) ddangos bod proses farchnata ddilys wedi'i gwneud cyn cyflwyno'r cais.

- 4.210 Nod y polisi hwn yw diogelu'r stoc bresennol o westai a thai llety yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n hanfodol cael cyflenwad ac amrywiaeth dda o lety â gwasanaeth, yn enwedig gan fod twristiaeth yn ffactor amlwg yn economi Sir Benfro. Wrth i'r farchnad wyliau newid, bu pwysau cyson ar addasu gwestai a thai llety mawr yn fflatiau, rhandai a thai preifat. Ers 1990, collwyd dros 40 o westai yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r duedd hon wedi arafu bellach ac ers 2010 mae nifer fechan o westai newydd wedi'u datblygu yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.211 Mae gwestai a thai llety yn aml yn rhan o apêl a chymeriad tref, pentref neu ardal, sy'n helpu i ddenu ymwelwyr. Mewn rhai achosion, megis yr Esplanade in Ninbych-y-pysgod, maent yn rhan gynhenid o hunaniaeth ffryntiad penodol. Mae'r gwestai mwy o faint hefyd yn aml yn dirnodau pwysig yn y drefwedd neu'r tirwedd.

4.212 Cydnabyddir y bydd y galw am wahanol fathau o lety gwyliau yn parhau i newid ac mae hyn yn cael ei gydnabod yn y polisi sy'n caniatáu newid defnydd y safleoedd hynny nad ydynt bellach yn hyfyw a lle nad oes ganddynt unrhyw botensial realistig o fod yn hyfyw.

4.213 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi ar golli gwestai.

Polisi 41

Datblygiad Hunanarlwyo



Caniateir datblygiadau hunanarlwyo mewn cynigion ar safle tir llwyd mewn Canolfan yn unig, neu mewn cynigion i addasu adeiladau mewn lleoliad yng nghefn gwlad (gweler0a0) lle mae'n rhaid dangos bod y safle neu'r adeilad yn amhriodol ar gyfer darparu tai marchnad neu dai fforddiadwy.¹³⁵

Ni chaniateir datblygiadau hunan-arlwyo newydd ar safleoedd maes glas.

4.214 Diffinnir llety hunanarlwyo fel llety hunanarlwyo nad yw'n garafán, gan gynnwys fflatiau, bythynnod, tai a byngalos i'w rhentu, lle mai'r brif ddiben yw eu gosod ar gyfer gwyliau.

4.215 Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys hostelau sy'n darparu llety rhad dros nos gyda chyfran helaeth o lety dormitori, cyfleusterau hunanarlwyo a chyfleusterau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau awyr agored neu astudiaethau maes. Bydd hostelau sy'n darparu gwasanaethau arlwyo yn cael eu hystyried yn llety â gwasanaeth.

4.216 Gall unedau hunanarlwyo pwrpasol helpu i dynnu'r pwysau oddi ar ddefnyddio tai lleol ar gyfer llety gwyliau. Fodd bynnag, mae angen taro cydbwysedd, ac o ystyried y nifer fawr o eiddo gwyliau yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd, bydd yr Awdurdod yn rhoi blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy yn lle llety hunanarlwyo os daw cyfleoedd o'r fath yn codi. Mewn egwyddor, mae pob tŷ marchnad newydd (tai preifat i'w gwerthu neu eu rhentu lle mae'r pris yn cael ei bennu gan y farchnad agored ac nad yw eu meddiannaeth yn ddarostyngedig i reolaeth yr awdurdod cynllunio lleol) yn gallu cyfrannu at ddiwallu'r galw am dai fforddiadwy.¹³⁶

4.217 Lle caniateir hunan-arlwyo yn cael ei ganiatáu, bydd amodau cynllunio yn sicrhau bod y cyfleusterau'n parhau yn unedau llety gwyliau ac nad ydynt yn cael eu defnyddio fel unig breswylfa neu brif breswylfa. Mae'r term 'amhriodol' yng ngeiriad y polisi yn cyfeirio at achosion lle gallai problemau

¹³⁵ Gweler 6. Geirfa

¹³⁶ Paragraffau 9-Paragraff 4.2.14.26 a 4.2.16.30 Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018 Mae'r term 'awdurdod lleol' yn cynnwys 'awdurdod cynllunio lleol'

amwynder godi, er enghraifft, o gael datblygiad preswyl llawn amser gerllaw clwstwr o adeiladau gwyliau sy'n bodoli eisoes neu o fewn clwstwr o'r fath.

- 4.218 Bydd y polisi hwn yn cael ei ddefnyddio i ystyried adeiladau newydd ac addasu adeiladau i greu llety hunan-arlwygo.

Datblygu meysydd carafannau, gwersylla a chabanau

- 4.219 Mae'r polisi isod ar feysydd carafannau, gwersylla a chabanau yn cael ei ategu gan Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau (Tachwedd 2015), a oedd yn asesiad systematig o gapasiti 28 Ardal Cymeriad Tirwedd presennol i ddarparu ystod o wahanol fathau o ddatblygiadau carafannau, gwersylla a chabanau, gan gynnwys mathau eraill o lety sy'n dod yn gyffredin.¹³⁷ ¹³⁸ Roedd ynddo hefyd gyngor ar sail Ardal Cymeriad Tirwedd ynghylch a ellir uwchraddio safleoedd presennol, eu hehangu i gynyddu'r llety sydd yno, eu hehangu i wella'u golwg a/neu a ellir cynnwys safleoedd newydd.
- 4.220 Mae canfyddiadau'r astudiaeth sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd yn awgrymu bod potensial ar gyfer rhai mathau o ddatblygiad ar raddfeydd cyfyngedig mewn rhai mannau ac y gellid ffrwyno'r ddarpariaeth mewn mannau eraill.
- 4.221 Mae'r patrymau o newid yn y defnydd o unedau teithiol i unedau sefydlog a chyflwyno mathau newydd o lety hamdden, gan gynnwys 'glampio' yn dangos bod cymeriad y math hwn o ddatblygiad yn newid a'i fod yn debygol o barhau i newid. Nid yw'n bosibl rhagfynegi sut y bydd y sector a'r gwahanol fathau o lety yn esblygu na pha mor boblogaidd y byddant yn y dyfodol. Felly, mae'r polisïau'n seiliedig ar egwyddorion craidd ac yn gwahaniaethu rhwng graddfa gymharol a sefydlogrwydd datblygiad hynny yw y gwahaniaeth rhwng unedau sefydlog sy'n bresennol trwy gydol y flwyddyn ac unedau teithiol, sy'n bresennol ar gyfer rhan o'r tymor.
- 4.222 Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn seiliedig ar y Papur Cefndir Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau.

Polisi 42 Datblygu meysydd carafannau, gwersylla a chabanau¹³⁹★

Caiff safleoedd Carafannau, Gwersylla a Chabanau newydd a newidiadau ♠ i lety mewn mathau o leiniau♣ o fewn safleoedd presennol eu hystyried i ffwrdd o'r

¹³⁷ Papur Cefndir: Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau (Tachwedd 2015)

¹³⁸ Papur Cefndir: Roedd yr Astudiaeth yn dibynnu ar Asesiad Cymeriad Tirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae'r Asesiad Cymeriad Tirwedd yn nodi 28 o ardaloedd cymeriad yn y Parc Cenedlaethol

¹³⁹ Mae hyn yn cynnwys glampio. Gweler y cyfiawnhad rhesymegol am ddiffiniadau

arfordir a'r Preselau ac mewn lleoliadau nad ydynt yn rhyngweladwy¹⁴⁰.

Ystyrir estyniadau i safleoedd presennol lle mae'r estyniad mewn lleoliad sydd wedi'i sgrinio'n dda.

Caniateir estyniadau i safleoedd sy'n bodoli eisoes heb gynyddu niferoedd y lleiniau er mwyn sicrhau gwelliant amgylcheddol clir mewn perthynas â thirlunio a llunwedd lle mae gan y safleoedd presennol rannau amlwg iawn, sy'n aml yn weladwy o'r arfordir a dyfroedd y glannau, a lle mae'r estyniadau yn gyfle i drosglwyddo'r lleiniau i fannau llai amlwg.

Rhaid i gynigion a gyflwynir ar gyfer yr uchod sicrhau ♣bod♣:

- a) bod datblygiadau newydd (gan gynnwys cyfleusterau ategol) a newidiadau o fewn safleoedd yn osgoi lleoliadau sensitif a rhaid i unedau gael eu lleoli fel y gellir eu cymathu yn hawdd i'r dirwedd heb achosi effaith andwyol annerbyniol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol (gweler 0).**
♣Maen prawf newydd♣ Rhaid i unedau gael eu lleoli fel y gellir eu cymathu yn hawdd i'r dirwedd heb achosi effaith andwyol annerbyniol ar dirwedd y Parc Cenedlaethol (gweler Polisi 16).
- b) nad oes unrhyw effeithiau cronus andwyol annerbyniol pan ystyrir hynny ar y cyd â datblygiad arall yn yr ardal (gweler 0).**
- c) bod unrhyw gyfleusterau ategol, lle bynnag y bo modd, yn cael eu lleoli mewn adeilad presennol neu fel estyniad i'r cyfleusterau presennol. Os nad oes adeilad presennol ar gael, rhaid dangos yn glir yr angen am gyfleusterau ychwanegol a rhaid iddynt fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad (gweler hefyd Bolisi 40).**
- d) bod y cyfleoedd gwella yn cyflawni gwelliant amgylcheddol cyffredinol lle mae manteision clir i**

¹⁴⁰ Gweler 6. Geirfa

leihau'r effaith ar y dirwedd o amgylch.

- 4.223 Mae'r Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau yn cynnwys cyngor cyffredinol a manwl ar yr hyn a olygir wrth dermau fel 'i ffwrdd o'r arfordir a Preselau' a 'lleoliadau sensitif', sut i gymathu cynigion i'r dirwedd a sut i liniaru a gwella. Mae'r argymhellion a'r canllawiau wedi'u teilwra ar gyfer pob ardal cymeriad tirwedd yn cael blaenoriaeth dros y canllawiau cyffredinol ar leoli, liniaru a gwella sydd wedi'u nodi yn Atodiad B i'r Asesiad.
- 4.224 Mae'r cyfleoedd ar gyfer safleoedd newydd ac estyniadau i'r safleoedd presennol, ar y cyfan, yn rhai ar raddfa fach, yn darparu ar gyfer meysydd carafannau teithiol neu wersyllfeydd tymhorol. Efallai bod nifer fach iawn o gyfleoedd ar gyfer cynigion ar raddfa ganolog. Ni nodwyd cyfleoedd ar gyfer safleoedd sefydlog newydd ar raddfa fawr. Mae'r tabl isod yn dangos beth yw ystyr maint safle (bach, canolog, mawr) a'r hyn a olygir gan y termau (tymhorol neu sefydlog). Deilliodd y trothwyon maint o asesiad rhagarweiniol o sampl o wahanol ddatblygiadau yn nhirwedd Sir Benfro gan ystyried graddfa a phatrwm y dirwedd.

Tabl 2 Diffiniad o wahanol fathau o ddatblygiad

Math o ddatblygiad a maint y safle	Diffiniad
Sefydlog: mawr	Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau ac opsiynau glampio mewn podiau/strwythur caled ar safle dros 3Ha.
Sefydlog: canolog	Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau ac opsiynau glampio mewn podiau/strwythur caled ar safle rhwng 0.5Ha a 3Ha.
Sefydlog: bach	Unedau sefydlog gan gynnwys carafannau, cabanau ac opsiynau glampio mewn podiau/strwythur caled ar safle rhwng 0 a 0.5Ha.
Tymhorol: mawr	Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal megis iyrtau, tipîs a phebyll saffari dros 3Ha.
Tymhorol: canolog	Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal megis iyrtau, tipîs a phebyll saffari rhwng 0.5Ha a 3Ha.
Tymhorol: bach	Unedau tymhorol gan gynnwys carafannau teithiol, pebyll, opsiynau glampio strwythur meddal megis iyrtau, tipîs a phebyll saffari rhwng 0 a 0.5Ha.

- 4.225 Mae'r diffiniad o unedau teithiol yn cynnwys carafannau teithio, pebyll, pebyll trelars a charafannau modur, modurdai, faniau teithio a gwersyllfaniau.

- 4.226 Diffinnir glampio fel math o lety sydd wedi'i godi ymlaen llaw ar safle, a gall gynnwys iyrtau, tipîs, podiau, tai mewn coed a phebyll saffari, er y gellir ei ddarparu mewn amrywiaeth o strwythurau eraill. Bydd lefel y sefydlogrwydd, graddfa a dyluniad lleol yn pennu sut y caiff y strwythurau hyn eu hystyried.
- 4.227 Bydd opsiynau glampio meddal fel iyrtau, tipîs, pebyll saffari a phebyll cloch yn cael eu trin fel unedau teithiol neu ddatblygiad tymhorol cyn belled â'u bod yn cael eu symud o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a/neu am y rhan fwyaf o'r flwyddyn a bod y safle yn cael cyfle i lasu. Lle bwriedir codi seilwaith sefydlog cysylltiedig megis deciau, ffensys neu baneli solar, efallai y bydd y pebyll yn cael eu hystyried o dan yr un categori â datblygiad carafannau sefydlog. Bydd pob cynnig yn cael ei ystyried fesul achos.¹⁴¹
- 4.228 Gallai opsiynau glampio caled fel podiau neu bebyll pren neu adeileddau caled eraill gael eu hystyried yr un fath â charafannau teithio neu sefydlog neu gabanau yn unol â diffiniad statudol o garafán yn Atodiad C o'r Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau. Mae hyn yn dibynnu a ellir symud y strwythur yn hawdd oddi ar y safle mewn un darn, os oes ganddo sylfaen goncrid barhaol, a yw wedi'i gysylltu'n barhaol â chyflenwad trydan neu â gwasanaethau eraill fel dŵr a gwaredu gwastraff neu a oes strwythurau ategol megis deciau, ffensys neu baneli solar yn gysylltiedig ag ef. Bydd y penderfyniad ar ei statws yn cael ei wneud fesul achos.¹⁴²
- 4.229 Rhaid symud unedau teithiol o'r safle pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Yn ddelfrydol, dylai'r storfa ar gyfer unedau teithiol fod mewn adeilad addas sy'n bodoli eisoes neu, mewn rhai amgylchiadau, ar safleoedd sydd wedi'u sgrinio'n dda, nad ydynt yn amlwg, ac na ellir eu gweld o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd ar dir neu ar y môr.
- 4.230 **Effeithiau Cronnus:** Wrth ystyried effeithiau cronnus, yr egwyddor allweddol i'w chymhwyso yw os yw math penodol o ddatblygiad ar raddfa benodol yn dderbyniol mewn ardal cymeriad tirwedd benodol, nid yw hyn yn golygu, pe byddai'n cael ei weithredu, y byddai'n briodol neu'n dderbyniol i gynyddu maint neu ddwysáu'r defnydd a wneir o'r safle yn y dyfodol. Byddai sensitifrwydd yr Ardal Cymeriad Tirwedd yn debygol o aros yr un fath a gall y capasiti leihau er mwyn diogelu a bodloni nodweddion arbennig a dibenion y Parc Cenedlaethol.
- 4.231 **♠Amodau:** ~~Bydd amod sy'n atal meddiannaeth drwy gydol y flwyddyn yn cael ei chynnwys ar unrhyw ganiatâd a roddir. Fel rheol, cyfyngir ar y defnydd tymhorol i gyfnod rhwng dechrau mis Mai a diwedd mis Medi~~ Bydd amod i sicrhau bod llety gwyliau yn cael ei ddefnyddio at ddefnydd gwyliau ac nad yw'n cael ei feddiannu fel unig neu brif le preswyllo unigolyn, yn cael ei gynnwys ar unrhyw ganiatâd a roddir. Fel rheol

¹⁴¹ Gweler6. Geirfa

¹⁴² Gweler6. Geirfa

caniateir i safleoedd neu leiniau tymhorol weithredu rhwng dechrau mis Mai a diwedd mis Medi.♣

- 4.232 Mae'r polisi hwn yn eithrio meysydd carafannau a gwersylla a ganiateir gan y rheol '28 diwrnod' a safleoedd a weithredir o dan Dystysgrifau a roddir gan Sefydliadau Eithriedig.^{143 144}

Polisi 43 Cyfleusterau Safle ar Safleoedd Gwersylla, Cabanau a Charafannau

Caniateir datblygu cyfleusterau manwerthu a chyfleusterau eraill ar safleoedd gwersylla, cabanau a charafannau lle gellir dangos:

- a) ~~gellir dangos nad yw'r cyfleuster eisoes ar gael yn y cyffiniau; a lle mae graddfa a dyluniad y cyfleuster yn gydnaws â chymeriad yr ardal gyfagos; a~~**
- b) ~~ni effeithir yn andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau manwerthu a gwasanaethau Canolfannau cyfagos.~~**

- 4.233 Derbynnir, yn gyffredinol, bod meysydd cabanau, carafán a phebyll angen cyfleusterau ymolchi a thoiledau o ansawdd da. Yn ychwanegol at hyn, mae meysydd carafán a chabanau mwy o faint yn gallu cyfiawnhau, er enghraifft, darparu siop ar gyfer y maes, swyddfa, cyfleuster golchi dillad neu ystafell gemau. Lle bo hynny'n bosibl, dylid gwneud hyn trwy addasu neu newid adeiladau sydd eisoes yn bodoli, er y cydnabyddir y bydd angen adeiladau newydd mewn rhai achosion. Ni fydd cyfleusterau arlwy, hamdden neu siopa ar raddfa sy'n fwy na gofynion rhesymol anheddwyr y safle, neu sydd â pherthynas wan â maint, cymeriad neu leoliad y safle, yn cael eu hannog. ♣ At ddibenion y polisi hwn, bydd 'cyffiniau' fel arfer yn golygu hyd at 1km o bellter cerdded o'r brif fynedfa i'r safle. ♣ Efallai y bydd cyfleusterau mwy o faint, a chyfleusterau sydd ar raddfa fwy, yn cael eu hystyried lle mae prinder cyfleusterau o'r fath yn yr ardal leol. Gwrthwynebir trawsnewid safleoedd yn gyfaddiladau gwyliau hunangynhaliol sy'n darparu cyfleusterau hamdden neu siopa helaeth ac amhriodol. Rhaid cael cydbwysedd, felly, rhwng yr angen i gynnal neu wella ansawdd cyfleusterau ar y safle (gan ystyried gofynion trwyddedu safleoedd), a'r

¹⁴³ Mae Atodlen 2, Rhan 4, Dosbarth A o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu defnyddio tir at wahanol ddibenion – gan gynnwys 'codi pebyll' am hyd at 28 diwrnod mewn unrhyw flwyddyn galendr

¹⁴⁴ Mae Deddf Safleoedd Carafannau a Rheoli Datblygu 1960 yn rhoi hawl i rai sefydliadau ganiatáu i dirfeddianwyr sefydlu safleoedd gwersylla bach ar eu tir heb fod angen caniatâd cynllunio. Gall safleoedd o'r fath gynnwys hyd at bum carafán a modurdai a hyd at 10 pabell, os oes lle

angen i ddiogelu cyfleusterau sydd eisoes yn bodoli mewn Canolfannau gerllaw.

- 4.234 Ar safleoedd bach yn enwedig, gwrthwynebir datblygu cyfleusterau sydd tu hwnt i'r rheini sy'n ofynnol gan yr awdurdod trwyddedu. Fe fydd disgwyl i'r cyfleusterau o dan y polisi hwn gael eu darparu o fewn cyfyngiadau'r safle presennol. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig, fe fydd yn briodol gosod amodau ar ganiatâd ar gyfer cyfleusterau o'r fath i gyfyngu eu defnydd i bobl sy'n aros ar y safle. Bydd amodau o'r fath yn sicrhau bod maint y cyfleusterau'n parhau i fod yn addas at y diben gwreiddiol ac fe fydd yn sicrhau nad yw bywiogrwydd a hyfywedd y cyfleusterau lleol yn cael eu tanseilio.

Cyflogaeth

- 4.235 Mae economi Sir Benfro yn adlewyrchu ei lleoliad ymylol. Er bod nifer fach o gyflogwyr mawr yn y sectorau ynni a gwasanaeth, mae'r sir yn dibynnu ar fentrau bach a chanolig i yrru ei heconomi, gyda dros 94% o fusnesau cofrestredig yn cyflogi llai na 10 o bobl. Mae 12% o'r gweithlu yn hunangyflogedig.
- 4.236 Mae'r rhan fwyaf o'r bobl sy'n gweithio yn Sir Benfro hefyd yn byw yn Sir Benfro ac mae'r gydberthynas hon yn arbennig o gryf o fewn y Parc Cenedlaethol.¹⁴⁵ Mae'r cyflogwyr mwyaf sy'n denu pobl sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd agosaf wedi eu lleoli y tu allan i'r Parc Cenedlaethol ac yn bennaf yn amgylchynu Dyfrffordd yr Hafan a Hwlfordd. Mae 9% o bobl sy'n teithio i'r gwaith yn teithio i Sir Gaerfyrddin (5%) a Cheredigion (4%). Mae hefyd mwy o bobl hunangyflogedig yn Sir Benfro na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU.
- 4.237 Yn unol â Chynllun Gofodol Cymru, mae darparu cyflogaeth strategol yn Sir Benfro yn rhan o awdurdodaeth cynllunio'r Cyngor Sir lle mae safleoedd strategol yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor, yn enwedig ar Ddyfrffordd yr Hafan, yn darparu cyfleoedd ar gyfer twf cyflogaeth yn agos at brif ganolfannau poblogaeth. Ni wnaed dyraniadau tir bychan ar gyfer cyflogaeth yn awdurdod cynllunio'r Awdurdod Parc Cenedlaethol (hyfywedd a diffyg diddordeb gan ddatblygwyr yw'r ddwy brif broblem) yn y Cynllun Datblygu Lleol cyntaf a'r bwriad trwy adolygu yw ymateb i ansicrwydd trwy ystyried dull mwy hyblyg ar sail polisi sy'n seiliedig ar feini prawf.¹⁴⁶
- 4.238 O ran darparu ar gyfer busnes yn Sir Benfro yn gyffredinol, am eiddo wedi'i godi'n barod y mae'r galw, yn hytrach na thir. Mae angen sicrhau cyflenwad digonol o unedau diwydiannol llai o hyd at 1,750 troedfedd sgwâr ar gyfer busnesau newydd a chwmnïau bach a mewnfuddsoddwyr mwy (tua 10,000). Y lleoliadau a bennir yw Hwlfordd, yr Hafan ac Abergwaun a gogledd Sir Benfro.¹⁴⁷ Cydnabyddir bod adeiladau busnes a ddarperir gan y sector cyhoeddus wedi darfu ac felly bydd sicrhau

¹⁴⁵ Gweler y Papur Cefndir ar Gyflogaeth am ragor o wybodaeth

¹⁴⁶ Gweler y Papur Cefndir ar Gyflogaeth am ragor o wybodaeth

¹⁴⁷ Strategaeth Datblygu Economaidd a Chynllun Gweithredu Cyngor Sir Penfro 2017- 2022, tudalen 46

cyflenwad digonol o swyddfeydd ac adeiladau busnes bellach yn dibynnu ar ymwneud â'r sector preifat i ganfod safleoedd a chyfleoedd.

- 4.239 Y strategaeth ar gyfer creu cyflogaeth yw caniatáu ar gyfer darpariaeth ar raddfa fach yn y Parc i wella lles economaidd-gymdeithasol cymunedau'r Parc a hefyd i helpu i fynd i'r afael â materion tymhorol â chyflogaeth yn yr ardal. Ni ystyrir cynigion ar raddfa fawr yn gydnaws â dynodiad y Parc Cenedlaethol. Ystyrir datblygiad cyflogaeth ar raddfa fach fel datblygiad sy'n cynnwys llai na 2 hectar o dir ar gyfer busnes, diwydiant cyffredinol neu storio a dosbarthu. Caiff hyn ei ategu gan bolisïau ychwanegol ar gyfer ystod o ddefnyddiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth (0 Cefn Gwlad, 0 Harbyrau Porth-gain, Saundersfoot, Solfach a Dinbych-y-pysgod, 0 Pyllau Benthyl, 0 Cerrig Adeiladu Lleol, 0 Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Lleol, 0 Ynni Adnewyddadwy, 0 Economi Ymwelwyr, 0 Arallgyfeirio ar Ffermydd, 0 Datblygiad Un-Blaned, 0 Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol, 0 Telathrebu, a 0 Llinellau Pŵer a Phiblinellau).
- 4.240 Er mwyn osgoi achosi teithiau aml, y lleoliadau a hyrwyddir yn gyffredinol yw'r rhai lle mae cartrefi, siopau a gwasanaethau wedi'u lleoli neu y bwriedir eu lleoli. Fodd bynnag, mae'r Cynllun yn cydnabod bod angen estyniadau i fusnesau sefydledig yng nghefn gwlad weithiau ynghyd â'r angen i fusnesau newydd ymuno â chlystyrau sy'n bodoli eisoes. Bydd angen asesu effeithiau traffig. Ni chaniateir y rhai sy'n achosi effeithiau andwyol sylweddol na ellir eu lliniaru (gweler 0 a0).
- 4.241 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol rhagwelir y bydd safleoedd cyflogaeth ar raddfa fach wedi'u rhyddhau a'u bod yn cael eu datblygu mewn rhai o'r Canolfannau mwyaf yn y Parc. Bydd cyflogaeth hefyd wedi cael ei greu y tu allan i'r ardaloedd hyn. Bydd llawer o safleoedd sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer cyflogaeth ers peth amser yn dal i fod ar gael i ddefnyddwyr newydd. Bydd pob harbwr yn y Parc Cenedlaethol yn parhau i gyfrannu'n gadarnhaol at gyflogaeth a chymeriad yr ardal.

**Polisi 44 Safleoedd Cyflogaeth ac Unedau Byw/Gweithio
(Polisi Strategaeth)**



Bydd cyfleoedd cyflogaeth yn cael eu darparu a'u diogelu trwy:

- a) Cyfeirio cynigion cyflogaeth ar raddfa fach i leoliadau priodol yng Nghanolfannau'r Cynllun Datblygu Lleol neu'n agos iddynt, neu adeiladau sy'n addas i'w haddasu yng nghefn gwlad (gweler 0d). Gall arallgyfeirio ar ffermydd hefyd fod o gymorth (gweler 0).**
- b) Caniatáu mentrau gwledig yng nghefn gwlad lle gwelir ei bod yn hanfodol lleoli'r fenter yng nghefn gwlad. Dylai mentrau gwledig ddefnyddio adeiladau presennol lle bynnag y bo modd.**

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2

Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

- c) Caniatáu estyniadau i fusnesau sefydledig a rhoi ystyriaeth ffafriol i fusnesau newydd sy'n awyddus i ymuno â chlystyrau presennol yng nghefn gwlad.**
- d) Cyfuno defnyddiau busnes â defnyddiau eraill megis cyfleusterau cymunedol neu dai gan gynnwys unedau byw/gweithio.**
- e) Diogelu safleoedd cyflogaeth presennol ar gyfer defnydd cyflogaeth ac eithrio mewn lleoliadau lle nad yw'r defnydd presennol yn addas i'r ardal neu fod darpariaeth ddigonol eisoes neu nad yw'r defnydd presennol yn hyfyw. Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer safle cyflogaeth ddiangen, rhoddir blaenoriaeth i gyfleuster cymunedol neu ddarparu tai marchnad / tai fforddiadwy (gweler0).**
- f) Diogelu a gwella'r harbyrau yn Ninbych-y-pysgod, Saundersfoot, Solfach a Phorth-gain (gweler0).**

4.242 Mae'r term 'clystyrau' ym maen prawf c) uchod yn golygu bod dau neu ragor o ddefnyddiau dosbarth B yn ymyl ei gilydd lle mae'r defnydd dosbarth B sy'n ymuno yn gallu dangos sut y bydd yn elwa o gael ei leoli gyda'r lleill.

4.243 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar ddatblygiadau cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig. Darllenwch ~~Bennod 7 'Cefnogi'r Economi'~~ 5 Lleoedd Cynhyrchion a Mentergarwch. Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) a Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygu Economaidd Chwefror 2014 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) hefyd yn rhoi arweiniad manwl.

4.244 Mae'r term 'mentrau gwledig' ym maen prawf b) yn cynnwys busnesau sy'n gysylltiedig â thir gan gynnwys amaethyddiaeth, coedwigaeth a gweithgareddau eraill sy'n cael eu prif fewnbwn o'r safle, megis prosesu cynhyrchion amaethyddol, coedwigaeth a mwynau ynghyd â gweithgareddau rheoli tir a gwasanaethau cymorth (gan gynnwys contractio amaethyddol).

4.245 Mae'r polisi a'r cyngor canlynol yn rhoi arweiniad ychwanegol ar ddiogelu safleoedd cyflogaeth.

Polisi 45

Diogelu Safleoedd ac Adeiladau Cyflogaeth

Rhoddir caniatâd i ailddatblygu, neu ddefnyddio, safleoedd neu adeiladau busnes, diwydiant, storio neu ddosbarthu cyffredinol at ddibenion eraill lle:

a) mae'r defnydd presennol yn amhriodol i'r ardal leol;

neu

- b) mae digon o ddarpariaeth amgen yn y cyffiniau; neu**
- c) lle gwelwyd nad oes modd parhau i ddefnyddio'r safle neu'r adeilad. Wrth ystyried cadw'r defnyddiau presennol dylaid cynnig y safle neu'r eiddo ar werth ar y farchnad agored am o leiaf blwyddyn am bris realistig.**

Lle mae cyfiawnhad dros golli'r safle cyflogaeth, rhoddir blaenoriaeth i ddefnydd cymunedol neu ddarparu tai marchnad/tai fforddiadwy lle bo angen o'r fath a lle bo'r safle'n addas ar gyfer datblygiad o'r fath (gweler hefyd0a0).

- 4.246 Diben y polisi hwn yw atal colli safleoedd ac adeiladau cyflogaeth presennol yn amhriodol at ddefnyddiau eraill, oni bai bod manteision y gellir eu priodoli i'r datblygiad newydd neu os oes digon o ddewis arall ar gael mewn mannau eraill yn yr ardal. Yn gyffredinol, mae cyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol ar raddfa fach neu ficro ac yn wasgaredig. Ystyr 'safleoedd ac adeiladau cyflogaeth' yw safleoedd ac adeiladau (boed yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd neu heb eu meddiannu) sydd â chaniatâd cynllunio neu ddefnydd cyfreithlon. Yn y Parc Cenedlaethol ychydig o dir addas sydd ar gael ar gyfer datblygiadau busnes. Mae'n arbennig o bwysig diogelu safleoedd presennol megis hen safleoedd modurdai i'w hailddefnyddio ar gyfer mentrau cyflogaeth ac atal ailddatblygu at ddibenion eraill. Ym maen prawf a) bydd y defnydd presennol yn cael ei farnu o ran y modd y mae natur a graddfa'r defnydd yn cydweddu â'r ardal leol a'i effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol. Ym maen prawf b) wrth asesu darpariaeth amgen digonol yn y cyffiniau dylid ystyried capasiti'r defnyddiau presennol, a'r safleoedd gwag a safleoedd cyflogaeth sydd ar gael. Ym maen prawf c) un o amcanion y Cynllun yw sicrhau bod anghenion cymunedau lleol yn cael eu blaenoriaethu wrth ddefnyddio tir. Mae hyn yn golygu y bydd darparu tai fforddiadwy a/neu ddarparu cyfleusterau cymunedol yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth gyntaf ar gyfer aildddefnyddio tir cyflogaeth. Ni chefnogir defnyddiau eraill oni bai fod tai a defnydd cymunedol heb fod yn addas ar gyfer y safle.

Arallgyfeirio ar Ffermydd

- 4.247 Cydnabyddir bod ehangu sylfaen economaidd y gweithgareddau ffermio yn ffordd o wella hyfywedd yr economi amaethyddol yn yr ardal.
- 4.248 Mae'r polisi hwn yn ymwneud â datblygiadau arallgyfeirio ar ffermydd (gweithgareddau economaidd wedi'u cysylltu'n glir ag uned amaethyddol weithredol lle mae'n cynorthwyo i gynnal incwm y fferm). Ystyr uned amaethyddol yw tir amaethyddol a feddiennir fel uned at ddibenion amaethyddiaeth gan gynnwys unrhyw annedd neu adeilad arall ar y tir hwnnw sy'n cael ei feddiannu at ddibenion ffermio'r tir gan y person sy'n meddiannu'r uned neu unrhyw annedd ar y tir hwnnw a feddiennir gan weithiwr fferm.

- 4.249 Da o beth fydd cyflwyno Cynigion Fferm cadarn gyda chynigion datblygu a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i'r Awdurdod ar sut y bydd y datblygiad arfaethedig yn helpu i gynnal busnes y fferm yn y tymor byr a'r tymor hir. Gall yr Awdurdod wedyn ddeall yr ymagwedd gyffredinol at y fferm gyfan, yn hytrach nag ymagwedd ad hoc gyda cheisiadau bach yn cael eu cyflwyno gydag amser. Gall cynllun fferm ddangos sut y byddai'r arian o'r datblygiad arfaethedig yn cael ei fuddsoddi yn y fferm er mwyn sicrhau gweithgarwch ffermio mwy hyfyw. Ni ddylai gweithrediad yr uned amaethyddol gael ei amharu gan y cynnig.
- 4.250 Wrth ystyried unrhyw gynnig i arallgyfeirio, bydd yr Awdurdod yn ystyried yr effeithiau y mae cynigion o'r fath yn debygol o'u cael ar amwynder trigolion cyfagos a pha mor ddigonol yw'r rhwydwaith ffyrdd presennol i ymdopi ag unrhyw newidiadau yn llif y traffig sy'n deillio o'r cynnig. Mae llawer o ffermydd wedi'u lleoli mewn mannau anghysbell ac mae angen teithio ar hyd ffyrdd gwledig i'w cyrraedd.
- 4.251 Mae'r rhan fwyaf o fentrau ffermio wedi'u lleoli mewn cefn gwlad deniadol, a lle mae cyfiawnhad dros godi adeilad newydd dylai gael ei adeiladu'n mewn modd sy'n gweddu i'r dirwedd a dylai fod ar raddfa sy'n briodol i'w leoliad a'i amgylchedd. Bydd angen esbonio unrhyw angen am adeilad newydd a pham nad yw'r rhai sy'n bodoli eisoes yn addas. Bydd cynigion arallgyfeirio sy'n ailddefnyddio adeiladau presennol yn cael eu hystyried yn fwy ffafriol na'r rhai lle mae angen adeiladu o'r newydd.
- 4.252 Wrth ystyried 'effeithiau andwyol annerbyniol' dylid ystyried hefyd yr effeithiau posibl ar safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 (gweler0).

Polisi 46

Arallgyfeirio ar Ffermydd

Rhoddir caniatâd i gynigion arallgyfeirio ar ffermydd:

- a) lle mae'r cynllun yn digwydd ar uned amaethyddol weithiol; a**
- b) lle mae'r cynnig yn cynorthwyo i gynnal yr uned amaethyddol; a**
- c) lle mae'r cynnig yn gydnaws â'i leoliad; a**
- d) lle mae'r diben yn cyd-fynd â / neu'n gwella tirwedd y Parc Cenedlaethol; ac**
- e) os oes cyfiawnhad dros godi adeilad newydd dylid ei leoli mewn grŵp presennol o adeiladau neu yn eu hymyl;¹⁴⁸ a**
- f) ni effeithir yn andwyol ar fywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau manwerthu a gwasanaethau Canolfannau cyfagos; ac**

¹⁴⁸ Bydd canllawiau ar leoli adeiladau fferm newydd yn cael eu paratoi
 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
 Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

g) ar yr amod na achosir unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol.

Pan fodlonir gofynion o'r fath bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn gosod amodau ar y caniatâd cynllunio neu'n ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ymrwymo i gytundeb cyfreithiol i sicrhau bod y cynnig arallgyfeirio yn cael ei glymu yn barhaus wrth yr uned amaethyddol.

Blaenoriaeth E: Tai Fforddiadwy a Thai

E. Tai Fforddiadwy a'r Ddarpariaeth Dai

Dadansoddiad Demograffig

- 4.253 Yn Sir Benfro, mae natur y boblogaeth sylfaenol a'r boblogaeth fudol ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn wahanol i'r hyn ydyw y tu allan i'r Parc Cenedlaethol. Yn gryno, mae'r ddau grŵp yn tueddu i fod yn hŷn yn y Parc Cenedlaethol nag yng ngweddill Sir Benfro.
- 4.254 Mae ffigurau amcanestynedig Llywodraeth Cymru o aelwydydd yn awgrymu nad oes llawer o gyfiawnhad dros wneud darpariaeth ar gyfer tai yng Nghynllun Datblygu Lleol 2. Mae'r amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd a baratowyd ar gyfer yr Awdurdod yn cynnwys amryw senarios ar sail demograffi ac anheddau, ac yn eu cymharu ag amcanestyniadau poblogaeth Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014.¹⁴⁹ O ran twf, mae'r rhai sy'n seiliedig ar anheddau yn adlewyrchu newid yn nhueddiadau'r dyfodol a amcangyfrifwyd o dan y senarios sy'n seiliedig ar ddemograffi. Mae'r senarios sy'n seiliedig ar anheddau yn parhau i ddangos proffil poblogaeth sy'n weddol ifanc ond mae pob senario yn dangos cynnydd sylweddol yn y grwpiau o bobl hŷn.

Asesiad o'r Farchnad Dai Leol¹⁵⁰

- 4.255 Cyfanswm yr angen am dai fforddiadwy dros 16 mlynedd y Cynllun yw 370 (yr angen y flwyddyn) wedi'i luosi ag 16, sef 5,920 o unedau tai fforddiadwy. Mae'r angen yn fwy na chyfradd y tai a gwblhawyd yn y gorffennol yn y Parc Cenedlaethol.
- 4.256 Mae'r tabl isod yn dangos:
- cyfran yr aelwydydd ym mhob haen o ardal y Cynllun yn 2011.
 - lefel yr angen am dai fel y'i nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol am y cyfnod 2014 i 2019 ar gyfer pob haen.
 - y cyfraddau cwblhau cyfartalog blynyddol ar gyfer y cyfnod 2005 i 2015 ym mhob un o'r haenau.
 - pa mor agos y mae canran y dosbarthiadau aelwydydd, yr angen am dai fforddiadwy a'r cyfraddau cwblhau yn asio.

¹⁴⁹ Papur Cefndir: Rhagolygon Demograffig, Ionawr 2018

¹⁵⁰ Papur Cefndir Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, Cyngor Sir Penfro 2014 a'r Astudiaeth o Dai Fforddiadwy, Mai 2017

Tabl 3 Yr Angen am Dai a'r Cyfraddau Cwblhau

	Aelwydydd 2011	% o'r cyfan- swm	Yr angen am dai fesul blwyddyn mewn Grŵp/ Cynghorau Cymuned 2014 – 2019 (Cyfanswm)	Angen dros 5 mlynedd	% o'r cyfan- swm	Cyfradd Cwblhau Blynnyddol 2005 i 2015	% o'r cyfan- swm	Gan ddefnyddio cyfradd gwblhau flynyddol y gorffennol 2005 i 2015 60 y flwyddyn, darpariaeth 16 mlynedd
Dinbych-y-pysgod	2253	22%	88	440	24%	16	27%	256
Tyddewi	851	8%	34	171	9%	5	8%	80
Trefdraeth	583	6%	24	120	6%	2	4%	32
Saundersfoot	1200	12%	45	225	12%	9	16%	144
Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad	5390	52%	178	892	48%	27	46%	432
Cyfanswm	10,277	100%	370	1848	100%	59	100%	944

4.257 Mae Tabl 3 uchod yn dangos sut y mae angen tai fforddiadwy yn tueddu i gyfateb i gyfran yr aelwydydd ym mhob lleoliad a'r cyfraddau datblygu ym mhob haen. Mae darpariaeth a ddosrannwyd fel hyn (yn unol â'r aelwydydd presennol) yn dangos yn gyfrannol lle mae angen darparu tai fforddiadwy a lle mae'r farchnad wedi bod yn gefnogol i ddarparu tai yn y gorffennol. Mae hefyd yn adlewyrchu strategaeth ofodol y Cynllun sy'n ceisio lleoli datblygiadau yn y mannau mwyaf cynaliadwy, lle mae gwasanaethau ar gael.

Cyfraddau Cwblhau'r Gorffennol

4.258 Mae cyfraddau cwblhau cyffredinol y gorffennol yn helpu i roi darlun o'r hyn y mae'r farchnad yn debygol o'i gefnogi o ran cyfraddau datblygu.

4.259 O gofio maint bach llawer o'r safleoedd, cwmnïau bach a chanolig eu maint sy'n adeiladu yn y Parc Cenedlaethol. Nid yw cwmnïau sy'n adeiladu niferoedd mawr o dai yn gweithredu yn y Parc Cenedlaethol ar hyn o bryd (Rhagfyr 2017).

4.260 Mae'r ffigurau uchod yn dangos cyfartaledd o 60 annedd y flwyddyn yn cael eu cwblhau dros y cyfnod 2005 i 2015. Yn dibynnu ar y cyfnod o 10 mlynedd a ddewisir, gall y ffigur cwblhau amrywio o 57 i 94 annedd y flwyddyn ar gyfartaledd (gweler Tabl 6, y Papur Cefndir Tai).¹⁵¹

4.261 Yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, ceisiodd yr Awdurdod gynyddu'r cyflenwad o dir ar gyfer tai i ddarparu mwy o dai fforddiadwy ond roedd y ddarpariaeth gyffredinol yn rhy uchelgeisiol (disgwyliwyd dros 100 o anheddau y flwyddyn dros gyfnod y Cynllun) yn ogystal â'r

¹⁵¹ Table 6 y Papur Cefndir ar Dai

disgwyliad am ddarparu tai fforddiadwy (disgwyliwyd 530 dros gyfnod y Cynllun). Roedd yna hefyd broblemau ynglŷn â chyflawni rhai safleoedd a ddyrannwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd, felly gallai eu disodli gyda safleoedd y gellir codi tai arnynt roi hwb i'r cyflenwad a'r cyfraddau cwblhau posibl mewn ambell fan i ryw raddau. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer y Cynllun diwethaf oedd 1,600.

- 4.262 Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r gofynion posibl yn dibynnu ar wahanol gyfraddau cwblhau. Hefyd, cynhwysir cyflenwad o 10% wrth gefn ► yn unol â chynghor Llywodraeth Cymru. ◀

Tabl 4 Y Gofynion o ran Tai yn seiliedig ar Gyfraddau Datblygu

Cwblhawyd y flwyddyn	Blynyddoedd	Gofyniad	Gyda 10% wrth gefn
60	16	960	1056
70	16	1120	1232
80	16	1280	1408
90	16	1440	1584

- 4.263 Mae Tabl 6 y Papur Cefndir ar Dai yn dangos cyfraddau cwblhau cyfartalog dros 10 mlynedd treigl. Y nifer o weithiau y cyflawnwyd y ffigur cwblhau o 90 neu ragor y flwyddyn dros gyfnod o 10 mlynedd oedd 4 gwaith o'r 13 tro y cyfrifwyd y ffigur. Cyflawnwyd ffigur cwblhau o 80 neu ragor y flwyddyn 8 gwaith (60% o'r amser), 70 neu ragor 9 gwaith (70% o'r amser), a 60 neu ragor 12 gwaith (90% o'r amser).
- 4.264 Mae patrwm y datblygiad cyffredinol tebygol yn y dyfodol yn dangos, yn ôl profiadau'r gorffennol, fod rhai lleoliadau lle gallai'r dewis o safleoedd ddylanwadu ar y cyfraddau cwblhau yn y dyfodol yn fwy cadarnhaol na'r ffigur o 60 y flwyddyn a ddefnyddir er cymhariaeth yn Nhabl 3 uchod. Fodd bynnag, mewn lleoliadau eraill mae'n anodd dod o hyd i safleoedd y gellir codi tai arnynt a bydd hynny'n cael dylanwad negyddol ar y ffigur cyffredinol.
- 4.265 Isod ceir disgrifiad manylach o'r materion ym mhob haen yn yr hierarchaeth ofodol.
- 4.266 **Dinbych-y-pysgod (Haen 2-1):** Yn y gorffennol, mae ffigurau cwblhau Dinbych-y-pysgod wedi elwa o gyfleoedd i addasu ac aildatblygu safleoedd ac adeiladau presennol yn y dref ei hun. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif o safleoedd sydd wedi eu dyrannu mewn cynlluniau datblygu blaenorol yn Ninbych-y-pysgod wedi mynd rhagddynt (gweler y Cyd-adroddiad Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2016). Roeddent i fod i gyfrannu'n sylweddol i'r cyflenwad o dir. Er y byddai'n well gwneud y rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn y Dref hon, o ystyried ei lefel o angen am dai fforddiadwy a gallu'r farchnad i gefnogi datblygiad tai fforddiadwy, mae hynny bellach wedi'i gyfyngu gan brinder tir y gellir ei ddatblygu, y môr i'r de, ffin dynn y Parc Cenedlaethol a'i leoliad yn y

dirwedd.¹⁵² Ni nododd proses y safleoedd ymgeisiol unrhyw safleoedd newydd. ► ~~Mae'r ddarpariaeth wedi'i seilio'n bennaf ar~~ ◀ Dau safle a fydd yn parhau fel dyraniadau yng Nghynllun Datblygu Lleol 1 hyd nes eu bod yn cael eu disodli gan Gynllun Datblygu Lleol 2. Y rhagdybiaeth yw y bydd gweithredu o'r fath yn hwb i fwrw ymlaen i ddatblygu'r safleoedd hyn. Mae'r perchnogion wedi dweud eu bod yn bwriadu bwrw ymlaen i ddatblygu'r safleoedd.

- 4.267 **Tyddewi (Haen 3-2):** Cyfyngwyd ar gyfradd y datblygiad yn y Ddinas yn y blynyddoedd diweddar oherwydd anawsterau wrth fwrw ymlaen â dyraniad Feidr Glasfryn yng Nghynllun Datblygu Lleol 1, dyraniad sylweddol o ran maint. Rhagwelir y bydd gellir bwrw ymlaen â'r safle hwn yn ystod cyfnod y Cynllun.
- 4.268 **Trefdraeth (Haen 3-2):** Yn y gorffennol, cyfyngedig fu datblygiad Trefdraeth hefyd gyda dim ond rhai safleoedd yn weddill pan gaiff y cynlluniau datblygu eu mabwysiadu'n derfynol. Mae'r dyfodol yn edrych yn fwy cadarnhaol, o ystyried y bwriad i ddatblygu safle Feidr Eglwys yng Nghynllun Datblygu Lleol 1 a safleoedd addas y bydd yr Awdurdod yn eu dyrannu.
- 4.269 **Saundersfoot (Haen 3-2):** Mae'n annhebygol y bydd y dyraniadau yn y Cynllun yn golygu bod Saundersfoot yn cyrraedd lefelau cwblhau'r gorffennol (19 y flwyddyn rhwng diwedd y 1980au hyd at ganol y 1990au). Mae'n debygol y bydd angen i safleoedd newydd mawr gael amser cyn i unrhyw ddatblygiad ddechrau ► ~~ac mae'n debyg y byddant yn cael eu datblygu y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol 2.~~ ◀
- 4.270 **Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad (Haenau 3 a 4 a 5):** Roedd y cyfraddau cwblhau blynyddol yn y Canolfannau Gwledig a Chefn Gwlad rhwng 2005 a 2015 wedi'u rhannu bron yn gyfartal. Gan edrych ar gyfleoedd safleoedd dyrannu yn y Canolfannau Gwledig, dylai'r rhaniad fod yn bennaf o blaid Canolfannau Gwledig yn y dyfodol. Yn gyffredinol, cofnodwyd cyfradd cwblhau o 27 y flwyddyn rhwng 2005 a 2015.
- 4.271 Ystyrir, mewn egwyddor, bod modd cwblhau 60 annedd ar gyfartaledd yn gyffredinol.
- 4.272 **Casgliad:** Mae ffigurau amcanestynedig Llywodraeth Cymru o aelwydydd yn awgrymu nad oes llawer o gyfiawnhad dros ddarparu ar gyfer tai yng Nghynllun Datblygu Lleol 2. Fodd bynnag, byddai'r ddarpariaeth yn darparu ar gyfer cadw proffil poblogaeth ifancach. Byddai twf sylweddol yn y grwpiau oedran hŷn yn parhau. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014 yn awgrymu bod angen sylweddol am dai fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol: amcangyfrifir bod angen 370 o unedau bob blwyddyn ar gyfer y cyfnod 2014 i 2019. Mae'r angen am dai fforddiadwy yn fwy na'r hyn y gall y farchnad dai ei ddarparu. Byddai polisi sy'n seiliedig ar ddarparu tai marchnad i roi cymorthdal ar gyfer darparu tai

¹⁵² Yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2014 a'r Astudiaeth Tai Fforddiadwy, Mai 2017

fforddiadwy yn cynorthwyo i ddiwallu'r angen. Y prif benderfynyddion ar gyfer yr hyn y gellir ei ddarparu yw:

- dosbarthiad y datblygiad tai yn unol â strategaeth ofodol y Cynllun
- y gallu i gwblhau safleoedd
- capasiti tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymdopi â datblygiadau tai ychwanegol.

4.273 Mae'r dull gweithredu'r polisi hwn yn debygol o sicrhau, mewn egwyddor, ddarpariaeth dai y gellir ei chyflawni o 960 o anheddau, gan gynnwys darpariaeth tai fforddiadwy o tua ~~250~~ 362 o anheddau. Mae cyflenwad wrth gefn wedi'i ychwanegu at y ddarpariaeth hefyd yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.

4.274 Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys darpariaeth dai y dylid gallu'i chyflawni, mewn egwyddor, yn seiliedig ar gyfraddau datblygu'r gorffennol.

4.275 Y dull polisi hwn sgoriodd orau yn gyffredinol o ran yr arfarniad o gynaliadwyedd a'r profion cadernid.

4.276 I gynnal nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol, mae swm y tai y gellir eu hadeiladu yn cael ei gyfyngu gan gapasiti'r dirwedd i ymdopi â datblygiadau heb effaith sylweddol. Mae hwn yn fater trosfwaol i fynd i'r afael ag ef.

4.277 O ran y profion cadernid, dull gweithredu'r polisi hwn yw'r un sy'n cydymffurfio orau â'r polisi cynllunio cenedlaethol yn ei ffurf ddrafft ac o ran ffynhonnell y cyflenwad o dir ar gyfer tai. Mae hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr angen am dai fforddiadwy yn yr ardal, profion hyfywedd ac i ba raddau gellir codi tai.

4.278 Mae Tabl 5 isod yn dangos y cyflenwad tir ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol ym mis Mawrth ~~2018~~ 2019.

Cydrannau'r Cyflenwad

4.279 Dyddiad sylfaen y Cynllun yw Ebrill 2015.

4.280 Mae'r tabl isod yn nodi cydrannau'r cyflenwad tir.

4.281 Mae'r Awdurdod wedi dibynnu ar Gyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ~~2016~~ 2019 ynghylch y tebygolrwydd y bydd safleoedd o 5 annedd neu ragor yn dod ar gael yn y cyfnod ~~2016-2019~~ i 2021 2024. ~~Mae'r cyflenwad yn cynnwys safleoedd â chaniatâd cynllunio amlinellol neu lawn, safleoedd â phenderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn amodol ar lofnodi cytundeb adran 106 a safleoedd a ddyrennir ar gyfer tai yn y cynllun datblygu lleol mabwysiedig, wedi'i gategoreiddio fel a ragnodir yn Nodyn Cyngor Technegol 1.~~¹⁵³ ~~Mae'r astudiaeth hon yn dylanwadu ar y ffigurau yn y tabl isod. Yn y tabl:~~

- A: dyma'r cyfanswm a gwblhawyd ar safleoedd bach a mawr rhwng Ebrill 2015 ac Ebrill ~~2016~~ 2019.
- B: Nid yw ffigur wedi'i gynnwys ar gyfer gwaith adeiladu.
- C: Unedau â chaniatâd cynllunio 1 Ebrill ~~2016~~ 2019: ► Mae'r ffigur yn cynnwys ffigur ar gyfer caniatâd cynllunio fel ar 1 Ebrill 2016. ~~Disgowntir y Mae'r ffigur yn amlygu'r tebygolrwydd na chaiff pob safle tir sydd â chaniatâd cynllunio ei ddatblygu. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â materion sy'n hysbys o ran rhai safleoedd mwy gyda chaniatâd (safleoedd o 5 uned neu ragor). Y canlyniad cyffredinol yw gostyngiad o 25%. Gweler Atodiad 2 y Papur Cefndir Tai am ragor o wybodaeth ar ddisgwyliadau o safleoedd unigol. ◀♣ These sites are listed in Policy 48 and shown on the Proposals Map. ♣~~
- D: Mae'r ffigurau'n dangos safleoedd o 5 neu ragor o anheddau sy'n cael eu cynnwys fel dyraniadau ar y Map Cynigion a'u rhestru o dan **Error! Reference source not found.** ► Mae safleoedd sydd â budd caniatâd cynllunio ar 1af Ebrill ~~2019~~ wedi'u cynnwys yn Rhes C. ~~Defnyddir dwysedd o 30 o anheddau fesul hectar oni bai fod gwybodaeth fwy diweddar ar gael, megis cais cyn ymgeisio neu ganiatâd cynllunio sydd ar waith ar ôl Ebrill 2016 neu os yw'r safle wedi'i asesu ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol a bod gwybodaeth am yr amcangyfrif o nifer yr anheddau sy'n ymarferol ar y safle. Mae'r ffigurau yn amcangyfrifon. ◀~~
- E: hap-safleoedd mawr (5 uned neu ragor): Yn adlewyrchu'r gyfradd gwblhau ar hap-safleoedd pump uned neu ragor rhwng ~~2007 2009 a 2016-2019~~. Mae'r ffigurau wedi gostwng 40% ar gyfer Dinbych-y-pysgod i adlewyrchu llai o gyfleoedd dros amser fel yr esbonnir uchod dan 'Cyfraddau Cwblhau'r Gorffennol'. ◀ — ♣Gweler Atodiad 4 Papur Cefndir Tai. ♣
- F: hap-safleoedd bach (llai na 5 uned): Mae F yn deillio o ffigurau cwblhau safleoedd bach y Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai 2011 i ~~2017~~ 2019, ac fe'u dosberthir yn ôl nifer yr aelwydydd ym mhob haen — ♣Gweler Atodiad 4 Papur Cefndir Tai. ♣

Tabl 5 Cydrannau'r Cyflenwad o Dir ar gyfer Tai

<u>♣Marchnad a Fforddiadwy</u>	<u>Cydrannau'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy</u>	<u>Haen-2 1 Dinbych-y-pysgod</u>	<u>Haen 3 2 Crymych Tyddewi Trefdraeth Saunders-foot</u>	<u>Haen 4-3 Canolfannau Gwledig</u>	<u>Haen 5 4 Cefn Gwlad</u>	<u>CYFANSWM</u>
<u>A</u>	<u>Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr) 01.04.15 – 31.03.</u>	<u>1463</u>	<u>549</u>	<u>1467</u>	<u>1342</u>	<u>46221</u>

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2

Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

	1619 (4 blynedd))					
<u>C</u>	Unedau â chaniatâd 31.03. 16-19	420	4247	4790	181	149138
<u>D</u>	Dyraniadau(mae safleoedd â budd caniatâd cynllunio wedi'u cynnwys yn C)	0	310238	192128	0	502366
<u>E</u>	Hap-safleoedd mawr (+(-5) 15+) 12 mlynedd yn weddill 2019 i 2031	8068	3724	524	1030	132146
<u>F</u>	Hap-safleoedd bach (-5) 1512 mlynedd yn weddill 2019 i 2031	6955	8265	9575	7255	318250
<u>G</u>	Darpariaeth Tai yn fras	205186	476423	353384	113128	11471121♣

4.282 Mae'r un tabl wedi'i nodi isod ond mae'n cynnwys tai fforddiadwy yn unig.

Tabl 6 Cydrannau'r Cyflenwad o Dir ar gyfer Tai Fforddiadwy

♣Tai Fforddiadwy	Cydrannau'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy	Haen-2 1 Dinbych-y-pysgod	Haen 3 2 Crymych Tyddewi Trefdraeth Saunders-foot	Haen 4-3 Canolfannau Gwledig	Haen 5 4 Cefn Gwlad	CYFANSWM
<u>A</u>	Cyfanswm a gwblhawyd (bach a mawr) 01.04.15 – 31.03. 16-19 (4 blynedd)	017	022	012	113	164
<u>C</u>	Unedau â chaniatâd cynllunio 31.03. 16-19	170	22	1935	4	6257
<u>D</u>	Dyraniadau (mae safleoedd â budd caniatâd cynllunio wedi'u cynnwys yn C)	0	116100	5542	0	170142
<u>E</u>	Hap-safleoedd mawr (+(-5)14+ 12 mlynedd yn weddill	2015	549	015	05	2584
<u>F</u>	Hap-safleoedd bach (-5) 14 12 mlynedd yn weddill	101	51	04	09	15
<u>G</u>	Darpariaeth Tai fforddiadwy yn fras	4733	148194	74108	527	273 362♣

4.283 ► A: roedd nifer fawr o dai fforddiadwy yn cael eu hadeiladu yn 2015-2016 a fydd yn cael eu hadlewyrchu yn y ffigurau cwblhau ar gyfer y flwyddyn 2016-2017.

4.284 Nodwch fod y ffigurau canran ar gyfer y ddarpariaeth tai fforddiadwy a ddefnyddiwyd i gyfrifo Rhes D wedi'u nodi yn Astudiaeth Gweithredu Tir yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2017. Amcangyfrifon ydynt. Mae cyfraniad

safleoedd bach i'r ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi'i allosad o'r gyfradd cwblhau yn hanesyddol rhwng 2008 i 201 ♠9♠

Polisi 47 Tai (Polisi Strategaeth)



Yn seiliedig ar lefel yr angen am dai fforddiadwy a ragwelir, a chan gydbwyso hynny yn erbyn y gallu i gyflawni a chapasiti'r dirwedd, gwneir darpariaeth ar gyfer ♠1,450-120♠ o unedau tai i ddarparu 960 o anheddau rhwng 2015 a 2031. ^{154 155}

♠Paragraff newydd: Mae'r cyflenwad tir ar gyfer tai yn cynnwys darpariaeth o 160 o anheddau ychwanegol, a bwriad y nifer wrth gefn hwn yw rhoi hyblygrwydd a sicrhau cyflenwad o dai dros gyfnod y Cynllun. ♠

Polisi 48	Dyraniadau Tai ♠ neu Dir sydd â Chaniatâd Cynllunio. Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer tai neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio ar gyfer tai ar 5 annedd neu fwy.♠:					
Lleoliad ID Map Cynigion	Enw'r Safle	Hectarau	Gofyniad Dangosol Tai Fforddiadwy	Amcangyfrif o Dai Marchnad a Thai Fforddiadwy (Dyraniad ♠neu Ganiatâd) ♠	Amcangyfrif o FFfigur tai Fforddiadwy (Dyraniad ♠neu Ganiatâd) ♠	►Y Darpariaeth a ragwelir erbyn 2031 ¹⁵⁶ (Elfen fforddiadwy mewn cromfachau) ◀
Trefdraeth						
HA1♠HC1♠ ¹⁵⁷	I'r gogledd o Feidr Eglwys	1.5	40%	35	14	► 35(14) ◀
HA2♠HC2♠ ¹⁵⁸	Safle lard a Chrochenwaith Parrog	0.24	66%	12	8	► 12(8) ◀

¹⁵⁴ Bydd lwfans wrth gefn yn caniatáu digon o hyblygrwydd pe na chaiff safleoedd eu datblygu a materion annisgwyl. ► Gweler Papur Cefndir Atodiad 3 a 4 ◀.

¹⁵⁵ Amcangyfrifir y bydd 960 o anheddau newydd yn cael eu darparu, ac y bydd tua 362 ohonynt yn unedau fforddiadwy - gweler 0

¹⁵⁶ ► Cymerwyd o Atodiad 2 i'r Papur Cefndir Tai ◀

¹⁵⁷ Mae figurau'n adlewyrchu caniatâd NP/15/0194

¹⁵⁸ Mae figurau'n adlewyrchu caniatâd NP/17/0301

Polisi 48	Dyraniadau Tai ♣ neu Dir sydd â Chaniatâd Cynllunio. Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer tai neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio ar gyfer tai ar 5 annedd neu fwy.♣:					
Lleoliad ID Map Cynigion	Enw'r Safle	Hectarau	Gofyniad Dangosol Tai Fforddiadwy	Amcangyfrif o Dai Marchnad a Thai Fforddiadwy (Dyraniad ♣ neu Ganiatâd) ♣	Amcangyfrif o FFifgur tai Fforddiadwy (Dyraniad ♣ neu Ganiatâd) ♣	► Y Darpariaeth a ragwelir erbyn 2031 ¹⁵⁶ (Elfen fforddiadwy mewn cromfachau) ◄
HA3♣HA1♣	Tir i'r Gogledd o'r Parc Busnes	0.5	50%	15	8	► 10(5) ◄
Saundersfoot						
HA4♣HA2♣	Tir yn Sandy Hill	2.26	45► 35%	68	3124	68(24) ◄
HA5♣HA3♣	I'r gogledd o Whitlow	1.8	40► 35%	54	2219	54(19) ◄
HA6♣HA4♣	Penny Farm	1.13	45► 40%	36	1614	36(14) ◄
Tyddewi						
HA7♣HC3♣ ► see footnote*1 ◄	I'r gorllewin o Feidr Glasfryn	3.34	20► 54%	90	1849	70(38) ◄
Aberllydan						
HA8♣HC4♣ ¹⁵⁹	I'r de o Driftwood Close	0.66	40► 35%	10 18	(4 –wedi'i ddileu) 6	18(6) ◄
HA9♣HA5♣ ► see footnote*2 ◄	I'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain o Marine Road	3.14	10► 34%	94 87	930	► 65(22) ◄
♣ Herbrandston						
♣HC5♣	Safle hen Westy Sir Benfro	0.08	0%	3	0	3(0) ♣
Jameston						
HA10♣HA6♣	Gyferbyn â Bush Terrace	1.69	29%	38	11	► 38(11) ◄
♣HC6♣	Green Grove	0.56	33%	9	3	9(3) ♣

►*1 Ychwanegu troednodyn NP/18/51 Penderfyniad i roi caniatâd cynllunio yn ddarostyngedig i gytundeb A106 yn cynnwys cyfanswm o 70 o unedau preswyl sy'n cynnwys 38 o unedau tai fforddiadwy

¹⁵⁹ Figures reflect planning permission NP/14/068117/315

*2 Ychwanegu troednodyn: trafodaethau cyn-ymgeisio/gwybodaeth am hyfywedd y Cynllun Datblygu Lleol.

*3 Ychwanegu troednodyn: NP/17/283 Yn adlewyrchu penderfyniad i roi caniatâd yn ddarostyngedig i gytundeb A106. ◄

Polisi 48	Dyraniadau Tai ♣ neu Dir sydd â Chaniatâd Cynllunio. Mae'r safleoedd canlynol wedi'u dyrannu ar gyfer tai neu mae ganddynt ganiatâd cynllunio ar gyfer tai ar 5 annedd neu fwy.♣:					
Lleoliad ID Map Cynigion	Enw'r Safle	Hectarau	Gofyniad Dangosol Tai Fforddiadwy	Amcangyfrif o Dai Marchnad a Thai Fforddiadwy (Dyraniad ♣ neu Ganiatâd) ♣	Amcangyfrif o FFfigur tai Fforddiadwy (Dyraniad ♣ neu Ganiatâd) ♣	► Y Darpariaeth a ragwelir erbyn 2031 ¹⁵⁶ (Elfen fforddiadwy mewn cromfachau) ◀
Lydstep						
HA11♣HA7♣	I'r gorllewin o'r grŵn	0.4	50%	10	5	► 10(5) ◀
Manorbier Station						
HA12♣HC7♣ ► see footnote*3 ◀	Cae gyferbyn ag Ysgol VC Maenorbŷr	0.63	91%	23	21	► 23(21) ◀
♣New Hedges						
♣HC8♣	Cefn y Cross Park (wedi'i gwblhau'n rhannol Ebrill 2019)	1.03	0%	24	0	24♣
Square & Compass						
HA13♣HA8♣	Cae Glasfryn	0.26	30%	7	2	► 4(1) ◀
HA14♣HA9♣	Tir ger ► Bryngolau ◀	0.33	30%	10	3	► 4(1) ◀
Llanismel						
HA15♣HC9♣ ¹⁶⁰	Yn ymyl yr ysgol	0.74	25%	13	3	► 13(3) ◀
Trefin						
HA16♣HA10♣ Cefn Gwlad	Tir oddi ar ► Cefn Gallod ◀ Trefin	0.35	30%► 25%◀	10	3	► 7(2) ◀
♣HC10♣	Tir oddi ar Whitchurch (bron yn gyflawn Ebrill 2019)	0.06	0%	1	0	1(0) ♣
♣Mae Atodiad 4 Gofynion ar gyfer Dyraniadau Tai a Hap-safleoedd Mawr yn nodi'r gofynion o ran cyfyngiadau, gofynion dylunio ac isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio. Hefyd nodir y gofynion ynghylch rhai hap-safleoedd mawr posibl. ♣						

¹⁶⁰ Mae'r ffigurau'n adlewyrchu caniatâd cynllunio NP/16/0219
 Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
 Adnau +► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

4.285 I grynhoi, y prif feini prawf ar gyfer dyrannu yw:

- **Maint y Safle:** Bydd trothwy o safleoedd sy'n gallu darparu 5 neu ragor o unedau yn cael eu dyrannu o bosibl yn y Cynllun ar gyfer tai.
- **Pa mor dderbyniol yw'r lleoliad:** Mae datblygu yng nghefn gwlad yn cael ei reoli'n llym. Mae'n annhebygol y bydd datblygiadau preswyl, yn arbennig rhai sy'n bell o Ganolfannau (a restrir ym Mholisiau 2 i 5 a 6), yn cael eu gweithredu.
- **Pa mor dderbyniol yw graddfa'r tai arfaethedig:** Mae'r opsiwn polisi dewisol ar gyfer graddfa'r ddarpariaeth a ragwelir yn gyffredinol ym0. Mae'r testun rhagarweiniol i'r Bennod hon yn amlinellu graddfa'r ddarpariaeth a ragwelir yng ngwahanol haenau'r strategaeth ofodol.
- **Yr effaith ar dirwedd y Parc Cenedlaethol:** Cyfyngiadau fel yr effaith ar dirwedd neu natur y Parc Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth, Adeiladau Rhestredig, llifogydd ac ati.
- **Seilwaith:** Gall datblygiadau newydd osod pwysau ychwanegol ar y seilwaith presennol megis priffyrdd, cyflenwad dŵr, draenio a charthffosiaeth yn ogystal â chyfleusterau lleol megis ysgolion, cyfleusterau meddygol a hamdden.
- **Mynediad:** Rhoddir ystyriaeth i addasrwydd y fynedfa i'r safle ar gyfer cerddwyr/seiclwyr/trafnidiaeth gyhoeddus/cerbydau.
- **Hyfywedd ariannol a'r gallu i gyflawni:** Mae angen i'r Awdurdod fod yn hyderus bod gan unrhyw safle a ddyrannwyd botensial realistig i'w ddatblygu ar gyfer y defnydd y bwriedir ar ei gyfer o fewn cyfnod y Cynllun – hyd at 2031.

4.286 Ystyriwyd safleoedd hefyd trwy asesiadau cysylltiedig sy'n cael eu sbarduno trwy baratoi cynllun o natur a chwmpas y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad o Gynaliadwyedd, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

4.287 Mae'r tablau ~~afisod~~ yn Atodiad 4 Gofynion ar gyfer Dyraniadau Tai a Hap-Safleoedd Mawr ~~afisod~~ yn canolbwyntio'n bennaf ar faterion safle unigryw o ran y cyngor ar gyfer tirwedd, archaeoleg ac ecoleg y bydd angen mynd i'r afael â hwy pan gaiff cynigion eu cyflwyno. Mae gofynion unigryw hefyd yn cael eu cynnwys lle bo hynny'n berthnasol ar gyfer rhai hap-safleoedd mawr posibl ar gyfer tai a aseswyd fel rhan o'r broses ar gyfer safleoedd ymgeisiol.

4.288 ~~Ar gyfer y safleoedd hynny a amlygwyd gyda '♦' dangosodd asesiad eychwynnol gan ddefnyddio data o Fap Dosbarthiad Tir Amaethyddol Rhagfynegol Llywodraeth Cymru, Adran yr Amgylchedd a Materion Gwledig (Defra) (2017) fod pridd o fewn y safle yn dir amaethyddol gradd uchel (Graddau 1, 2 neu 3a). Bydd angen dadansoddiad pellach i gadarnhau cywirdeb y data a gallai fod angen rhoi amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio er mwyn sicrhau y gall y pridd barhau i ddarparu'r buddion a nodwyd. ~~afisod~~~~

♣ **Tabl 7 Dyraniadau Tai—Gofynion**

Lleoliad	Enw'r Safle	Gofynion
ID-Map Cynigion		
Trefdraeth		
HA1	I'r gogledd o Feidr Eglwys	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar y safle hwn ar gyfer 35 o unedau tai (14 o unedau fforddiadwy) dan gyfeirnod cynllunio NP/15/0194, a gymeradwywyd ym mis Mehefin 2016. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 141
HA2	Safle Iard a Chrochenwaith Parrog	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar y safle hwn ar gyfer 12 o unedau tai (8 uned fforddiadwy) o dan gyfeirnod cynllunio NP/17/0301, a gymeradwywyd ym mis Tachwedd 2017. Cyfeirnodau'r Safle Ymgeisiol: 065A/067A
HA3	Tir i'r gogledd o'r Parc Busnes	Bydd angen ystyried y llunwedd a'r dwysedd yn ofalus i integreiddio unrhyw ddatblygiad gyda'r parc busnes cyfagos. Bydd angen cadw a chryfhau'r cloddiau gwrych presennol yn ogystal â darparu rhai newydd i ddiffinio'r safle. Hefyd, bydd angen cynnal mannau gwyrdd i rannu'r safle. Mae gan yr ardal goediog gyfagos potensial ar gyfer darparu cynefin i gefnogi ystlumod, neu fel rhan o lwybr cymudo neu lwybr hedfan strategol. Bydd angen gwaith arolwg pellach yn hyn o beth. Rhaid i gynigion datblygu ar gyfer y safle hwn ddangos eu bod yn cydymffurfio â Pholisi 10 y Cynllun (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd). Mae nifer o asedau treftadaeth cofnodedig yn agos i'r safle, sydd hefyd ar gyrion tref o'r canol oesoedd. Gallai gweddillion/nodweddion archaeolegol estyn draw i'r safle. Bydd angen asesiad pellach fel rhan o unrhyw gais cynllunio i ddatblygu'r safle. Cyfeirnodau'r Safle Ymgeisiol: 068/088A/089A/090A
Saundersfoot		
HA4♦	Tir yn Sandy Hill	Mae angen tirlunio ychwanegol ar hyd ffin ddeheuol y safle i gryfhau ymyl yr ardal adeiledig. Bydd angen darparu mynediad i gerddwyr i'r safle o'r gogledd. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 015

Lleoliad		
ID-Map Cynigion	Enw'r Safle	Gofynion
HA5◆	I'r gogledd o Whitlow	Ar y Map Cynigion, amlygir tir i'r gorllewin o'r safle ar gyfer twf yn y dyfodol, y tu hwnt i 2031. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 031A
HA6◆	Penny Farm	Dim Sylwadau. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 037
Tyddewi		
HA7◆	I'r gorllewin o Feidr Glasfryn	Bydd angen cadw gwrychoedd presennol a'r rhai a ffurfiwyd yn ddiweddar (ar hyd Feidr Glasfryn) i ddiffinio ffiniau'r safle a rhannu'r datblygiad o fewn y safle. Mae sawl safle yn y dirwedd ehangach sy'n awgrymu y gallai fod yno olion gweithgarwch cynhanesyddol a chanoloesol. Mae hwn yn safle mawr a gallai fod yno olion archaeolegol. Bydd angen asesiad pellach fel rhan o unrhyw gais cynllunio i ddatblygu'r safle. Cyfeirnodau'r Safle Ymgeisiol: 021A/099A
Aberllydan		
HA8	I'r de o Driftwood Close	Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 10 o dai (yn cynnwys 4 annedd fforddiadwy) NP/14/681. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 006
HA9◆	I'r gogledd-ddwyrain a'r de-ddwyrain o Marine Road	Dim Sylwadau. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 039/041
Jameston		
HA10	Gyferbyn â Bush Terrace	Byddai plannu i'r de o'r safle yn helpu i gymathu'r datblygiad ar y gorwel a chuddio rhywfaint ar yr adeiladau fferm amlwg tua'r gorllewin. Mae angen llain eang o blannu gyda chloddiau gwrych newydd a fyddai'n helpu i ddiogelu a gwella cymeriad y dirwedd. Bydd tirlunio a phlannu, dyluniad pensaernïol sensitif a dwysedd a phatrwm datblygu sy'n adlewyrchu'r adeiladau presennol yn Jameston yn ystyriaethau pwysig wrth liniaru'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 022

Lleoliad		
ID-Map Cynigion	Enw'r Safle	Gofynion
Lydstep		
HA11♦	I'r gorllewin o'r grŵn	Ar y Map Cynigion, amlygir tir i'r gorllewin o'r safle ar gyfer twf yn y dyfodol, y tu hwnt i 2031. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 086A
Gorsaf Maenorbŷr		
HA12	Cae gyferbyn ag Ysgol VC Maenorbŷr	Mae coed ar hyd ffin ddwyreiniol y safle yn destun Gorchymyn Cadw Coed ac mae'n rhaid eu diogelu wrth ddatblygu'r safle ac wedi hynny. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 029
Square & Compass		
HA13♦	Cae Glasfryn	Bydd angen gwrych newydd i atgyfnorthu'r ffin tua'r cefn ac i gau'r datblygiad i'r gogledd. Dylai'r datblygiad gadw cymeriad llinellol Square & Compass a dylai fod bylchau yma a thraw wrth edrych o'r A487, i gynnal y golygfeydd ysbeidiol o'r pentir arfordirol tua'r gogledd. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 014A
HA14♦	Tir ger Bryngolau	Bydd angen gwrych newydd i atgyfnorthu'r ffin gefn a chau'r datblygiad tua'r gogledd. Mae hawl dramwy gyhoeddus ar hyd y ffin orllewinol o'r gogledd i'r de. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad osgoi achosi effeithiau niweidiol annerbyniol i lefel amwynder yr hawl dramwy gyhoeddus hon. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 106
Llanismel		
HA15	Yn ymyl yr ysgol	Rhodddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar y safle hwn ar gyfer 13 uned (3 fforddiadwy) o dan gyfeirnod cynllunio NP/16/0219, a gymeradwywyd ym mis Medi 2016. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 055A
Trefin		
HA16♦	Tir oddi ar Cefn Galled	Wrth edrych arno o gyfeiriad y de, bydd angen lleihau'r effaith weledol trwy sicrhau bod pob gwrych ar hyd y ffin yn cael ei gadw ac y caiff gwaith plannu

Lleoliad	Enw'r Safle	Gofynion
ID-Map Cynigion		
	Trefin	ychwanegol ei wneud. Dylid darparu mynediad trwy Cefn Galled i greu'r datblygiad ar ffurf linell ar hyd y ffin ddeheuol. Dylid darparu mannau gwyrdd i'r gogledd. Dylai uchder y toeon barhau o fewn cyd-destun y datblygiad preswyl cyfagos. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 050♣

4.289 Mae yna rai hap-safleoedd mawr hefyd. Efallai y bydd y safleoedd hyn yn cael eu cyflwyno yn ystod oes y Cynllun at ddibenion tai. Oherwydd ansicrwydd ynghylch y gallu i'w cwblhau, nid ydynt wedi'u dyrannu'n ffurfiol. Maent wedi'u lleoli o fewn y ffin.

**♣ Tabl 8 Hap-safleoedd Tai Mawr Posibl (5 annedd neu ragor)—
Gyfonion**

Lleoliad	Gofynion
Enw'r Safle	
Dinas	
Tir yng ngefn/ gorllewin Spring Hill	Nid oes sicrwydd a ellir cyflawni'r safle hwn (Astudiaeth Gweithredu Tir, Rhagfyr 2017). Byddai angen mynediad o'r A487 i'r gogledd trwy ddymchwel datblygiad presennol mewn perthynas â diogelwch ffyrdd ac ystyriaethau o ran yr effaith weledol. Byddai angen i ddatblygiad efelychu cynllun llinellol Spring Hill i'r dwyrain i fod yn gydnaws â chyd-destun yr adeiladau presennol. Cyfeirnodau'r Safle Ymgeisiol: 054/013A/074A/095A/135A
Lawrenni	
Yn ymyl Home Farm	Nid oes sicrwydd y gellir cyflawni'r safle hwn (Astudiaeth Gweithredu Tir, Rhagfyr 2017). Byddai datblygu'r safle hwn yn golygu bod angen ymyl meddal ar y dirwedd tua'r gogledd. Byddai angen adleoli'r adeiladau fferm presennol yn addas cyn mynd ymlaen i ddatblygu. Mae angen uwchraddio'r garthffos breifat bresennol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddatblygiad o fewn y safle hwn. Mae angen ystyriaeth bellach o ran gwaredu dŵr gwastraff oherwydd y tebygolrwydd y gallai ollwng yn uniongyrchol i Ardal Cadwraeth Arbennig Morol Sir Benfro. Rhaid i gynigion datblygu ar gyfer y

Lleoliad Enw'r Safle	Gofynion
	safle hwn ddangos eu bod yn cydymffurfio â Pholisi 10 y Cynllun (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd). Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: Safle 045♦
Selfach	
Tŷ'r Banc	Mae cyfamodau cyfreithiol yn achosi problemau o ran cyflawni'r safle. Pe bai cynnig yn cael ei gyflwyno, bydd angen i'r cynnig gymryd i ystyriaeth mai'r safle hwn yw gardd furiog Tŷ'r Banc, sy'n Adeilad Rhestredig. Mae'r wal yn nodwedd yn y cwrtil ac felly wedi'i gynnwys yn y rhestriad — mae wal ochr y ffordd yn arbennig yn nodwedd amlwg. Bydd angen i ddatblygiad barchu lleoliad yr Adeilad Rhestredig. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 102♣

4.290 Mae'r Astudiaeth Gweithredu Tir yn darparu gwybodaeth am y rhan fwyaf o'r safleoedd o ran argaeledd, faint o seilwaith sy'n ofynnol, y costau dangosol ac unrhyw ofynion lliniaru fel ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r ffigurau yn darparu ar gyfer ffigurau tai fforddiadwy ar y safleoedd a restrir ym **Error! Reference source not found.** felly maent yn ddangosol (gweler Polisi Cynllunio Cymru, 9, Tachwedd 2016 10, Rhagfyr 2018, paragraff 9.4.2.17-31). Maent yn seiliedig ar ragdybiaethau a ddefnyddir i bennu hyfywedd fel y'u nodir yn yr Astudiaeth Tai Fforddiadwy a'r Astudiaeth Gweithredu Tir neu lle roedd gwybodaeth ar gael trwy drafodaethau cyn-ymgeisio neu ar ôl cyflwyno cais cynllunio. Wrth i safleoedd gael eu datblygu, gellir ystyried rhagor o wybodaeth fel y wybodaeth ddiweddaraf am raglen fuddsoddi Dŵr Cymru, mireinio costau seilwaith a newidiadau mewn prisiau tai a chostau adeiladu.

Polisi 49	Tai Fforddiadwy (Polisi Strategaeth)	★
♣Er mwyn darparu tai fforddiadwy bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, wrth ystyried cynigion sy'n cynnwys tai marchnad:		
a) yn anelu at negodi tai fforddiadwy i ddiwallu'r angen a nodwyd yn ardaloedd a Chanolfannau'r is-farchnad dai fel y nodir yn Nhabl 9 isod.¹⁶¹		
b) yn anelu at gael cyfraniad ariannol ar gyfer tai fforddiadwy i helpu gyda darparu tai fforddiadwy yn achos:		

¹⁶¹ Nid yw hyn yn cynnwys targedau dangosol ar gyfer dyraniadau tai yn y Cynllun a nodir yn **Error! Reference source not found.**

- ~~cynigion lle nad yw'n bosibl darparu tŷ fforddiadwy ar y safle¹⁶²~~
- ~~cyfleoedd addasu yng nghefn gwlad (0d)~~

~~Bydd yr Awdurdod hefyd yn caniatáu rhyddhau tir yn eithriadol o fewn Canolfannau neu gerllaw ar gyfer tai fforddiadwy i ddiwallu angen lleol a nodwyd.¹⁶³~~

~~Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer cyfleuster cymunedol segur, bydd defnydd cyflogaeth neu ddatblygiad tai sy'n cyfrannu at dai fforddiadwy neu'n darparu tai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth. Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer safle cyflogaeth bydd defnydd cymunedol neu ddatblygiad tai sy'n cyfrannu at dai fforddiadwy neu'n darparu tai fforddiadwy yn cael blaenoriaeth. Gofynnir am y canrannau isod ar gyfer y gofynion a'r cyfraniadau o ran tai fforddiadwy.~~

~~Pan ddaw cais cynllunio i law ar gyfer safle islaw'r trothwy tai fforddiadwy ond sy'n rhan o safle mwy sy'n uwch na'r trothwy yna bydd yr Awdurdod yn disgwyl i dai fforddiadwy gael eu darparu. Diben hyn yw sicrhau nad yw safleoedd yn cael eu rhannu'n ddarnau llai ac yn cael eu datblygu'n raddol gan osgoi'r angen i ddarparu tai fforddiadwy.~~

~~Y targed dros gyfnod y Cynllun yw tua 250 o dai fforddiadwy.~~

~~Mae rhagor o gyngor ym 0 ar flaenoriaethu tai fforddiadwy wrth negodi rhwymedigaethau cynllunio.~~

Dros gyfnod y Cynllun 2016 i 2031 bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn ceisio darparu 362 o anheddau fforddiadwy yn y Parc Cenedlaethol. Er mwyn cyflawni'r

¹⁶² Pan fydd canran y tai fforddiadwy sy'n ofynnol ar safle yn arwain at ffracsiwn o uned yna bydd disgwyl cyfraniad ariannol at dai fforddiadwy

¹⁶³ Dylai tai fforddiadwy ar safleoedd eithriadau ddiwallu anghenion pobl leol (paragraff 9.2.23 Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016). Ni chaiff perchnogaeth tai cost isel ei gefnogi ar safleoedd eithriadau

targed hwn:

a) bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ar gyfer tai marchnad breifat wneud y ddarpariaeth ganlynol ar y safle:

i. 50% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 2 annedd neu fwy yn ardaloedd is-farchnad Trefdraeth, Dinbych-y-pysgod ac Arfordir y De Ddwyrain;

ii. 35% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 3 annedd neu fwy yn ardal is-farchnad Tyddewi ac Arfordir y Gogledd;

iii. 25% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 4 annedd neu fwy yn ardal is-farchnad Arfordir y De Orllewin;

iv. 20% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 5 annedd neu fwy yn ardal is-farchnad Bae Sain Ffred; a

v. 15% o dai fforddiadwy ar safleoedd o 7 annedd neu fwy yn ardaloedd is-farchnad Cefnwlad yr Aber a'r Gogledd Ddwyrain;

Lle gellir dangos nad yw'r ddarpariaeth ar y safle yn briodol neu lle mae'r cynnig yn ymwneud ag addasu adeilad yng nghefn gwlad, ceisir ffurfiau eraill o gyfraniad gan gynnwys darpariaeth oddi ar y safle a symiau gohiriedig;

b)Bydd ailddefnyddio cyfleusterau cymunedol diangen, safleoedd cyflogaeth ac addasu adeilad yng nghefn gwlad yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn unol â Pholisi 44, Polisi 45, Polisi 53, Polisi 7d) a'r Polisi Newydd 'Cynigion Datblygu Tai'); a

c) Caniateir safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn unol â'r Polisi Newydd Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy;

Pan dderbynnir cais cynllunio ar gyfer safle islaw'r trothwy tai fforddiadwy ond sy'n rhan o safle mwy sydd

uwchlaw'r trothwy, bydd darpariaeth gymesur yn ofynnol. ♣

♣ Para newydd: Roedd y gofyniad am dai fforddiadwy yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2014) yn nodi bod angen 1450 o eiddo fforddiadwy ar rent bob blwyddyn am y 5 mlynedd hyd at 2019; a 289 o anheddau fforddiadwy i'w prynu dros yr un cyfnod ledled Sir Benfro. Mae'r angen yn ardal y Parc Cenedlaethol wedi'i allosod i gwmpasu 5 mlynedd o gyfnod y cynllun gan ddangos cyfanswm angen 5 mlynedd o 1,850 o unedau tai fforddiadwy fel y dangosir yn Nhabl 3 o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Para newydd: Mae mwyafrif yr angen am eiddo fforddiadwy ar rent a glustnodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, ac a gefnogir gan adolygiadau rheolaidd o'r Gofrestr Tai Cyfunol, yn dangos angen am unedau un ystafell wely (80%); gyda'r gweddill wedi'u gwasgaru ar draws eiddo dwy, tair, pedair a phum ystafell wely. Mae hyn oherwydd diffyg darpariaeth gyffredinol o unedau un stafell wely ledled y sir yn y datblygiadau hanesyddol. Felly byddai'r angen i ddarparu unedau un ystafell wely yn brif ystyriaeth ar safleoedd llai. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol cyflwyno'r lefel hon o unedau un ystafell wely (80%) ar safleoedd tai fforddiadwy mwy lle mai cymuned gymysg fyddai'r nod. Mae hyn yn cael ei ystyried pan fydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cyflawni datblygiadau tai cymdeithasol newydd.

Para newydd: Mae unedau rhent fforddiadwy yn cyfrif am fwy nag 83% o'r angen a glustnodwyd yn yr Asesiad, gyda'r gweddill yn dangos angen am Berchnogaeth Cartref Cost Isel (neu gynllun tebyg). Mae angen i'r gofyniad am gartrefi fforddiadwy i brynu ystyried y ffaith bod cymorth ar gael i brynu eiddo ar lefelau fforddiadwy, drwy gynlluniau megis Cymorth Prynu, Rhentu i Brynu a Rhanberchnogaeth.

4.291 Ni fydd y targed tai fforddiadwy yn cwrdd â'r angen a glustnodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol. Mae hyn oherwydd bod y rhagolwg o'r angen yn fwy nag y gall y cyflenwad o dir ar gyfer tai ei gyflawni. Y dull o ddarparu tai fforddiadwy yw:

- a) Defnyddio tai'r farchnad agored I groes-sybsideiddio darparu tai fforddiadwy— gweler Polisi 49. ♣
- b) Blaenoriaethu darparu tai fforddiadwy dros ddefnyddiau tir eraill, er enghraifft trwy beidio â chaniatáu adeiladau hunan-arlwygo newydd yng nghefn gwlad. Caniateir darpariaeth hunan-arlwygo ar dir llwyd yn y Canolfannau a chefn gwlad ond dim ond lle mae'r safle neu'r adeilad yn anaddas ar gyfer tai marchnad neu dai fforddiadwy – gweler0. Hefyd, wrth ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer cyfleusterau cymunedol a safleoedd cyflogaeth nad oes eu hangen mwyach, mae defnyddiau sy'n fuddiol i'r gymuned (gan gynnwys darparu tai fforddiadwy) yn cael blaenoriaeth – gweler0a0. Rhoddir blaenoriaeth hefyd i sicrhau tai fforddiadwy trwy negodi cytundebau adran 106 (gweler0).

- c) Defnyddio amodau newydd neu ychwanegol ar anheddau mentrau gwledig a fydd yn golygu y bydd rhai cyfleoedd cyfyngedig ar gael ar gyfer tai fforddiadwy.

♣d) Cefnogi cyflawni safleoedd a arweinir gan dai fforddiadwy ar dir cyhoeddus addas (h.y. o leiaf 50% o dai fforddiadwy) yn unol â llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig yr 8^{fed} o Orffennaf 2019.♣

♣Para Newydd: Bydd yr Awdurdod yn paratoi canllawiau cynllunio atodol ar ddarpariaeth tai fforddiadwy.

Para Newydd: Clustnodir targed o 362 o anheddau tai fforddiadwy i'w cyflawni dros gyfnod y Cynllun gan ystyried yr angen am hyblygrwydd yn unol â darpariaeth tai marchnad a'r angen i drafod cynigion fesul safle. Mae Polisi 53 c) (noder bod hwn bellach yn bolisi ar wahân) yn rhoi cyngor pellach ar flaenoriaethu tai fforddiadwy wrth drafod rhwymedigaethau cynllunio. ♣

♣Tabl 9 Canran y Tai Fforddiadwy ar gyfer Ardaloedd yr Is-Farchnad Dai♣

Ardal Is-Farchnad Dai	Ardal Cod Post	Canolfan Leol	Canolfan Wledig	% o anheddau fforddiadwy (trothwy i'w gyflawni ar y safle)
Trefdraeth	SA42 0	Trefdraeth	Dinas Nanhyfer	50% (2)
Dinbych-y-pysgod	SA70 7	Dinbych-y-pysgod	Jameston Lydstep Milton Maenorbŷr Gorsaf Maenorbŷr	50% (2)
Arfordir y De-ddwyrain	SA69 9 SA70 8 SA67 8 SA34 0	Saundersfoot, Dinbych-y-pysgod	Amroth Caerw Jameston Milton New Hedges Pleasant Valley Wiseman's Bridge	50% (2)
Tyddewi ac Arfordir y Gogledd	SA62 6 SA64 0 SA62 5	Tyddewi	Y Garn Niwgwl Porthgain Solfach Trefin Square & Compass	35% (3)

Ardal Is-Farchnad Dai	Ardal Cod Post	Canolfan Leol	Canolfan Wledig	% o anheddau fforddiadwy (trothwy i'w gyflawni ar y safle)
Arfordir y De-orllewin	SA71 5	Amherthnasol	Angle Bosherston Castellmartin Llandyfái	25% (4)
Bae Sain Ffraid	SA62 3 SA73 3	Amherthnasol	Aber Bach Aberllydan Dale Marloes Nolton Haven Llanismel Herbrandston	25%(4) ► <u>20% (5)</u> ◀
Cefnwlad yr Aber	SA68 0 SA62 4 SA73 1 SA72 4	Amherthnasol	Cosheston Cei Cresswell Hook Lawrenni Llangwm Houghton	20%(5) ► <u>15% (7)</u> ◀
Gogledd-ddwyrain y Parc	SA65 9 SA43 3 SA41 3 SA63 4 SA66 7	Crymych	Felindre Farchog Trewyddel Mynachlog-ddu Pont-faen Rosebush	20%(5) ► <u>15% (7)</u> ◀

4.292 Rheolir y cyfraniadau tai fforddiadwy gan Gyngor Sir Penfro fel yr awdurdod tai. Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yr Awdurdod yn rhagnodi'r ardal leol lle y dylid gwario arian o'r fath. Mae'r cyfraniadau'n ariannu amrywiaeth o gynigion. Mae'r Cyngor Sir wedi paratoi fframwaith ar gyfer gwario cyfraniadau.¹⁶⁴

4.293 ~~♣Er mwyn i safleoedd gael eu hystyried yn safleoedd eithriadau mae'n rhaid dangos bod angen tai fforddiadwy a rhaid bod yna fecanwaith ar gyfer sicrhau bod yr eiddo yn parhau'n fforddiadwy am byth. Yn achos Perchentyaeth Cost Isel, mae profiad wedi dangos na fydd unrhyw fenthyciwr morgais yn rhoi arian ar fenthycy heb gymal morgeisai mewn meddiant yn cael ei gynnwys mewn cytundeb cyfreithiol Adran 106. Gan fod cymal o'r fath yn galluogi'r eiddo i gael ei werthu heb gyfyngiad (mewn amgylchiadau lle mae'r eiddo yn cael ei ail-feddiannu); nid yw hyn yn gwarantu y bydd yn parhau'n fforddiadwy am byth. Mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau nad yw safleoedd eithriadau yn dod yn safleoedd marchnad gydag amser o ganlyniad i gymalau o'r fath. O ystyried y sefyllfa hon, dim ond ar gyfer eiddo rhent fforddiadwy y caniateir safleoedd eithriadau.♣~~

¹⁶⁴ Defnyddio Cyfraniadau Tai Fforddiadwy, adran 106, Adroddiad Cabinet Cyngor Sir Penfro, Chwefror 2016

- 4.294 Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd angen iddo fonitro newidiadau mewn gwerthoedd a chostau o ran eu heffaith ar hyfywedd.
- 4.295 ♣Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod y math mwyaf priodol o dai fforddiadwy yn cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion y gymuned. Nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn Sir Benfro 2014 mai'r angen mwyaf ym mhob rhan o Sir Benfro yw eiddo rhent cymdeithasol (83%). Mae gan Gyngor Sir Penfro dystiolaeth hefyd sy'n deillio o fonitro ymgeiswyr am Berchentyaeth Cost Isel sy'n cael anhawster i gael morgeisi. At hynny, profiad y Cyngor o ailwerthu'r math yma o eiddo yw bod preswylwyr sydd wedi elwa o'r eiddo Perchentyaeth Cost Isel yn aml heb ddeall yn llawn natur y cysylltiadau sydd ynghlwm wrth yr eiddo ac yn anfodlon â'r broses dan sylw. Am yr holl resymau hyn, mae'r Awdurdod hwn yn awyddus i roi blaenoriaeth i ddarparu eiddo fforddiadwy ar rent cyn eiddo Perchentyaeth Cost Isel, lle mae hyn yn ofyniad trwy gytundeb adran 106 ar safleoedd marchnad. O ganlyniad, ar safleoedd marchnad, lle mae angen cyfraniad neu ddarpariaeth ar y safle, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol bod eiddo cymdeithasol a/neu eiddo canolradd ar rent yn cael ei ddarparu yn hytrach na thai Perchentyaeth Cost Isel.♣

♣Para newydd: Er mwyn cynorthwyo i ddiwallu'r angen diffiniedig am dai fforddiadwy, bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, lle bo hynny'n briodol, yn cefnogi datblygu cynlluniau a arweinir gan dai fforddiadwy, sy'n cynnig darparu o leiaf 50% o dai fforddiadwy, ar safleoedd preifat a chyhoeddus♣

- 4.296 Mae'r polisiâu a'r cyngor canlynol yn darparu arweiniad ychwanegol ar dai.

♣Polisi Newydd	Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy
	<u>Caniateir safleoedd tai fforddiadwy o fewn Canolfannau'r Cynllun neu'n gyfagos iddynt lle gellir dangos:</u>
	a) <u>bod y safle ar gyfer tai fforddiadwy yn unig bod mecanweithiau clir a gigonol i sicrhau y bydd buddion tai fforddiadwy yn cael eu diogelu ar gyfer deiliaid cychwynnol a dilynol; a</u>
	b) <u>bod gwir angen am dai fforddiadwy wedi'i glustnodi; a</u>
	c) <u>bod y safle o faint o graddfa sy'n gymesur â'r diffiniedig ac sy'n cyd-fynd âffurf a chymeriad y Ganolfan.</u>

Para newydd: Bydd y polisi hwn yn caniatáu datblygu safleoedd ar gyfer 100% o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol mewn lleoliadau nad ydynt fel rheol yn dderbyniol ar gyfer datblygiad preswyl yn unol â'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol a TAN 2..

Para newydd: Nod y polisi yw helpu i gynnal cymunedau gwledig a chadw pobl yn eu cymunedau lleol drwy ganiatáu datblygu cartrefi fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen a glustnodwyd am dai lleol. Ymhlith hyrwyddwyr y cyfryw safleoedd mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, y Cyngor Sir ac Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol.

Para newydd: Dylai cartrefi fforddiadwy newydd fod o faint, graddfa a deiliadaeth sy'n gymesur â'r angen diffiniedig. Gellir tynnu tystiolaeth o angen o'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, y Gofrestr Tai Cyffredin ac arolygon y Cyngor Cymuned.

Para newydd: O ran maen prawf c) nod y polisi yw cynnal cymunedau gwledig a chadw pobl yn eu cymunedau lleol drwy ddatblygu datblygiadau cartrefi fforddiadwy ar raddfa fach i ddiwallu angen lleol a glustnodwyd. Mae Canolfannau'r Parc Cenedlaethol yn amrywio o ran maint, yn enwedig y Canolfannau Gwledig, ac felly mae angen cymryd gofal i sicrhau bod y datblygiad yn unol â ffurf a chymeriad y Ganolfan a hefyd wrth i nifer yr unedau fforddiadwy gynyddu, gall hynny greu anawsterau o ran cynnal cymuned o ddeiliadaethau cymysg.

Para newydd: Bydd angen i'r tai fforddiadwy aros ar gael am byth i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy drwy ddefnyddio rhwymedigaethau neu amodau. Nid yw safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer tai'r farchnad agored. ♣

♣Polisi Newydd	<u>Cynigion Datblygu Tai</u>
	<u>Er mwyn sicrhau bod datblygiad tai wedi'i leoli'n briodol ac yn addas o ran graddfa a math i fodloni Polisiâu Strategol 2, 3, 4, 5, 6 a 7, dim ond yn y lleoliadau canlynol y caniateir cynigion i ddatblygu tai:</u>
	<u>1. Canolfannau</u>
	<u>a) Ar safleoedd a ddyrennir ar gyfer tai neu ar safleoedd addas eraill o fewn ffin Canolfan; neu</u>
	<u>b) Ar safleoedd sy'n gyfystyr â mewnlenni bylchau bach neu fân estyniadau (h.y. cyfannu) mewn Canolfannau heb ffin Canolfan a restrir ym Mholisi 6; neu</u>
	<u>c) ar dir a ryddheir mewn eithriadau o fewn</u>

Canolfannau tai fforddiadwy ac yn gyfagos iddynt i ddiwallu angen lleol a glustnodwyd (gweler y Polisi Newydd ar Safleoedd Eithriedig Tai Fforddiadwy)

2. Cefn Gwlad

a) Lle mae'r datblygiad yn ymwneud ag angen am dai sy'n cwrdd â'r polisi cenedlaethol cyfredol ar dai yng nghefn gwlad (annedd menter wledig neu Ddatblygiad Un Blaned); neu

b) Lle mae'r datblygiad yn ymwneud ag addasu adeilad(au) gwledig (gweler Polisi 7d).

Para newydd: Mae polisiâu 2 i 7 yn clustnodi lleoliadau addas ar gyfer tai newydd yn yr hierarchaeth aneddiadau i gefnogi cyflwyno patrwm datblygu cynaliadwy. Mae'r math a'r raddfa o ddatblygiad a ganiateir ym mhob haen yn gymesur â lle anheddiad yn yr hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy ac a reolir fel a ganlyn:

- Mae maen prawf 1a) yn cyfeirio twf tai mewn trefi a phentrefi i safleoedd a ddyrannwyd ac i safleoedd addas eraill ar hap o fewn ffin Canolfan yr anheddiad. Disgwylir i ddatblygiad tai marchnad agored ar y safleoedd hyn gyfrannu at Dai Fforddiadwy yn unol â Pholisi 49.
- Mae maen prawf 1b) yn galluogi mewnlenni a chyfannu sensitif ddiwydd yn y Canolfannau hynny a restrir nad oes ganddynt ffin Canolfan wedi'i diffinio.
- Mae maen prawf 1c) yn galluogi datblygu tai fforddiadwy ar safleoedd eithriedig yn y Ganolfan ac yn gyfagos i'r Ganolfan.
- Mae maen prawf 2a) yn defnyddio dull cyfyngol o ddatblygu tai yng nghefn gwlad yn unol â pholisi cenedlaethol. Mae'r polisi yn clustnodi lle bydd rhai mathau o ddatblygiad yn cael eu cefnogi mewn egwyddor a'u penderfynu yn unol â pholisi cenedlaethol a Nodiadau Cyngor Technegol sef:
 - Anheddau gweithwyr menter wledig - gweler TAN 6, Gorffennaf 2010.
 - Datblygiad Un Blaned - gweler TAN 6, Gorffennaf 2010.
- Maen Prawf 2b) Gweler Polisi 7d) a chyfiawnhad resymedig ategol sy'n nodi'r modd y cymhwysir y polisi hwn. ♣

Polisi 50**Dwyseddau ♠a Chymysgedd ♠ Tai**

Caniateir cynigion datblygu preswyl lle mae'r dwysedd preswyl yn 30 annedd yr hectar o leiaf. Caniateir dwyseddau is os gellir dangos:

- a) Y byddai datblygiad ar y dwyseddau rhagnodedig yn cael effaith andwyol annerbyniol ar gymeriad yr ardal gyfagos; neu**
- b) Bod angen dwysedd is oherwydd bod cyfyngiadau sylweddol ar y safle neu i gadw nodwedd a fyddai'n cyfrannu at amwynderau lleol presennol neu yn y dyfodol.**

~~♠Ni chaniateir datblygiad newydd sy'n cynnwys tai dim ond os bydd yn cyfrannu at greu cymunedau cytbwys, sy'n darparu cymysgedd priodol o fathau o dai, deiliadaeth a maint, gan gynnwys eiddo i ddiwallu'r angen am dai fforddiadwy, oni bai bod amgylechiadau eithriadol. Bydd dull cydweithredol yn cael ei arddel yn seiliedig ar dystiolaeth am hyfywedd y datblygiad newydd er mwyn sefydlu cymysgedd priodol o fathau o dai a deiliadaethau a fydd yn cyfrannu at yr amcan o gyflawni cymunedau cymysg a chynaliadwy.♠~~

4.297 Bydd datblygiad preswyl newydd yn anelu at ddefnyddio tir yn effeithlon, gan ddarparu anheddau sy'n diwallu'r anghenion presennol am dai ac yn diogelu tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, bydd angen dwysedd preswyl o 30 annedd yr hectar fan lleiaf ar gyfer datblygiad preswyl newydd, fel y nodir ym mharagraff0 isod.

4.298 Ni chaniateir datblygiad islaw'r lefelau dwysedd preswyl penodedig oni ellir dangos bod cyfyngiadau arwyddocaol yn gysylltiedig â safle sy'n atal datblygiad ar y lefelau penodedig neu lle y byddai datblygiad ar y dwysedd angenrheidiol yn cael effaith andwyol ar gymeriad neu olwg yr ardal leol neu'n arwain at golli nodwedd bwysig ar y safle. Bydd dwyseddau uwch yn cael eu caniatáu ac yn wir yn cael eu hannog lle maent yn golygu gwneud defnydd cynaliadwy o dir ac yn adlewyrchu cymeriad yr ardal gyfagos ac na fyddent yn cael effaith annerbyniol ar amwynderau lleol.

Polisi**♠Cymysgedd Tai****Newydd**

Er mwyn sicrhau bod cymunedau cytbwys yn cael eu creu, bydd yn ofynnol i bob datblygiad tai newydd gynnwys cymysgedd o feintiau, mathau a deiliadaeth anheddau gan ystyried y dystiolaeth gyfredol o'r angen am dai yn y Parc Cenedlaethol.♠

- 4.299 Disgwylir i dai fforddiadwy a gaiff eu codi o'r newydd ddiwallu'r lleiafswm o arwynebedd llawr mewnol gros a storio (m2) ar gyfer y math perthnasol o eiddo a maint fel y nodir yn Gofynion Ansawdd Datblygu Llywodraeth Cymru neu unrhyw safonau tebyg a all eu disodli o dro i dro.
- 4.300 Amcan strategol y Cynllun ar gyfer tai yw ei gwneud yn haws darparu ar gyfer anghenion tai fforddiadwy. Ni chaniateir cynigion na all gyfrannu at ddarparu cymunedau cytbwys cynaliadwy trwy gynnwys darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle neu gyfrannu'n ariannol at ddarparu tai fforddiadwy oni bai y gellir dangos amgylchiadau eithriadol. ♣Cymerir dull cydweithredol yn seiliedig ar hyfywedd tystiolaeth y datblygiad newydd er mwyn sefydlu cymysgedd briodol o fathau a deiliadaeth tai fydd yn cyfrannu at yr amcan o gyflawni cymunedau cymysg a chynaliadwy. ♣

Safleoedd Sipsiwn, a Theithwyr a Siewmyn

Polisi 51

**Safleoedd Sipsiwn, a Theithwyr a Siewmyn
Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, a
Theithwyr a Siewmyn:**

- ~~a) ♣**Ile mae tystiolaeth bod angen lleoli neu wneud trefniadau dros dro yn yr ardal**~~
- a) Mae'r ymgeisydd wedi dangos nad oes lleiniau addas ar gael o fewn y safleoedd awdurdodedig presennol na thir ar gael o fewn terfynau'r aneddiadau presennol. ♠; a**
- b) Ile mae'r safle wedi'i leoli'n dda i wasanaethu anghenion Sipsiwn, a Theithwyr neu Siewmyn, gan gynnwys yr angen i gael gafael ar wasanaethau lleol; a**
- c) Ile mae gan y safle fynediad da i ffordd gyhoeddus sy'n ddiogel ac yn uniongyrchol; a**
- d) Ile mae'r safle'n addas ar gyfer y datblygiad ► a ◀ Ile gellir darparu digon o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle; a**
- e) Ile rhoddir sylw digonol i faterion amwynder y trigolion ar y safle a thrigolion eiddo cyfagos; a**
- f) Ile nad yw'r cynnig yn achosi ymyrraeth weledol sylweddol, lle mae wedi'i leoli'n sensitif yn y dirwedd a lle darperir tirlunio boddhaol.**

- 4.301 Mae Asesiad Cyngor Sir Penfro o'r Angen am Lety i Sipsiwn a Theithwyr 2015 yn nodi'r angen am safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a iardiau

Siewmyn Teithiol yn Sir Benfro.¹⁶⁵ Ni nodwyd unrhyw angen ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro. ♣Cydnabyddir y gall yr angen am safle Sipsiwn a Theithwyr godi y tu allan i ganfyddiadau'r Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr. Lle bo hyn yn wir, bydd yr Awdurdod yn ystyried ceisiadau fesul achos yn unol â'r meini prawf a nodir uchod ac yn unol â Chylchlythyr 005/2018 'Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Phobl Sioeau Teithiol'. ♣

- 4.302 Mae'r potensial i achosi effeithiau negyddol ar safleoedd Natura 2000 yn annhebygol ond mae hynny'n dibynnu ar raddfa a lleoliad y safle. Mae'r cyfeiriad at fynediad 'uniongyrchol' yn golygu bod gofyn i'r fynedfa i'r safle fod yn uniongyrchol o'r briffordd gyhoeddus.

♣~~Datblygiad Un-Blaned~~

Polisi 52	♣Datblygiad Un-Blaned	
Yn ogystal â bodloni gofynion polisi cynllunio cenedlaethol, caniateir Datblygiad Un-Blaned:		
a) lle bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cymdeithasol a / neu economaidd cadarnhaol er budd y cyhoedd; a		
b) lle mae'r datblygiad ar raddfa nad yw'n fwy na'r hyn sydd ei angen i ddiwallu anghenion y prosiect cyffredinol; a		
c) lle mae cyfleoedd i ailddefnyddio adeiladau sydd ar gael yn ardal y cynnig wedi cael eu harchwilio gan ddod i'r casgliad eu bod yn anymarferol; a		
d) lle mae'r datblygiad wedi ei integreiddio'n dda i'r dirwedd ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.		

- ~~4.303 Nodir uchod yr elfennau polisi lleol ar gyfer Datblygiad Un-Blaned ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi cenedlaethol a'r canllawiau. Bydd angen i Ddatblygiad Un-Blaned fodloni polisi cenedlaethol a pholisi cynllunio lleol.~~

- ~~4.304 O ran maen prawf a) yn y canllawiau cenedlaethol, nid oes disgwyliad penodol y bydd manteision cymdeithasol ac economaidd yn cael eu darparu bob amser ond mae disgwyl y dylai'r Datblygiadau Un-Blaned wynebu tuag allan ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn disgwyl cael tystiolaeth fod y datblygiad yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran yr amgylchedd, defnyddio adnoddau, a chyfuniad o fuddion cymdeithasol/economaidd. Gallai buddion cyhoeddus~~

¹⁶⁵ Asesiad Cyngor Sir Penfro o'r Angen am Lety i Sipsiwn a Theithwyr 2015

gynnwys darparu gwasanaethau i'r gymuned. O ran maen prawf b) mae'r Awdurdod yn awyddus i sicrhau nad yw'r datblygiad yn cynnwys elfennau nad ydynt yn hanfodol ee twnelau polythen nad ydynt yn cael eu defnyddio na thyrbinau gwynt mawr nad oes eu hangen. O ran maen prawf c) o fewn y Parc Cenedlaethol, mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn arbennig o awyddus bod yr adeiladau hynny sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i gymeriad yr ardal oherwydd eu nodweddion pensaernïol cynhenid neu eu lleoliad yn y dirwedd yn cael eu hailddefnyddio (gweler0). Yn achos cyfleoedd i aildddefnyddio adeiladau sydd ar gael ar safle'r cynnig dylid cynnal ymchwiliad sy'n dod i'r casgliad ei bod yn anymarferol eu hailddefnyddio cyn y gellir cynnig adeiladau newydd. Lle mae adeiladau presennol o werth arbennig, gall eu hailddefnyddio fel rhan o Ddatblygiad Un Blaned fod yn dderbyniol hyd yn oed os na allant, wrth eu hailddefnyddio, gyrraedd yr un lefel o berfformiad amgylcheddol o ran eu hadeiladwaith ag adeiladau newydd.

4.305 O ran maen prawf d) mae 0a 0o'r Cynllun Datblygu Lleol yn pennu nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a'r ystyriaethau allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy i sicrhau bod y nodweddion arbennig hynny yn parhau i fod ar gael i genedlaethau'r dyfodol. Mae 0gyda'r Canllawiau Cynllunio Atodol, yn darparu polisi a chanllawiau ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy. Bydd angen ystyried effaith gweithgareddau cysylltiedig megis storio deunyddiau ac effaith goleuadau (0).

4.306 Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i gefnogi'r polisi hwn. ♣

Blaenoriaeth F: Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth

F. Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu, Trafnidiaeth

Cyfleusterau a Seilwaith Cymunedol

- 4.307 Mae diwallu anghenion lleol cymunedau yn golygu dod â chartrefi, swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau o fewn cyrraedd agos iddynt a chefnogi cyfleusterau a gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Mae'n amlwg bod angen sicrhau bod datblygiadau newydd yn gwneud gwasanaethau a chyfleusterau'n well ar gyfer pobl mewn mannau eraill.
- 4.308 Fe fydd y strategaeth yn sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn gostwng lefel ac amrywiaeth y cyfleusterau cymunedol sydd ar gael i drigolion y Parc ac ymwelwyr, ac eithrio lle nad oes angen y cyfleuster mwyach neu nid yw'n ymarferol yn fasnachol, a bod gwasanaethau neu seilwaith ychwanegol sydd eu hangen ar gynnig yn cael eu cyflwyno ar yr adeg briodol.¹⁶⁶ Gyda chyfleusterau newydd ac estynedig, fe fyddan nhw'n cael eu hannog lle maent mewn lle da i gwrdd ag anghenion y gymuned ac yn gyfleus i drafnidiaeth gyhoeddus, siopau a gwasanaethau eraill, lle mae angen hyn i wasanaethu anghenion defnyddwyr. Dylai'r strategaeth ofodol a gynigir gan y Cynllun Datblygu Lleol helpu gyda'r nod hwn.
- 4.309 Ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol fe fydd yr un nifer o gyfleusterau cymunedol, o leiaf, ag yr oedd ar ddechrau cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol ac eithrio lle nad oedd modd eu cadw am nad oedd eu hangen mwyach. Fe fydd sicrhau nad oes effaith niweidiol ar ansawdd y ddarpariaeth yn ystyriaeth bwysig. O ran maen prawf0b isod, mae hyfywedd masnachol yn brawf ar gyfer mentrau masnachol. Fe allai materion i'w hystyried wrth ddangos sut fydd camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cyfleuster addas arall, neu well cyfleuster, ar gael, neu i ddangos nad oes ei angen mwyach, gynnwys gwerthu'r adeilad i ddarparu nawdd ar gyfer un arall, dangos nad yw'r cyfleuster wedi cael ei ddefnyddio ers cyfnod hir o amser er gwaethaf ymdrechion i sicrhau ei fod yn cael ei aildefnyddio, gan gynnwys y cyfle ar gyfer gwaith/agor rhan-amser, neu uno gyda chyfleusterau eraill i gynnal hyfywedd. Gellid ystyried cyfleoedd ar gyfer nawdd cyhoeddus i gefnogi cyfleusterau hefyd. Mae'r Awdurdod yn bwriadu llunio Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi0b).
- 4.310 ♣Gweler isod Polisi 53.♣

¹⁶⁶ Gweler6. Geirfa



Bydd cyfleusterau cymunedol, ~~♣~~seilwaith a gwasanaethau~~♣~~ yn cael eu darparu a'u diogelu fel a ganlyn¹⁶⁷:

- a) Yn achos chyfleusterau newydd ac estynedig bydd y rhain yn cael eu caniatáu lle maent wedi'u lleoli'n dda i ddiwallu anghenion y gymuned a lle maent yn gyfleus i drafnidiaeth gyhoeddus, siopau a gwasanaethau eraill lle mae angen hyn i ddiwallu anghenion defnyddwyr.
- b) Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar weithrediad cyfleuster cymunedol, neu'n achosi iddo ddiflannu heblaw lle mae cyfleuster newydd neu gyfleuster gwell yn cael ei ddarparu neu lle gellir dangos nad oes angen y cyfleuster mwyach neu nad yw'n fasnachol hyfyw. Wrth ystyried defnydd newydd ar gyfer cyfleuster cymunedol segur, rhoddir blaenoriaeth i ddefnydd cyflogaeth neu dai fforddiadwy (gweler hefyd 0,0a0).
- c) Rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion sydd wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer gwella neu ddarparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a wnaed yn angenrheidiol gan y datblygiad. Bydd trefniadau ar gyfer darparu neu wella i'r safon ofynnol yn cael eu sicrhau drwy osod amodau ar y caniatâd cynllunio neu, mewn rhai achosion, rwymedigaethau cynllunio.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau buddion i gyfrannu at fynd i'r afael â meysydd lle mae'r angen mwyaf yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried tai fforddiadwy; mannau hamdden ac amwynderau agored; cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy; cyfleusterau addysgol; cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys llyfrgelloedd); celf gyhoeddus; a

¹⁶⁷ Gweler 6. Geirfa

bioamrywiaeth.

Lle gellir profi nad yw cynnig yn gallu darparu (hynny yw na fyddai'r cynnig yn ariannol hyfyw) o ran gofynion polisi'r Cynllun (hynny yw ar gyfer darparu tai fforddiadwy, y safonau dylunio cynaliadwy a ddisgwyllir a darparu seilwaith cymunedol) rhoddir blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy mewn unrhyw drafodaethau pellach, ar yr amod y gellir dangos na fyddai'r cynnig yn rhoi gormod o bwysau ar y seilwaith cymunedol presennol.

**♣Polisi
'Newydd'**

Gofynion Seilwaith

Rhoddir caniatâd cynllunio ar gyfer cynigion sydd wedi gwneud trefniadau addas ar gyfer gwella neu ddarparu seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol a wnaed yn angenrheidiol gan y datblygiad. Bydd trefniadau ar gyfer darparu neu wella i'r safon ofynnol yn cael eu sicrhau drwy osod amodau ar y caniatâd cynllunio neu, mewn rhai achosion, rwymedigaethau cynllunio.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau buddion i gyfrannu at fynd i'r afael â meysydd lle mae'r angen mwyaf yng nghymunedau'r Parc Cenedlaethol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried tai fforddiadwy; mannau hamdden ac amwynderau agored; cyfleusterau trafnidiaeth cynaliadwy; cyfleusterau addysgol; cyfleusterau cymunedol (gan gynnwys llyfrgelloedd); celf gyhoeddus; a bioamrywiaeth.

Lle gellir profi nad yw cynnig yn gallu darparu (hynny yw na fyddai'r cynnig yn ariannol hyfyw) o ran gofynion polisi'r Cynllun (hynny yw ar gyfer darparu tai fforddiadwy, y safonau dylunio cynaliadwy a ddisgwyllir a darparu seilwaith cymunedol) rhoddir blaenoriaeth i ddarparu tai fforddiadwy mewn unrhyw drafodaethau pellach,

ar yr amod y gellir dangos na fyddai'r cynnig yn rhoi gormod o bwysau ar y seilwaith cymunedol presennol.♣

♣4.310 Bydd caniatâd cynllunio wedi sicrhau rhwymedigaethau i ddeilio â'r seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau ychwanegol sy'n ofynnol gan gynnig.¹⁶⁸ Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu paratoi i ategu'r Polisi hwn i egluro'r gofynion ar gyfer cyflawni gwelliannau i'r seilwaith, y gwasanaethau a'r chyfleusterau sy'n angenrheidiol gan y datblygiad. Bydd yr Awdurdod hwn hefyd yn parhau i ystyried goblygiadau posibl cyflwyno'r Ardoll Seilwaith Cymunedol drwy ymgynghori â sefydliadau partner.♣

Manwerthu

4.311 Mae'r Awdurdod, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro a Chyngor Sir Ceredigion, wedi paratoi Astudiaeth Manwerthu Rhanbarthol y De-orllewin (Chwefror 2017). O fewn yr astudiaeth, nodwyd symiau bach o gapasiti ar gyfer nwyddau cymhariaeth ar draws y pedair prif ganolfan manwerthu o fewn y Parc Cenedlaethol hyd at 2036 (♣515m² 707m² ar gyfer Dinbych-y-pysgod, 293m² 346m² ar gyfer Tyddewi, 109m² ar gyfer Saundersfoot ac 89m² 108m² ar gyfer Trefdraeth♣). Y strategaeth ar gyfer Dinbych-y-pysgod, Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth yw cynnal eu sefyllfa o gymharu â'i gilydd a chanolfannau mwy y tu allan i'r ardal. Er bod gwariant yn gollwng i ganolfannau y tu allan i ardal y Parc maent yn perfformio'n dda gyda chymorth gwariant preswylwyr ac ymwelwyr. Bwriedir annog adfywiad y Canolfannau hyn yn sensitif fel y gallant barhau i fod yn lleoedd deniadol i fyw ynddynt ac ymweld â hwy; chwarae rôl werthfawr o ran diwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr, a denu cyfleoedd manwerthu arbenigol. Mae'r Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol yn cynghori bod arwynebedd llawr newydd ar gyfer manwerthu yn debygol o gael eu meddiannu gan fanwerthwyr sy'n ymwneud â thwristiaid ac yn rhai bach o ran graddfa. Mae'n bwysig bod unrhyw arwynebedd llawr newydd yn cael ei ddarparu ar ffurf sy'n sensitif i gymeriad y Canolfannau a dylid annog datblygiadau defnydd cymysg ar raddfa fach.¹⁶⁹

¹⁶⁸ Ymhlith y meysydd lle gellir ceisio cyfraniadau mae tai fforddiadwy, archaeoleg, cadwraeth natur a'r amgylchedd hanesyddol, gwasanaethau cymunedol a chymdeithasol, trosedd ac anrhefn, addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, gwelliannau amgylcheddol, amddiffyn rhag llifogydd, gwella canol tref, seilwaith tân ac achub, gofal iechyd, llyfrgelloedd, man agored, cyfleusterau hamdden a gweithgareddau hamdden, cyfleusterau ailgylchu a chynlluniau cymunedol, trafnidiaeth gan gynnwys cynlluniau teithio, rhandiroedd, seilwaith dŵr a systemau draenio trefol cynaliadwy.

¹⁶⁹ Papur Cefndir: Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol De-orllewin Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Chwefror 2017, tudalennau 80-81

- 4.312 O ran canfyddiadau'r Astudiaeth Manwerthu Ranbarthol, ni nodwyd unrhyw ddyraniadau tir ar gyfer defnydd manwerthu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae polisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf yn darparu'r cyddestun polisi lleol y bydd cynigion unigol ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu hystyried.
- 4.313 Gall trefi, yn enwedig y rheini sy'n denu ymwelwyr, gael eu gorlwytho gan ddefnyddiau nad ydynt yn rhai manwerthu, megis siopau cludfwyd, tafarndai a bwytaï (defnyddiau A3) sy'n eu gwneud yn llai deniadol i siopwyr, a gallant gyflwyno ymddygiad gwrthgymdeithasol, tra bod amrywiaeth o ddefnyddiau megis defnyddiau hamdden, bwytaï, caffis, orielau a sinemâu yn gallu lleihau'r angen i deithio allan o ganolfan. Y strategaeth ar gyfer y Parc fydd cynnal ardaloedd yn Ninbych-y-pysgod lle caniateir dim ond cyfran benodol o ddefnydd nad yw'n ymwneud â manwerthu. Yn gyffredinol, bydd materion amwynder ar gyfer defnyddiau A3 yn cael eu hasesu a'u rheoli'n ofalus.
- 4.314 Bydd yr Awdurdod yn gwrthsefyll unrhyw gynigion a allai niweidio neu danseilio rôl manwerthu'r canolfannau hyn drwy gyfyngu ar ddatblygiad tu allan i'r canolfannau hyn yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol.¹⁷⁰ Yr eithriad i hyn fydd cydnabod y rôl bwysig y mae darpariaeth wledig yn ei wneud i gymunedau'r Parc. Mae darpariaeth fanwerthu ychwanegol yn y lleoliadau hyn yn cael ei hannog os yw'n gydnaws â graddfa'r ganolfan. Y tu allan i'r prif ganolfannau gall siopau lleol mewn canolfannau llai gael eu diogelu a'u darparu fel cyfleuster cymunedol o dan0.

Polisi 54 Manwerthu yn y Parc Cenedlaethol (Polisi Strategaeth)	
★	
♣Yr hierarchaeth fanwerthu o'r Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yw¹⁷¹:	
a) Canol Tref Dinbych-y-pysgod b) Canolfannau Rhanbarthol Trefdraeth, Tyddewi a Saundersfoot c) Canolfannau gwledig llai eraill	
Canol y Dref	Dinbych-y-Pysgod
Canolfan Ardal	Trefdraeth, Tyddewi a

¹⁷⁰ Mae potensial i ddatblygiad y tu allan i ganolfannau fod mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'r canolfannau hynny a'u tanseilio. Mae Pennod 10, Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 Pennod 10 10, Rhagfyr 2018, adran 4.3 yn dweud mai'r lle gorau i wasanaethau manwerthu a gwasanaethau eraill yw yn y canolfannau presennol ar raddfa briodol. Trafodir datblygiadau manwerthu ar y cyrion neu y tu allan i ganolfannau ym Mholisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016 10, gan ddechrau ym mharagraff 10 4.4.3.18

¹⁷¹ Gweler 6. Geirfa

Er mwyn amddiffyn a gwella hyfywedd, bywiogrwydd ac atyniad y canolfannau manwerthu, darperir ar gyfer gofod llawr cymhariaeth newydd 1,270 m2 (net). Bydd y ddarpariaeth newydd yn cael ei darparu drwy ailddefnyddio adeiladau yn y Canolfannau canlynol:

- a) arwynebedd llawr 707m2 (net) yn Ninbych-y-pysgod;**
- b) arwynebedd llawr 346m2 (net) yn Nhyddewi;**
- c) arwynebedd llawr 109m2 (net) yn Saundersfoot;**
- d) arwynebedd llawr 108m2 (net) yn Nhrefdraeth.**

~~Dylai pob datblygiad manwerthu newydd fod yn gyson o ran ei raddfa â maint a chymeriad y Ganolfan a'i rôl yn yr hierarchaeth. Mae ardaloedd penodol o fewn Dinbych-y-pysgod wedi cael eu nodi ac ni fydd defnydd heblaw am fanwerthu yn cael hawl i ddominyddu yn yr ardaloedd hyn. Ym mhob canolfan, bydd amwynder eiddo cyfagos yn ystyriaeth bwysig lle cynigir defnyddiau A3, yn ogystal â'r effeithiau ar rôl y Ganolfan (gweler 0a0).~~

~~Bydd ffiniau Canolfannau Tref a Rhanbarthol yn helpu i ganolbwyntio'r buddsoddiad yn y ganolfan, a chynnal y drefwedd.~~

Mewn canolfannau manwerthu diffiniedig, bydd cynigion ar gyfer datblygu manwerthu newydd sydd ar raddfa a dyluniad sy'n briodol i'r Ganolfan ac sy'n unol â'r hierarchaeth manwerthu, yn cael eu cefnogi. ¹⁷²**Ni chaniateir cynigion fyddai'n tanseilio'r hierarchaeth manwerthu neu sy'n cael effaith niweidiol annerbyniol ar gymeriad neu ymddangosiad y Ganolfan a/neu amwynder eiddo cyfagos (gweler Polisi 55 a Pholisi 31).** ♣

¹⁷² Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, Tachwedd 2016, Pennod 10 yn nodi enghreifftiau o fath a graddfa datblygiadau sy'n briodol ar gyfer canolfannau tref, rhanbarth, lleol a phentref (dechrau paragraff 10.1.2). Mae Nodyn Cyngor Technegol 4, Datblygiadau Manwerthu a Masnachol, Tachwedd 2016, yn rhoi arweiniad pellach ym mharagraffau 4.1 – 4.6

- 4.315 Mae'r polisïau a'r cyngor isod yn darparu arweiniad ychwanegol ar faterion manwerthu.
- 4.316 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar fanwerthu tu allan i drefi, arcedau hapchwarae, siopau fferm, siopau lleol, siopau pentref a thafarndai. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar ~~ffatriedd a busnesau eraill sy'n gwerthu cynnyrch a manwerthu mewn gorsafoedd petrol.~~ Gweler Pennod 10 'Cynllunio ar gyfer Manwerthu a Chanol Tref' 4 'Lleoedd Actif a Chymdeithasol. Mae Canol y Dref (Dinbych-y-pysgod) a ffiniau Canolfannau Rhanbarthol (Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth) yn cael eu nodi ar y Map Cynigion ynghyd â'r Prif Ffryntiau Manwerthu yn Ninbych-y-pysgod. Mae yna ganolfannau llai hefyd, gan gynnwys Solfach.

Polisi 55

Canolfannau Siopa Tref a Rhanbarth



O fewn canolfan siopa tref Dinbych-y-pysgod, canolfannau siopa rhanbarthol Saundersfoot, Tyddewi a Threfdraeth, a chanolfannau siopa llai eraill, caniateir newid defnydd, ailddatblygu neu ddatblygu adeiladau newydd:

- a) os yw'r cynnig mewn canolfan siopa drefol neu ranbarthol ac yn dod o fewn Dosbarth A1, A2, A3, B1, C1, D1 neu D2 o orchymyn dosbarthiadau defnydd neu mae'n ddefnydd sui generis¹⁷³ sydd i'w gael fel rheol mewn canolfannau siopa o'r fath;**
- b) os yw'r cynnig ar gyfer defnydd manwerthu neu fasnachol (A1, A2 a A3) neu gyfleusterau cymunedol mewn Canolfan Wledig; ac**
- c) os na fyddai'r cynnig, os yw wedi'i leoli o fewn prif ffryntiad (gweler Mewnosodiad Dinbych-y-pysgod ar y Map Cynigion) yn creu crynodiad o ddefnyddiau nad ydynt yn rhai manwerthu; ac**
- d) os yw graddfa, lleoliad a dyluniad y cynnig yn briodol ac os byddai'n cyfrannu at gymeriad a golwg yr ardal; ac**
- e) os na fyddai cynigion ar gyfer defnyddiau A3 yn unigol nac yn gronnus yn achosi effaith andwyol annerbyniol ar amwynderau (gweler0) neu rôl y Ganolfan o ran diwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr.**

¹⁷³ Gweler6. Geirfa

- 4.317 Bwriad y polisi yw sicrhau bod bywiogrwydd, hyfywedd ac amrywiaeth canolfannau siopa yn cael eu cynnal a'u cyfoethogi. Mae canolfannau siopau ardal y Cynllun yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau ar gyfer trigolion ac ymwelwyr sy'n dod i'r Parc Cenedlaethol, gan gynnwys gweithgareddau hamdden, ysgolion, busnes a gwasanaethau cyhoeddus. Mae busnesau unigol yn elwa o'r amrywiaeth o siopau a chyfleusterau yn y ganolfan yn ei chyfanrwydd.
- 4.318 Cefnogir cadw manwerthu yng nghanol tref Dinbych-y-pysgod trwy ddiffinio prif ffryntiau manwerthu – gweler y Map Cynigion. Bwriad y rhain yw sicrhau na chaiff cymeriad manwerthu a darpariaeth y ganolfan ei danseilio.
- 4.319 Yn y prif ffryntiau manwerthu, fe fydd defnyddiau heblaw rhai A1 a fyddai'n arwain at grynodiad o ddefnyddiau tebyg, neu'n eu cynyddu'n sylweddol, neu'n lleihau cymeriad manwerthu'r ardal, yn cael eu gwrthwynebu. Fe fydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei rinweddau unigol gan ystyried y meini prawf uchod a pholisi cynllunio cenedlaethol. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion ystyrir bod uchafswm o draean y ffryntiad manwerthu at ddefnydd heblaw am A1, a dim mwy na thair uned sydd ddim yn A1 ger ei gilydd, yn gydbwysedd priodol o ddefnyddiau.
- 4.320 Bydd defnyddiau nad ydynt yn denu nifer sylweddol o gwsmeriaid yn cael eu hannog i ddefnyddio'r safleoedd uwchben y lefel gwaelod mewn lleoliadau ffryntiad manwerthu. Mewn achosion priodol, fe fydd angen i'r rheini sy'n defnyddio'r llawr gwaelod gynnal arddangosfa ffenestr siop a blaen siop. Ystyrir datblygiadau preswyl uwchben y lefel gwaelod fel datblygiadau addas.
- 4.321 Mae'r rhan fwyaf o ddefnyddiau sydd ddim yn ddefnyddiau manwerthu yn ychwanegu at fywiogrwydd ac atyniad canolfannau, fodd bynnag mae crynodiad o ddefnyddiau A3 (bwyd poeth a diodydd) fel siopau cludfwyd yn gallu effeithio ar atyniad ac amwynder y ganolfan ac yn cyfyngu ar y defnydd ohonynt i adegau penodol o'r dydd.
- 4.322 Bydd amodau priodol yn cael eu cymhwyso i sicrhau nad effeithir yn andwyol ar amwynderau gan gynnwys cyfyngu ar oriau agor, darparu biniau sbwriel priodol a chyfarpar hidlo (arogleuon). Efallai y bydd angen hefyd am gyfraniadau gefnogi mesurau diogelwch y cyhoedd.

Polisi 56

Canolfannau Garddio

Caniateir canolfannau garddio:

- a) lle mae'r cynnig wedi'i leoli mewn Canolfan neu gerllaw; a**
- b) lle na fyddai'r cynnig yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywedd cyfleusterau manwerthu mewn unrhyw Ganolfan gyfagos; a**
- c) lle mae graddfa a natur unrhyw adeiladau a gynigir**

**at ddefnydd manwerthu a maint, dyluniad,
deunyddiau a lleoliad unrhyw adeilad neu estyniad
newydd yn cydweddu â'r adeilad(au) presennol.**

- 4.323 Mae Canolfannau garddio yn elfen nodedig o gyfleusterau manwerthu'r Sir. Bwriad y polisi yw sicrhau bod canolfannau garddio manwerthu neu blanhigfeydd sy'n gwerthu i'r cyhoedd sy'n ymweld â hwy mewn lle da o ran Canolfannau a datblygiadau presennol y Cynllun Datblygu Lleol, ac o faint sy'n addas i'r lleoliad. Mewn llawer o achosion, mae'r effaith ar amwynderau lleol a materion traffig yn gallu bod yn ystyriaeth bwysig.
- 4.324 Efallai y cyflwynir amodau cynllunio i gyfyngu ar yr amrywiaeth o nwyddau y gellir eu gwerthu o'r safleoedd, ac i sicrhau bod yr arwynebedd llawr net ar gyfer manwerthu yn briodol, er mwyn amddiffyn bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau presennol ac, yn benodol, siopau lleol.

Trafnidiaeth Gynaliadwy

- 4.325 Y strategaeth ar gyfer y Parc Cenedlaethol yw gwella hygyrchedd a'i hyrwyddo trwy ddulliau priodol ar gyfer y bobl sy'n gweithio, yn byw, yn gorfswys ac yn chwarae yn y Parc Cenedlaethol ac ar yr un pryd lleihau'r angen am deithio mewn cerbydau preifat.¹⁷⁴
- 4.326 Gan nad yw'r Parc Cenedlaethol yn awdurdod priffyrdd, fe fydd llawer o'r strategaeth yn cael ei chyflawni trwy bolisiau a chymau gweithredu cynlluniau eraill a gaiff eu paratoi gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Penfro. Mae'r Cyd-gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer De-orllewin Cymru yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella trafndiaeth a hygyrchedd yn yr ardal.
- 4.327 Strategaeth ofodol y Cynllun Datblygu Lleol yw targedu datblygiad lle bynnag y bo'n bosibl i leoliadau sydd ag ystod resymol o gyfleusterau a mynediad ar dtrafnidiaeth gyhoeddus, er y cydnabyddir bod y Parc Cenedlaethol yn wledig yn bennaf, ac mae rhai Canolfannau sydd ag ystod o gyfleusterau a dylid eu hannog i dyfu, yn brin o dtrafnidiaeth gyhoeddus, heb braidd ddim posibilrwydd o gynyddu gwasanaethau bysiau. Fodd bynnag, gall y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael helpu i leihau nifer a hyd y siwrneiau a wneir.
- 4.328 Er bod strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol yn cyfeirio twf yn bennaf at Ganolfannau, mae yna enghreifftiau ble bydd angen i'r Cynllun Datblygu Lleol ystyried cynigion tu allan i'r lleoliadau hyn, er enghraifft, i helpu arallgyfeirio economaidd yng nghefn gwlad. Y strategaeth fydd asesu cynigion o ran yr effaith ar draffig ac osgoi'r rheini sy'n achosi pryderon sylweddol. Enghreifftiau o hyn fydd cynyddu lefelau sylweddol o draffig mewn ardaloedd lle mae tagfeydd neu lle mae pryderon ynghylch difrod i gymeriad yr ardal leol ac na ellir lliniaru'r effeithiau hynny.

¹⁷⁴ Gweler 6. Geirfa

Polisi 57**Trafnidiaeth Gynaliadwy (Polisi Strategaeth)**

Sicrhau bod cyfleoedd yn cael eu cymryd i wella a hyrwyddo dewisiadau teithio cynaliadwy a lleihau'r angen i deithio mewn car trwy:

- a) Caniatáu cynigion sy'n cynorthwyo i ddarparu gwell rheolaeth traffig a pharcio;**
- b) Caniatáu cyfleusterau i wella trafndiaeth gyhoeddus trwy helpu i gysylltu rhwng dulliau o deithio neu ddarparu cyfleusterau ar gyfer teithwyr;**
- c) Sicrhau bod datblygiadau newydd wedi'u cynllunio'n dda trwy ddarparu mynediad priodol i gerddwyr, seiclwyr, cerbydau a thrafnidiaeth gyhoeddus lle bo'n briodol; a**
- d) Peidio â chaniatáu cynigion sy'n achosi pryderon sylweddol ynghylch effeithiau posibl ar drafndiaeth na ellir eu lliniaru'n foddhaol (gweler0).**

4.329 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar reoli traffig, ystyriaethau trafndiaeth mewn rheoli datblygu, asesiadau trafndiaeth a chynlluniau teithio a mynediad at ddatblygiad. Mae cynllunio ac arfarnu cynigion trafndiaeth yng Nghymru yn cael eu harwain gan Ganllawiau Cynllunio ac Arfarnu Trafnidiaeth Cymru Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n nodi sut y dylid cynllunio a datblygu'r holl gynigion trafndiaeth. Mae'r polisiau isod yn darparu arweiniad a chynghor ychwanegol ar drafndiaeth gynaliadwy.

Polisi 58**Effeithiau Traffig**

Ni chaniateir datblygiad:

- a) lle na ellir sicrhau mynedfa briodol; neu**
- b) lle mae traffig yn debygol o achosi effaith andwyol annerbyniol ar ardaloedd sydd â thagfeydd neu ar adegau o lif traffig brig; neu**
- c) lle mae'n debyg y bydd traffig yn cael ei gynhyrchu ar adegau amhriodol megis yn hwyr y nos mewn ardaloedd preswyl; neu**
- d) lle mae effaith andwyol annerbyniol ar ddiogelwch ffyrdd; neu**
- e) lle byddai niwed amgylcheddol sylweddol yn cael ei achosi na ellir ei liniaru; neu**
- f) lle byddai'r bwriad yn tanseilio bywiogrwydd a hyfywdra Canolfan.**

Bydd angen Asesiad Trafnidiaeth ar gyfer cynigion sy'n debygol o achosi nifer sylweddol o deithiau neu lle mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol ynglŷn ag effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar drafnidiaeth.¹⁷⁵

- 4.330 Mae'r polisi hwn yn dilyn y Polisi Cynllunio Cenedlaethol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol 18 ac yn nodi'r meini prawf ar gyfer asesu pob cynnig perthnasol.
- 4.331 Mae Asesiad Trafnidiaeth yn ofynnol ar gyfer cynigion sy'n debyg o achosi nifer sylweddol o deithiau¹⁷⁶:
- a) Datblygiadau preswyl o 25 uned neu ragor: neu
 - b) 100 neu ragor o symudiadau cerbydau y dydd: neu
 - c) 10 symudiad cludo nwyddau y dydd.
- 4.332 Yn ogystal, os oes gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol bryderon sylweddol ynghylch effaith bosibl y datblygiad arfaethedig ar drafnidiaeth bydd angen Asesiad Trafnidiaeth.
- 4.333 O ran maen prawf f) newid sylweddol fydd hwyluso darpariaeth barcio sy'n gwasanaethu'r cefnwlad gwledig yn ddigonol, yn cynnal bywiogrwydd a hyfywedd y Ganolfan ac ar yr un pryd yn osgoi tanseilio'r gallu i ddarparu trafndiaeth gyhoeddus a'r cymhelliant i gerdded a seiclo o fewn y Ganolfan.
- 4.334 Bydd yr Awdurdod yn paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol ar Safonau Parcio.

Polisi 59

Llwybrau Beicio a Llwybrau Defnydd ar y Cyd

Caniateir llwybrau beicio newydd a llwybrau defnydd ar y cyd:

- a) lle nad ydynt yn cael effaith amgylcheddol andwyol annerbyniol; a**
- b) lle maent yn bodloni angen strategol neu leol (er enghraifft, yn ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol neu'n darparu cyswllt iddo); neu**
- c) lle maent yn cyfrannu at welliannau diogelwch ffyrdd (gwahanu beiciau oddi wrth gerbydau modur, er enghraifft); neu**
- d) lle maent yn darparu gwell cyfleoedd ar gyfer teithio**

¹⁷⁵ Gweler 6. Geirfa

¹⁷⁶ Gweler 6. Geirfa

cynaliadwy (yn enwedig o fewn neu rhwng y prif Ganolfannau a Chanolfannau mawr y Sir a hefyd i atyniadau twristaidd mawr ac oddi wrthynt); neu e) lle maent yn lleihau tagfeydd traffig mewn Canolfan hanesyddol, mewn atyniad gwledig/arfordirol, neu mewn ysgolion ac ar hyd llwybrau a ddefnyddir yn dda yno ac oddi yno.

- 4.335 Pwrpas y polisi hwn yw cefnogi datblygiad llwybrau beicio a llwybrau defnydd ar y cyd. Fel cerdded, mae beicio yn ddull teithio hyblyg a chyfleus, yn enwedig ar gyfer teithiau byrrach.

Gwasanaethau Cyfleustodau

- 4.336 Mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9, ~~Tachwedd 2016~~ 10, Rhagfyr 2018 yn nodi datganiadau clir o bolisi rheoli datblygu cenedlaethol ar gyflenwad dŵr ac ansawdd dŵr a rheoli dŵr gwastraff. Darllenwch Bennod 12 'Seilwaith a Gwasanaethau' a Phennod 13 'Lliniaru a Rheoli Risgiau a Llygredd Amgylcheddol' 6 Lleoedd Nodedig a Naturiol.

Polisi 60

Llinellau pŵer a Piblinellau

Caniateir ceblau neu biblinellau a datblygiadau cysylltiedig lle dewisir y lleoliad, y llwybr neu'r dull o'u darparu sydd leiaf ymwthiol a niweidiol. Lle y byddai datblygiadau i'w gweld yn amlwg rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod lleoliadau amgen wedi'u hymchwilio a'u bod yn anymarferol. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu harchwilio'n fanwl o ran lleoliad a dyluniad a byddant ond yn cael eu caniatáu lle nad oes unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Lle gellir dangos bod gan gynigion bwysigrwydd cenedlaethol, dylid cyflwyno astudiaethau dichonoldeb technegol ac ariannol gyda cheisiadau.

- 4.337 Diben y polisi hwn yn gosod fframwaith addas i ystyried cynigion ar gyfer ceblau, adeiladu piblinellau a'r datblygiadau cysylltiedig, er enghraifft peilonau, is-orsafoedd ac ati. Dylid archwilio cyfleoedd i'w gosod o dan y ddaear bob tro, ar yr amod nad yw hyn yn cael mwy o effaith ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Cydnabyddir bod yn rhaid i'r llwybr a ddewisir fod yn ymarferol yn dechnegol. Diffinnir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ym 0.

- 4.338 Bydd llawer o gynigion yn tu allan i gwmpas rheolaeth gynllunio arferol, gyda'r corff statudol priodol yn ymgynghori ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn unig. Felly, bydd yr Awdurdod, yn ogystal â

defnyddio'r polisi hwn i ymdrin â cheisiadau cynllunio sy'n dod i law ar gyfer cynigion o'r fath, yn ei ddefnyddio i fwydo ymatebion i ymgynghoriadau o'r fath.

4.339 Mae hefyd yn berthnasol ar gyfer cynigion ynni adnewyddadwy.

Polisi 61

Telathrebu

Caniateir datblygiad telathrebu ar yr amod:

- a) bod y datblygiad yn rhan o system o ddarpariaeth wedi'i chynllunio; a**
- b) wedi ystyried cyfleoedd sy'n dod i law i rannu mastiau, antenau neu strwythurau eraill sydd eisoes yn bodoli, bod modd sicrhau'r strwythur neu'r lleoliad lleiaf ymwithiol neu niweidiol sy'n ymarferol yn dechnegol.**

Lle y byddai datblygiadau i'w gweld yn amlwg rhaid darparu tystiolaeth i ddangos bod lleoliadau amgen wedi'u hymchwilio a'u bod yn anymarferol. Bydd cynigion o'r fath yn cael eu harchwilio'n fanwl o ran lleoliad a dyluniad a byddant ond yn cael eu caniatáu lle nad ydynt yn achosi unrhyw effeithiau andwyol annerbyniol ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol.

Lle gellir dangos bod gan gynigion bwysigrwydd cenedlaethol, dylid cyflwyno astudiaethau dichonoldeb technegol ac ariannol gyda cheisiadau.

4.340 Bwriad y polisi yw arwain datblygiadau telathrebu at y lleoliad sy'n amharu leiaf, gan ystyried gofynion technegol pob cais unigol, gan gynnwys ei swyddogaeth o fewn y rhwydwaith. Fe fydd effaith unigol a chronnus y cynigion yn bwysig. Dylai'r system ddarpariaeth sydd wedi ei chynllunio gynnwys rhaglen strategol ar gyfer lleoli mastiau, gan ddangos sut mae'r cynnig yn ffitio i'r rhwydwaith. Er mwyn asesu'r cynnig o dan faen prawf b) bydd angen i ymgeiswyr ddangos hefyd eu bod wedi cynnal arfarniad o safleoedd ac opsiynau eraill, gan ystyried y posibilrwydd o rannu mastiau neu osod ar adeilad neu strwythur addas arall wrth roi cyfiawnhad ar gyfer y safle dewisol. Fe fydd yr Awdurdod yn disgwyl i'r wybodaeth ddangos yn glir, mewn telerau mesuradwy, pam nad yw lleoliadau neu opsiynau eraill yn ymarferol mewn perthynas â'r safle a ddewiswyd.

4.341 Mae effaith datblygiadau telathrebu ar amwynder yn ystyriaeth bwysig (gweler0).

- 4.342 Diffinnir nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol ym0. Mae posibilrwydd y gellid achosi effeithiau negyddol ar rywogaethau, (ee ystlumod), fodd bynnag ni ellir penderfynu ar yr effaith heb fod graddfa a lleoliad y datblygiad yn hysbys. Bydd ystyriaeth o'r effeithiau amgylcheddol yn cynnwys safleoedd dynodedig, fel safleoedd Natura 2000 a safleoedd heb eu dynodi.

5. Monitro

- 5.1 Bydd amcanion a pholisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu monitro trwy'r Adroddiad Monitro Blynnyddol.¹⁷⁷ Bydd yr adroddiadau hyn yn monitro'r cynnydd ar sail dangosyddion allweddol a targedau.¹⁷⁸ Bydd yr adroddiad yn adlewyrchu llwyddiant y Cynllun Datblygu Lleol ac yn dangos a lwyddir i gyrraedd y targedau. Mae'r dangosyddion a'r targedau hyn yn ychwanegol at y rhai sydd i'w defnyddio ym mhroses fonitro yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.
- 5.2 Yn yr Adroddiadau Monitro Blynnyddol, bydd y meysydd canlynol yn cael eu cynnwys:
- Prif ganfyddiadau ac argymhellion
 - Newid cyd-destunol arwyddocaol
 - Monitro polisi
- 5.3 Bydd y dadansoddiad yn cael ei grwpio o dan Dibenion a Dyletswydd cyffredinol y Parc Cenedlaethol (a'r strategaeth ofodol) ac yna'r chwe maes blaenoriaeth allweddol:
- Nodweddion arbennig
 - Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf
 - Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, llifogydd, ynni adnewyddadwy
 - Economi ymwelwyr, cyflogaeth a arallgyfeirio yng nghefn gwlad
 - Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai
 - Cyfleusterau cymunedol, manwerthu, trafnidiaeth
- 5.4 Yn gyntaf, bydd y deilliannau allweddol a ragwelir yn cael eu rhestru o dan bob maes blaenoriaeth, ac yna dadansoddir unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn. Nod y fframwaith monitro (a nodir isod) fydd asesu i ba raddau y mae'r polisïau'n cael eu gweithredu fel y'u bwriadwyd, ac a yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. Fel cymorth gweledol wrth fonitro pa mor effeithiol yw'r polisïau ac er mwyn rhoi trosolwg o berfformiad, caiff y dangosyddion allweddol a'r deilliannau eu nodi fel a ganlyn:

Mae'r targedau/amcanion yn cael eu cyflawni.	
Nid yw'r targedau wedi'u cyflawni neu mae'r perfformiad yn wael, ond nid oes pryderon ynghylch gweithredu polisi/amcanion.	

¹⁷⁷ Gweler6. Geirfa

¹⁷⁸ Gweler6. Geirfa



- 5.5 Mae sbardunau wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad polisi i sicrhau bod ymchwiliad manwl yn cael ei wneud o effeithiolrwydd y polisi pan gaiff y sbardun ei gyrraedd. Nodir unrhyw argymhellion ar gyfer adolygiad o'r polisïau neu'r Cynllun o ganlyniad i'r asesiad manwl yn yr Adroddiad Monitro Blynnyddol.
- 5.6 Bydd yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hefyd yn cynnwys dadansoddiad o effeithiolrwydd polisïau a'r Canllawiau Cynllunio Atodol wrth ymdrin ag Apeliadau. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynnyddol hefyd yn cynnwys adran ar fonitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd ac adran sy'n monitro cynnydd o ran dyraniadau safle penodol. Bydd unrhyw gamau sydd eu hangen i fynd i'r afael â phroblemau hefyd yn cael eu nodi.

Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol a'r Strategaeth Ofodol

Maes Polisi		Dangosydd 1.	Targed
Popeth		Cymeradwyaethau yn groes i'r argymhelliad.	0 cymeradwyaeth yn groes i'r argymhelliad.
Sbardun: 3% o geisiadau cynllunio wedi'u penderfynu'n groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn.¹⁷⁹ Rheswm: Canfod patrymau dros gyfnod yr Adroddiad Monitro Blynnyddol.			

Maes Polisi		Dangosydd 2.	Targed
Polisi 1		Dibenion a Dyletswydd y Parc Cenedlaethol: Datblygiadau sy'n sbarduno Egwyddor Sandford – os nad oes modd datrys gwrthdaro rhwng dau ddiben y Parc Cenedlaethol, rhaid i'r un gyntaf gael blaenoriaeth. Rhaid i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol mewn Parciau Cenedlaethol fod yn unol â'r dibenion i Bolisi 1 (dangosydd cyffredinol).	Targed - 0 cymeradwyaeth o fewn y Parc Cenedlaethol neu sy'n effeithio arno sy'n groes i Egwyddor Sandford neu sy'n arwain at wrthdaro rhwng y ddyletswydd a'r dibenion. (targed trosfwaol)
Sbardun: 0 cais wedi'i gymeradwyo yn groes i Egwyddor Sandford neu sy'n arwain at wrthdaro rhwng y ddyletswydd a'r dibenion mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Mae Egwyddor Sandford a'r angen i'r ddyletswydd fod yn unol â'r dibenion yn elfennau canolog yn ndibenion y Parc Cenedlaethol a Deddf Amgylchedd 1995.			

¹⁷⁹ Ceisiadau llawn, amlinellol neu faterion wrth gefn
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Cynllun Datblygu Lleol 2
Adnau + ► Newidiadau i'r Cylwyniad ◀ + ♣NMC♣

Maes Polisi		Dangosydd 3.	Targed
00000		0, 0, 0, 0, 0 – blaenoriaethu defnydd cymunedol.	0 cymeradwyaeth yn groes i bolisiâu.
Sbardun: Cymeradwyo 2 neu ragor o geisiadau cynllunio yn groes i bolisi mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Nid yw'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys llawer o safleoedd a ddefnyddir ar gyfer cyflogaeth neu gyfleusterau cymunedol ac mae'n rhaid i unrhyw golled i ddefnyddiau eraill barhau i gefnogi'r gymuned leol. Mae safleoedd o'r fath yn werthfawr i gymunedau unigol ac mae trothwy llym yn briodol.			

2A Nodweddion Arbennig

Maes Polisi		Dangosydd 4.	Targed
0		Nodweddion Arbennig: Cymeradwyaethau yn groes i Strategaeth Nodweddion Arbennig. Cymeradwyaethau yn groes i'r Argymhelliad.	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 ddatblygiad wedi'u caniatáu yn groes i unrhyw feini prawf mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Mae'r Nodweddion Arbennig yn ganolog i ddibenion y Parc Cenedlaethol a nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995.			

Maes Polisi		Dangosydd 5.	Targed
0		Y Gymraeg: Cynigion a gymeradwywyd yn groes i0	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 ddatblygiad neu ragor yn groes i0. Rheswm: Sicrhau bod y dull gweithredu yn gyson â chanllawiau cynllunio cenedlaethol.			

Maes Polisi		Dangosydd 6.	Targed
0		Tirwedd a Morwedd: Cynigion yn groes i0	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 ddatblygiad neu ragor yn groes i0 gyda'i Ganllawiau Cynllunio Atodol ategol. Rheswm: Gallai datblygiad o'r fath effeithio'n sylweddol ar Nodweddion Arbennig (Deddf Amgylchedd 1995) y Parc Cenedlaethol.			

Maes Polisi		Dangosydd 7.	Targed

0		Swm y maes glas a'r mannau agored a gollwyd i ddatblygiad (ha) nad yw wedi'i ddyrannu (at ddibenion eraill) yn y Cynllun.	Maes glas – 0% heblaw am dir a ryddhawyd yn unol â pholisïau'r Cynllun.
		Swm y Lletem Las a gollwyd	Mannau Agored a gollwyd – 0% ac eithrio, yn achos caeau chwarae, y gellir cadw a gwella'r cyfleusterau trwy ailddatblygu rhan fach o'r safle neu y gellir gwneud darpariaeth amgen o fudd cyfatebol neu os oes darpariaeth dros ben yn yr ardal.
			Lletem Las – 0% wedi'i golli

Sbardun: 1 neu ragor o ddatblygiadau wedi cael caniatâd yn groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn.

Rheswm: Dylid asesu'r swm cronnus o dir maes glas a gollwyd i sicrhau nad yw cyfleoedd ar gyfer datblygu tir llwyd yn cael eu hanwybyddu.

Mae colli mannau agored, oni bai bod cyfiawnhad dros hynny, yn tanseilio cynaliadwyedd cymunedau lleol.

Dylai awdurdodau cynllunio lleol roi pwys sylweddol ar unrhyw effaith niweidiol y byddai datblygiad yn ei chael ar letemau glas.

2B Datblygiadau mawr, y potensial ar gyfer twf

Maes Polisi		Dangosydd 8.	Targed
Datblygiadau mawr		Cymeradwyo cynigion sy'n sbarduno'r Prawf Datblygiad Mawr	0 cymeradwyaeth i ddatblygiad mawr oni bai fod amgylchiadau eithriadol wedi'u profi.
Sbardun: Cymeradwyo 1 datblygiad mawr lle na ddangosir unrhyw amgylchiadau eithriadol mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Sicrhau bod y dull gweithredu yn gyson â diben cyntaf prawf Parciau Cenedlaethol a Pholisi Cynllunio Cymru ar Ddatblygiadau Mawr.			

Maes Polisi		Dangosydd 9.	Targed
Mwynau		Ceisiadau am ddatblygiad mwynau	0 cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad mwynau newydd oni bai fod amgylchiadau eithriadol wedi'u profi.
Sbardun: Caniatáu 1 safle mwynau newydd neu estynedig pan na chaiff amgylchiadau eithriadol eu dangos mewn unrhyw flwyddyn. Ni fyddai'r sbardun yn cynnwys pyllau benthyg. Rheswm: Byddai hyn yn cael effaith fawr ar y strategaeth mwynau.			

Maes Polisi		Dangosydd 10.	Targed
0,0		Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Cymeradwyaethau yn groes i'r egwyddor o gyfleusterau rheoli gwastraff lleol sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol yn bennaf.	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 ddatblygiad neu ragor yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: Sicrhau bod y dull gweithredu yn gyson â chanllawiau cynllunio cenedlaethol trwy wrthsefyll cyfleusterau rheoli gwastraff amhriodol neu anaddas o fewn y Parc Cenedlaethol.			

2C Y newid yn yr hinsawdd, dylunio cynaliadwy, ynni adnewyddadwy, llifogydd

Maes Polisi		Dangosydd 11.	Targed
0		Cymeradwyaethau Dylunio Cynaliadwy yn groes i Strategaeth0 'Dylunio Cynaliadwy' ar sail meini prawf c), e), g), h) neu i).	0 cymeradwyaeth.
Sbardun: 3 neu ragor o benderfyniadau yn groes i0 c), e), g), h) neu i). Rheswm: Monitro cyfraniad y Cynllun at ddylunio cynaliadwy ym mhob datblygiad.			

Maes Polisi		Dangosydd 12.	Targed
0		Ynni Adnewyddadwy. Capasiti'r cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir ac a gaiff eu cwblhau.	Caniatâd cynllunio i gyfrannu at Darged Gwres Adnewyddadwy cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 9.8 GWh. Mae'r targed hwn yn uchelgeisiol, yn dibynnu ar ystod o ffactorau yn y dyfodol megis newidiadau i bolisi'r llywodraeth, cyfleoedd / cyfyngiadau ariannu, yn ogystal â ffactorau allanol eraill.

Maes Polisi		Dangosydd 13.	Targed
0		Ynni Adnewyddadwy. Capasiti'r cynlluniau ynni adnewyddadwy a ganiateir ac a gaiff eu cwblhau.	Pob caniatâd cynllunio i gyfrannu at Darged Trydan Adnewyddadwy cyffredinol ar gyfer y Parc Cenedlaethol o 38.9GWh. Mae'r targed hwn yn uchelgeisiol, yn dibynnu ar ystod o ffactorau yn y dyfodol megis newidiadau i'r bolisi'r llywodraeth, cyfleoedd/cyfyngiadau ariannu, yn ogystal â ffactorau allanol eraill.

Maes Polisi		Dangosydd 14.	Targed
0		Ynni Adnewyddadwy 0a Chanllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy ac Effaith Cronnus Tyrbinau Gwynt ar Dirwedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol Amwynder Gweledol	Mae'r holl benderfyniadau yn gyson â Pholisi Ynni Adnewyddadwy'r Awdurdod fel y'i cefnogir gan Ganllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy ac Effaith Cronnus Tyrbinau Gwynt ar Dirwedd a Chanllawiau Cynllunio Atodol Amwynder Gweledol
Sbardun: 3 neu ragor o benderfyniadau yn groes i0 Ynni Adnewyddadwy ar y cyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ei ategu. Rheswm: Er bod y cyfraniad a wneir gan ynni adnewyddadwy yn bwysig, mae'n anodd monitro (gweler uchod). Mesur mwy ystyrlon yw pa mor effeithiol yw0 Ynni Adnewyddadwy a'r canllawiau atodol. Dylai penderfynu ar geisiadau yn groes i'r Polisi fel y'i cefnogir gan y Canllawiau Cynllunio Atodol sbarduno adolygiad.			

Maes Polisi		Dangosydd 15.	Targed
0		Llifogydd: Swm y datblygiad (yn ôl categori datblygu paragraff 5.1 TAN 15) a ganiateir yn ardaloedd gorlifdir C1 a C2 nad ydynt yn bodloni holl brofion TAN 15 (paragraff 6.2 i-v)	Ni chaniateir datblygiad lle byddai'r senario hirdymor (yn y 100 mlynedd nesaf) yn methu'r profion a nodir.
Sbardun: 1 datblygiad yn cael ei ganiatáu yn groes i0. Rheswm: Gall fod canlyniadau difrifol i ddatblygiad amhriodol. Mae hwn yn ddangosydd Llywodraeth Cymru.			

2D Economi ymwelwyr, cyflogaeth ac arallgyfeirio yng nghefn gwlad

Maes Polisi		Dangosydd 16.	Targed
0		Gweithgareddau hamdden: Cynigion ar gyfer gweithgareddau hamdden yn groes i0.	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 neu ragor o ddatblygiadau gweithgaredd hamdden yn groes i0 ar y cyd â'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Gweithgareddau Hamdden. Rheswm: Gallai datblygiad o'r fath effeithio'n sylweddol ar y nodweddion arbennig (Deddf Amgylchedd 1995).			

Maes Polisi		Dangosydd 17.	Targed
0		Llety Gwesty	Cynnal ac eithrio lle profwyd fod gwestai wedi'u colli.
Sbardun: 1 neu ragor o ddatblygiadau yn groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn ariannol. Rheswm: Effaith newidiadau o'r fath ar ddibenion y Parc Cenedlaethol. Mae angen cynnal y ddarpariaeth bresennol oni bai fod cyfiawnhad am y golled.			

Maes Polisi		Dangosydd 18.	Targed
0		Datblygiad Hunan-Arlwyo: Blaenoriaethu tai fforddiadwy dros hunanarlwyo.	Targed – 0 cymeradwyaeth yn groes i bolisiâu sy'n blaenoriaethu rhai defnyddiau sydd yn cynnal cymunedau yn y Cynllun.
Sbardun: Cymeradwyo 2 neu ragor o geisiadau yn groes i0 mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Mae'r polisi hwn yn darparu cyfle annisgwyl ar gyfer tai fforddiadwy a chan mai ychydig o dir sydd ar gael ar gyfer datblygu mae angen craffu ar y polisi ar y dechrau'n deg.			
Maes Polisi		Dangosydd 19.	Targed

0		Carafannau a Gwersylla Cynigion yn groes i0.	0 cymeradwyaeth
Sbardun: 2 ddatblygiad neu ragor yn groes i Bolisi 42 gyda'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ei ategu. Rheswm: Gallai datblygiad o'r fath effeithio'n sylweddol ar Nodweddion Arbennig (Deddf Amgylchedd 1995) y Parc Cenedlaethol.			

Maes Polisi		Dangosydd 20.	Targed
0Cyflogaeth		Cynigion ar gyfer cyflogaeth	Mae penderfyniadau'r Awdurdod yn gyson â'r polisi 0 cymeradwyaeth
Sbardun: Cymeradwyo 1 neu ragor o geisiadau yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: Dadansoddi effeithiolrwydd y polisi.			

Maes Polisi		Dangosydd 21.	Targed
0		Colli safleoedd cyflogaeth	0 cymeradwyaeth sy'n arwain at golli safleoedd cyflogaeth ac eithrio lle y gellir ei gyfiawnhau o fewn telerau'r polisi.
Sbardun: Colli dau safle cyflogaeth neu ragor neu 500 metr sgwâr yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: Gall safleoedd cyflogaeth bach wneud cyfraniad pwysig i gymunedau cynaliadwy.			

2E Tai fforddiadwy a'r twf o ran tai

Maes Polisi		Dangosydd 22.	Targed
Tai		Y cyflenwad o dir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai (TAN1)	Cyflenwad o 5 mlynedd o leiaf ar gael.
Sbardun: Llai na chyflenwad o 5 mlynedd mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Mae'n bwysig darparu'r strategaeth tai fforddiadwy.			

Maes Polisi		Dangosydd 23.	Targed
♣0♣ Error! Reference source not found., 0. ♣Polisi Newydd Saffleoedd Eithriedig Tai Ffroddiadwy♣		Nifer yr anheddau net marchnad ychwanegol fforddiadwy ♣a chyffredinol♣ a adeiladwyd (TAN 2).	♣710♣960♣ o anheddau marchnad cyffredinol i'w hadeiladu dros gyfnod y Cynllun i gefnogi'r ddarpariaeth o 250♣ ♣362♣ o dai fforddiadwy i'w hadeiladu dros gyfnod y Cynllun.
Sbardun: Cwblhawyd 10% yn llai o dai na'r targed a ddisgwyli'r erbyn cyfnod adolygu'r Cynllun yn ffurfiol. ► (gweler ♣y Papur Cefndir Tai Atodiad 2-a ♣3♣) ◀ Ymchwilio i weld pam, ac, yn dibynnu ar y canfyddiadau, ystyried a oes angen cymryd camau i gynyddu'r cyflenwad. Cwblhawyd 25% yn llai o dai na'r targedau – penderfynu ar gamau i gynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy, gan gynnwys ystyried dyraniadau ychwanegol ar gyfer tai. Rheswm: Mae darparu tai fforddiadwy yn un o ddeilliannau allweddol y Cynllun. Er mwyn sicrhau tir a all ddarparu tai fforddiadwy, byddai asesiad yn briodol ar hyn o bryd.			

		<u>Dangosydd Newydd</u>	<u>Targed</u>
0 <u>Error! Reference source not found.</u> <u>Polisi Newydd Cynigion Datblygu Tai</u>		<u>Nifer yr anheddau'r farchnad gyffredinol ychwanegol net a adeiladwyd.</u>	<u>Adeiladu 960 o anheddau'r farchnad gyffredinol dros gyfnod y Cynllun ar gyfradd gyfartalog o 62 annedd y flwyddyn dros gyfnod y Cynllun (fel y nodir yn y Trywydd Tai) er enghraifft:</u>
			<u>221 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2019</u> <u>283 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2020</u> <u>345 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2021</u> <u>407 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2022</u> <u>469 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2023</u> <u>531 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2024</u> <u>593 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2025</u> <u>655 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2026</u> <u>717 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2027</u> <u>779 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2028</u> <u>841 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2029</u> <u>903 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2030</u> <u>965 wedi'u cwblhau erbyn Ebrill 2031</u>
<u>Sbardun:</u> Y nifer a gwblhawyd yn 10% yn is na'r targed a ddisgwyliwyd erbyn cyfnod adolygu'r Cynllun yn ffurfiol (gweler Atodiad 3). Ymgymryd ag ymchwil i ganfod beth yw'r rhesymau ac yn dibynnu ar y canfyddiadau, ystyried a oes angen cymryd camau i gynyddu'r nifer. Y nifer a gwblhawyd yn 25% yn is na'r targedau – penderfynu ar gamau gweithredu i gynyddu'r cyflenwad o dai i gyflawni tai fforddiadwy, gan gynnwys ystyried dyraniadau tai ychwanegol ac adolygu ffiniau Canolfan. <u>Rheswm:</u> Mae cyflawni tai'r farchnad gyffredinol i hwyluso cyflawni tai fforddiadwy yn ganlyniad allweddol y Cynllun. Mae rhoi cyfle i dir all gyflawni tai fforddiadwy ddod ymlaen yn golygu y byddai asesiad ar hyn o bryd yn briodol. 			

Maes Polisi		Dangosydd 24.	Targed
Polisi 49		Prisiau Tai, Costau adeiladu, Rhenti fforddiadwy	Mae'r targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar gyfer pob ardal tai marchnad leol yn cael eu cynnal.
Bydd y dangosyddion allweddol canlynol yn cael eu monitro: a) Prisiau tai – data sy'n cynnwys eiddo ail law yn ogystal ag eiddo newydd ac sy'n darparu dangosydd cadarn o dueddiadau prisiau. b) Costau adeiladu – costau adeiladu meincnod Sir Benfro a mynegai BCIS perthnasol; ac, c) Rhenti fforddiadwy – Data Lwfans Tai Lleol. Sbardun: Bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes newid o 10% (mwy neu lai) mewn unrhyw ddangosydd dros gyfnod o 12 mis neu: a) Os oes newid o fwy neu lai o rhwng 5% a 9% mewn unrhyw ddau ddangosydd dros gyfnod o 12 mis; neu, b) Os oes llai na 10% o newid yn y dangosydd(ion) ond bod y newid yn parhau neu os yw tystiolaeth yn dangos bod newid parhaus wedi digwydd mewn costau datblygu eraill ee costau cyllid, yr elw sydd ei angen gan y datblygwr. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn a'i gyhoeddi yn yr Adroddiad Monitro Blyneddol ar wefan yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn ystyried a oes angen newidiadau ac a fyddai hyn yn hawlio adolygiad penodol cyn yr adolygiad ffurfiol ar ôl 4 blynedd. Bydd dadansoddiad yn cael ei gynnal ar gyfer pob Adroddiad Monitro Blyneddol. Rheswm: Mae darparu tai fforddiadwy yn un o ddeilliannau allweddol y Cynllun ond mae'n rhaid ystyried yr amgylchiadau economaidd.			

Maes Polisi		Dangosydd 25.	Targed
0		Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a Siewmyn: Cynigion ar gyfer safleoedd yn groes i argymhelliad Swyddog.	Mae penderfyniadau'r Awdurdod yn gyson â'r polisi.
Sbardun: Cymeradwyo 1 neu ragor o geisiadau yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: I ddadansoddi effeithiolrwydd y Polisi.			

Maes Polisi		Dangosydd 26.	Targed
0		Dwysedd cyfartalog datblygiad tai a	Targed o 30 yr hectar wedi'u cwblhau yng

		ganiateir mewn Canolfannau.	Nghanolfannau'r Cynllun.
Sbardun: 2 neu ragor o ddatblygiadau tai heb gyrraedd 30 o anheddau'r hectar oni bai fod dwysedd arall yn cael ei gyfiawnhau o dan0. Rheswm: Gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael.			

Maes Polisi		Dangosydd 27.	Targed
0		Cymysgedd o fathau o dai i greu cymunedau cytbwys.	Mae penderfyniadau'r Awdurdod yn gyson â'r polisi.
Sbardun: 2 neu ragor o ddatblygiadau tai wedi'u cymeradwyo yn groes i baragraff olaf 0. Rheswm: I gyflawni'r amcan o sicrhau cymunedau cymysg a chynaliadwy cytbwys.			



Maes Polisi		Dangosydd Newydd	Targed
Polisi 2 i Bolisi 7		Dosbarthiad gofodol datblygaid tai	Mae 90% o'r tai a gwblhawyd wedi'u canolbwyntio yng Nghanolfannau'r Cynllun.
Sbardun: Mae 20% o'r tai a gwblhawyd yng nghefn gwlad erbyn cyfnod adolygu'r Cynllun yn ffurfiol. Ymgymryd ag ymchwil i ganfod beth yw'r rhesymau ac yn dibynnu ar y canfyddiadau, ystyried a oes angen cymryd camau i'r strategaeth ofodol. Rheswm: I fonitro nifer y tai sy'n cael eu cwblhau bob blwyddyn yn unol â'r strategaeth twf a'r hierarchaeth aneddiadau.			

Maes Polisi		Dangosydd Newydd	Targed
Polisi Newydd Cymysgedd Tai		Deiliadaeth y tai fforddiadwy a gwblhawyd.	Mae 80% o'r tai fforddiadwy a ganiateir yn eiddo rhent fforddiadwy.

Sbardun: Mae adolygiad blynyddol o bob caniatâd cynllunio a roddwyd yn y flwyddyn honno yn dangos bod yr elfen tai fforddiadwy yn cynnwys llai na 75% o eiddo rhent fforddiadwy. Ymgymryd ag ymchwil i ganfod y rhesymau ac yn dibynnu ar y canfyddiadau, ystyried a oes angen cymryd camau i gynyddu'r cyflenwad.

Rheswm: Mae unedau rhent fforddiadwy yn cyfrif am dros 83% o'r angen a glustnodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, gyda'r gweddill yn dangos angen am Berchnogaeth Cartref Cost Isel (neu gynllun tebyg).



2F Cyfleusterau Cymunedol, Manwerthu a Thrafnidiaeth

Maes Polisi		Dangosydd 28.	Targed
0		Cyfleusterau Cymunedol a Gofynion o ran Seilwaith	Mae penderfyniadau'r Awdurdod yn gyson â'r polisi.
Sbardun: 1 neu ragor o geisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo yn groes i0 mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: Os collir unrhyw gyfleuster cymunedol nad yw wedi'i gyfiawnhau fel sy'n ofynnol gan0 mae angen ymchwilio iddo. Mae cyfleusterau yn werthfawr i gymunedau unigol ac mae trothwy llym yn briodol.			

Maes Polisi		Dangosydd 29.	Targed
0		Nifer yr Ymrwymadau Cynllunio ar gyfer cyfleusterau cymunedol a sicrhawyd o ddatblygiad (neu gyfraniadau ariannol).	Cytundebau adran 106 wedi'u sicrhau yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol
Sbardun: 2 gais wedi'u penderfynu yn groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn. Rheswm: I sicrhau gwelliant yn y ddarpariaeth cyfleusterau cymunedol lle mae'r gofyniad yn deillio o'r datblygiad.			

Maes Polisi		Dangosydd 30.	Targed
0, 0		Hierarchaeth Manwerthu	Mae penderfyniadau'r Awdurdod yn gyson â'r polisi.
Sbardun: 1 neu ragor o ddatblygiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r argymhelliad mewn unrhyw flwyddyn ar gyfer naill ai0 neu0. Rheswm: Amcan y polisiâu hyn yw sicrhau bod Canolfannau'r Cynllun yn parhau i fod yn lleoedd deniadol i fyw ynddynt ac i ymweld â hwy a darparu rôl werthfawr o ran diwallu anghenion cymunedau lleol ac ymwelwyr.			

Maes Polisi		Dangosydd 31.	Targed
0		Canran yr arwynebedd llawr gwag ym maes manwerthu.	Dim mwy na 10%.
Sbardun: Mwy na 10% o arwynebedd llawr dosbarth defnydd A yn wag mewn canolfannau manwerthu am 2 flynedd yn olynol. Rheswm: Mae lleoedd gwag mewn canolfannau'n amrywio'n naturiol ac yn caniatáu ar gyfer mentrau newydd. Dylai lefel gymharol uchel a chyson o leoedd gwag yng nghanolfannau'r Parc Cenedlaethol gael ei asesu ymhellach.			

Maes Polisi		Dangosydd 32.	Targed
0		Trafnidiaeth: Cymeradwyaeth ar gyfer datblygiad sy'n achosi pryderon sylweddol o ran yr effeithiau posibl ar drafnidiaeth.	0
Sbardun: 1 neu ragor o geisiadau wedi'u cymeradwyo yn groes i'r argymhelliad. Rheswm: Bydd pryderon sylweddol yn effeithio ar gymunedau a bydd angen eu hasesu ymhellach.			

Canllawiau Cynllunio Atodol

Maes Polisi		Dangosydd 33.	Targed
Canllawiau Cynllunio Atodol		Mabwysiadu'r Prif Ganllawiau Cynllunio Atodol o fewn blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.	0
Sbardun: Ni chaiff 1 neu ragor o ddogfennau canllaw eu mabwysiadu cyn pen blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Rheswm: Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol a restrir yn allweddol i gyflawni polisiâu strategol y Cynllun.			
Y Prif Ganllawiau Cynllunio Atodol		Papur Cefndir neu Ganllawiau Cynllun Datblygu Lleol 1	
Hygyrchedd		Canllawiau Cynllunio Atodol Hygyrchedd wedi'u mabwysiadu Mehefin 2013	
Cymeriad Tirwedd		Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Tirwedd wedi'u mabwysiadu Mehefin 2011	
Cymeriad Morwedd		Canllawiau Cynllunio Atodol Cymeriad Morwedd wedi'u mabwysiadu Rhagfyr 2013	
Ynni Adnewyddadwy		Canllawiau Cynllunio Atodol Ynni Adnewyddadwy wedi'u mabwysiadu Ebrill 2014	
Carafannau, Gwersylla a Chabanau ¹⁸⁰		Asesiad o Gapasiti'r Dirwedd ar gyfer Carafannau, Gwersylla a Chabanau	
Tai Fforddiadwy (rhagwelir canllawiau ar y cyd â Chyngor Sir Penfro)		Canllawiau Cynllunio Atodol Tai Fforddiadwy wedi'u mabwysiadu Tachwedd 2014	
Rhwymedigaethau Cynllunio (rhagwelir canllawiau ar y cyd â Chyngor Sir Penfro)		Canllawiau Cynllunio Atodol Rhwymedigaethau Cynllunio wedi'u mabwysiadu Medi 2016	

¹⁸⁰ Gweler y troednodyn i0 Datblygu Meysydd Carafannau, Gwersylla a Chabanau ar gyfer mathau o ddatblygiad

6. Geirfa

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
Adroddiad Monitro Blynnyddol	Bydd hyn yn asesu i ba raddau y mae polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.
Amgylchedd Hanesyddol	Mae amgylchedd hanesyddol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cwmpasu'r holl ddeunyddiau hynny y mae ein hynafiaid wedi eu creu ar dir ac arfordir. Mae'n amrywio o dirweddau, parciau a gerddi hanesyddol, patrymau caeau unigryw a thramffyrdd i aneddiadau hanesyddol, adeiladau traddodiadol, henebion a safleoedd archaeolegol claddedig. Mae'n ein hatgoffa'n gyson o fenter ddynol y gorffennol, mae'n ffynhonnell o fwynhad a dysgu ac mae'n cyfuno ag amgylchedd naturiol a chynefinoedd y Parc Cenedlaethol i roi ymdeimlad unigryw o le,ysbrydoliaeth ddyddiol ac ased pwysig i'r dyfodol.
Ardal Cadwraeth Arbennig	Wedi'i dynodi o dan y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Warchod Cynefinoedd Naturiol a Blodau ac Anifeiliaid Gwyllt ar gyfer gwarchod safleoedd o bwysigrwydd cadwraeth rhyngwladol.
Ardal Gwarchodaeth Arbennig	Wedi'i dynodi o dan y Gyfarwydddeb Ewropeaidd ar Warchod Adar Gwyllt ar gyfer diogelu adar gwyllt a'u cynefinoedd.
Arfarniad o Gynaliadwyedd	Mae Arfarniad o Gynaliadwyedd yn arfarniad o effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol cynllun o ddechrau'r broses baratoi er mwyn gallu gwneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â datblygu cynaliadwy.
Asesiad Amgylcheddol Strategol	Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni.
Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd	Yn cynghori ar sensitifrwydd ardaloedd tirwedd i wahanol raddfeydd datblygu.
Asesiadau Trafnidiaeth	Mae'r rhain yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol i asesu addasrwydd cais yn nhermau'r galw a'r effaith ar deithio. Dylai'r asesiad osod amcanion a thargedau sy'n ymwneud â rheoli'r galw am deithio ar gyfer y datblygiad ac yn nodi'r seilwaith, y mesurau rheoli galw a'r cyfraniadau ariannol sydd eu hangen i'w cyflawni. (Gweler Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007) am ragor o wybodaeth.)
BREEAM	Mae teulu BREEAM o ddulliau ac offer asesu wedi'u cynllunio i helpu gweithwyr adeiladu ddeall a lliniaru effeithiau amgylcheddol y datblygiadau y maent yn eu dylunio a'u hadeiladu.
Cadernid	Cysyniad sy'n cynnwys gweithdrefn, cysondeb, cydlynid ac effeithiolrwydd a gaiff ei ddefnyddio gan Arolygydd Cynllunio annibynnol i archwilio cynllun

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
	datblygu lleol.
Canllawiau Cynllunio Atodol	Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisiau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r Cynllun Datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol ond mae'n rhaid iddynt fod yn gyson â'r Cynllun ac â'r polisi cenedlaethol.
Canolfan	Yn golygu naill ai 'Canolfan Wasanaeth a Thwristiaeth Leol' neu 'Ganolfan Leol' neu 'Ganolfan Wledig'.
Capasiti'r Dirwedd	Caiff gallu tirwedd y Parc Cenedlaethol i ymdopi â datblygiadau yng nghyfnod y Cynllun hwn ei brofi gan ddefnyddio'r fethodoleg yn y Papur Cefndir 'Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol'.
Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol	Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a baratowyd yn dilyn galwad am safleoedd ymgeisiol gan yr awdurdod cynllunio lleol.
Cyfeiriad (Tai)	Ar gyfer tai marchnad a fforddiadwy mae'r cyfeiriad yn dangos y gyfradd ddisgwyliedig o ddarparu tai.
Cyfleusterau Cymunedol	Mae cyfleusterau cymunedol yn darparu ar gyfer anghenion iechyd, lles, cymdeithasol, addysgol, ysbrydol, hamdden a diwylliannol y gymuned. Fel arfer, mae cyfleusterau yn cael eu lleoli mewn pentref neu dref a ddefnyddir yn rheolaidd gan y gymuned leol. Gall y rhain gynnwys siopau cyfleustra, tafarndai, sinemâu, gorsafoedd petrol, ardaloedd chwarae ffurfiol, meysydd chwarae, meddygfeydd, ysgolion, neuaddau pentref/cymuned, cartrefi nyrsio, eglwysi, rhandiroedd, ac ati.
Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	Cyfleusterau ar gyfer storio, didoli, trin a gwaredu gwastraff. Maen nhw'n cynnwys, er enghraifft, Canolfannau Ailgylchu Domestig, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff, safleoedd claddu sbwriel, cyfleusterau compostio a dulliau amrywiol o adfer ynni.
Cyfleustodau	Gwasanaethau a ddarperir megis cyflenwad dŵr, carthffosiaeth, nwy a thrydan.
Cynllun Adnau	Cam ffurfiol lle gall sefydliadau ac unigolion wneud sylwadau ar y polisiau a'r cynigion manwl.
Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)	Y cynllun datblygu statudol sy'n ofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o dan Ran 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'n rhaid i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol nodi eu hamcanion mewn perthynas â datblygu a defnyddio tir yn eu hardal a nodi'r polisiau cyffredinol ar gyfer gweithredu'r amcanion hynny o fewn eu Cynlluniau Datblygu Lleol. Yn ogystal â rhoi sylw i bolisi cynllunio cenedlaethol, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio lleol ystyried polisi cynllunio rhanbarthol a strategaeth gymunedol yr awdurdod a'r ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n ymwneud â'r ardal leol a'r amgylchedd byd-eang, trwy ymgymryd ag

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
	arfarniad o gynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol.
Cynllun Gofodol Cymru	Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n gosod fframwaith strategol i arwain datblygiadau ac ymyriadau polisi yn y dyfodol, ni waeth a ydynt yn gysylltiedig â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol ai peidio. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru.
Cynllun Integredig Sengl	Yn cyflawni dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol; yn cael ei lunio gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Gweler "Cynlluniau Llesiant Lleol" sydd i gymryd lle'r Cynlluniau Integredig Sengl.
Cynlluniau Llesiant Lleol	O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sefydlir Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol. Y bwriad yw y bydd pob un yn paratoi Cynllun Llesiant erbyn Ebrill 2018 (adran 39).
Cytundeb Cyflawni	Dogfen sy'n cynnwys amserlen yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Ymglymiad Cymunedol, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i gytuno arni.
Dangosydd	Mae dangosydd yn rhywbeth sy'n eich helpu i ddeall ble rydych chi, pa ffordd rydych chi'n mynd a pha mor bell yr ydych o ble rydych chi am fod. Mae dangosydd da yn eich rhybuddio am broblem cyn iddi fynd yn rhy ddrwg ac mae'n eich helpu i gydnabod beth sydd angen ei wneud i ddatrys y broblem.
Datblygu cynaliadwy	Mae "datblygu cynaliadwy" yn golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Mae gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn golygu bod yn rhaid i gorff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
Datganiad o Dir Cyffredin	Pwrpas Datganiad o Dir Cyffredin yw sefydlu'r prif feysydd cytundeb rhwng dau neu ragor o bartïon ar fater penodol.
Diwrnod gwaith	Yn ymwneud â diwrnod gwaith arferol neu'n addas ar gyfer diwrnodau gwaith arferol.
Dyraniad	Tir y bwriedir ei ddatblygu, neu gyfyngu arno, a fydd yn cael ei nodi mewn Map Cynigion yn y fersiwn wedi'i adneuo a'r fersiwn mabwysiedig o'r Cynllun Datblygu Lleol.

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
Effaith andwyol annerbyniol	Effaith niweidiol annerbyniol na ellir ei lliniaru'n foddhaol.
Fesul achos	Ystyried neu ymdrin â phob achos ar wahân, gan gymryd i ystyriaeth ei amgylchiadau a'i nodweddion unigol.
Gallu i gyflawni	Lle mae disgwyl i safle gael ei ddatblygu'n realistig yn ystod cyfnod y Cynllun. Mae'n bwysig gallu dangos nad oes unrhyw rwystrau sylfaenol i ddatblygiad y safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun ac i allu nodi'r amserlenni ar gyfer goresgyn cyfyngiadau.
Gorchymyn Dosbarth Defnydd	Dosbarth A1 Siopau o bob math gan gynnwys archsiopau a warysau manwerthu; mae hefyd yn cynnwys trin gwallt, bariau brechdanau (heblaw'r rhai sy'n gwerthu bwyd poeth), asiantau teithio, golchdai, sychlanhawyr, ystafelloedd arddangos, ac eithrio ystafelloedd arddangos ceir.
	Dosbarth A2 Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol i'r cyhoedd, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, asiantau tai, siopau betio.
	Dosbarth A3 Bwyd a Diod gan gynnwys bwytai, tafarndai, bariau gwin, a siopau cludfwyd
	Dosbarth B1 Dosbarth Busnes gan gynnwys swyddfeydd (heblaw'r rhai sy'n rhan o Ddosbarth A2), ymchwil a datblygu, a phrosesau diwydiannol, ar yr amod y gellid gwneud y defnydd mewn unrhyw ardal breswyl heb niweidio amwynderau gan sŵn, dirgryniad, aroglau, mygdarth, mwg, parddu, lludw, llwch neu raeau.
	Dosbarth B2 Diwydiannol Cyffredinol prosesau heblaw rhai sy'n rhan o Ddosbarth B1.
	Dosbarth B8 Warysau Storio a Dosbarthu gan gynnwys cyfanwerthwyr <i>cash and carry</i> .
	Dosbarth C1 Gwestai
	Dosbarth C2 Sefydliadau Preswyl gan gynnwys ysbytai, cartrefi nyrsio, ysgolion preswyl a cholegau.
	Dosbarth C2A Sefydliad Preswyl Diogel Defnydd ar gyfer darparu llety preswyl diogel, gan gynnwys carchardai, sefydliadau troseddwr ifanc, canolfannau cadw, canolfannau hyfforddi diogel, dalfeydd, dalfa dymor byr, ysbyty diogel, llety diogel yr awdurdod lleol neu farics milwrol.
	Dosbarth C4 Tai amlfeddiannaeth Defnyddio tŷ annedd gan ddim mwy na chwech o drigolion fel tŷ amlfeddiannaeth. Yn fras, mae'r defnydd hwn yn digwydd lle mae 3 i 6 o bobl nad ydynt yn perthyn yn byw mewn llety i denantiaid fel eu hunig breswylfa neu eu prif breswylfa, ac yn rhannu un neu

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
	ragor o amwynderau sylfaenol.
	Dosbarth D1 Sefydliadau Di-breswyl gan gynnwys adeiladau crefyddol, neuaddau cyhoeddus, amgueddfeydd, gwasanaethau meddygol.
	Dosbarth D2 Cynulliad a Hamdden gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, casinos a chwaraeon dan do.
	Sui Generis Mae yna lawer o fathau o ddefnydd sydd ddim yn dod o fewn unrhyw Ddosbarth Defnydd ac, o ganlyniad, maen nhw'n cael eu disgrifio fel <i>Sui generis</i> – dosbarth ar eu pen eu hun. Er enghraifft, mae theatrau, canolfannau hapchwarae, arddangoslefydd ceir, gorsafoedd petrol a swyddfeydd hurio ceir ymhlith defnyddiau sydd wedi eu heithrio'n benodol o unrhyw un o'r Dosbarthau a ddiffiniwyd.
Gwarchod	Cadw rhag niwed, pydredd neu golled.
Gweithredu	Gweithredu yw cyflawni, gweithredu neu arfer cynllun, dull, neu unrhyw ddyluniad ar gyfer gwneud rhywbeth. O'r herwydd, gweithredu yw'r camau y mae'n rhaid ei wneud yn sgil ystyriaethau rhagarweiniol er mwyn i rywbeth ddigwydd.
Gwella	I wella, cynyddu neu ddwysáu.
Hap-safleoedd	Defnyddir y term 'hap-safleoedd' i gyfeirio at y safleoedd hynny a ystyrir yn briodol i'w datblygu ond nad ydynt wedi eu dynodi'n benodol ar y Map Cynigion.
Hierarchaeth Manwerthu	Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau datblygu sefydlu hierarchaeth manwerthu leol sy'n nodi natur a math y canolfannau manwerthu a masnachol a'r rôl strategol y maent yn ei chyflawni.
Hygyrchedd	Y graddau y mae eiddo, cymdogaeth neu gyfleuster yn hawdd ei gael a'i ddefnyddio gan gymaint o bobl â phosibl, gan gynnwys unigolion ag anableddau.
Lonydd Glas	Mae Lonydd Glas Sir Benfro yn fenter bartneriaeth i hyrwyddo mynediad a mwynhad i bawb trwy deithio ar fysiau a thrên, cerdded, beicio a marchogaeth yn hytrach na thrwy ddefnyddio cerbydau preifat. Mae'n cynnwys cyrff cyhoeddus a chymunedol sy'n ymwneud â hyrwyddo a darparu teithio cynaliadwy yn Sir Benfro ac mae'n cynnwys Awdurdod y Parc Cenedlaethol, Cyngor Sir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Twristiaeth Sir Benfro, Grŵp Mynediad Sir Benfro a Sustrans.
Lliniaru	Mesurau sy'n osgoi, lleihau, adfer neu wneud iawn am effeithiau negyddol.
Mabwysiadwyd	Cadarnhad terfynol o Gynllun neu Ganllawiau Cynllunio Strategol neu Strategaeth.
Parth Cadwraeth	Ardal o bwysigrwydd cenedlaethol neu ryngwladol er

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
Morol	mwyn gwarchod cynefinoedd morol a bywyd gwyllt arbennig a nodweddion eraill ar hyd y blaendraeth a gwely'r môr.
Rhanddeiliaid	Buddiannau yr effeithir yn uniongyrchol arnynt gan y Cynllun Datblygu Lleol – cyfranogiad yn gyffredinol trwy gyrff cynrychiadol.
Rhyngweledol	Yn weladwy yn llwyr. Pob un yng ngolwg y llall.
Safle/Tir Maes Llwyd (Tir a ddatblygwyd yn flaenorol)	Gweler Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 9(2016) <u>Figur 4.4 10 (2018), dechrau paragraff 3.51</u>
Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)	Dynodiad cadwraeth sy'n dynodi ardal warchodedig yn y Deyrnas Unedig. SoDdGA yw 'maen adeiladu' sylfaenol y ddeddfwriaeth cadwraeth natur, ac mae'r rhan fwyaf o ddynodiadau cadwraeth natur/daearegol cyfreithiol eraill yn seiliedig arnynt, gan gynnwys Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd Ramsar, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.
Safleoedd eithriadau tai fforddiadwy	Safleoedd bach ar gyfer tai yw'r rhain mewn Canolfannau, neu gerllaw, ar gyfer darparu tai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol. Dylai'r tai fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd eithriadau ddiwallu anghenion pobl leol am byth. Rhaid i'r safleoedd fodloni'r holl meini prawf eraill a ddefnyddir i benderfynu ar ddatblygiad tai. Nid yw safleoedd eithriadau ar gyfer tai fforddiadwy yn addas ar gyfer tai'r farchnad.
Safleoedd Maes Glas	Mae'r rhain yn safleoedd nad ydynt erioed wedi cael eu datblygu neu eu defnyddio'n flaenorol ar gyfer defnydd trefol, neu sydd ar dir a ddygwyd i ddefnydd gweithredol neu fuddiol ar gyfer amaethyddiaeth neu goedwigaeth hynny yw tir adfeiliedig wedi'i adfer yn llawn.
Safleoedd Natura 2000	Rhwydwaith Ewropeaidd o safleoedd a ddiogelir yw Natura 2000 sy'n cynrychioli ardaloedd o'r gwerth mwyaf ar gyfer cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid sy'n brin, sydd mewn perygl neu'n agored i niwed yn y Gymuned Ewropeaidd. Mae rhwydwaith Natura 2000 yn cynnwys dwy fath o ardal. Gellir dynodi ardaloedd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig lle maent yn cefnogi cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o blanhigion neu anifeiliaid (ac eithrio adar) prin, mewn perygl neu agored i niwed. Lle mae ardaloedd yn cefnogi niferoedd sylweddol o adar gwyllt a'u cynefinoedd, gallant ddod yn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae Ardaloedd Cadwraeth Arbennig wedi'u dynodi o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd a chaiff Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig eu dosbarthu o dan y Gyfarwydddeb Adar.

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
	Gallai rhai ardaloedd pwysig iawn ddod yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.
Safle Ymgeisiol	Safleoedd Ymgeisiol yw'r rhai a enwebir gan unrhyw un i'w hystyried gan yr awdurdod cynllunio lleol fel dyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol.
Seilwaith	Cyfleusterau cyflenwi dŵr a charthffosiaeth, ffyrdd a chludiant, cymuned leol, siopa a chyfleusterau eraill sydd eu hangen yn fframwaith ar gyfer datblygu.
Seilwaith Gwyrdd	Mae'r Seilwaith Gwyrdd yn rhwydwaith o ofod gwyrdd aml-swyddogaeth, sy'n newydd ac yn gyfredol, yn wledig a threfol, sy'n cefnogi'r prosesau naturiol ac ecolegol ac yn rhan annatod o iechyd ac ansawdd bywyd cymunedau cynaliadwy. Mae Seilwaith Gwyrdd hefyd yn cwmpasu systemau afonydd ac amgylcheddau arfordirol.
Strategaeth	Cynllun neu ddull hirdymor a gynlluniwyd i gyflawni nod neu amcan penodol.
Tai fforddiadwy	Tai fforddiadwy yw tai i'w gwerthu neu eu rhentu am brisiau islaw cyfradd y farchnad. Byddant yn cael eu cadw am byth fel tai fforddiadwy lle mae gan ddatblygwr preifat ran ynddynt trwy ddefnyddio cytundebau neu amodau Adran 106. Ni fydd yn ofynnol i Gymdeithasau Tai ymgymryd â rhwymedigaethau o'r fath ond efallai y byddant am ymrwymo i gytundebau gosodiadau gwirfoddol. Darperir tai fforddiadwy i bobl leol mewn tai anaddas nad ydynt yn gallu fforddio diwallu eu hangen am dai yn y farchnad agored.
Tir/Safle Cyflogaeth	Tir sy'n nodweddiadol yn rhan o ystad ddiwydiannol neu barc busnes, sy'n cael ei feddiannu gan un neu ragor o'r canlynol: swyddfeydd, gweithgynhyrchu, ymchwil a datblygu, storio a dosbarthu.
Treftadaeth Ddiwylliannol	Mae treftadaeth ddiwylliannol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnwys yr holl dystiolaeth o weithgaredd dynol yn y gorffennol, yn ogystal ag ymatebion pobl, a chysylltiadau â'r gweithgareddau hynny. Mae'n cynnwys gwerthfawrogiad esthetig yn ogystal â'r dystiolaeth ffisegol o weithgareddau pobl, ac mae'n cael ei ymgorffori mewn iaith, celf, a'r ystyr a dehongliad yr ydym yn ei roi i'n tirwedd ac amgylchedd hanesyddol. Mae o'n cwmpas ni, gan ddarparu cyddestun i'n bywydau bob dydd ac yn dylanwadu ar hunaniaeth ranbarthol a lleol.
Tystiolaeth	Sylfaen Ddehongli cyflwr presennol (hynny yw gwaelodlin) neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi cynllunio ac ar gyfer mesur newid.
Ymgynghoriad	Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu set o bynciau, neu ddogfen ddrafft.
Yr Angen am Dai	Wedi'i asesu trwy archwilio addasrwydd tai presennol

Term a Ddefnyddir	Eglurhad
Fforddiadwy	a gallu aelwydydd i fforddio tai ar y farchnad agored.

Atodiad 1 Tir gyda Chaniatâd Cynllunio neu Orchymyn Datblygu Tir

Isod ceir rhestr o geisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd cynllunio rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ebrill 2017 a hysbysebwyd fel 'datblygiad mawr' yn unol â Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012. Mae'r caniatadau cynllunio hyn i'w gweld ar y Map Cynigion.

Ystyr "datblygiad mawr" yw datblygiad sy'n cynnwys unrhyw un neu ragor o'r canlynol:

- (a) ennill a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir ar gyfer gweddillion gweithio mwynau;
- (b) datblygu gwastraff;
- (c) darparu tai annedd:
 - (i) lle mae nifer y tai annedd sydd i'w darparu yn 10 neu fwy; neu
 - (ii) lle mae'r datblygiad i'w wneud ar safle sydd ag arwynebedd o 0.5 hectar neu fwy ac ni wyddys a yw'r datblygiad yn dod o fewn is-baragraff (c) (i);
- (d) darparu adeilad neu adeiladau lle mae'r arwynebedd sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1,000 metr sgwâr neu fwy; neu
- (e) datblygiad i'w gyflawni ar safle sydd ag arwynebedd o 1 hectar neu fwy.

Dangosir hefyd y Prosiectau Seilwaith sy'n Bwysig yn Genedlaethol gyda Gorchymyn Caniatâd Datblygu a oedd yn bodoli ym mis Ebrill 2017.

Cyf:	Disgrifiad	Dyddiad Caniatâd
NP/13/0441	Dymchwel y motel presennol ac ailosod gyda gwesty 40 gwely gyda bwyty cyfagos a pharcio a thirweddu cysylltiedig – Roch Gate Motel, y Garn	30/01/2015
NP/14/0574	Adeiladu sylfaen goncridd newydd wedi'i hatgyfnerthu i gynnal tŵr 15m, codi tŵr dur trionglog 15m o uchder, gosodiadau mynediad ar lefel y ddaear ac adeiladu plinllyn goncridd newydd (tua 3m x 4m) – Safle Radio Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau, Monkstone Point, Saundersfoot	30/01/2015
NP/15/0085	Newid defnydd y gaer a'r ynys i ddefnyddiau atyniadau i ymwelwyr gan gynnwys C1, D1 a D2 gyda defnyddiau cofroddion, bwyd a diod a manwerthu A1 ac A3. Newid defnydd tŷ generadur yn ddefnydd tocynnau a manwerthu A1 ac A3. Adfer/ailosod rheiliau, gosod 2 graen, 2 lanfa gychod, adeiladu defnydd preswyl C3, adeiladu cyfleusterau toiled a phwmpio, gosod llwybr natur ar y clogwyn, arwyddion, goleuadau llwybr, goleuo gweithrediadau, codi pont ar y fynedfa, gosod gwasanaethau, trwsio grisiau a gosod rhai newydd, gosod CCTV – Ynys y Santes Catherine, Dinbych-y-pysgod	06/07/2015
NP/15/0086	Tai mas ar gyfer gwartheg ac iard agored – Felindre, St Nicholas	14/07/15

Cyf:	Disgrifiad	Dyddiad Caniatâd
NP/15/0145	10 tŷ annedd – Safle'r Hen Ysbyty, Trafalgar Road, Dinbych-y-pysgod	28/09/15
NP/15/0194	Datblygiad preswyl 35 annedd (gan gynnwys 14 o unedau fforddiadwy) yn cynnwys mannau agored a mannau mynediad newydd o Feidr Eglwys a Feidr Bentinck – tir gerllaw Feidr Eglwys, Trefdraeth	20/06/16
NP/15/0693	Datblygiad Un Blaned gan gynnwys un annedd i deulu – Tir yng Ngharn Ingli, Trefdraeth	25/07/16
NP/16/0170	Adeiladu Canolfan Morol newydd, gan gynnwys gweithdai morol, manwerthu gweithrediadau morol/awyr agored, caffi a bwyty, swyddfeydd ar gyfer gweinyddiaeth yr harbwr a Thwristiaeth Cymru, Academi RYA, Ystafelloedd Addysgu, Canolfan Addysg Stormydd Arfordirol, ystafelloedd gwely a llety i bobl anabl – Swyddfa'r Harbwr, Yr Harbwr, Saundersfoot	01/07/16
NP/16/0219	Datblygiad tai newydd o 13 uned – Tir ger yr Ysgol Gynradd, Trewarren Road, Llanismel	20/09/16
NP/16/0266	Ailddatblygu ac adleoli 117 o leiniau presennol a chreu 58 o leiniau ychwanegol ar gyfer carafannau sefydlog i ymwelwyr; gostyngiad yn nifer y lleiniau teithiol a phebyll; cael gwared ag 11 carafán staff a'u cysylltiadau cyfleustodau; creu 2 lain ar gyfer carafannau sefydlog ar gyfer staff, dymchwel y siop (ac adleoli i'r Clwstwr Adloniant) a chael gwared ar y golchdy; adleoli bloc cynnal a chadw ac iard gwasanaeth; cael gwared â chyfanswm o 94 o leoedd parcio a chreu cyfanswm o 138 o leoedd parcio; uwchraddio'r fynedfa i gerddwyr i'r maes parcio a theithio ar gyfer cyrraedd canol y dref; gwaith ac estyniadau i'r presennol; cael gwared â'r cyfleuster <i>crazy golf</i> ; adleoli ardal chwarae a gwaith tirlunio, draenio, mynediad a seilwaith cysylltiedig – Canolfan Gwyliau Kiln Park, Dinbych-y-pysgod	10/05/17
Offeryn Statudol 2014 Rhif 2846	Gorchymyn Offeriant Gwres a Phŵer Cyfun De Hook 2014. Rhaid i'r datblygiad awdurdodedig ddechrau o fewn 5 mlynedd i ddyddiad y Gorchymyn hwn.	23 Hydref 2014

♣ ATODIAD 2 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL ♣


♣	Teitl	Amserlen Ddangosol CDLI 2
<u>1</u>	<u>Hygyrchedd</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI 2 tua diwedd mis Rhagfyr 2019 (7a cynigir ei ddileu)</u>
<u>2</u>	<u>Tai Fforddiadwy</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>3</u>	<u>Archeoleg</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>4</u>	<u>Bioamrywiaeth</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>5</u>	<u>Carafannau, Gwersyllfa a Chabanau</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>6</u>	<u>Ansefydlogrwydd Tir – Hen Weithfeydd Glo</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>7</u>	<u>Ardaloedd Cadwraeth</u>	<u>Hydref 2020</u>
<u>8</u>	<u>Asesiadau o Gymeriad y Tirlun</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>9</u>	<u>Goleuo</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>10</u>	<u>Colli Cyfleusterau Cymunedol</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>11</u>	<u>Colli Gwestai</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>12</u>	<u>Datblygiad Bach eu Heffaith yn gwned Cyfraniad Cadarnhaol (Datblygiad Un Blaned)</u>	<u>Polisi 52 cynigir ei ddileu</u>
<u>13</u>	<u>Parcio</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>14</u>	<u>Rhwymedigaethau Cynllunio</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>15</u>	<u>Adloniant</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>16</u>	<u>Safleoedd Geoamrywiaeth Pwsig Rhanbarthol</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>17</u>	<u>Ynni Adnewyddadwy</u>	<u>Mabwysiadu gyda CDLI tua diwedd mis Rhagfyr 2019</u>
<u>18</u>	<u>Ardaloedd Diogelu Mwynau</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>19</u>	<u>Asesiad o Gymeriad y Morlun</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>20</u>	<u>Dylunio Blaen Siop</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>21</u>	<u>Lleoli a Dylunio Adeiladau Fferm a Morlynnoedd Slyri</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>22</u>	<u>Dylunio Cynaliadwy</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>23</u>	<u>Effaith Gronnus Tyrbinau Gwynt</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020</u>
<u>24</u>	<u>Cynlluniau Lle</u>	<u>Mabwysiadu CCA canol 2020♣</u>

♣Atodiad 3 Argaeledd Tir♣

	Blwyddyn y Cynllun	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12	13	14	15	16
A	Blwyddyn	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25	2025/26	2026/27	2027/28	2028/29	2029/30	2030/31
B	Blynyddoedd sy'n weddill ar ddiwedd y Flwyddyn	15	14	13	12	11	10	9	8	7	6	5	4	3	2	1	0
C	Gofyniad Tai y CDLI	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960	960
D	Dyraniadau Cwblhau Gwirioneddol yn ystod y Flwyddyn																
E(1)	Cwblhau Gwirioneddol Safleoedd Mawr Eraill yn ystod y Flwyddyn	22	57	28	46												
E(2)	Cwblhau Gwirioneddol Safleoedd Bach yn ystod y Flwyddyn	24	12	11	21												
F	Tir â Chaniatâd Cynllunio (5+ safle)					49	49	8	8	8	8	8	0	0	0	0	0
G	Cwblhau Dyraniad a Ragwelir yn ystod y Flwyddyn					29	30	33	33	33	33	31	29	29	29	29	28
H(1)	Cwblhau Safleoedd Mawr ar Hap a Ragwelir yn ystod y Flwyddyn					12	12	12	12	12	12	12	12	12	12	12	14
H(2)	Cwblhau Safleoedd Bach ar Hap a Ragwelir yn ystod y Flwyddyn					21	21	21	21	21	21	21	21	21	21	21	19
I	Cyfanswm y Cwblhau Blynyddol ar Ddiwedd y Flwyddyn D+E+F+G+H (minws lwfans hyblygrwydd o 16%)	46	69	39	57	93	94	62	62	62	62	61	53	53	53	53	52
J	Cyfanswm y Cwblhau Cronnus ar Ddiwedd y Flwyddyn	46	115	154	211	304	398	460	522	585	647	708	761	814	868	921	973

K	Gofyniad Tai Gweddilliol ar Ddiwedd Blwyddyn C - J	914	845	806	749	656	562	500	438	375	313	252	199	146	92	39	-13
L	Gofyniad Blyneddol Diwygiedig ar gyfer y Blyneddodd sy'n weddill K / B	61	60	62	62	60	56	56	55	54	52	50	50	41	42	44	45
M	Gofyniad Tir yn y Cyfnod Dilynol o 5 Mlynedd L * 5	305	302	310	312	298	281	278	274	268	261	252	249	206	212	219	227
N	Tir ar Gael yn y Cyfnod Dilynol o 5 Mlynedd (Dyraniadau)				158	162	163	159	155	151	147	144	115	86	48	24	0
O	Hap-safleoedd 5+ ar Gael yn y Cyfnod Dilynol o 5 Mlynedd				60	60	60	60	60	60	60	62	50	38	22	12	15
P	Safleoedd Bach ar Gael yn y Cyfnod Dilynol o 5 Mlynedd				105	105	105	105	105	105	105	103	82	61	34	16	21
Q	Tir â Chaniatâd Cynllunio (5+ safle)				122	81	41	33									
R	Cyfanswm tir ar gael am y Cyfnod Dilynol o 5 Mlynedd N+O+P(minws 16% lwfans hyblygrwydd)				374	343	310	300	269	265	262	260	207	206	189	195	232
S	Cyflenwad Tir (Blyneddodd) Q / L				6.0	5.8	5.5	5.4	4.9	5.0	5.0	5.1	4.2	5.0	4.4	4.4	5.1
	Cyflenwad	2018 i 21	2021 i 26	2026 i 31	Cyfanswm												
	Rhagolwg (caniatâd cynllunio) - mae dyraniadau â chaniatâd wedi'u cynnwys.	97	41	0	138												
	Rhagolwg (dyraniadau)	59	163	144	366												
	Rhagolwg (ar hap 5+) - gweler Tabl 5 rhes E y CDLI	24	61	61	146												

	Rhagolwg (safleoedd bach) - gweler Tabl 5 rhes F CDLI	42	104	104	250												
	Cyfanswm Cyffredinol	222	369	309	900												



♣ATODIAD 4 GOFYNION AR GYFER DYRANIADAU TAI A SAFLEOEDD MAWR AR HAP♣

♣Mae'r gofynion a nodir isod yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ynghylch cyfyngiadau, gofynion dylunio ac isadeiledd a rhwymedigaethau cynllunio adeg paratoi'r Cynllun.

Ar gyfer y safleoedd hynny a amlygir â '♦', mae asesiad cychwynnol drwy ddefnyddio data a gafwyd o Fap Rhagfynegol Drafft Llywodraeth Cymru (DEFRA) ar Ddosbarthu Tir Amaethyddol yng Nghymru (2017) yn dangos bod y pridd o fewn y safle yn dir amaethyddol gradd uchel (Graddau 1,2 neu 3a). Bydd angen gwneud dadansoddiad pellach i wirio cywirdeb y data, ac efallai y bydd angen defnyddio amodau ar unrhyw ganiatâd cynllunio a roddir i sicrhau y gall yr adnodd pridd barhau i ddarparu'r buddion a glustnodwyd.

Tabl 1- Dyranïadau Tai a safleoedd mawr (5 uned neu fwy o fewn tir 5 mlynedd) – Gofynion Safle

Cyf	Enw a lleoliad y Safle	Hanes Cynllunio Perthnasol Diweddar	Cyfyngiadau	Gofynion Dylunio a Seilwaith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhagamcan Cwblhau'r Safle
TREFDRAETH						
HC1	Tir ar Feidr Eglwys, Trefdraeth (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 141)	NP/15/0194	Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)	Gweler manylion y caniatâd cynllunio	Cyfraniadau Tai fforddiadwy yn ofynnol ar gyfer trafndiaeth, addysg a man agored.	Erbyn diwedd 2024
HC2	Crochenwaith a Depo Trefdraeth Cyfeirnodau'r safle ymgeisiol: 065A/067A)	NP/17/0301	Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)	Gweler manylion y caniatâd cynllunio	Cyfraniadau Tai fforddiadwy yn ofynnol ar gyfer addysg.	Erbyn diwedd 2024
HA1	Tir i'r gogledd o'r Parc Busnes (Cyfeirnodau'r safle ymgeisiol: 068/088A/089A/09 0A)	Dim	Efallai y bydd angen dargyfeirio cêbl trydan foltedd isel. Mae sawl ased treftadaeth wedi'u cofnodi yn agos at y safle, sydd hefyd ar gyrion y dref ganoloesol. Mae potensial i ddyddodion / nodweddion archaeolegol ymestyn i'r safle. Bydd angen asesiad pellach fel rhan o	Bydd angen carthffosydd oddi ar y safle. Bydd angen ystyried cynllun a chyfuno yn ofalus er mwyn integreiddio unrhyw ddatblygiad â'r parc busnes cyfagos. Bydd angen cadw a chryfhau cloddiau ynghyd â darparu rhai newydd i ddiffinio'r safle. Hefyd bydd angen cynnal a chadw man gwyrdd i rannu'r datblygiad. Mae gan yr ardal goeddiog gyfagos botensial i ddarparu cynefin ategol i ystlumod, neu fel rhan o lwybr cymudo strategol neu linell hedfan. Bydd angen gwaith arolwg pellach yn hyn o beth. Rhaid i gynigion datblygu ar gyfer y safle hwn ddangos cydymffurfiaid â Pholisi 10 y Cynllun (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd). Mae sawl ased treftadaeth wedi'u cofnodi yn agos at y safle, sydd hefyd ar gyrion y dref ganoloesol. Mae potensial i ddyddodion/ nodweddion archaeolegol ymestyn i'r safle. Bydd angen asesiad pellach fel rhan o	Tai fforddiadwy. Cyfraniadau sy'n ofynnol: darparu man agored oddi ar y safle. Rhwymedigaethau seilwaith trafndiaeth - gellir eu defnyddio i ddarparu cyfleoedd cerdded/beicio hyfwr i'r safle.	10 uned erbyn diwedd 2031 5 uned ar ôl 2031

Cyf	Enw a lleoliad y Safle	Hanes Cynllunio Perthnasol Diweddar	Cyfngiadau	Gofynion Dylunio a Seilwaith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhagamcan Cwblhau'r Safle
			<u>unrhyw gais cynllunio i ddatblygu'r safle.</u>	<u>unrhyw gais cynllunio i ddatblygu'r safle.</u>		
SAUNDERSFOOT						
HA2 ◆	<u>Tir yn Sandy Hill</u> (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 015)	<u>Dim.</u>	<u>Bydd angen ystyried y brif bibell ddŵr sy'n croesi'r safle (hawddfraint neu ddargyfeirio)</u>	<u>Bydd angen lledu'r ffordd ar hyd ffin orllewinol y safle a chreu troedffordd i gerddwyr sy'n cysylltu â'r llwybr presennol ar hyd Ffordd Sandy Hill. Efallai y bydd angen tir trydydd parti ar gyfer hyn. Mae angen tirwedd ychwanegol ar hyd ffin ddeheuol y safle i gryfhau ymyl yr ardal adeiledig. Bydd angen darparu mynediad i gerddwyr i'r safle o'r gogledd.</u>	<u>Tai fforddiadwy. Gofynion Cludiant Cynaliadwy. Man agored anffurfiol ar y safle yn ofynnol. Cyfraniadau yn ofynnol ar gyfer darparu Ardal Chwarae Leol â Chyfarpar ac Ardal Chwarae â Chyfarpar i'r Gymdogaeth oddi ar y safle.</u>	<u>34 erbyn diwedd 2026</u> + <u>34 erbyn diwedd 2031</u>
HA3 ◆	<u>I'r gogledd o Whitlow</u> (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 031A)	<u>Dim</u>		<u>Gellir creu byffer rhwng y coetir a'r tai drwy gynllun priodol i'r safle a chreu llwybr troed o amgylch perimedr y safle ehangach. Gallai hyn gysylltu'r hawl tramwy gyhoeddus bresennol ar hyd ochr orllewinol y safle â'r droedffordd ar hyd ochr ddwyreiniol y safle, sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Prifffyrdd.</u> <u>Gallai cynllun ar gyfer y safle hwn gynnwys mynediad wedi'i gadw i dir i'r gorllewin o'r safle a ddyrannwyd y tu allan i ffin y Ganolfan. Nid yw hyn yn ofyniad yr awdurdod cynllunio. Byddai angen ystyried addasrwydd y tir hwn ar gyfer datblygu ar yr adeg briodol.</u>	<u>Tai fforddiadwy. Darparu cludiant cynaliadwy. Darparu man agored anffurfiol ar y safle.</u>	<u>27 erbyn diwedd 2026</u> + <u>27 erbyn diwedd 2031</u>
HA4 ◆	<u>Penny Farm</u> (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 037)	<u>Dim</u>	<u>Cyfngiadau mynediad - wedi'u cyfyngu i 12 uned o Clos y Gogledd. Byddai'n ofynnol cael tir 3^{ydd} parti ar gyfer y fynedfa ac mae cytundeb mewn egwyddor wedi cael ei gytuno gyda'r tir-berchennog. Mynediad o Heol Fan wedi'i gyfyngu i 36 uned.</u>	<u>Carthffosydd oddi ar y safle yn ofynnol. Prif gyflenwad dŵr oddi ar y safle yn ofynnol. Bydd angen gwella mynediad i Heol Fan. Adolygu tir ffiniau prifffyrdd i sicrhau y gellir darparu lleiniau gweledded hyfwr, dirwysr. Ystyried ymestyn y parth 30mya i sicrhau lleiniau gweledded a gwella amodau'r briffordd. Asesiad o effaith traffig yn ofynnol i sicrhau nad yw'r capasiti ar gyffyrdd newydd a phresennol yn cael ei gyfaddawdu.</u>	<u>Tai fforddiadwy. Cyfraniad ariannol tuag at ddarparu troedffordd/ llwybr troed i Orsaf Reilffordd Saundersfoot. Man agored anffurfiol i'w ddarparu ar y safle. Cyfraniadau ariannol yn ofynnol ar gyfer LEAP a NEAP.</u>	<u>18 erbyn diwedd 2026</u> + <u>18 erbyn diwedd 2031</u>
TYDDEWI						
HC3 ◆	<u>I'r gorllewin o Heol Glasfryn</u> (Cyfeirnodau'r safle ymgeisiol: 021A/099A)	<u>NP/18/0051</u>	<u>Dim yn hysbys.</u>	<u>Gweler manylion y caniatâd cynllunio</u>	<u>Tai fforddiadwy. Cyfraniadau yn ofynnol ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy, addysg a man agored.</u>	<u>Erbyn diwedd 2024</u>
ABERLLYDAN						
HC4	<u>Tir oddi ar Heol Walton, Aberllydan (i'r de o Driftwood Close)</u> (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 006)	<u>NP/17/0315</u>	<u>Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)</u>	<u>Gweler manylion y caniatâd cynllunio</u>	<u>Tai fforddiadwy. Cyfraniadau ar gyfer man agored.</u>	<u>Erbyn diwedd 2020</u>

Cyf	Enw a lleoliad y Safle	Hanes Cynllunio Perthnasol Diweddar	Cyfngiadau	Gofynion Dylunio a Seilwaith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhagamcan Cwblhau'r Safle
HA5 ◆	Gogledd, dwyrain a de o Marine Road Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 039/041)	Dim	Mae'n ofynnol uwchraddio'r gwaith trin carthion yn Aberllydan i ddarparu ar gyfer y datblygiad hwn. Mae cêbl uwchben 11kV yn croesi'r safle. Bydd angen ystyried hyn drwy gynllun y safle, gan gynnwys parthau cynnal a chadw.	Mae'n ofynnol gwneud astudiaeth ddichonoldeb i benderfynu a oes digon o gapasiti yn y system carthffosydd cyhoeddus. Os yw'n anodd sicrhau cysylltiad â'r system gyhoeddus gellir lleoli gwaith trin pecyn domestig bach wrth ochr ffin orllewinol y safle. Mae rhan o'r safle mewn ardal risg uchel cloddio glo ac felly bydd Adroddiad Asesu Risg Mwngloddio Glo yn cael ei baratoi. Argymhellir archwilio llwybr ffosydd a phrofi tyllau turio. Mae mynediad i'r safle drwy dir ym mherchnogaeth 3 ^{ydd} parti. Bydd angen cylchfan a ffordd newydd i gael mynediad i'r safle. Bydd angen adleoli'r rhandiroedd dros dro. Mae angen cysylltiadau cerddwyr â'r tir agored i'r gogledd o'r de, ar hyd ffin orllewinol y safle a thu hwnt.	Tai fforddiadwy. Darparu cyfleoedd cerdded/beicio hyfwr i wella cynaliadwyedd y safle.	35 erbyn diwedd 2026 ± 30 erbyn diwedd 2031
HERBRANDSTON						
HC5	Safle hen Westy Sir Benfro	NP/07/344	Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)	Gweler manylion y caniatâd cynllunio	Dim un yn weddill.	Erbyn diwedd 2019
JAMESTON						
HA 6 ◆	Gyferbyn â Bush Terrace (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 022)	Dim	Dim yn hysbys.	Byddai plannu i'r de o'r safle yn gymorth i gymhathu datblygiad ar y gorwel a lleihau effaith yr adeiladau ferm ymwithol gerllaw i'r gorllewin. Mae hyn yn gofyn am lain sylweddol o blannu â nodweddion cloddiau ffiniol newydd fyddai'n gymorth i warchod a gwella cymeriad y dirwedd. Bydd tirweddau a phlannu, dyluniad pensaernïol sensitif a dwysedd a phatrwm datblygu sy'n amlygu'r adeiladau presennol yn Jameston yn ystyriaethau pwysig i liniaru'r effaith ar yr amgylchedd hanesyddol.	Tai Fforddiadwy. Cyfraniadau ar gyfer addysg uwchradd. Cyfraniadau priffyrdd tuag at dawelu traffig. Man agored ar y safle.	Erbyn diwedd 2024
HC6	Green Grove	NP/15/0287	Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Tai Fforddiadwy.	Erbyn diwedd 2024
LYDSTEP						
HA 7 ◆	I'r gorllewin o'r Green (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 086A)	Dim	Dim yn hysbys.	Gall mynediad i'r safle o'r A4139 orfod cael tir 3 ^{ydd} parti i gyflawni'r lleiniau gweledd. Byddai ymestyn y parth 30mya yn ofynnol. Byddai cyswllt i gerddwyr drwy'r Green yn cael ei gefnogi. Byddai cyswllt troedffordd tua'r dwyrain o fynedfa'r safle tuag at Lydstep yn ofynnol. Gallai cynllun ar gyfer y safle hwn gynnwys mynediad wedi'i gadw i dir i'r gorllewin o'r safle a ddyrannwyd y tu allan i ffin y Ganolfan. Nid yw hyn yn ofyniad yr awdurdod cynllunio. Byddai angen ystyried addasrwydd y tir hwn ar gyfer datblygu ar yr adeg briodol.	Tai fforddiadwy. Cyfraniadau ar gyfer seilwaith trafnidiaeth gan gynnwys darparu cyfleoedd cerdded a beicio hyfwr. Cyfraniadau ar gyfer darparu mannau agored anffurfiol oddi ar y safle, Ardal Chwarae Leol â chyfarpar, Ardal Chwarae â Chyfarpar i'r Gymdogaeth ac Ardal Gêmau Aml-Ddefnydd.	Erbyn diwedd 2031.
GORSAF MAENORBYR						
HC7	Cae gyferbyn ag Ysgol Wirfoddol Maenorbyr (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 029)	NP/17/0283	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Dim. Mae'r cynnig datblygu ar gyfer pob tŷ fforddiadwy.	Erbyn diwedd 2024

Cyf	Enw a lleoliad y Safle	Hanes Cynllunio Perthnasol Diweddar	Cyfngiadau	Gofynion Dylunio a Seilwaith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhagamcan Cwblhau'r Safle
NEW HEDGES						
HC8	Oddi ar Heol Trevayne (y tu ôl i Cross Park)	NP/17/0048	Dim yn hysbys. Safle'n cael ei adeiladu (Mawrth 2019)	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Dim un yn weddill	Erbyn diwedd 2019
SQUARE AND COMPASS						
HA 8 ◆	Cae Glasfryn (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 014A)	Dim	Carthffos fudr yn croesi'r safle. Nid yw'r llinell wedi'i chlustnodi a byddai angen ymchwilio ymhellach.	Byddai angen asesiad dichonoldeb i benderfynu a ellid cael mynedfa addas i gerbydau.	Tai fforddiadwy. Cludiant cynaliadwy.	4 erbyn diwedd 2031.
HA 9 ◆	Tir ger Bryngolau (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 106)	Dim	Mae hawl tramwy cyhoeddus yn rhedeg ar hyd y ffin orllewinol. Bydd angen i unrhyw ddatblygiad osgoi achosi effeithiau niweidiol annerbyniol ar amwynder yr hawl tramwy gyhoeddus bresennol hon. Mae cysylltiad draen budr yn croesi'r safle. Mae cêbl tanddaearol 11kV yn rhedeg ger y safle ac efallai y bydd angen ei ddargyfeirio. Mae Clymog Japan yn bresennol ar y safle.	Bydd angen clawdd newydd i gydgrynhoi'r ffin gefn ac ynysu'r datblygiad i'r gogledd. Byddai angen asesiad dichonoldeb i benderfynu a ellid cael mynediad addas i gerbydau. Darparu cyfleoedd cerdded/beicio hyfyw i wella cynaliadwydd y safle.	Tai fforddiadwy. Cyfraniad ar gyfer darparu man agored anffurfiol oddi ar y safle, Ardal Chwarae Leol â chyfarpar, Ardal Chwarae â Chyfarpar i'r Gymdogaeth ac Ardal Gêmau Aml-Ddefnydd. Cludiant cynaliadwy.	4 erbyn diwedd 2031.
SANT ISHMAEL						
HC 9	Gerllaw'r ysgol (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 055A)	NP/16/0219	Dim yn hysbys.	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Tai fforddiadwy. Addysg. Man Agored.	Erbyn diwedd By end 2024
TREFIN						
HA 10 ◆	Tir oddi ar Cefn Gallod (Cyfeirnod y safle ymgeisiol: 050)	Dim		Wrth edrych ar y safle o'r de, bydd angen lleihau'r effaith weledol drwy sicrhau y cedwir pob clawdd ffiniol presennol a bod plannu ychwanegol yn cael ei wneud. Dylid darparu mynediad drwy Cefn Gallod i ganoli'r datblygiad ar ffurf linellol ar hyd y ffin ddeheuol. Dylid darparu man gwyrdd i'r gogledd. Dylai uchder y toeon fod yr un peth â'r datblygiad preswyl cyfagos. Mae carthffosydd oddi ar y safle yn ofynnol.	Darparu tai fforddiadwy hyfyw. Cyfleoedd cerdded/ beicio i wella cynaliadwydd y safle. Cyfraniadau ar gyfer darparu man agored anffurfiol, LEAP, NEAP a MUGA oddi ar y safle.	7 erbyn diwedd 2031.

Cyf	Enw a lleoliad y Safle	Hanes Cynllunio Perthnasol Diweddar	Cyfngiadau	Gofynion Dylunio a Seilwaith	Rhwymedigaethau Cynllunio	Rhagamcan Cwblhau'r Safle
CEFN GWLAD						
HC10	Tir yn Whitchurch	NP/05/509	Dim yn hysbys.	Gweler manylion y caniatâd cynllunio.	Dim.	Erbyn diwedd 2024

Tabl 2 Safleoedd Tai Mawr Posibl ar Hap (5 annedd neu fwy) - Gofynion

Lleoliad Enw'r Safle	Gofynion
<u>Dinas</u>	
<u>Tir i'r Cefn/i'r Gorllewin o Spring Hill</u>	Mae'n ansicr a ellir cyflawni'r safle hwn (Astudiaeth Gweithredu Tir Rhagfyr 2017). Byddai angen mynediad o'r A487 i'r gogledd drwy ddymchwel datblygiad presennol o ran ystyriaethau diogelwch ffyrdd a'r effaith weledol ar y dirwedd. Byddai angen i ddatblygiad efelychu cynllun llinellol Spring Hill i'r dwyrain er mwyn cadw'n unol â'r cyd-destun adeiledig presennol. Cyfeirnodau'r Safle Ymgeisiol: 054/013A/074A/095A/135A
<u>Lawrenni</u>	
<u>Gerllaw Home Farm</u>	Mae'n ansicr a ellir cyflawni'r safle hwn (Astudiaeth Gweithredu Tir Rhagfyr 2017). Byddai datblygu'r safle hwn yn gofyn am gadw ymyl tirwedd meddal i'r gogledd. Byddai gofyn adleoli'r adeiladau fferm presennol yn briodol cyn i'r datblygiad fynd rhagddo. Mae gofyn uwchraddio'r garthffos breifat bresennol i ddarparu ar gyfer unrhyw ddatblygiad ar y safle hwn. Hefyd mae gofyn ystyried ymhellach sut i gael gwared ar ddŵr gwastraff oherwydd y tebygolrwydd o ollwng yn uniongyrchol i Ardal Cadwraeth Arbennig Forol Sir Benfro (ACA). Rhaid i gynigion datblygu ar gyfer y safle hwn ddangos cydymffurfiaid â Pholisi 10 y Cynllun (Safleoedd a Rhywogaethau o Bwysigrwydd Ewropeaidd). Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: Safle 045♦
<u>Bank House Solfach</u>	Mae materion cyflawni yn codi mewn perthynas â chyfamodau cyfreithiol ar y safle. Pe bai cynnig yn cael ei gyflwyno bydd angen i'r cynnig ystyried mai'r ardd hon yw gardd furiog Bank House, sy'n Adeilad Rhestredig. Mae'r wal yn nodwedd cwrtil ac felly wedi'i chynnwys yn y rhestriad - mae'r wal ar ochr y ffordd yn arbennig yn nodwedd amlwg. Bydd angen i ddatblygiad barchu lleoliad yr Adeilad Rhestredig. Cyfeirnod y Safle Ymgeisiol: 102 ♣